

Rheoleiddio gwasanaethau talu dros y ffôn yn y dyfodol

Datganiad ar Orchymyn Ofcom o dan adran
122 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a
newidiadau i'r Amod Gwasanaethau Cyfradd
Premiwm

Datganiad

Cyhoeddwyd 25 Hydref 2024

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	4
2. Cyflwyniad a chefnidir	6
3. Diffiniadau allweddol.....	17
4. Cofrestru.....	35
5. Diwydrwydd dyladwy, rheoli risg a phrofion diogelwch perthnasol	53
6. Diwydrwydd dyladwy, rheoli risg a phrofion diogelwch perthnasol	75
7. Ffioedd a thanysgrifiadau	88
8. Cyfyngiadau oedran a gwasanaethau plant.....	98
9. Gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio.....	107
10. Mesurau eraill i ddiogelu defnyddwyr	115
11. Gorfodi	135
12. Ffioedd Ofcom, cadw cofnodion a cheisiadau am wybodaeth	152
13. Casgliadau cyffredinol a'r camau nesaf	171

Atodiad

A1. Hysbysiad: Addasiadau i'r Amod PRS.....	190
A2. Hysbysiad: Tynnu cymeradwyaeth Ofcom i God 15 yn ôl	194
A3. Tabl o newidiadau drafftio i'r Gorchymyn PRS	197
A4. Atodiad ar gyfer Canllawiau Gorfodi – Gorchymyn PRS	209
A5. Atodiad ar gyfer Canllawiau Gorfodi – Amod PRS (hefyd ar gyfer amodau cyfarpar SMP)	212

1. Trosolwg

- 1.1 Gall pobl gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau rhyngweithiol drwy eu ffonau llinell dir a symudol, cyfrifiaduron a setiau teledu digidol. Pan godir am y gwasanaethau hyn drwy fil ffôn y cwsmer, fe'u gelwir yn wasanaethau talu dros y ffôn. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhoddion i elusennau drwy negeseuon testun, ffrydio cerddoriaeth, cystadlaethau teledu a radio, ymholiadau rhifau ffôn, pleidleisio ar sioeau talent teledu a phrynu mewn apiau. Cyfeirir at y gwasanaethau hyn fel arfer hefyd fel gwasanaethau cyfradd premiwm ("PRS").
- 1.2 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio is-set o PRS a elwir yn PRS rheoledig ("CPRS"). O dan y trefniadau rheoleiddio presennol, mae Ofcom wedi dynodi'r Awdurdod Gwasanaethau Talu Dros y Ffôn ("PSA"), fel y corff i reoleiddio'r farchnad PRS o ddydd i ddydd. Yn y rôl honno, mae'r PSA yn rheoleiddio cynnwys, hyrwyddo a gweithrediad cyffredinol CPRS drwy osod cyfrifoldebau a gofynion ar ddarparwyr PRS.
- 1.3 Yn ein rôl, mae gan Ofcom bwerau statudol i fynd i'r afael ag unrhyw fethiannau gan ddarparwyr PRS i gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan y PSA.
- 1.4 Mae'r PSA wedi bod yn rheoleiddiwr effeithiol ar gyfer y farchnad PRS ers blynyddoedd lawer ac mae wedi darparu manteision sylweddol i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, gyda chwynion yn gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf yn dilyn nifer o ymyriadau cadarnhaol gan y PSA. Fodd bynnag, mae'r farchnad PRS wedi bod yn newid yn sylweddol gyda gwasanaethau etifeddol yn dirywio a thwf cyflym PRS sy'n cael ei ddarparu gan lwyfannau technoleg byd-eang a marchnad sy'n cydymffurfio'n well.
- 1.5 I adlewyrchu'r newid hwn, yn 2019, dechreuodd y PSA adolygiad strategol i sicrhau bod ei fodel rheoleiddio yn dal yn addas i'r diben yn y farchnad sy'n newid. Fel rhan o'r adolygiad hwn, roedd y PSA hefyd yn ystyried, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd hirdymor y fframwaith rheoleiddio PRS, y byddai'n fwy priodol i Ofcom ddod â'r swyddogaethau hyn yn fewnol. Ar 24 Mai 2022, cyhoeddodd Ofcom fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi rhoi cymeradwyaeth dros dro i Ofcom ysgwyddo cyfrifoldebau'r PSA.¹
- 1.6 Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gyhoeddi ein hymgyngoriad yn nodi sut roeddem yn cynnig trosglwyddo swyddogaethau rheoleiddio'r PSA i Ofcom, gan gynnwys newidiadau arfaethedig cysylltiedig i reoleiddio CPRS.² Yn ein hymgyngoriad, roeddem hefyd yn cynnig disodli Cod Ymarfer presennol y PSA ("Cod 15") â'n set ein hunain o reolau a nodi ein dull gweithredu ar gyfer sicrhau cydymffurfiaid â'r rheolau hyn.
- 1.7 Mae'r datganiad hwn yn nodi ein hasesiad a'n penderfyniad terfynol ynghylch sut rydym yn bwriadu trosglwyddo rheoleiddio PRS o'r PSA i Ofcom. Ar 1 Chwefror 2025, bydd Ofcom yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd fel rheoleiddiwr ac unig orfodwr rheoliadau PRS.

¹ <https://www.ofcom.org.uk/cy/phones-and-broadband/phone-numbers/ofcom-to-take-on-responsibility-for-regulating-phone-paid-services/?language=cy>

² <https://www.ofcom.org.uk/cy/phones-and-broadband/bills-and-charges/the-future-regulation-of-phone-paid-services/?language=cy>

Ein penderfyniadau – yn gryno

Mae'r datganiad hwn yn cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2023, ein bod wedi penderfynu:

- tynnu ein cymeradwyaeth i God 15 yn ôl a'i ddisodli â Gorchymyn Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm 2024 (Gorchymyn PRS);
- addasu'r Amod PRS i'w gwneud yn ofynnol cydymffurfio â'r Gorchymyn PRS; ac
- addasu ein Canllawiau Gorfodi i nodi ein dull gorfodi ar gyfer y Gorchymyn PRS a'r Amod PRS yn y drefn honno.

Er mwyn trosglwyddo dyletswyddau rheoleiddio PRS yn ddidrafferth o'r PSA i Ofcom ac ar ôl ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad ym mis Tachwedd 2023 yn ofalus, rydym wedi penderfynu cadw'r rhan fwyaf o'r prif egwyddorion a chanlyniadau yn y Gorchymyn PRS sy'n ymwneud â rheoleiddio PRS a oedd yng Nghod 15, gan gynnwys:

- safonau diogelu defnyddwyr ac, yn benodol, gofynion sy'n ymwneud â thryloywder, tegwch, gofal cwsmeriaid, defnyddwyr bregus ac atal niwed a thramgwydd;
- safonau sefydliadol ac, yn benodol, gofynion sy'n ymwneud â chofrestru, diwydrwydd dyladwy, ac asesiadau risg a systemau; a
- chyfrifoldebau a rhwymedigaethau eraill, gan gynnwys cyllid, gofynion gwybodaeth a chadw cofnodion.

Rydym yn egluro yn y datganiad hwn sut mae Ofcom yn bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw gamau gorfodi rydym yn eu cymryd o dan y drefn PRS newydd hon.

1.8 Bydd y Gorchymyn PRS yn dod i rym ar 1 Chwefror 2025.

2. Cyflwyniad a chefnidir

- 2.1 Mae'r adran hon yn rhoi cefndir PRS, yn egluro pwrpas rheoleiddio PRS ac yn disgrifio sut mae PRS yn cael ei reoleiddio yn y DU ar hyn o bryd, gan gynnwys o dan God 15. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o ddatblygiadau allweddol o ran defnyddwyr a'r farchnad yn y farchnad PRS, a thueddiadau tebygol o ran defnyddwyr a'r farchnad yn y dyfodol. Rydym yn cwblhau'r adran hon drwy ddisgrifio'r fframwaith cyfreithiol ac egluro strwythur gweddill y datganiad hwn.

Beth yw PRS

- 2.2 Mae'r cysyniad o PRS yn eang. Yn gyffredinol, gall defnyddwyr ddefnyddio PRS fel mecanwaith talu cyfleus ar gyfer prynu cynnwys a gwasanaethau o werth cymharol isel gan ddefnyddio eu bil llinell dir neu symudol i dalu am y gwasanaethau. Yn dechnegol, maent yn wasanaethau sy'n cael eu darparu drwy rwydwaith telathrebu. Mae'r defnyddiwr yn talu ei ddarparwr cyfathrebiadau am ddefnyddio ei wasanaeth telathrebu³ ac mae'r PRS yn cael ei ddarparu i'r defnyddiwr drwy'r gwasanaeth hwnnw⁴.
- 2.3 Gellir cael gafael ar y gwasanaethau hyn drwy alwad llais confensiynol neu SMS, ond yn gynyddol maent yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd eraill, fel cyfrifiaduron, ffonau clyfar neu deledu digidol rhyngweithiol. Mae mathau cyffredin o PRS yn cynnwys rhoddion elusennol drwy negeseuon testun, ffrydio cerddoriaeth, cystadlaethau darlledu, ymholiadau rhifau ffôn, llinellau sgwrsio, pleidleisio ar sioeau talent teledu a phrynu mewn apiau.
- 2.4 Mae pris PRS yn amrywio ond maent yn tueddu i gostio mwy na galwad ffôn neu neges destun arferol. Maent fel arfer yn gweithredu ar rifau sy'n dechrau gyda 084, 087, 090, 091, 098, 118 neu ar godau byr testun a llais symudol pum digid neu chwe digid sy'n dechrau gyda 6, 7 neu 8 fel arfer. Mae dwy ran i'r gost o ffonio rhifau PRS: tâl mynediad sy'n mynd i'ch cwmni ffôn a thâl gwasanaeth sy'n mynd i'r sefydliad rydych chi'n ei ffonio (ac sy'n cael ei bennu ganddo). Mae rhai costau gwasanaeth yn ddarostyngedig i gapiau prisiau, er enghraifft, gwasanaethau ymholiadau rhifau ffôn (h.y. rhifau 118).⁵ Hefyd, ers mis Medi 2023, mae Gwasanaethau Gwybodaeth, Cysylltu a Chyfeirio ("ICSS") yn cael eu capio ar uchafswm o £40 ar gyfer un alwad⁶ (gweler paragraffau 6.41 i 6.58 am ragor o fanylion am ICSS).

³At ddibenion rheoleiddio telathrebu, rydym yn aml yn cyfeirio at y darparwr cyfathrebiadau hwn fel y 'Darparwr Cyfathrebiadau Gwreiddiol' ("OCP"), gan fod y gwasanaeth telathrebu (fel galwad) yn deillio o rwydwaith yr OCP. I'r gwrthwyneb, mae'r darparwr cyfathrebu y mae'r alwad yn dod i ben ar ei rwydwaith er mwyn galluogi defnyddiwr sy'n defnyddio PRS, yn cael ei alw'n 'Ddarparwr Cyfathrebiadau Terfynol' ("TCP").

⁴O dan y Ddeddf, cyfeirir at rwydwaith telathrebu fel 'rhwydwaith cyfathrebu electronig' a chyfeirir at wasanaeth telathrebu fel 'gwasanaeth cyfathrebu electronig'. Diffinnir y cysyniadau hyn yn adran 32 y Ddeddf.

⁵Rhoddodd Ofcom gap o £3.65 (gan gynnwys TAW) am bob 90 eiliad ar brisiau'r symiau y gall darparwyr DQ eu codi ([Statement: Directory Enquiries \(118\) Review \(ofcom.org.uk\)](#)).

⁶[Statement-following-consultation-on-ICSS-Code-15-amendments.ashx \(psauthority.org.uk\)](#)

Cefndir rheoleiddio PRS

- 2.5 Mae rhai nodweddion PRS sy'n achosi'r potensial o niwed i ddefnyddwyr, gan gynnwys y risg o ddatgysylltu'r gwasanaeth telathrebu ei hun pan na fydd y sawl sy'n talu'r bil yn gallu fforddio setlo'r bil ffôn.⁷ Gall y nodweddion hynny gynnwys:
- a) **Diffyg gwybodaeth (tryloywder)** a ddarperir adeg prynu, er enghraifft, am bris. Gall hyn arwain at ddefnyddwyr naill ai'n peidio â defnyddio gwasanaethau oherwydd eu bod yn disgwyl i'r pris fod yn uwch nag y mae neu, fel arall, at niwed ariannol pan fydd defnyddwyr yn gwneud galwadau na fyddent wedi'u gwneud fel arall pe bai gwybodaeth gywir am brisiau wedi bod ar gael.
 - b) **Anhawster i gael iawn** oherwydd mae'n debyg y bydd y gwerth cymharol gyfyngedig fesul trafodiad yn effeithio ar y gallu a'r cymhelliant i geisio iawn, a'r gwahanu rhwng bila a chyflenwad sy'n ei gwneud yn anodd canfod pwy oedd y cyflenwr go iawn.
 - c) **Cynnwys tramgwyddus neu amhriodol** y gallai defnyddwyr fod yn agored iddo.
- 2.6 Un o'r prif resymau dros reoleiddio PRS yw bod gan rai gwasanaethau nodweddion na ellir eu lliniaru'n effeithiol gan gyfreithiau diogelu defnyddwyr cyffredinol sy'n bodoli'n barod. Felly, mae'r fframwaith rheoleiddio yn cydnabod bod nodweddion fel y rhai a nodir uchod yn golygu bod angen darpariaethau rheoleiddio penodol (ychwanegol) ar PRS i dargedu ac atal niwed i ddefnyddwyr, a bod y ddibyniaeth ar rymoedd y farchnad a deddfwriaeth defnyddwyr lorweddol yn annigonol.

Sut mae Ofcom a'r PSA yn cydweithio ar hyn o bryd

- 2.7 O dan y trefniadau rheoleiddio presennol, mae'r PSA yn rheoleiddiwr annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio PRS. Mae'r PSA yn rheoleiddio drwy God 15 sy'n cynnwys y rheolau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r sector a phwerau sefydliadol y PSA. Mae Cod 15 yn amodol ar gymeradwyaeth Ofcom o dan adran 121 y Ddeddf.
- 2.8 Yn y pen draw, mae rôl reoleiddio'r PSA yn deillio o Ofcom yn arfer ei bwerau statudol i roi'r rôl honno i'r PSA drwy ein cymeradwyaeth i'w god. Mae Ofcom yn cadw rôl oruchwyliol i sicrhau bod y sector yn cael ei reoleiddio'n effeithiol a, lle bo angen, yn gorfodi cydymffurfiaid â chyfarwyddiadau gorfodi'r PSA a roddir o dan y cod drwy orfodi'r Amod PRS o dan adrannau 123 a 124 y Ddeddf.

Cod Ymarfer y PSA ("Cod 15")

- 2.9 Mae Cod 15 yn nodi'r dull rheoleiddio ar gyfer y PSA ac mae iddo dri nod allweddol: cyflwyno safonau yn lle canlyniadau a thrwy hynny ei gwneud yn haws i'r diwydiant weithredu; canolbwyntio ar atal niwed yn hytrach na gwella niwed; a bod yn symlach ac yn haws cydymffurfio ag ef.

Safonau a gofynion

⁷Yn y cyd-destun PRS hwn, mae defnyddio gwasanaeth telathrebu yn gweithredu yn ei hanfod fel mecanwaith bilio neu fel math o gredyd mewn amgylchiadau lle mae'r person sy'n darparu'r PRS fel arfer yn wahanol i ddarparwr y gwasanaeth telathrebu i'r defnyddiwr.

- 2.10 Mae Cod 15 yn cynnwys nifer o safonau a gofynion sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, sy'n canolbwyntio ar y sefydliad ac sy'n benodol i'r gwasanaeth. Mae'r safonau rheoleiddio wedi'u crynhoi isod:
- a) **Didwylledd:** Rhaid i ddarparwyr weithredu'n ddidwyl a pheidio â dwyn anfri ar y farchnad PRS.
 - b) **Tryloywder:** Rhaid i ddefnyddwyr gael gwybodaeth glir, gyflawn ac amserol i'w galluogi i wneud penderfyniadau cwbl wybodus wrth brynu PRS.
 - c) **Tegwch:** Rhaid i ddefnyddwyr gael eu trin yn deg drwy gydol eu profiad o PRS, gan gynnwys drwy orfod talu am PRS dim ond pan fyddant wedi rhoi cydsyniad gwybodus a phenodol i daliadau o'r fath.
 - d) **Gofal cwsmeriaid:** Rhaid i ddefnyddwyr gael gofal cwsmeriaid rhagorol ac amserol, gan gynnwys datrys eu cwynion.
 - e) **Defnyddwyr agored i niwed:** Rhaid i wasanaethau gael eu hyrwyddo a'u darparu mewn ffordd sy'n sicrhau nad ydynt yn debygol o achosi niwed neu golled i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed, neu a allai fod yn agored i niwed, o ganlyniad i'w hamgylchiadau, eu nodweddion neu eu hanghenion penodol.
 - f) **Preifatrwydd defnyddwyr:** Rhaid parchu a gwarchod preifatrwydd defnyddwyr.
 - g) **Atal niwed a thramgwydd:** Rhaid darparu gwasanaethau a hyrwyddiadau mewn ffordd nad yw'n achosi niwed neu dramgwydd neu ofid afresymol i ddefnyddwyr nac i'r cyhoedd yn gyffredinol.
 - h) **Cofrestru sefydliadau a gwasanaethau:** Rhaid i sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â darparu PRS ddarparu gwybodaeth amserol, gywir a manwl amdanynt eu hunain a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig neu'n bwriadu eu cynnig i'r PSA.
 - i) **Diwydrwydd Dyladwy, Asesiadau Risg a Rheolaethau ("DDRAC"):** Rhaid i sefydliadau ac unigolion gynnal diwydrwydd dyladwy effeithiol ar unrhyw berson neu sefydliad y maent yn contractio ag ef mewn perthynas â PRS, a rhaid iddynt gynnal asesiad llawn a thrylwyr o'r risgiau posibl sy'n deillio o ddarparu, cynnwys, hyrwyddo a marchnata PRS yn barhaus.
 - j) **Systemau:** Rhaid i'r holl systemau, gan gynnwys llwyfannau dilysu taliadau a chydysyniad, a ddefnyddir i ddarparu ac ymadael â PRS fod yn gadarn ac yn ddiogel yn dechnegol.
- 2.11 Yn ogystal â'r safonau cyffredinol hyn, mae Cod 15 hefyd yn gosod gofynion penodol ar gyfer gwasanaethau penodol nad yw'n ystyried eu bod yn briodol, neu'n berthnasol, i'w cymhwysu'n fwy cyffredinol.⁸

Goruchwyllo a dilysu

- 2.12 Mae cod 15 yn rhoi mwy o ffocws ar oruchwyllo a dilysu. Mae hyn er mwyn helpu i gyflawni nod y PSA o symud at fodel rheoleiddio mwy rhagweithiol i atal niwed yn y lle cyntaf yn hytrach na delio â materion ar ôl i'r niwed ddigwydd.
- a) **Goruchwyllo:** Mae Cod 15 yn cynnwys nifer o bwerau i alluogi'r PSA i gyflawni gweithgareddau goruchwyllo sydd, ymysg pethau eraill, yn ei alluogi i asesu cydymffurfriad darparwr â'r cod, i ganfod a datrys problemau ac, yn y pen draw, i leihau'r risg o niwed gwirioneddol neu bosibl i ddefnyddwyr o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfio o'r fath neu faterion eraill.

⁸Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau fel gwasanaethau loteri cymdeithas, gwasanaethau cystadleuaeth neu bleidleisio a gwasanaethau gamblo o bell.

- b) **Dilysu:** Mae Cod 15 hefyd yn cynnwys nifer o ofynion sy'n ymwneud â DDRAC. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddilysu eu partneriaid dan gontract yn fwy trylwyr drwy osod gofynion DDRAC cliriach a mwy helaeth.

Ymgysylltu a gorfodi

- 2.13 Mae cod 15 yn darparu fframwaith ar gyfer ymgysylltu a gorfodi. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r PSA o ran sut y mae'n delio ag unrhyw bryderon ynghylch cydymffurfio, gan gynnwys y cyfle i ddelio â mwy o achosion drwy gamau anffurfiol yn hytrach na chamau gorfodi ffurfiol.

Cyd-destun defnyddwyr a'r farchnad

Y dirwedd reoleiddio newidiol ar gyfer PRS

- 2.14 Mae'r PSA wedi bod yn rheoleiddiwr effeithiol ar gyfer y farchnad PRS ers blynyddoedd lawer ac mae wedi darparu manteision sylweddol i ddefnyddwyr, gyda chwynion yn gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf yn dilyn nifer o ymyriadau cadarnhaol gan y PSA. Fodd bynnag, mae'r farchnad PRS yn mynd drwy newid sylweddol gyda gwasanaethau etifeddol yn dirywio a thwf cyflym PRS sy'n cael ei ddarparu gan lwyfannau technoleg byd-eang a marchnad sy'n cydymffurfio'n well.
- 2.15 Lle'r oedd y farchnad yn arfer cael ei nodweddu gan nifer fawr o ddarparwyr cymharol fach a oedd yn cynnwys lleiafrif bach o gwmnïau a achosodd niwed i ddefnyddwyr, mae'r PSA yn amcangyfrif bod dros 80% o refeniw'r farchnad bellach yn cael ei ddarparu gan sefydliadau mwy fel Apple, Global, ITV, Sony a Google, sydd i gyd bellach yn gyfranogwyr mawr yn y farchnad.
- 2.16 I adlewyrchu'r newid hwn, dechreuodd y PSA adolygiad strategol yn 2019 i sicrhau bod ei fodel rheoleiddio yn dal yn addas i'r diben yn y farchnad sy'n newid, a arweiniodd at God 15. Roedd y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan God 15 yn dod â dull gweithredu cyffredinol y PSA yn nes at y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Ofcom, yn enwedig yn y marchnadoedd telathrebu.
- 2.17 Fel rhan o'i adolygiad strategol, roedd y PSA hefyd yn ystyried, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd hirdymor y fframwaith rheoleiddio PRS, y byddai'n fwy priodol i Ofcom ddod â'r swyddogaethau hyn yn fewnol. Ar 24 Mai 2022, cyhoeddodd Ofcom fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi rhoi cymeradwyaeth dros dro i Ofcom ysgwyddo cyfrifoldebau'r PSA.⁹
- 2.18 Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom gyhoeddi ein hymgyngoriad gan nodi sut roeddem yn cynnig rhoi'r broses o drosglwyddo'r dyletswydd o reoleiddio PRS o'r PSA i Ofcom. Ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori roeddem hefyd wedi cyhoeddi ein Gorchymyn PRS drafft, a oedd yn nodi sut roeddem yn cynnig trosi'r rhan fwyaf o egwyddorion allweddol Cod 15. Roeddem hefyd yn cynnig addasu ein Hamod PRS a osodwyd o dan adran 120 y Ddeddf i sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau'r Gorchymyn PRS drafft yn ogystal ag unrhyw gyfarwyddiadau gorfodi blaenorol a roddwyd gan y PSA o dan ei godau ymarfer.

⁹ <https://www.ofcom.org.uk/cy/phones-and-broadband/phone-numbers/ofcom-to-take-on-responsibility-for-regulating-phone-paid-services/?language=cy>

Y farchnad PRS

Mae'r farchnad gyfathrebu ehangach wedi newid

2.19 Mae'r farchnad telathrebu wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf, o farchnad a oedd yn cael ei nodweddu'n helaeth gan wasanaethau llais, i farchnad sy'n dibynnu mwy ar wasanaethau data symudol, gyda defnyddwyr yn defnyddio mwy a mwy ar ffonau clyfar i gael mynediad i'r rhyngwrwyd, a mwy o bryniannau'n cael eu gwneud ar-lein. Y newid mwyaf arwyddocaol fu defnyddwyr yn defnyddio eu ffôn symudol i brynu pethau. Disgwylir i fasnach symudol yn y DU dyfu'n fwy na dwywaith cyflymach na'r sector e-fasnach yn gyffredinol.

Y farchnad PRS heddiw

2.20 Mae newidiadau tebyg yn y farchnad PRS hefyd wedi dod i'r amlwg yng nghyfansoddiad y farchnad a'r refeniw y mae'n ei gynhyrchu. Yn benodol:

- a) mae gwasanaethau llais yn lleihau:
 - i) mae refeniw ymholiadau rhifau ffôn wedi gostwng yn sylweddol, gyda refeniw yn gostwng i £4.6 miliwn yn 2022/23¹⁰. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y galwadau a chap pris ar gost galwadau; a
 - ii) Mae 087 a 09 (gan gynnwys ICSS) hefyd yn lleihau, gyda refeniw'n gostwng £17.9 miliwn rhwng 2022/23 a 2023/24, o ganlyniad i ofynion rheoleiddio newydd a osodwyd ar ICSS ac wrth i fusnesau barhau i symud gwasanaethau i ystodau rhifau eraill ac ar-lein, ac wrth i ddefnyddwyr ddewis dewisiadau amgen rhad neu am ddim¹¹;
- b) mae gwasanaethau symudol yn cyfrif am dros 90%¹² o wariant defnyddwyr;
- c) mae gwasanaethau digidol mwy newydd, sy'n cael eu darparu ar-lein yn bennaf, yn ffynnu. Yn benodol, mae gwasanaethau adloniant a gemau wedi bod yn tyfu;
- d) bilio gan weithredwyr¹³ yw'r sianel wariant fwyaf o hyd ac yn 2023/24 roedd yn cyfrif am 54.2%¹⁴ o gyfanswm gwariant defnyddwyr ar PRS Gemau, adloniant a betio, gamblo a loteriau oedd y tri chategori gwasanaeth mwyaf oedd yn defnyddio bilio gan weithredwyr; Gemau oedd y categori gwasanaeth mwyaf yn y farchnad yn 2023/24, gan gyfrif am £175.6m o refeniw¹⁵ a
- e) er gwaethaf twf bilio gan weithredwyr, mae SMS cyfradd premiwm (PSMS) yn parhau i berfformio'n gryf, a hynny'n cael ei yrru'n bennaf gan gystadlaethau darlledu. Cynhyrchodd darlledwyr £174.4 miliwn yn 2021/22¹⁶.

2.21 Mae cyfansoddiad y farchnad hefyd wedi newid yn sylweddol. Ddeng mlynedd yn ôl, yr oedd y farchnad yn cynnwys busnesau bach a chanolig yn bennaf. Er bod rhai masnachwyr llai yn parhau i weithredu yn y farchnad, mae'n cynnwys mwy a mwy o sefydliadau mwy a sefydledig. Ar hyn o bryd, mae'r PSA yn amcangyfrif bod y farchnad PRS symudol yn cynnwys mwy a mwy o sefydliadau mawr sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel gyda galw amlwg gan ddefnyddwyr (dros 90%). Mae'r rhain yn cynnwys siopau apiau; darparwyr

¹⁰ Gweler tudalen 54 [Annual market review for phone-paid services 2023–2024 \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-for-phone-paid-services-2023-2024)

¹¹ Gweler tudalen 2 [Annual market review for phone-paid services 2023–2024 \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-for-phone-paid-services-2023-2024)

¹² Gweler tudalen 10 [Annual market review for phone-paid services 2023–2024 \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-for-phone-paid-services-2023-2024)

¹³ Bilio gan weithredwr yw pan fydd defnyddiwr yn defnyddio CPRS drwy wasanaeth ffôn symudol ac mae tâl am y defnydd hwnnw wedi'i nodi yn y bil mewn perthynas â'r gwasanaeth ffôn symudol hwnnw.

¹⁴ Gweler tudalen 10 [Annual market review for phone-paid services 2023–2024 \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-for-phone-paid-services-2023-2024)

¹⁵ Gweler tudalen 14 [Annual market review for phone-paid services 2023–2024 \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-for-phone-paid-services-2023-2024)

¹⁶ Gweler tudalen 13 [Annual Market Review 2022/23 \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-2022-23)

gemau a ffrydio cerddoriaeth mawr; darlledwyr teledu a radio ac elusennau blaenllaw. Asesiad y PSA yw bod nifer o sefydliadau sefydledig mwy ac, yn benodol, siopau apiau a gwasanaethau ffrydio, wedi sbarduno twf ac wedi cyfrannu at farchnad sy'n cydymffurfio'n well.

- 2.22 Mae'r sefydliadau hyn hefyd wedi chwarae rhan allweddol o ran dylanwadu ar ddisgwyliadau defnyddwyr ac arferion gorau o ran sut beth ddylai profiad talu digidol fod, gan gynnwys mewn perthynas â'r broses gofrestru, profiad gwasanaeth, ac arferion gofal cwsmeriaid ac ad-dalu.
- 2.23 O ganlyniad, mae'r PSA yn disgwyl y bydd y farchnad yn cydgrynhoi ymhellach tua'r segmentau marchnad a'r masnachwyr mwy, gyda disgwyl i wariant defnyddwyr ar wasanaethau teledu a radio, gan gynnwys cystadlaethau darlledu, barhau i gyfrif am ran sylweddol o'r farchnad.
- 2.24 Asesiad y PSA yw bod gwariant ar gemau ac adloniant, lle mae darparwyr PRS mwy fel Microsoft, Apple, Google a Spotify yn cael lle amlwg, yn parhau i dyfu'n raddol. Disgwylir i wasanaethau llais barhau i ddirywio, wrth i ddefnydd ostwng yn unol â thueddiadau cyffredinol yn ymddygiad defnyddwyr.

Pwy sy'n defnyddio PRS?


- 2.25 Mae Adolygiad Blynyddol y PSA o'r Farchnad¹⁷ yn arolygu 5,000 o ddefnyddwyr PRS bob blwyddyn ac mae'n awgrymu bod tua 61% o boblogaeth Prydain sy'n 16 oed neu'n hŷn wedi defnyddio PRS yn 2023–2024.¹⁸
- 2.26 Yn benodol, mae treiddiad y gwasanaeth ar ei uchaf ymysg y rhai rhwng 21-30 oed a 31-40 (75%) ac yn gyffredinol ar draws y grŵp oedran 18-50. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd bod llawer o gemau a/neu wasanaethau adloniant yn apelio at amrywiaeth eang o ddefnyddwyr ar draws y grwpiau oedran hyn. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd treiddiad PRS gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ymysg ymatebwyr 61 oed a hŷn (47%).¹⁹
- 2.27 Roedd yr adolygiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod hyder ac ymddiriedaeth defnyddwyr mewn PRS yn gymharol uchel, gyda'r diwydiant yn cofnodi lefelau isel o gwynion. Er gwaethaf hyn, mae cyfran sylweddol o ddefnyddwyr yn dal i ddweud eu bod yn cael problemau. Dywedodd 25% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi dod ar draws problem wrth ddefnyddio gwasanaeth, er bod hyn yn sylweddol uwch mewn mathau penodol (a chymharol fach) o wasanaethau, gan gynnwys adloniant rhywiol, gwasanaethau cysylltu a gwasanaethau perthynas.
- 2.28 Hefyd, ac yn berthnasol, fel y dangosir yn Ffigur 1 isod, mae cwynion am PRS wedi gostwng yn ddramatig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn unol â marchnad sy'n aeddfedu o dros 33,610 yn 2016/17 i 1,790 yn 2023/24 ac mae'n parhau i ostwng yn 2024-2025.

¹⁷ [Annual market review for phone-paid services 2023–2024 \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-for-phone-paid-services-2023-2024)

¹⁸ Gweler tudalen 35 [Annual market review for phone-paid services 2023–2024 \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-for-phone-paid-services-2023-2024)

¹⁹ Gweler tudalen 36 [Annual market review for phone-paid services 2023–2024 \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-for-phone-paid-services-2023-2024)

Ffigur 1: Cwynion defnyddwyr am PRS a wnaed i'r PSA (2014-2024)



Ffynhonnell: Yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn

2.29 Mae'r prif faterion a adroddwyd i'r PSA gan ddefnyddwyr yn cynnwys:

- anawsterau i ddefnyddiwr benderfynu pwy i gysylltu â nhw i gael ad-daliad, anhawster cael gafael ar ad-daliad ar ôl cytuno ar un gyda darparwr;
- ymrwymo i wasanaeth yn anfwriadol a heb ganiatâd clir gan y defnyddiwr;
- nid oeddent yn sylweddoli eu bod wedi galw rhif cyfradd premiwm/roedd y gwasanaeth yn costio mwy na'r disgwyl;
- sioc biliau;
- natur y gwasanaethau/gwasanaeth yn wahanol i'r hyn a hysbysebwyd; a
- methu ag adnabod y gwasanaeth a gododd dâl arnynt o'r wybodaeth a ddarparwyd ar eu bil.

Tueddiadau tebygol o ran defnyddwyr a'r farchnad yn y dyfodol

2.30 Yn ein barn ni, mae'r dystiolaeth a gyflwynir uchod yn dangos bod PRS fel sector yn cydymffurfio fwyfwy â rhwymedigaethau rheoleiddio, gyda lefelau isel o gwynion ac ystod eang o wasanaethau y mae defnyddwyr yn eu hadnabod ac yn eu mwynhau. Ar sail dadansoddiad ac asesiad y PSA ei hun, ei ddisgwyliadau yw y bydd y tueddiadau canlynol yn parhau i fod yn berthnasol²⁰:

- mwy o ymgysylltu gan sefydliadau mwy a sefydledig yn seiliedig ar dwf parhaus prynu o siopau apiau, gan gynnwys y posibilrwydd o chwaraewyr newydd yn ymuno â'r farchnad;
- twf ariannol yn y farchnad symudol, drwy dwf parhaus biliau gweithredwyr a rhai gwasanaethau PSMS (fel cystadlaethau darlledu) – wedi'i wrthbwysu gan y gostyngiad parhaus disgwyliedig mewn rhai gwasanaethau eraill, fel gwasanaethau llais;

²⁰ Mae hyn yn adlewyrchu rhagolwg yr AMR i raddau helaeth (gweler tudalen 30 [Annual market review for phone-paid services 2023–2024 \(psaauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/annual-market-review-for-phone-paid-services-2023-2024))

- c) bydd defnyddwyr yn parhau i ymgysylltu â PRS – wedi'i sbarduno gan hwylustod, prynu'n fyrbwyll a phris, ac y bydd ymgysylltu cynyddol a pharhaus â sefydliadau mwy a sefydledig yn cynyddu ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr; a
- d) potensial i'r farchnad PRS dyfu wrth i ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth o'r mecanwaith talu dyfu, yn enwedig o ganlyniad i sefydliadau mwy a sefydledig sy'n cynnig taliadau ffôn fel opsiwn ac, mewn rhai achosion, fel yr opsiwn talu diofyn ar gyfer dyfeisiau symudol.

2.31 Mae'r PSA yn disgwyl y bydd gwasanaethau gemau ac adloniant yn parhau i sbarduno twf. Maent hefyd yn rhagweld y bydd gwasanaethau betio a hapchwarae, yn ogystal ag ymgysylltu â theledu a radio a ddarperir drwy PSMS, yn parhau i dyfu.

Y fframwaith cyfreithiol

2.32 Rydym yn disgrifio isod ein pwerau a'n dyletswyddau sy'n berthnasol i'r penderfyniadau a drafodir yn y datganiad hwn.

Ein dyletswyddau cyffredinol

- 2.33 Prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.²¹
- 2.34 Wrth gyflawni ein dyletswyddau mae'n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, yn ogystal ag unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i ni fel rhai sy'n cynrychioli'r ymarfer rheoleiddio gorau.²²
- 2.35 Rhaid i ni hefyd ystyried, wrth gyflawni ein dyletswyddau, nifer o faterion, gan gynnwys pa mor ddymunol yw hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol; pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol; anghenion pobl ag anabledau, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel; pa mor ddymunol yw atal troseddu ac anhrefn; barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol ac aelodau o'r cyhoedd yn gyffredinol; gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.²³
- 2.36 Ar ben hynny, mae adran 3(5) o'r Ddeddf yn mynnu, wrth gyflawni ein dyletswydd i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, mae'n rhaid i ni ystyried, yn benodol, buddiannau'r defnyddwyr hynny mewn perthynas â dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.

²¹ Adran 3(1) y Ddeddf. Mae 'defnyddiwr' yn cael ei ddiffinio yn adran 405(5) o'r Ddeddf ac mae'n cynnwys pobl sy'n gweithredu yn eu capasiti personol neu at ddibenion neu mewn cysylltiad â busnes.

²² Adran 3(3) y Ddeddf.

²³ Adran 3(4) y Ddeddf. Rhaid i ni hefyd weithredu yn unol â'r chwe gofyniad a nodir yn adran 4 y Ddeddf 3 wrth wneud y penderfyniadau sy'n cael sylw yn y datganiad hwn.

Datganiad Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth y DU

- 2.37 Rhaid i ni hefyd ystyried Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP) Llywodraeth y DU ar gyfer telathrebu, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post.²⁴ Mae'r SSP yn nodi blaenoriaethau strategol y Llywodraeth ar gyfer defnyddwyr telathrebu nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys:
- mynd i'r afael ag arferion niweidiol yn y diwydiant a gwella'r cymorth sydd ar gael i ddefnyddwyr agored i niwed; a
 - mynd i'r afael â'r anawsterau y mae cwsmeriaid yn eu hwynebu wrth lywio drwy'r farchnad gyfathrebu drwy roi'r data, yr wybodaeth a'r gefnogaeth briodol iddynt i hybu eu hymgysylltiad.
- 2.38 Mae'r SSP hefyd yn datgan y dylai Ofcom barhau i fanteisio ar bob cyfle i wella profiad defnyddwyr yn y sector telathrebu, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys y rheini sydd ag anabledau.

Pwerau a dyletswyddau mewn perthynas â rheoleiddio PRS

- 2.39 Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer rheoleiddio PRS yn adrannau 120 i 124. Mae adran 120 y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Ofcom osod amodau at ddibenion rheoleiddio darpariaeth, hyrwyddo cynnwys a marchnata PRS, a gellir cymhwyso'r amodau hyn i bob person sy'n darparu PRS.
- 2.40 Yn unol â'r pŵer hwn, mae Ofcom wedi gosod amod (yr Amod PRS) sy'n mynnu bod darparwyr PRS yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan yr "Awdurdod Gorfodi" yn unol â "Cod Cymeradwy". Dim ond i rai PRS penodol y mae'r Amod PRS yn berthnasol, a elwir yn CPRS. Mae Adran 47 y Ddeddf yn nodi'r prawf y mae'n rhaid i ni eu rhoi ar waith wrth osod neu addasu'r Amod PRS.
- 2.41 Mae Adran 121 y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Ofcom gymeradwyo cod a wnaed gan barti arall ar gyfer rheoleiddio darpariaeth a chynnwys PRS.²⁵ Cafodd Cod 15 ei gymeradwyo gan Ofcom ym mis Hydref 2021.²⁶ Mae'r Amod PRS yn mynnu bod darparwyr perthnasol (h.y. darparwyr CPRS) yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a wneir gan y PSA at ddibenion gorfodi'r Cod. Os bydd darparwr yn methu â gwneud hynny, gall Ofcom gymryd camau gorfodi am dorri'r Amod PRS.

²⁴ Gweler adran 2B(2)(a) y Ddeddf; Mae copi o'r SSPs presennol ar gael yma :

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/952627/SSP - as designated by S of S V2.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/952627/SSP_-_as_designated_by_S_of_S_V2.pdf)

²⁵ Mae Adran 121(2) y Ddeddf yn datgan na fydd Ofcom yn cymeradwyo cod oni bai ein bod yn fodlon:

- bod yna berson sydd, o dan y cod, â'r swydd swyddogaeth o'i weinyddu a'i orfodi; a
- bod y person hwnnw'n ddigon annibynnol ar ddarparwyr gwasanaethau cyfradd premiwm;
- bod trefniadau digonol mewn grym i ariannu gweithgareddau'r person hwnnw mewn perthynas â'r cod;
- bod modd cyfiawnhau darpariaethau'r cod yn wrthrychol mewn perthynas â'r gwasanaethau y mae'n ymwneud â hwy;
- nad yw'r darpariaethau hynny yn gwahaniaethu'n ormodol yn erbyn personau penodol neu yn erbyn disgrifiad penodol o bersonau;
- bod y darpariaethau hynny yn gymesur â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni; a
- mewn perthynas â'r hyn y bwriedir i'r darpariaethau hynny ei gyflawni, eu bod yn dryloyw.

²⁶ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0025/226951/statement-approval-of-phone-paid-services-authority-code-of-practice-fifteenth-edition.pdf

- 2.42 Mae adran 121(6)(b) y Ddeddf yn datgan y gall Ofcom dynnu ei gymeradwyaeth yn ôl o god cymeradwy ar unrhyw adeg. Pan fyddwn yn gwneud hynny, mae a.121(7) y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i ni gyhoeddi hysbysiad i'r perwyl hwn er mwyn iddo gael ei ddwyn i sylw'r bobl yr effeithir arnynt.

Caiff Ofcom reoleiddio PRS yn uniongyrchol drwy Orchymyn

- 2.43 Mae adran 122 y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Ofcom roi gorchymyn pan fyddwn o'r farn nad oes cod mewn grym y credwn y byddai'n briodol rhoi, neu barhau i roi, ein cymeradwyaeth iddo o dan adran 121 y Ddeddf.
- 2.44 Yn fwy penodol, o dan adran 122(2), caiff Ofcom roi gorchymyn gyda'r darpariaethau canlynol sy'n briodol ym marn Ofcom:
- darpariaeth sy'n gosod gofynion mewn perthynas â darpariaeth a chynnwys PRS, ac mewn perthynas â'r cyfleusterau a ddarperir wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath (gan gynnwys darpariaeth ynghylch priso);
 - darpariaeth sy'n gosod gofynion mewn perthynas â'r trefniadau a wneir gan ddarparwyr PRS ar gyfer hyrwyddo a marchnata'r gwasanaethau hynny;
 - darpariaeth ar gyfer gorfodi gofynion a osodir yn rhinwedd paragraff (a) neu (b); a
 - darpariaeth sy'n gwneud trefniadau eraill at ddibenion y gofynion hynny).
- 2.45 Mae adran 122(3) yn rhoi enghreifftiau o'r darpariaethau y gallwn eu gwneud o dan y pwerau cyffredinol a grybwyllir uchod. Mae adran 122(4) hefyd yn cynnwys pŵer penodol i ni osod, i bob pwrpas, ffioedd gweinyddol i adennill ein costau rheoleiddio, yn benodol ein gwariant mewn cysylltiad â sefydlu a chynnal, yn unol â gorchymyn o'r fath, unrhyw gorff corfforedig neu weithdrefn; neu wneud trefniadau eraill at ddibenion gofynion gorchymyn o'r fath.
- 2.46 Mae angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn i Ofcom wneud gorchymyn o'r fath.²⁷
- 2.47 Mae'r Ddeddf yn egluro bod gorchymyn o'r fath i fod ar ffurf offeryn statudol ac mae'n darparu ar gyfer bodloni gofynion gweithdrefnol penodol, gan gynnwys bod yn rhaid i ni roi hysbysiad o'n cynigion i'r rheini y bydd ei weithredu'n effeithio arnynt ac ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law.²⁸ Rhoesom hysbysiad o'r fath o'r Gorchymyn PRS drafft yn atodiad 5 i'n dogfen ymgynghori.
- 2.48 Ar ôl i Ofcom wneud unrhyw orchymyn, rhaid iddo gael ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol ac yna ei osod gerbron y Senedd o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol fel y'i gelwir. Yn y bôn, mae'r weithdrefn hon yn golygu bod y gorchymyn yn dod yn gyfraith ar ôl iddo gael ei wneud gan Ofcom ac mae'n dal yn gyfraith yn awtomatig oni bai fod y naill Dŷ neu'r llall yn cytuno ar gynnig - neu 'erfyniad' - i wrthod y gorchymyn o fewn 40 diwrnod eistedd. Fodd bynnag, hyd yn oed pan ddaw'n gyfraith, dim ond pan fydd ei darpariaethau'n dod i rym y daw'r gyfraith fel y'i nodir yn y gorchymyn yn weithredol. Y dyddiad cychwyn hwn yw'r dyddiad y daw'r gyfraith yn y gorchymyn i rym. Rydym wedi penderfynu dod â'r Gorchymyn PRS i rym ar 1 Chwefror 2025.

²⁷ Adran 122(6) y Ddeddf.

²⁸ Adrannau 122(7) a 403 y Ddeddf.

Strwythur y datganiad hwn

2.49 Mae gweddill y datganiad hwn wedi'i strwythuro fel hyn:

- Adran 3 – Diffiniadau allweddol
- Adran 4 - Cofrestru
- Adran 5 - Diwydrwydd dyladwy, rheoli risg a phrofion diogelwch perthnasol
- Adran 6 - Gwybodaeth a chaniatâd cyn contract
- Adran 7 - Ffioedd a thanysgrifiadau
- Adran 8 – Cyfyngiadau oedran a gwasanaethau plant
- Adran 9 - Gwasanaethau cystadleuaeth neu bleidleisio
- Adran 10 - Mesurau eraill i ddiogelu defnyddwyr
- Adran 11 - Gorfodi
- Adran 12 - Ffioedd Ofcom, cadw cofnodion a cheisiadau am wybodaeth
- Adran 13 - Casgliadau cyffredinol a'r camau nesaf.

2.50 Mae'r atodiadau wedi'u gosod fel a ganlyn:

- Atodiad 1 - Hysbysiad o addasiadau i'r Amod PRS
- Atodiad 2 - Hysbysiad o dynnu'r Cod 15 yn ôl
- Atodiad 3 – Tabl o newidiadau
- Atodiad 4 – Atodiad ar gyfer Canllawiau Gorfodi – Gorchymyn PRS
- Atodiad 5 – Atodiad ar gyfer Canllawiau Gorfodi – Amod PRS

3. Diffiniadau allweddol

- 3.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau mewn perthynas â diffiniadau allweddol sy'n cael eu defnyddio drwy'r Gorchymyn PRS. Mae diffiniadau eraill a ddefnyddir yn y Gorchymyn PRS yn cael eu trafod mewn adrannau diweddarach ochr yn ochr â rhwymedigaethau perthnasol (gweler paragraffau 3.110 i 3.112 isod am restr o ble mae'r rhain i'w gweld yn y datganiad hwn).
- 3.2 Fel y trafodwyd isod, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r diffiniadau allweddol yn sylweddol fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, er ein bod wedi gwneud amryw o welliannau drafftio a newidiadau esboniadol i nifer o'r diffiniadau hyn, fel yr esbonnir isod.

Dehongliad cyffredinol (erthygl 2)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 3.3 Roedd erthygl 2 y Gorchymyn PRS drafft yn rhestru diffiniadau a ddefnyddiwyd gennym mewn amrywiol ddarpariaethau drwy'r Gorchymyn, megis "y Ddeddf"; "Deddf 2005"; "galwad"; "cyfathrebu electronig"; "SMS" ("gwasanaeth neges fer"); "VAT" a "diwrnod gwaith".

Sylwadau rhanddeiliaid

- 3.4 Ni chawsom unrhyw ymatebion ar y diffiniadau yn erthygl 2.

Ein penderfyniad

- 3.5 Ar y cyfan, rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r ymadroddion hyn sydd wedi'u diffinio yn ein drafft terfynol o'r Gorchymyn PRS, gyda diwygiad bach i "diwrnod gwaith". Rydym hefyd wedi diwygio'r diffiniad o "SMS" i "neges SMS", sy'n cyd-fynd â'r diffiniad yn adran 55(12) Deddf Diogelwch Ar-lein 2023. Credwn fod y gwelliant hwn yn cyflawni'r un amcan polisi tra'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth bresennol.
- 3.6 Mae termau diffiniedig eraill fel "Cod 15" a "gwasanaeth ffôn symudol" wedi cael eu symud i'r erthygl hon yn y Gorchymyn PRS ac rydym wedi cynnwys diffiniad newydd ar gyfer "elusen" yn erthygl 2 i adlewyrchu y cyfeirir at hyn bellach nifer o weithiau yn y Gorchymyn PRS.

Ystyr PRS a reolir (erthygl 3)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 3.7 Fe wnaethom egluro yn ein hymgyngoriad bod y cysyniad o PRS yn eang (fel sy'n cael ei adlewyrchu gan y diffiniad statudol yn adran 120 y Ddeddf). Roedd cod 15 yn gosod gofynion a oedd yn benodol berthnasol i PRS a oedd yn bodloni'r diffiniad a nodir yn adran 120 y Ddeddf.²⁹

²⁹ Gweler paragraff D.1.1 Cod 15

- 3.8 I'r gwrthwyneb, mae Amod PRS Ofcom yn berthnasol i grŵp llawer mwy cyfyng o PRS, a elwir yn Wasanaethau Cyfradd Premiwm Rheoledig ("CPRS"). Roedd paragraffau 1.2.1 a 1.2.2 Cod 15 yn cydnabod bod yr Amod PRS yn cyfeirio at is-set o PRS yn unig o'i gymharu â'r diffiniad statudol yn adran 120(7).
- 3.9 Roeddem yn cynnig diffinio "PRS a reolir" i adlewyrchu i raddau helaeth y diffiniad o "Wasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir" yn yr Amod PRS.³⁰ Ar ben hynny, fe wnaethom ddweud y byddem yn gwneud rhai newidiadau wrth drosglwyddo'r diffiniad hwn i'r Gorchymyn PRS, gan gynnwys egluro'r ystod o rifau ffôn a fyddai'n gymwys fel "rhif cyfradd premiwm", gan dynnu gwasanaethau sy'n defnyddio meddalwedd deialu rhyngwrwyd, a disodli'r cyfeiriad at "galwadau" gyda "cyfathrebu electronig" i sicrhau bod ein diffiniad o CPRS yn cwmpasu pob ffordd y gall defnyddwyr ddefnyddio PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

Rhifau 084/087 a 098

- 3.10 Mynegodd aimm, BT, Mobile UK, TalkTalk a VMO2 bryder y byddai ychwanegu 084 at y diffiniad o rif PRS yn ehangu cwmpas rheoleiddio, gan nodi nad yw pob rhif 084 yn PRS, ond bod llawer yn rhifau cyfradd lleol a ddefnyddir ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid gan sefydliadau a busnesau. Nododd hefyd ei bod yn ymddangos bod y diffiniadau yn erthygl 3 hefyd yn nodi y bydd 087 o fewn cwmpas y Gorchymyn PRS drafft a gofynnwyd am eglurder.
- 3.11 Roedd nifer o randdeiliaid hefyd yn gofyn am eglurder ynghylch pam mae 098 yn cael ei ychwanegu'n benodol at y diffiniad o rif PRS.
- 3.12 Dywedodd aimm, BT, Mobile UK a VMO2 fod rhifau 09 eisoes yn cael eu rheoleiddio gan PSA ac, felly, nid oeddent yn glir pam bod 098 yn cael ei ychwanegu'n benodol at y diffiniad o "rif PRS".
- 3.13 Roedd y BBC yn cefnogi'r gofyniad i gynnwys 098 yn y diffiniad o rif PRS. Dywedodd fod hyn yn waith cymhennu da, yn dilyn y diffiniad yn yr Amod PRS a'i fod yn cyfateb i ddealltwriaeth y BBC o rifau o fewn y cwmpas o dan PSA.
- 3.14 Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi cais aimm am eglurder.

Symiau pris penodol a ddefnyddiwyd yn y Gorchymyn PRS

- 3.15 Nododd aimm a Donr Ltd fod y trothwy prisiau yn cael ei nodi fel swm penodol yn y Gorchymyn PRS drafft. Roeddent yn dadlau, o ystyried anhyblygrwydd y Gorchymyn PRS, y byddai'n well cynnwys mecanwaith i ganiatáu i hyn gael ei adolygu a'i addasu'n flynyddol, er enghraifft, i roi cyfrif am chwyddiant. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi cais aimm am eglurder.

Codau byr

- 3.16 Gofynnodd aimm a yw codau byr llais o 5.833 ceiniog (heb gynnwys TAW) yn cael eu hystyried yn CPRS. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi cais aimm am eglurder.

Costau mynediad a chyfraddau rhwydwaith safonol

³⁰Gweler paragraff 2(e) yr Amod PRS ([statement-review-of-the-premium-rate-services-condition.pdf](https://www.ofcom.org.uk/statement-review-of-the-premium-rate-services-condition.pdf) ([ofcom.org.uk](https://www.ofcom.org.uk)))

- 3.17 Gofynnodd nifer o randdeiliaid am eglurder mai dim ond yr elfen gwasanaeth premiwm sy'n dal i gael ei rheoleiddio o dan y Gorchymyn PRS.
- 3.18 Roedd aimm, BT, Channel 4, BBC Plant mewn Angen, Fonix Mobile plc (Fonix), Global Media Services Limited (Global), ITV a VMO2 yn dadlau nad yw'n glir mai dim ond y PRS fyddai'n cael ei reoleiddio o dan y gorchymyn PRS. Gofynnwyd a fyddai'r "cost mynediad" a'r "cyfradd rhwydwaith safonol" yn cael eu rheoleiddio o dan y Gorchymyn PRS hefyd. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi cais aimm am eglurder.
- 3.19 Dywedodd y BBC ei bod yn ymddangos, gan ddefnyddio dull dehongli rhesymol, y byddai negeseuon testun cyfradd safonol yn cael eu heithrio rhag bod yn "wasanaeth trothwy" gan nad ydynt yn PRS fel y'i diffinnir gan y Ddeddf. Gofynnodd am gadarnhad o'r dehongliad hwnnw.
- 3.20 Awgrymodd aimm a Channel 4 y geiriad canlynol a fyddai, yn eu barn nhw, yn rhoi mwy o eglurder:
- "(2) Mae gwasanaethau Cyfradd Premiwm yn dod o dan y paragraff hwn os—*
- (a) mae angen defnyddio rhif cyfradd premiwm i ddefnyddio'r gwasanaeth, a*
- (b) y tâl premiwm am ddarparu'r gwasanaeth yw—*
- (i) un ffi o 5.833 ceiniog neu fwy, neu*
- (ii) wedi ei gyfrifo drwy gyfeirio at gyfradd o 5.833 ceiniog neu fwy am bob munud o hyd y cyfathrebiad electronig"*
- 3.21 Ar ben hynny, nododd ITV fod yr Amod PRS presennol yn cyfeirio at dâl "gwasanaeth" ac y dylai Ofcom ystyried naill ai ychwanegu "premiwm" neu "gwasanaeth" at "cost"

Gwasanaethau porth personol

- 3.22 Gofynnodd BT, Mobile UK, Telecom2 Ltd a VMO2 am gadarnhad na fyddai ein diffiniad arfaethedig o CPRS yn dod â "gwasanaethau porth personol" o fewn cwrpas rheoleiddio. Roeddent yn nodi bod y Gorchymyn PRS drafft yn datgan y byddai PRS yn cael ei eithrio pe bai'n cael ei ddarparu gan "wasanaeth cyfathrebu electronig sy'n cael ei ddarparu gan yr un person sy'n darparu'r gwasanaeth cyfradd premiwm" ond yn croesawu cadarnhad.
- 3.23 Roedd BT a Mobile UK hefyd wedi siarad am wasanaethau "porth personol" presennol ac wedi gofyn i Ofcom gadarnhau y byddai'r rhain hefyd yn cael eu heithrio o reoleiddio. Y rheswm am hyn oedd bod yr enghreifftiau o wasanaethau porth personol a roddwyd gan Ofcom yn 2012³¹ yn wahanol i'r mathau o wasanaethau porth sy'n cael eu cynnig gan y farchnad heddiw.

ECN ac ECS cyhoeddus

- 3.24 Nododd TÜV SÜD Limited fod y termau "gwasanaeth cyfathrebiadau electronig" a "rhwydwaith cyfathrebiadau electronig" ("ECN") yn cael eu defnyddio yn y diffiniadau

³¹ Mae hyn yn cyfeirio at benderfyniad Ofcom yn 2012 i eithrio "gwasanaethau porth personol" rhag rheoleiddio o dan yr Amod PRS ac felly hefyd rhag rheoleiddio o dan Cod 15 (erbyn hyn) - gweler <https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/consultations/uncategorised/8168-review-premium-rate-services/associated-documents/statement.pdf>. Yn y penderfyniad hwn, dywedodd Ofcom "gwasanaethau porth personol: Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae darparwyr cyfathrebiadau sefydlog (fel Sky, Virgin Media a BT Vision) yn cynnig mynediad i'w cwsmeriaid at eu cynnwys ar-aw eu hunain fel rhaglenni teledu dal i fyny a ffilmiau. Mae MCPs hefyd yn cynnig gwahanol fathau o gynnwys ar-aw i'w cwsmeriaid, fel clipiau fideo, cerddoriaeth, gemau a phapurau wal drwy eu gwefannau eu hunain."

arfaethedig yn erthyglau 3 i 8 Rhan 1 o'r Gorchymyn PRS drafft. Fodd bynnag, nododd hefyd fod y termau hyn wedi cael eu rhagflaenu gan y gair cyhoeddus yn erthyglau 3(8)(c) a 5(1)(a). Roedd yn poeni y gallai'r anghysondeb hwn achosi rhywfaint o ddryswch.

Diffiniadau wedi dyddio

3.25 Dywedodd Mobile UK a VMO2 eu bod yn poeni nad oedd rhai o'r diffiniadau a'r cysyniadau yn ein hymgyngoriad yn portreadu'r farchnad PRS bresennol yn gywir ac yn gyfredol. Yn benodol, roeddent yn nodi'r ffocws ar wasanaethau llais (er enghraifft, y cyfeiriad at ffioedd mynediad). Roeddent hefyd yn nodi cyfeiriadau at daliadau cyfran refeniw ynghylch darparwyr cyfathrebiadau gwreiddiol (OCP) a darparwyr cyfathrebiadau terfynol (TCP) nad ydynt yn cynrychioli'r gadwyn gwerth yn y rhan fwyaf o wasanaethau yn y farchnad bresennol y tu allan i deffoni.

Ein penderfyniad

3.26 Rydym wedi penderfynu mabwysiadu agweddau allweddol ar ein diffiniad arfaethedig o "PRS a reolir" ac eithrio mân newidiadau drafftio a gwneud newidiadau i'r diffiniad o "gyfradd premiwm" yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid ynghylch ein cynnig i gynnwys 084 a 098. Fel arall, rydym o'r farn bod ein diffiniad "PRS a reolir" fel y'i cynigir yn briodol i sicrhau y bydd yr un mathau o wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gan y PSA o dan God 15 yn parhau i gael eu rheoleiddio gan Ofcom o dan y Gorchymyn PRS.

3.27 Rydym yn rhoi sylw i sylwadau rhanddeiliaid penodol isod.

Rhifau 084/087 a 098

3.28 Rydym yn ddiolchgar am ymatebion rhanddeiliaid gan dynnu ein sylw at y ffaith y byddai ein cynnig i ychwanegu 084 a 098 at ein diffiniad arfaethedig o "rif cyfradd premiwm" yn y Gorchymyn PRS drafft yn cael yr effaith o ehangu cwmpas rheoleiddio.

3.29 Drwy gynnig ychwanegu 084 at y diffiniad, derbyniwn y byddai hyn yn cael yr effaith o ddod â gwasanaeth o fewn cwmpas rheoleiddio sydd (a) yn defnyddio'r rhif hwn, a (b) yn cyrraedd y trothwy 5.833c yn erthygl 3(2). Byddai hyn yn gwyro oddi wrth God 15 ac roedd yn amryfusedd ar ein rhan gan ein bod yn bwriadu trosglwyddo'r sefyllfa bresennol o dan yr Amod PRS (sef na fyddai rhifau 084 o fewn y cwmpas oni bai eu bod yn cyrraedd y trothwy uwch o 10c yn erthygl 3(3)). Felly, rydym wedi penderfynu tynnu 084 o'r diffiniad o 'gyfradd premiwm' yn erthygl 3(8) y Gorchymyn PRS drafft. Fodd bynnag, eithriad i hyn yw pan fydd ICSS yn defnyddio rhif 084. Yn yr achos hwnnw, bydd gwasanaethau o'r fath yn cael eu rheoleiddio fel CPRS beth bynnag fo'r trothwyon costau. Gellir gweld hyn drwy gynnwys 084 yn y diffiniad o ICSS yn erthygl 7 y Gorchymyn PRS drafft. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o dan yr Amod PRS.

3.30 O ran sylwadau rhanddeiliaid ar 098, rydym yn nodi bod y niferoedd hyn eisoes wedi'u dynodi o dan Gynllun Rhifau Ffôn Ofcom³² fel rhif ar gyfer Gwasanaethau Adloniant Rhywiol. Yn unol â hynny, byddai gwasanaethau ar rifau 098 yn cael eu rheoleiddio fel "gwasanaethau cynnwys rhywiol" o fewn ystyr erthygl 6 y Gorchymyn PRS ni waeth beth fo'r trothwyon costau. Felly, rydym yn cytuno â sylwadau rhanddeiliaid nad oes angen eu cynnwys yn y diffiniad o "gyfradd premiwm". Felly, rydym hefyd wedi penderfynu tynnu cyfeiriad at 098 o'r diffiniad o 'rif cyfradd premiwm'.

³²Gweler tudalen 10 o [ddogfen Ofcom](#).

- 3.31 Mewn ymateb i gais aimm am eglurder ynghylch rhifau “087”, eto, nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau i sut mae rhifau 087 yn cael eu rheoleiddio gan fod y rhain o fewn cwmpas PRS fel y’u diffinnir o dan adran 120(7) y Ddeddf ac ar hyn o bryd maent wedi’u cynnwys yn y diffiniad o “Rhif PRS” yn yr Amod PRS.³³

Symiau pris penodol a ddefnyddiwyd yn y Gorchymyn PRS

- 3.32 Nid ydym yn cytuno bod angen cynnwys mecanwaith addasu mewn perthynas â symiau pris penodol. Yn benodol, rydym yn nodi y byddai hyn yn newid sylweddol i’r ffordd mae PRS yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd.
- 3.33 Mae’r trothwyon prisiau presennol wedi bod ar waith ers ein hadolygiad o Wasanaethau Galwadau Annaearyddol (NGCS) yn 2013 ac fe’u sefydlwyd yn dilyn ein hasesiad manwl a gofalus o’r dystiolaeth o niwed sy’n deillio o ddefnyddwyr yn prynu PRS gan ddefnyddio NGCS (sy’n cynnwys PRS). Ein hasesiad oedd bod niwed i ddefnyddwyr ac, yn benodol, y potensial ar gyfer sioc bil, yn gysylltiedig â phris y gwasanaeth. Roeddem wedi sefydlu’r trothwyon prisiau presennol ar y sail hon. Rydym o’r farn bod y trothwyon hyn yn dal yn briodol er y byddwn yn monitro’r trothwyon prisiau presennol ac yn cynnal adolygiad pellach os bydd angen gwneud hynny. Yn unol â hynny, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y dylem newid ein dull gweithredu sefydledig ar gyfer diogelu defnyddwyr yn y maes hwn drwy symud o symiau pris penodol i fecanwaith addasu.

Codau byr

- 3.34 Byddai PRS a ddarperir drwy gyfrwng codau byr llais yn cael ei gwmpasu gan erthygl 3(3) y Gorchymyn PRS ac nid erthygl 3(2). Y rheswm am hyn yw eu bod yn cael eu “*darparu drwy wasanaeth cyfathrebu electronig, ac eithrio drwy ddefnyddio rhif cyfradd premiwm*”. O’r herwydd, byddai angen i godau byr llais fodloni’r trothwyon codi tâl a nodir yn erthygl 3(3)(b) y Gorchymyn PRS, sef bod y tâl yn ôl y dull o gael y gwasanaeth yn cael ei godi neu’n cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at gyfradd o 10 ceiniog neu fwy y funud, yn cynnwys TAW.

Costau mynediad a chyfraddau rhwydwaith safonol

- 3.35 Rydym o’r farn bod erthygl 3 y Gorchymyn PRS drafft yn glir mai dim ond elfen gwasanaeth premiwm unrhyw ffi fyddai’n cael ei rheoleiddio o dan y Gorchymyn PRS drafft. Y rheswm am hyn yw bod y trothwyon yn erthygl 3(2)(b) a (3)(b) yn cyfeirio at y ffi am ddarparu’r gwasanaeth o dan sylw yn unig. Yn y cyd-destun hwnnw, mae’r “gwasanaeth” yn cyfeirio’n ôl at y cysyniad o “wasanaeth cyfradd premiwm” fel y’i diffinnir yn adran 120(7) y Ddeddf. Mae’r diffiniad hwnnw’n cynnwys ffi am ddarparu gwasanaeth sy’n dod o fewn adran 120(8), sef y gwasanaeth hwnnw sydd naill ai’n gynnwys neu’n gyfleuster a ddarperir drwy’r gwasanaeth cyfathrebu electronig.
- 3.36 Felly, rydym o’r farn nad oes angen ychwanegu’r gair “premiwm” neu “wasanaeth” at y gair “ffi” yn erthygl 3(2)(b) a 3(3)(b), fel yr awgrymodd rhai rhanddeiliaid.

Gwasanaethau porth personol

- 3.37 Rydym yn cadarnhau mai ein bwriad wrth ddrafftio erthygl 3(5)(b) y Gorchymyn PRS yw parhau i eithrio’r “gwasanaethau porth personol” a ddisgrifiwyd gennym yn ein datganiad yn 2012³⁴ fel rhai sydd wedi’u heithrio rhag bod yn CPRS (fel y cyfeirir ato gan VM02 yn ei

³³Gweler paragraff 2(t) yr Amod PRS ([statement-review-of-the-premium-rate-services-condition.pdf](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/prs/prs_statement_review_of_the_premium_rate_services_condition.pdf) ([ofcom.org.uk](https://www.ofcom.gov.uk)))

³⁴[statement.pdf](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/prs/prs_statement_review_of_the_premium_rate_services_condition.pdf) ([ofcom.org.uk](https://www.ofcom.gov.uk))

ymateb): gweler erthygl 3(1)(b) y Gorchymyn PRS a ddarllenwyd ynghyd ag erthygl 3(5)(b). Rydym o'r farn bod y geiriad yn erthygl 3(5)(b) y Gorchymyn PRS yr un fath mewn perthynas â'r geiriad roeddem wedi'i gynnwys yn ein datganiad yn 2012 i ddiwygio'r Amod PRS i sicrhau'r canlyniad hwnnw. Felly, nid ydym o'r farn bod angen unrhyw newid i'r geiriad arfaethedig.

- 3.38 O ran y pwyntiau a wnaed gan BT a Mobile UK, mae'n bwysig nodi'n gyntaf y disgrifiad o "wasanaethau porth personol" a fabwysiadwyd gan Ofcom ac sydd o fewn cwmpas ein hadolygiad yn 2012. Yn benodol, roedd ein penderfyniad yn 2012 yn disgrifio'r gwasanaethau perthnasol fel a ganlyn:

"4.2 Gall darparwyr symudol a sefydlog gynnig gwasanaethau porth. Er gwaethaf cydgyfeirio yn y maes hwn, rydym o'r farn ei bod yn ddefnyddiol yn y lle cyntaf i ddisgrifio pyrth sefydlog a symudol ar wahân a nodi gwahaniaethau rhwng y ddau fath o wasanaeth porth. Rydym yn canolbwyntio ar wasanaethau porth OCP eu hunain, ac eithrio gwasanaethau porth trydydd partïon.

4.3 Fel yr eglurwyd yn fanwl yn Ymgynghoriad Gorffennaf 2011, at ddibenion yr adolygiad hwn rydym wedi defnyddio'r diffiniad canlynol ar gyfer gwasanaethau cynnwys pyrth symudol: "Gwasanaethau cynnwys digidol yw gwasanaethau cynnwys porth symudol y gall cwsmer MCP³⁵ eu prynu drwy "bori a chlicio", lle mae'r MCP yn cyflawni'r holl weithgareddau adwerthu sy'n ymwneud â'r cynnwys ei hun, gan gynnwys hyrwyddo, danfon, bilio a gofal cwsmeriaid a lle mae'r trafodiad yn cael ei godi ar fil cwsmer MCP neu gredyd talu wrth ddefnyddio."

4.4 Fel yr esboniwyd yn fanwl hefyd yn Ymgynghoriad Gorffennaf 2011, rydym wedi defnyddio'r diffiniad canlynol o wasanaethau cynnwys porth sefydlog yn yr adolygiad: "Mae gwasanaethau cynnwys porth sefydlog yn wasanaethau cynnwys digidol sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr cyfathrebu sefydlog y gall cwsmer darparwr gael mynediad atynt "ar alw" dros ECS (cysylltiad band eang fel arfer), lle mae'r darparwr yn cyflawni'r holl weithgareddau adwerthu sy'n ymwneud â'r cynnwys ei hun, hyrwyddo, danfon, bilio a gofal cwsmeriaid a lle mae'r trafodiad yn cael ei godi ar fil darparwr cyfathrebu'r cwsmer".

- 3.39 Yn ail, yng ngoleuni'r disgrifiadau hynny, mae hefyd yn bwysig nodi bod Ofcom wedi ymateb yn 2012 i bwynt a godwyd gan Action 4 Limited sy'n ymddangos yn berthnasol i'r pwyntiau a godwyd yn awr gan BT a Mobile UK, sef:

"Roedd 6.129 Cam Gweithredu 4 yn cwestiynu a fyddai'r drafft arfaethedig sy'n bwriadu eithrio ei wasanaethau porth personol yn cynnwys gwasanaethau porth sefydlog lle mae defnyddwyr yn talu un darparwr drwy fil ffôn am wasanaethau a ddarperir iddynt gan ddarparwr arall. Mae Ofcom o'r farn nad ydyw ac na ddylai: ni fyddai gwasanaethau o'r fath o reidrwydd yn meddu ar y nodweddion y mae Ofcom yn credu y dylai fod yn sail ar gyfer eithrio gwasanaethau porth personol rhag rheoleiddio (er enghraifft, ni fyddai darparwr yr ECS a darparwr y PRS a ddarperir drwy'r ECS yr un fath).

6.130 Fodd bynnag, rydym wedi ystyried cwmpas yr eithriad ymhellach, ac wedi diwygio'r ffordd y caiff ei ddrafftio, yng ngoleuni ymateb Action4. Mae bellach yn ei gwneud yn glir bod unrhyw wasanaeth porth personol (fel y'i diffinnir yn Ymgynghoriad Gorffennaf 2011 a'r datganiad hwn) a gyflenwir gan ECS ac a ddarperir gan ddarparwr ECS wedi'i eithrio o'r rheoliadau. Bydd PRS a ddarperir gan rywun ar wahân i ddarparwr ECS, ond a godir ar y

³⁵Darparwr Cyfathrebu Symudol

cwsmer gan ddarparwr ECS, sydd fel arall yn dod o fewn y diffiniad o CPRS, yn parhau i gael ei reoleiddio. Nid oes sail i'w heithrio, nac ychwaith reswm dros ddiwygio'r Amod ymhellach i'w cynnwys."

- 3.40 Yn unol â hynny, i'r graddau y mae BT a Mobile UK nawr yn cyfeirio at wasanaethau "porth personol" sy'n debyg i'r rhai a grybwyllwyd gan Action 4 Limited yn 2012, rydym yn cadarnhau y byddai gwasanaethau o'r fath yn cael eu heithrio o dan erthygl 3(5)(b) y Gorchymyn PRS am y rhesymau a roddwyd gennym yn 2012, sef bod gwahaniaethau pwysig rhwng gwasanaethau porth personol a PRS mwy confensiynol y mae eu nodweddion wedi arwain yn y gorffennol at niwed i ddefnyddwyr ac, felly, mae mwy o risg gyfyngedig o niwed i ddefnyddwyr yn codi.

ECN ac ECS cyhoeddus

- 3.41 Mae 'rhwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus' a 'gwasanaeth cyfathrebu electronig cyhoeddus' yn cael eu defnyddio yn y Gorchymyn PRS lle mae'n bwysig adlewyrchu bod rhwydweithiau cyfathrebu electronig a gwasanaethau cyfathrebu electronig yn cael eu darparu i'r cyhoedd.
- 3.42 'Defnyddir rhwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus yn y diffiniad o 'rif ffôn perthnasol' yn erthygl 3(8) y Gorchymyn PRS. Mae "rhif ffôn perthnasol" yn rhan o'r diffiniad o "rif cyfradd premiwm" yn erthygl 3(8) y Gorchymyn PRS.
- 3.43 Fel y crybwyllwyd ym mharagraff 3.28 uchod, mae'r diffiniad o "rif cyfradd premiwm" yn erthygl 3(8) yn ceisio adlewyrchu, fel man cychwyn, y defnydd o'r ymadrodd "Rhif PRS" yn y diffiniad o CPRS yn yr Amod PRS presennol. Mae'r diffiniad hwnnw'n nodi nad yw'r rhifau hyn yn rhai daearyddol, gyda'r Amod PRS hefyd yn datgan bod ystyr "Rhif Annaearyddol" i'w briodoli iddo yn y Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol (yr NTNP). Mae'r NTNP yn yr Amod PRS yn cael ei ddiffinio fel dogfen a gyhoeddir gan Ofcom o bryd i'w gilydd yn unol ag adrannau 56 a 60 y Ddeddf.
- 3.44 Nid ydym yn gallu efelychu diffiniadau Amod PRS ar gyfer rhifau annaearyddol, a'r NTNP yn y Gorchymyn PRS gan fod angen bod yn fanwl mewn drafftiau statudol. Mae hyn yn golygu na allwn gyfeirio at y NTNP fel un a gyhoeddir "o bryd i'w gilydd" gan y bydd yr ystyr yn newid bob tro y cyhoeddir yr NTNP. Felly, byddai ymgorffori'r diffiniad a geir yn yr Amod PRS yn is-ddirprwyo anghyfreithlon yn y Gorchymyn PRS. Ar ben hynny, y dull sy'n cael ei ffafrio gyda drafftio statudol yw osgoi drafftio cyfeiriol diangen.
- 3.45 Felly, er mwyn bodloni rheolau drafftio statudol, rydym yn defnyddio'r cysyniad o "rif ffôn perthnasol" fel y'i diffinnir yn erthygl 3(8) i adlewyrchu natur annaearyddol rhifau cyfradd premiwm. O dan yr NTNP diweddaraf, 11 Hydref 2024³⁶, mae'n amlwg o Ran A mai elfen hanfodol o rif annaearyddol yw bod yr NTNP wedi penderfynu bod y rhif ffôn yn un i'w ddefnyddio ar rwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus.³⁷
- 3.46 Yn hynny o beth, mae defnyddio "rhwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus" (yn hytrach na dim ond rhwydwaith cyfathrebu electronig) yn angenrheidiol ac yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o dan yr Amod PRS, yn hytrach na phwynt drafftio anghyson.

³⁶ <https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/phones-telecoms-and-internet/information-for-industry/numbering/other/national-numbering-plan.pdf?v=382830>

³⁷ Mae adran 151(1) y Ddeddf yn diffinio hyn fel "rhwydwaith cyfathrebiadau electronig a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu electronig ar gael i aelodau o'r cyhoedd..."

- 3.47 Nid yw “gwasanaeth cyfathrebu electronig cyhoeddus”³⁸ yn cael ei ddefnyddio mwyach yn erthygl 5 y Gorchymyn PRS oherwydd ein bod wedi symleiddio’r drafftio felly mae nawr yn dweud “ar unwaith cyn gwneud yr alwad”. Nid oes angen felly siarad am “*cyn unrhyw gysylltiad drwy sefydlu gwasanaeth cyfathrebu electronig cyhoeddus rhyngddynt.*”

Diffiniadau wedi dyddio

- 3.48 Rydym yn nodi’r pwyntiau a godwyd gan Mobile UK ynghylch sut rydym wedi disgrifio termau penodol yn ein dogfen ymgynghori yn hytrach na’n Gorchymyn PRS drafft. Nid ydym yn cytuno bod termau fel “ffi mynediad” a “chyfran refeniw” yn canolbwyntio’n bennaf ar lais. Mae’r rhain yn gysyniadau sylfaenol o ran sut mae rheoleiddio’n berthnasol yn y sector hwn, ni waeth pa dechnoleg a ddefnyddir.

Ystyr gwasanaeth trothwy, gwasanaeth llinell sgwrsio, gwasanaeth cynnwys rhywiol a gwasanaeth gwybodaeth, cysylltu neu gyfeirio (erthyglau 4 – 7)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 3.49 Roeddem yn cynnig diffiniad newydd o “wasanaeth trothwy” i ddod ag unrhyw PRS nad yw’n wasanaeth llinell sgwrsio, gwasanaeth cynnwys rhywiol, ICSS, neu sydd wedi’i eithrio o dan erthygl 3(5), ond sy’n dal i fod yn rhan o drothwyon rhifau a ffioedd CPRS.
- 3.50 Fe wnaethom ddiwygio’r diffiniad o wasanaeth llinell sgwrsio o’r diffiniad yn yr Amod PRS³⁹ i adlewyrchu’r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio PRS yn y Ddeddf. Roeddem hefyd wedi datgan y byddem yn diwygio’r diffiniad i eithrio rhai mathau eraill o CPRS er mwyn osgoi gorgyffwrdd diffiniadol rhwng CPRS a gwasanaethau llinellau sgwrsio eraill.
- 3.51 Fe wnaethom ailddiffinio gwasanaethau cynnwys rhywiol o’r ffordd y cawsant eu diffinio yng Nghod 15 i seilio’r diffiniad yn agosach ar Amod PRS Ofcom a’r Ddeddf. Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom ddweud bod y diffiniad yn disgrifio gwasanaeth cynnwys rhywiol fel un sy’n cynnwys cynnwys lle mae’n rhesymol tybio ei fod yn cael ei gynhyrchu’n unig neu’n bennaf at ddibenion ysgogi diddordebau neu ddyheadau rhywiol y defnyddiwr sy’n defnyddio’r gwasanaeth. Fe wnaethom ddweud y byddai hyn hefyd yn cysoni’r diffiniad o’r gwasanaethau hyn yn agosach â’r ffordd mae gwasanaethau sy’n darparu cynnwys tebyg yn cael eu disgrifio yn Neddf Diogelwch Ar-lein 2023.
- 3.52 Fe wnaethom hefyd ddweud ein bod yn cynnig symleiddio’r diffiniad presennol o ICSS, gan ei ganolbwyntio ar brif elfennau’r gwasanaeth ond na fyddai hyn yn newid y mathau o wasanaethau a gafodd eu cwmpasu o dan y diffiniad hwn yng Nghod 15.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 3.53 Ni chawsom unrhyw sylwadau sylweddol gan rhanddeiliaid mewn perthynas â’r diffiniadau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau llinellau sgwrsio, gwasanaethau cynnwys rhywiol neu ICSS.

Mae adran 151(1) y Ddeddf yn diffinio hyn fel “unrhyw wasanaeth cyfathrebu electronig a ddarperir er mwyn iddo fod ar gael i’w ddefnyddio gan aelodau o’r cyhoedd”.

³⁹Gweler paragraff 2(d) yr Amod PRS ([statement-review-of-the-premium-rate-services-condition.pdf](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/prs/prs_statement_review_of_the_premium_rate_services_condition.pdf) ([ofcom.org.uk](https://www.ofcom.gov.uk)))

- 3.54 Gofynnodd Action 4 Limited am ddiffiniad clir o “wasanaethau trothwy”.
- 3.55 Dywedodd CCL, yn ei ymateb i’r gofynion cyn-gontractiol ar fasnachwyr ar gyfer ICSS, nad yw Ofcom wedi “esbonio’n foddhaol pam ei bod yn iawn ac yn deg bod darparwyr DQ [darparwyr ymholiadau rhifau ffôn] yn cael eu heithrio o’r gofyniad FMF [munud cyntaf am ddim]”.

Ein penderfyniad

- 3.56 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r diffiniadau o wasanaeth trothwy, gwasanaeth llinell sgwrsio, gwasanaeth cynnwys rhywiol ac ICSS fel y cynigiwyd yn ein hymgyngoriad, ac eithrio ar gyfer mân ddiwygiadau i wneud y diffiniadau hyn yn gliriach, diwygiadau i fynd i’r afael â gorgyffwrdd diffiniadol fel y trafodir ym mharagraffau 3.106 i 3.109 a mân newidiadau drafftio i adlewyrchu y bydd rhai gwasanaethau’n cael eu heithrio o dan baragraff (2) yr erthyglau perthnasol ar gyfer gwasanaethau sgwrsio, gwasanaethau cynnwys rhywiol ac ICSS lle maent yn cael eu darparu drwy alwad sy’n terfynu ar rwydwaith electronig neu ar y tu allan i’r DU, neu pan fônt yn “wasanaeth porth personol” fel y disgrifir uchod.
- 3.57 Mewn perthynas â chais Action 4 Limited am ddiffiniad o wasanaeth trothwy, mae diffiniad o wasanaeth trothwy yn erthygl 4 o’r Gorchymyn PRS. Diben y diffiniad hwnnw yw nodi CPRS, ac eithrio’r rhai a enwir yn erthyglau 5 i 8 y Gorchymyn PRS, sy’n bodloni’r symiau pris penodol yn erthygl 3(2) a (3) ac nad ydynt wedi’u heithrio o dan erthygl 3(5).
- 3.58 Drwy ddefnyddio’r diffiniad hwn, mae’r Gorchymyn PRS yn nodi CPRS eraill y mae gofynion penodol ar eu cyfer o dan y Gorchymyn. Er enghraifft, defnyddir y cysyniad o wasanaeth trothwy yn erthygl 41 y Gorchymyn PRS i ddiffinio beth yw gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio, a pha ofynion y mae’n rhaid i’r gwasanaeth hwn gydymffurfio â nhw. I’r perwyl hwnnw, rydym o’r farn bod y diffiniad o “wasanaeth trothwy” yn glir ac rydym wedi penderfynu ei gynnwys yn y Gorchymyn PRS.
- 3.59 O ystyried nad ydym yn gwneud newidiadau sylweddol i’r diffiniadau hyn ac, felly, y mathau o wasanaethau a oedd yn cael eu rheoleiddio o dan God 15, rydym o’r farn mai bach iawn fyddai’r effaith ar ddarparwyr PRS.

Ystyr gwasanaeth tanysgrifio (erthygl 8)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 3.60 Roeddem yn cynnig ehangu’r diffiniad o wasanaeth tanysgrifio o’i gymharu â’r hyn a nodir ym mharagraff D.2.72 yng Nghod 15 i egluro’r gwahanol fathau o gontractau ar gyfer CPRS, lle nad ydynt yn cael eu darparu drwy alwad ac maent hefyd yn cael eu diffinio fel math o wasanaeth yn y Gorchymyn PRS, a all ddod o fewn cwrmpas gwasanaeth o’r fath. Er enghraifft, i gynnwys gwasanaethau plant neu wasanaethau cyngor proffesiynol.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 3.61 Mynegodd aimm a Donr Ltd bryderon nad oedd yn ymddangos bod ein cynnig yn caniatáu i loteri cymdeithas weithredu fel gwasanaeth tanysgrifio. Nodasant ei bod yn ymddangos bod y Gorchymyn PRS drafft yn ystyried gwasanaethau loteri cymdeithas naill ai fel cynnyrch ar ei ben ei hun neu fel rhan o wasanaeth gamblo. Roeddent yn dadlau y byddai’n

well cyfeirio at wasanaethau loteri a gwasanaethau gamblo cymdeithas yn benodol fel dau gynnig ar wahân a'u cynnwys o dan ddarpariaethau gwasanaeth tanysgrifio.

- 3.62 Roedd Infomedia Services Limited (Infomedia) yn poeni ei bod yn ymddangos bod y diffiniadau yn y Gorchymyn PRS drafft yn hepgor categori mawr o wasanaeth PRS, sef gwasanaethau tanysgrifio neu dalu untro nad ydynt yn dod o dan y categorïau a nodir yn yr erthygl 8 drafft. Dywedodd nad yw'n glir a yw hyn yn fwriadol a nododd fod paragraff 4.13 y ddogfen ymgynghori yn dweud mai ein bwriad oedd rheoleiddio grŵp mwy cyfyng o PRS. Dywedodd hefyd fod y mathau o wasanaethau y mae'n cyfeirio atynt, ac sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd gan y PSA, yn cael eu talu amdanynt yn yr un ffordd â CPRS ond nad ydynt yn cael eu "darparu drwy gyfrwng gwasanaeth cyfathrebu electronig" (erthygl 3(3)(b)). Mae hyn yn cynnwys "prynu cynnwys digidol mewn apiau e.e. cerddoriaeth, fideos, neu ddarparu ap neu wasanaeth gwe ei hun, fel gwasanaeth ffrydio fideo."

Ein penderfyniad

- 3.63 Rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r diffiniad o wasanaethau tanysgrifio yn bennaf gan ein bod wedi'i gynnig gyda rhai newidiadau i'r drafft i wella eglurder (gweler Atodiad 3 – Tabl Newidiadau) a newid i gynnwys gwasanaethau loteri cymdeithas ar y rhestr o CPRS sy'n dod o fewn cwmpas yr erthygl. Rydym hefyd wedi dileu'r cyfeiriad at hawl defnyddiwr i derfynu'r contract oherwydd bod erthygl 33 yn rhoi hawl o'r fath i'r defnyddiwr.
- 3.64 Roedd y cyfeiriad at "wasanaeth trothwy perthnasol" yn erthygl 8(1)(a)(iv) y Gorchymyn PRS drafft yn ceisio cofnodi gwasanaethau trothwy fel gwasanaethau loteri cymdeithas sy'n gweithredu fel gwasanaeth tanysgrifio. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson â gwasanaethau eraill a ddiffinnir yn y Gorchymyn PRS ac a restrir ar wahân yn erthygl 8 fel rhai sy'n gallu bod yn wasanaethau tanysgrifio, rydym bellach wedi cynnwys yn benodol yn erthygl 8(2)(e) gyfeiriad at wasanaeth loteri cymdeithas i ddileu unrhyw amheuaeth y gallai gwasanaethau o'r fath ddod o fewn ystyr gwasanaeth tanysgrifio.
- 3.65 Fodd bynnag, nid ydym yn cytuno bod ein diffiniad arfaethedig o "wasanaethau tanysgrifio" yn hepgor gwasanaethau tanysgrifio neu dalu untro nad ydynt yn dod o dan y categorïau a nodir yn erthygl 8 y Gorchymyn PRS. Yn benodol, rydym yn nodi bod y cysyniad o "wasanaeth trothwy" yn cynnwys ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau tanysgrifio neu dalu untro.
- 3.66 Rydym hefyd yn nodi bod Infomedia wedi cyfeirio at baragraff 4.13 yn y ddogfen ymgynghori fel un sy'n nodi bwriad i reoleiddio grŵp mwy cyfyng o PRS. Mae paragraff 4.13 yn egluro bod yr Amod PRS yn berthnasol i grŵp mwy cyfyng o PRS o'r enw CPRS, gyda pharagraff 4.14 yn egluro bod y gofynion presennol yng Nghod 15 ond yn berthnasol i CPRS o dan yr Amod PRS. Yn yr achos hwn, nid yw hwn yn fwriad newydd ond yn hytrach yn nodi bod CPRS yn cael eu rheoleiddio o dan yr Amod PRS (ac y bydd yn parhau i gael eu rheoleiddio o dan y Gorchymyn PRS).
- 3.67 O ran sylw Infomedia ynghylch "prynu mewn apiau" a'r cyfeiriad yn erthygl 3(3)(a) y Gorchymyn PRS drafft at "wasanaeth cyfathrebu electronig", rydym yn nodi bod y trothwy a nodir yn yr erthygl hon yn ceisio adlewyrchu'r diffiniad o CPRS o dan yr Amod PRS⁴⁰ lle

⁴⁰ Mae'r diffiniad yn 2(e) yn nodi: Mae "Gwasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir" yn golygu Gwasanaeth Cyfradd Premiwm (ac eithrio gwasanaeth sy'n cael ei ddefnyddio drwy Alwad Ryngwladol yn unig neu

mae'n cyfeirio at drothwy 10 ceiniog. Mae'r diffiniad hwnnw hefyd yn cyfeirio at wasanaeth a geir drwy alwad heblaw drwy Rif PRS, neu sy'n cael ei ddarparu fel arall drwy wasanaeth cyfathrebu electronig. Felly, rydym yn anghytuno â Infomedia gan ein bod o'r farn y byddai'r "prynu mewn apiau" y mae'n cyfeirio ato yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad hwnnw yn yr Amod PRS ac rydym o'r farn y byddai hefyd yn cael ei gwmpasu gan erthygl 3(3)(a). Rydym wedi dewis peidio â chyfyngu'r erthygl hon i "alwad" ond rydym wedi cyfeirio at "cyfathrebiad electronig" i sicrhau eu bod o fewn y cwmpas.

Ystyr darparwr PRS a gweithgaredd a reoleiddir etc. (erthygl 9)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 3.68 Yn ein hymgyngoriad, fe wnaethom ddweud ein bod yn bwriadu parhau i reoleiddio'r un mathau o ddarparwyr PRS ag o dan God 15. Fodd bynnag, roeddem yn cynnig defnyddio diffiniadau gwahanol er mwyn adlewyrchu'r Ddeddf, yn benodol adrannau 120(9) a 151, sy'n nodi pryd mae person yn darparu PRS.
- 3.69 Roeddem yn cynnig cadw dull y PSA o reoleiddio'r gwahanol bartïon yng nghadwyn gwerth PRS: gweithredwyr rhwydwaith, cyfryngwyr a masnachwyr. Er ein bod yn cynnig defnyddio diffiniadau gwahanol ar gyfer y partïon hyn, roeddem wedi nodi y byddai'r gofynion sylweddol roeddem yn cynnig eu rhoi ar waith ar gyfer pob un o'r darparwyr PRS hynny yn dal yn weddol gyson â Chod 15.
- 3.70 Yn benodol, roeddem yn cynnig:
- a) byddai "cyfryngwr" yn cael ei ddiffinio i gyd-fynd â'r darpariaethau yn a120(9)(c) a (d) y Ddeddf;
 - b) byddai "masnachwr" yn cael ei ddiffinio i gyd-fynd â'r ddarpariaeth yn a120(9)(a) y Ddeddf; a
 - c) byddai "darparwr rhwydwaith" yn cael ei ddiffinio i gyd-fynd â'r darpariaethau yn a120(10) a 120(11) y Ddeddf;
- 3.71 Roeddem hefyd wedi datgan y byddem yn cyfyngu ar gymhwyso adran 120(13) drwy ganolbwyntio erthygl 9(8) a 9(9) y Gorchymyn PRS drafft ar gyfryngwyr a masnachwyr. Fe wnaethom ddweud ein bod yn credu mai dim ond y darparwyr hyn, yn ymarferol, fydd yn ymwneud â phobl eraill yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer CPRS.
- 3.72 Roeddem hefyd yn cynnig cynnwys diffiniad o "weithgaredd a reoleiddir" a fyddai'n nodi'r mathau o weithgareddau a gyflawnir gan ddarparwyr PRS mewn perthynas â CPRS a fyddai

wasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy Wasanaeth Cyfathrebiadau Electronig ac sy'n cael ei ddarparu gan y sawl sydd hefyd yn darparu'r Gwasanaeth Cyfathrebiadau Electronig) sy'n perthyn i un neu fwy o'r categorïau canlynol: ...

(ii) mae'r gwasanaeth yn cael ei gaffael drwy ddull ar wahân i rif PRS, a bod y tâl am yr alwad drwy'r dull y ceir y gwasanaeth neu'r gyfradd y codir yr alwad yn ei erbyn **yn dâl neu'n gyfradd sy'n fwy na 10 ceiniog y funud gan gynnwys treth ar werth (ac sydd hefyd yn cynnwys, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, gwasanaeth a ddarperir drwy gyfrwng Gwasanaeth Cyfathrebiadau Electronig a godir drwy gyfrwng Mekanwaith Talu ac y mae'r tâl yn fwy na 10 ceiniog, yn cynnwys treth ar werth)**.

o fewn cwmpas y Gorchymyn PRS. Dywedasom mai'r bwriad oedd cysoni'r diffiniadau hyn â'r iaith statudol.

- 3.73 Yn benodol, roeddem yn cynnig y byddai "gweithgaredd a reoleiddir" yn cynnwys amgylchiadau pan fo:
- masnachwr yn darparu CPRS i ddefnyddiwr;
 - cyfryngwr yn darparu gwasanaeth sy'n dod o dan erthygl 9(2) y Gorchymyn PRS drafft; a
 - gweithredwr rhwydwaith yn trefnu bod gwasanaeth cyfathrebu electronig, neu rwydwaith cyfathrebu electronig, ar gael mewn ffordd sy'n bodloni'r diffiniadau yn erthygl 9(6)(a) neu 9(7)(a) y Gorchymyn PRS drafft. Dywedasom y byddai'n cynnwys hyrwyddo a marchnata CPRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

Diffiniad o "Fasnachwr"

- 3.74 Dywedodd y BBC nad yw'r Gorchymyn PRS drafft yn cynnwys holl elfennau'r diffiniad o PRS yn a120 y Ddeddf. Yn benodol, dywedodd nad yw a.120(9)(b)⁴¹ yn cael ei weld yn benodol mewn unrhyw ran o'r Gorchymyn PRS drafft, er ei fod yn y Ddeddf ac yn cael ei ailadrodd yn yr Amod PRS (yn 2(g)(ii)).
- 3.75 Aeth y BBC ymlaen i egluro bod rheolaeth olygyddol yn rhan bwysig o'i rôl fel darparwr PRS ac roedd yn poeni y byddai ein diffiniad arfaethedig o fasnachwr yn golygu y byddai allan o gwmpas yn y pen draw, ac yn groes i'w Ganllawiau Golygyddol ei hun. Dywedodd hefyd, gan mai un o'r canlyniadau a dymunir gan Ofcom yw rheoleiddio cynnwys tramgwyddus neu amhriodol (adran ymgynghori 2.6(c)), byddai cadw elfen rheolaeth olygyddol y diffiniad "darparu" o'r Ddeddf yn helpu i gyflawni hyn. Mae hyn yn cysylltu â'i ymholiad, a drafodir isod ym mharagraff 3.76, ynghylch sut byddai'r Gorchymyn PRS drafft yn berthnasol i ddau fasnachwr yn yr un gadwyn gwerth.
- 3.76 Gofynnodd y BBC hefyd am eglurhad ynghylch y diffiniad o "darparu" i sicrhau ei fod yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad o fasnachwr yn erthygl 9(4) y Gorchymyn PRS drafft. I'r perwyl hwnnw, awgrymodd y BBC ddiwygio'r diffiniad arfaethedig o "darparu" a nodir yn erthygl 9(10) y Gorchymyn PRS drafft, gan awgrymu bod yr erthygl yn cael ei hailddrafftio i gynnwys y canlynol sydd wedi'i danlinellu:

"9(10) Dylai "Darparu", mewn perthynas â gwasanaethau cyfradd premiwm, gael ei ddehongli â'r ystyr (a dim ond cyn belled â)-

- yn achos cyfryngwr, bod y person yn darparu'r gwasanaeth a ddisgrifir ym mharagraff (2),*
- yn achos masnachwr, bod gan y person reolaeth olygyddol dros gynnwys y PRS rheoledig neu sy'n darparu'r PRS rheoledig fel y'i disgrifir ym mharagraff (4), ac*

⁴¹Mae adran 120(9)(b) y Ddeddf yn nodi bod person yn darparu PRS os yw'n arfer rheolaeth olygyddol dros gynnwys y PRS. Mae paragraff 2(g)(ii) yr Amod PRS yn adlewyrchu hyn fel un o'r elfennau sy'n ffurfio'r diffiniad ar gyfer "Darparwr Gwasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir".

- c. yn achos gweithredydd rhwydwaith, bod y person sy'n darparu'r gwasanaeth neu'r rhwydwaith i'w ddefnyddio fel a ddisgrifir ym mharagraff (6)(a) neu (7)(a) (yn ôl fel y digwydd), ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hyn."

- 3.77 Roedd Action 4 Limited a TalkTalk hefyd wedi darparu sylwadau am ddiffyg eglurder ynghylch pwy yw'r darparwr cyfrifol yn y gadwyn gwerth.
- 3.78 Gofynnodd y BBC a BBC Plant mewn Angen hefyd beth sy'n digwydd pan fydd dau fasnachwr mewn cadwyn gwerth.
- 3.79 Holodd Donr Ltd hefyd am ddiffiniad o fasnachwr, gan ofyn beth oedd ystyr "*darparu PRS rheoledig*".

Siopau apiau

- 3.80 Roedd Apple yn poeni y gellid darllen y Gorchymyn PRS drafft fel awgrym bod siopau apiau yn gweithredu fel cyfryngwyr yn fras, pan nad yw hyn yn wir am Apple Distribution International Limited ("ADIL"), is-gwmni i Apple Inc., sef y masnachwr ar gyfer cynnwys digidol a brynir drwy App Store. Felly, roedd yn croesawu'r eglurhad bod gan ddarparwyr hyblygrwydd i asesu'r rôl maent yn ei chwarae yn yr ecosystem ar sail eu modelau busnes eu hunain, a chymryd camau cymesur i gyflawni amcan y Gorchymyn PRS drafft o fynd i'r afael â niwed i ddefnyddwyr.
- 3.81 Mynegodd BT, Mobile UK, VMO2 a Vodafone bryder bod ein diffiniadau arfaethedig o "ddarparwyr rheoleiddiedig" wedi'u cyfyngu i fasnachwyr, cyfryngwyr a rhwydweithiau ac nad ydynt yn diffinio'n glir beth yw "siop apiau".
- 3.82 Nododd BT ei fod yn credu y dylid ychwanegu siopau apiau at y "diffiniad o PRS", gan fod cyfran fawr o'r farchnad bellach yn cael ei gyrru gan siopau apiau. Rydym yn deall bod hyn yn golygu bod BT o'r farn, a rennir gan nifer o ymatebwyr eraill (a nodir isod), y dylid ychwanegu siopau apiau fel categori arall o ddarparwr PRS. Mae hyn oherwydd bod BT yn credu y dylai siopau apiau gael eu rheoleiddio'n uniongyrchol gan Ofcom, yn hytrach na'r hyn roedd yn ei weld yn digwydd yn anuniongyrchol drwy eu perthynas â darparwyr PRS eraill yn y gadwyn gwerth.
- 3.83 Argymhellodd ein bod yn ceisio cau'r bwll hwn drwy ychwanegu disgrifiad cliriach a diffiniad o "siopau apiau" yn yr erthygl hon i gynnwys yn benodol y darparwyr hynny sy'n rhannu'r un nodweddion â'r sefydliadau arfaethedig y cyfeirir atynt fel "siopau apiau". Awgrymodd Mobile UK ychwanegu disgrifiad cliriach o siopau apiau at erthygl darparwyr PRS, gan gyfeirio o bosibl at gyrhaeddiad daearyddol, nifer y cysylltiadau rhwydwaith byd-eang, trosiant ariannol neu ddisgrifyddion eraill y mae'n ofynnol i siopau apiau eu cael i ddod o fewn cwmpas y Gorchymyn PRS drafft. Dywedodd VMO2 hefyd y dylai'r Gorchymyn PRS drafft gadarnhau pa rôl y bydd Ofcom yn ei chwarae o ran siopau apiau.
- 3.84 Dywedodd Vodafone hefyd, er bod y diffiniadau ar gyfer masnachwyr, cyfryngwyr a gweithredwyr rhwydwaith wedi cael eu cofnodi'n briodol yn yr erthygl Darparwyr PRS, roedd bwll mewn perthynas â siopau apiau y dylai Ofcom ei bontio "*gan nodi'n glir beth mae'n ei ystyried sy'n siop apiau a datgan yn benodol bod hyn yn cynnwys siopau apiau'r cwmnïau byd-eang mwyaf.*" Aeth Vodafone ymlaen i ddweud, pe na bai Ofcom yn gwneud hyn, ei bod yn debygol y byddai canlyniadau anfwriadol o ran yr eithriad cofrestru (erthygl 11 y Gorchymyn PRS drafft) a gofynion diwydrwydd dyladwy a risg (Rhan 4 y Gorchymyn PRS drafft). Trafodir eu sylwadau mewn perthynas â'r rhain yn yr adrannau perthnasol ar gyfer y pynciau hyn.

Rhoddion elusennol

- 3.85 Dywedodd aimm, y BBC, BBC Plant mewn Angen ac MCP Insight Ltd fod y term “masnachwr” wedi cael ei drosglwyddo o God 15 ac nad yw’n cefnogi defnyddio rhoddion elusennol yn benodol. Roeddent o’r farn bod y term “darparwr” yn derm mwy cynhwysol y gellid ei fabwysiadu i gofnodi sbectrwm llawn achosion defnydd cyfradd premiwm yn well. Ar ben hynny, gofynnodd BBC Plant mewn Angen am eglurder ynghylch sut byddai’r diffiniad o “fasnachwr” yn berthnasol yng nghyd-destun elusen a beth sy’n diffinio PRS.

Ein penderfyniad

- 3.86 Rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r diffiniadau o ddarparwr PRS a gweithgareddau sy’n cael eu rheoleiddio fel sy’n cael eu cynnig yn ein hymgyngoriad.

Diffiniad o Fasnachwr

- 3.87 Mae’r diffiniad o “masnachwr” fel y cynigir yn y Gorchymyn PRS drafft (ac yn awr yn erthygl 9(5) y Gorchymyn PRS) yn datgan bod “masnachwr” yn golygu “person sy’n darparu PRS rheoledig i ddefnyddiwr”. Mae’r diffiniad hwn yn seiliedig ar a.120(9) y Ddeddf, sy’n nodi’r gweithgareddau a fydd yn gyfystyr â pherson sy’n darparu PRS. Mae hyn yn cynnwys, yn a.120(9)(a), darparu cynnwys PRS. Mae’r diffiniad o “darparwr masnachol” ym mharagraff D.1.9 o God 15 hefyd yn nodi: “Darparwr masnachol yw’r person sy’n rheoli neu’n gyfrifol am weithredu, cynnwys a hyrwyddo’r PRS perthnasol a/neu ddefnyddio unrhyw gyfleuster yn y PRS.” Ymddengys bod y cyfeiriad at “cynnwys” ym mharagraff D.1.9 yn ymwneud ag a.120(9)(a), fel bod masnachwr yn darparu’r cynnwys, naill ai drwy ei “gyfrifoldeb” ei hun neu o dan ei “rheolaeth” (yn rhinwedd a.120(13) y Ddeddf. Felly, rydym o’r farn bod eglurder ynghylch rôl masnachwyr sy’n ymateb i sylwadau a godwyd gan Action 4 Limited a TalkTalk ynghylch pwy yw’r darparwr cyfrifol yn y gadwyn gwerth.
- 3.88 Rydym hefyd wedi ystyried sylwadau’r BBC sy’n ymwneud â rheolaeth olygyddol yn ofalus. Nid ydym yn ystyried bod angen cynnwys cyfeiriad at reolaeth olygyddol (gan adlewyrchu a.120 (9)(b) y Ddeddf) o fewn y diffiniad o fasnachwr yn y Gorchymyn PRS (neu mewn man arall). Y rheswm am hyn yw ein bod yn ceisio bod yn glir ac yn syml o ran sut mae’r gofynion o dan y Gorchymyn PRS yn berthnasol i’r gadwyn gyflenwi. Ein barn ni yw y dylai’r rheini sy’n darparu CPRS i ddefnyddwyr gael eu rheoleiddio fel masnachwyr a phan fyddant yn cyflogi neu’n ymgysylltu â phartion eraill fel rhan o’r ddarpariaeth honno dylent fod yn atebol i ddefnyddwyr.
- 3.89 O’r herwydd, ein barn ni yw, pan fydd partion eraill yn defnyddio rheolaeth olygyddol yn unig, nad ydynt yn darparu’r gwasanaeth i’r defnyddiwr.
- 3.90 O ran sylwadau’r BBC, nid ydym yn credu bod y ffaith nad yw’r Gorchymyn PRS yn adlewyrchu a.120(9)(b) y Ddeddf yn arwain at unrhyw wrthdaro â Chanllawiau Golygyddol y BBC. Hefyd nid ydym yn glir sut byddai’r Gorchymyn PRS yn ymyrryd â rheolau a phrosesau lefel uchel y BBC sydd wedi’u nodi yng Nghanllawiau Golygyddol y BBC.
- 3.91 Mewn perthynas â “darparu” fel yr awgrymwyd gan y BBC, ac a oedd hefyd yn destun ymholiad gan Donr Ltd, rydym o’r farn bod yr esboniad o’r hyn a olygir wrth ddarparu gwasanaeth yn erthygl 9(11) y Gorchymyn PRS yn ddigon clir ynghylch pryd mae pob darparwr yn darparu PRS rheoledig ac felly nid oes angen unrhyw ddiwygiadau pellach i’r Gorchymyn PRS.
- 3.92 Nodwn hefyd y gofynnodd y BBC a BBC Plant mewn Angen hefyd beth sy’n digwydd pan fydd dau fasnachwr mewn cadwyn gwerth. Bydd angen asesu hyn fesul achos, gan ystyried

a yw un o'r personau hynny'n cael ei "gyflogi neu'n gysylltiedig o dan gyfarwyddyd y llall" o dan erthygl 9(6) y Gorchymyn PRS sy'n dweud:

"Pan fo un neu ragor o bobl yn cael eu cyflogi neu'n gysylltiedig o dan gyfarwyddyd y llall i ddarparu PRS rheoledig, dim ond y person arall hwnnw sydd i gael ei drin fel y masnachwr sy'n darparu'r PRS rheoledig i'r defnyddiwr."

Siopau apiau

- 3.93 Rydym wedi ystyried sylwadau Apple, gan gynnwys eu cais am hyblygrwydd i ddarparwyr asesu'r rôl maent yn ei chwarae yn yr eco-system ar sail eu modelau busnes eu hunain. Fel rydym wedi ei egluro, rydym wedi ceisio cysoni ein diffiniad o ddarparwyr PRS yn agosach â'r diffiniadau a nodir yn a120(9) y Ddeddf ac, o'r herwydd, mater i ddarparwyr PRS eu hunain yw gofyn am eu cyngor cyfreithiol eu hunain ynghylch a fyddai eu gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu CPRS yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad hwn ai peidio.
- 3.94 Rydym o'r farn y byddai siopau apiau yn cael eu cwmpasu gan y diffiniad o gyfryngwr lle maent yn ymgymryd â'r gweithgareddau perthnasol a grybwyllir yn erthygl 9(2) y Gorchymyn PRS drafft. O ran creu categori ar wahân o ddarparwr PRS ar gyfer siopau apiau, yn y pen draw rydym wedi ein rhwymo gan ystyr statudol person sy'n darparu PRS yn adran 120(9) y Ddeddf.
- 3.95 Nodwn, fodd bynnag, y cyfeirir yn benodol at siop apiau yn erthygl 11 lle mae'n gyfryngwr sy'n bodloni'r amodau yn yr erthygl hon. Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn diffinio siop apiau yn erthygl 11(10) y Gorchymyn PRS, fel a ganlyn:
- Ystyr "siop apiau" yw cyfleuster ar-lein⁴² lle gall defnyddiwr - bori drwy apiau ar-lein, neu lawrlwytho ap ar ddyfais electronig"*
- 3.96 Nodwn fod y diffiniad hwn yn cyd-fynd â sut mae'r cysyniad o siopau apiau wedi'i nodi yng Nghod Ymarfer gwirfoddol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ar gyfer gweithredwyr siopau apiau a datblygwyr apiau. Cafodd y Cod ei ddiweddarau ym mis Hydref 2023 a rhoddwyd tan fis Mehefin 2024 i weithredwyr a datblygwyr gydymffurfio â'r Cod.⁴³ Mae'r ddogfen yn diffinio siop apiau fel:
- "Marchnad ddigidol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr lawrlwytho apiau sydd wedi cael eu creu gan ddatblygwyr, gan gynnwys datblygwyr ar wahân i ddatblygwyr y siop apiau. Mae siopau apiau nid yn unig yn lletya apiau, gan eu bod hefyd yn gweithredu fel blaenau siopau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr bori am apiau, fel drwy swyddogaethau chwilio."*
- 3.97 Rydym o'r farn bod ein diffiniad arfaethedig o siop apiau yn y Gorchymyn PRS yn glir ac yn cyd-fynd â sut mae'r cysyniad yn cael ei ddeall yn eang yn y diwydiant PRS yn ogystal â'r diwydiannau ehangach.

Rhoddion elusennol

⁴²Diffinnir "cyfleuster ar-lein" hefyd yn erthygl 11 y Gorchymyn PRS i olygu "gwefan, neu unrhyw fodd arall y mae gwybodaeth ar gael dros y rhyngwrdd, sy'n hwylyso cyflenwi rhaglenni neu ddata arall a gynhyrchir ac a gyflenwir ar ffurf ddigidol drwy'r wefan neu drwy ddulliau eraill gan bersonau ar wahân i'r gweithredwr (pa un a yw'r gweithredwr hefyd yn cyflenwi'r pethau hynny drwy'r cyfleuster ai peidio".

⁴³ [Code of practice for app store operators and app developers \(updated\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/115442/code_of_practice_for_app_store_operators_and_app_developers_updated.pdf)

- 3.98 Nid oedd rhanddeiliaid yn glir pam nad yw'r term "masnachwr" yn cefnogi defnyddio rhoddion elusennol.
- 3.99 Mae'r diffiniad o "masnachwr", yr ydym wedi'i ddefnyddio yn erthygl 9(5) y Gorchymyn PRS, sy'n adlewyrchu iaith y Ddeddf, yn diffinio "masnachwr" fel y parti sy'n darparu'r CPRS i ddefnyddiwr. Mae hyn yn cyd-fynd â'n dull gweithredu i barhau i reoleiddio'r un mathau o ddarparwyr PRS ag o dan God 15, ond gan ddefnyddio diffiniadau gwahanol i adlewyrchu'r diffiniadau yn y Ddeddf.
- 3.100 Rydym o'r farn bod defnyddio'r term "masnachwr" yn elwa o fod yn label sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio a'i ddeall gan y diwydiant PRS. Mae'n ymddangos mai'r awgrym a godwyd gan yr ymatebwyr hyn yw bod "masnachwr" yn ei ystyr naturiol yn awgrymu elw, sy'n groes i gyd-destun elusennol. Fodd bynnag, nid yw ein diffiniad o "masnachwr" yn cyfeirio at elw ond yn hytrach mae'n canolbwyntio ar y ffaith y bydd person yn fasnachwr pan fo'n darparu'r CPRS. Ar y sail honno, credwn fod y diffiniad hwn yn gweithio mewn perthynas ag elusennau hefyd.
- 3.101 Nid ydym chwaith yn cytuno y byddai newid y termau i "darparwr" neu "darparwr gwasanaeth" yn fwy cynhwysol oherwydd, yn ein barn ni, mae'n llawer rhy eang ac y gallai arwain at ddiffyg eglurder o ran cyfrifoldebau rheoleiddio o ystyried bod y termau "darparwr PRS" yn cael eu defnyddio drwy'r Gorchymyn PRS i ddisgrifio'r gadwyn gwerth.
- 3.102 O ran y cwestiwn gan BBC Plant mewn Angen am yr hyn sy'n diffinio PRS, mae hwn yn derm sy'n cael ei ddiffinio o dan y Ddeddf ac, yn benodol, adran 120(7) y Ddeddf.

Diffiniadau sy'n gorgyffwrdd

- 3.103 Rydym wedi nodi o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mewn rhai achosion, y gallai'r ffordd yr oeddem yn bwriadu delio ag un gwasanaeth gael ei drin fel gwasanaeth sy'n dod o fewn diffiniad penodol ac, o ganlyniad, sut y dylai'r gwasanaeth diffiniedig hwnnw wedyn gael ei drin o dan amrywiol ddarpariaethau, achosi cymhlethdod diangen. Mae'n ymddangos bod cymhlethdod o'r fath yn deillio'n benodol o wahanol ddiffiniadau yn y Gorchymyn PRS drafft lle mae gwasanaethau'n cael eu diffinio fel "yn cynnwys" neu "â phrif nodwedd" rhywbeth – er enghraifft, cynnwys rhywiol.
- 3.104 Rydym felly wedi adolygu pob diffiniad o'r fath ynghyd â'r darpariaethau y'u defnyddir ynddynt. Ein dull gweithredu cyffredinol fu disodli iaith o'r fath gyda "yn cynnwys" yn y rhan fwyaf o achosion. Er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaeth cynnwys rhywiol, y bwriad polisi yw bod yn rhaid i wasanaethau sy'n darparu unrhyw gynnwys o'r fath gael eu dosbarthu fel y math hwn o wasanaeth er mwyn amddiffyn plant rhag cael gafael arno. Credwn fod "yn cynnwys" yn gwneud hyn yn glir.
- 3.105 Wrth wneud y newidiadau hyn, nodwn ei bod yn bosibl i wasanaeth penodol hefyd fodloni'r diffiniadau o wasanaethau eraill. Rydym o'r farn nad yw hyn yn codi unrhyw faterion ymarferol o ran eglurder gofynion o dan y Gorchymyn PRS. Bwriad y polisi yw y bydd y senarios canlynol yn berthnasol yn yr achosion hyn:
- a) bydd gwasanaethau yn ddarostyngedig i'r un rheolau o dan y Gorchymyn PRS fel nad oes ots pa ddiffiniad o'r ddau wasanaeth sy'n berthnasol. Er enghraifft, mae sgwrsio, cynnwys rhywiol a gwasanaethau adloniant byw i gyd yn ddarostyngedig i erthyglau 25, 46, 47 a 48 y Gorchymyn PRS drafft, neu

b) bydd gwahanol reolau'n berthnasol i wasanaethau o dan y Gorchymyn PRS ond ni fydd gorfod cydymffurfio â'r ddwy set o reolau yn arwain at unrhyw faterion ymarferol. Y rheswm am hyn yw bod y rheolau'n gydnaws – er enghraifft, gweler erthygl 50 y Gorchymyn PRS drafft, lle mai bwriad y polisi yw y bydd yn rhaid i ICSS a ddarperir i blentyn gydymffurfio â'r cap codi tâl is yn erthygl 49 yn hytrach nag erthygl 50. Felly, mae Erthygl 50 yn cynnwys eithriad priodol ar gyfer ICSS a ddarperir i blentyn. Ail enghraifft yw y bydd angen i wasanaeth cystadleuaeth neu bleidleisio sydd wedi'i anelu at blentyn, neu a allai apelio'n rhesymol at blentyn, gydymffurfio ag erthygl 23 y Gorchymyn PRS, yn ogystal â'r rheolau cystadleuaeth neu bleidleisio ym mhennod 6 Rhan 6 y Gorchymyn PRS.

3.106 Mae tri eithriad lle rydym wedi penderfynu peidio â defnyddio'r dull uchod. Maent yn ymwneud â "gwasanaethau adloniant byw" (erthygl 25(4)), "gwasanaethau loteri cymdeithas" (erthygl 53(4)) a "gwasanaethau tipwyr betio" (erthygl 52(4)). Gweler adran 8 y datganiad hwn am esboniad llawn o'r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â'r diffiniad o "wasanaeth adloniant byw". Mewn perthynas â "gwasanaethau loteri cymdeithas" a "gwasanaethau tipwyr betio", defnyddir y diffiniadau hyn i eithrio'r gwasanaethau o'r rheolau perthnasol. Felly, rydym wedi defnyddio "yn unig" (yn hytrach na "yn cynnwys") i lunio'r ffin angenrheidiol.

Diffiniadau eraill

3.107 Rydym yn nodi isod restr o'r holl ddiffiniadau eraill o CPRS a ddefnyddir yn y Gorchymyn PRS (nad ydynt yn cael eu trafod uchod) a chroesgyfeiriad at y manau y maent yn cael eu trafod yn y ddogfen hon.

<i>Term</i>	<i>Lle gallwch weld y diffiniad yn y Gorchymyn PRS</i>	<i>Lle trafodir y diffiniad yn y datganiad</i>
<i>Diffiniadau CPRS (ar wahân i linell sgwrsio, cynnwys rhywiol, ICSS a thanysgrifiadau):</i>		
<i>gwasanaeth tipwyr betio</i>	<i>erthygl 52(4)</i>	<i>10.94 – 10.101</i>
<i>gwasanaeth plant</i>	<i>erthygl 23(2)</i>	<i>8.39 – 8.49</i>
<i>gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio</i>	<i>erthygl 41(1)</i>	<i>9.4 – 9.13</i>
<i>gwasanaeth adloniant byw</i>	<i>erthygl 25(4)</i>	<i>8.4 – 8.9</i>
<i>gwasanaeth cyngori proffesiynol</i>	<i>erthygl 51(3)</i>	<i>10.90 – 10.93</i>
<i>gwasanaeth rhoddion cylchol</i>	<i>erthygl 28(6)</i>	<i>6.32 – 6.40</i>
<i>gwasanaeth gamblo o bell</i>	<i>erthygl 52(4)</i>	<i>10.94 – 10.101</i>
<i>gwasanaeth loteri cymdeithas</i>	<i>erthygl 53(4)</i>	<i>3.109</i>

<i>gwasanaeth sgwrsio rhithwir</i>	<i>erthygl 31(5)</i>	7.4 – 7.13
------------------------------------	----------------------	------------

- 3.108 Dylid nodi ein bod yn defnyddio termau eraill yn y Gorchymyn PRS, fel “uwch reolwyr”, lle mae diffiniadau o dermau o’r fath yn cael eu nodi yn yr erthyglau eu hunain.
- 3.109 Mae'r tabl isod yn esbonio'r termau a ddiffinnir yn y Ddeddf y bydd eu hystyr statudol yn trosglwyddo i'r Gorchymyn PRS, pan ddefnyddir y termau hynny, o ganlyniad i adran 11 Deddf Dehongli 1978. Darperir y tabl er gwybodaeth ac nid yw'n rhan o'r Gorchymyn PRS.

<i>Term diffiniedig</i>	<i>Lle gallwch weld y diffiniad yn y Ddeddf</i>
<i>mabwysiadu</i>	<i>s.151(1)</i>
<i>dyraniad</i>	<i>s.151(1)</i>
<i>defnyddwyr</i>	<i>s.405(5)</i>
<i>darparwr cyfathrebu</i>	<i>s.405(1)</i>
<i>cwsmer</i>	<i>s.405(1)</i>
<i>rhwydwaith cyfathrebu electronig</i>	<i>s.32</i>
<i>gwasanaethau cyfathrebu electronig</i>	<i>s.32</i>
<i>cyfleuster</i>	<i>s.120(14)</i>
<i>gwybodaeth</i>	<i>s.405(1)</i>
<i>gwasanaeth mynediad i'r rhyngwyd</i>	<i>s.32(2B)</i>
<i>Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol</i>	<i>s.56(1)</i>
<i>OFCOM</i>	<i>s.405(1)</i>
<i>gwasanaethau cyfradd premiwm</i>	<i>s.120(7)</i>
<i>darparwr cyfathrebiadau cyhoeddus</i>	<i>s.151(1)</i>
<i>rhwydwaith cyfathrebiadau electronig cyhoeddus</i>	<i>s.151(1)</i>
<i>gwasanaeth cyfathrebiadau electronig cyhoeddus</i>	<i>s.151(1)</i>
<i>rhif ffôn</i>	<i>s.151(1)</i>

4. Cofrestru

- 4.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau ynghylch gofynion cofrestru sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 2 y Gorchymyn PRS, gyda manylion atodol wedi'u nodi yn Atodlenni 1 a 2.
- 4.2 Yn gryno, rydym wedi penderfynu:
- a) bwrw ymlaen â chynllun cofrestru gorfodol, gan gynnwys gofynion ar ddarparwyr i:
 - i) rhoi gwybodaeth benodol amdanynt eu hunain i Ofcom ac, yn achos masnachwyr, eu gwasanaethau;
 - ii) penodi "person ag awdurdod cyffredinol" mewn rôl uwch reolwr a rhoi manylion i Ofcom am y person hwnnw; a
 - iii) diweddarur'r wybodaeth a ddarparwyd o fewn pum diwrnod gwaith i unrhyw newid (gweler paragraffau 4.39 a 4.40).
 - b) bwrw ymlaen â'n cynnig i esemptio masnachwyr sy'n gweithredu drwy un cyfryngwr neu siop apiau rhag cofrestru ar yr amod bod y "cyfryngwr cymwys" hwnnw:
 - i) wedi'i gofrestru ei hun fel darparwr PRS ac yn diweddarur ei gofrestriad; ac,
 - ii) wedi rhoi ymrwymiad cyffredinol i Ofcom y bydd yn bodloni'r amodau angenrheidiol, gan gynnwys cadw cofnodion perthnasol unrhyw fasnachwyr esempt a darparu'r cofnodion hyn i Ofcom ar gais (gweler paragraffau 4.67 – 4.69);
 - c) bwrw ymlaen â'n cynnig bod yn rhaid i Ofcom sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr (gweler paragraffau 4.97 – 4.103); a
 - d) bwrw ymlaen â'n cynnig y gall darparwyr PRS a oedd wedi cofrestru â'r PSA o'r blaen ddilyn proses gofrestru wahanol sy'n gofyn am lai o wybodaeth gychwynnol nag y byddai ei hangen ar gyfer cofrestradau newydd ac, yn hytrach, dibynnu'n rhannol ar wybodaeth a drosglwyddwyd o'r PSA i Ofcom (gweler paragraffau 4.110 – 4.112).
- 4.3 Rydym hefyd wedi gwneud amryw o welliannau drafftio a newidiadau esboniadol: gweler Atodiad 3 – Tabl Newidiadau i gymharu fersiynau drafft a therfynol pob erthygl, a pharagraffau 3.110 – 3.112 ar gyfer newidiadau i ddiffiniadau a wneir drwy'r Gorchymyn PRS.

Gofynion cyn cyflawni gweithgaredd a reoleiddir (Erthygl 10)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 4.4 Roeddem yn cynnig cadw cynllun cofrestru gorfodol ar gyfer y diwydiant PRS. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad bod yn rhaid i bob darparwr PRS gofrestru gydag Ofcom o leiaf bum diwrnod gwaith cyn cyflawni gweithgarwch sy'n cael ei reoleiddio oni bai eu bod wedi'u heithrio o'r gofynion cofrestru. Roedd y gofynion arfaethedig hyn yn debyg yn fras i'r gofynion o dan baragraff 3.8 Cod 15.
- 4.5 Roedd ein gofynion arfaethedig ar gyfer cofrestru yn cynnwys bod yn rhaid i ddarparwyr PRS wneud y canlynol:
- a) rhoi darnau penodol o wybodaeth i Ofcom cyn cyflawni unrhyw weithgaredd a reoleiddir (roedd yr wybodaeth sy'n ofynnol wedi'i nodi yn Atodlen 1 yn achos darparwr

- PRS newydd, ac yn Atodlen 2 yn achos darparwr PRS a gofrestrwyd gyda'r PSA cyn i'r Gorchymyn PRS ddod i rym);
- b) penodi person mewn uwch-reolwyr ("person ag awdurdod cyffredinol") sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros ofynion penodol a osodir o dan y Gorchymyn PRS; a
 - c) phan nad yw'r wybodaeth a ddarperir o dan y gofynion hyn yn gywir mwyach, rhoi gwybod i Ofcom o fewn pum diwrnod gwaith i unrhyw newidiadau.
- 4.6 Roeddem yn cynnig y byddai'r wybodaeth y byddai'n rhaid i ddarparwyr PRS ei rhoi o dan a) uchod yn cael ei symleiddio o'i gymharu â'r wybodaeth sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan God 15. Yn benodol, roeddem yn cynnig na fyddem yn casglu gwybodaeth am y canlynol:
- a) y dosbarthiad ffioedd nad yw'n berthnasol mwyach o ystyried ein cynnig i ddileu'r gofyniad i ffi gofrestru gael ei thalu gan ddarparwyr PRS;
 - b) dyddiadau dechrau a gorffen y gwasanaeth;
 - c) dull darparu gwasanaeth; telerau ac amodau gwasanaeth eraill; parth cyflenwi gwasanaeth;
 - d) gwlad cyflenwi gwasanaeth a gwybodaeth am wasanaeth i gwsmeriaid;
 - e) delweddau brand;
 - f) y wybodaeth sydd ei hangen ar hyn o bryd o dan y math o wasanaeth a manylion bil defnyddwyr; a
 - g) dyddiadau dechrau a gorffen hyrwyddo.
- 4.7 Mewn perthynas â "math o wasanaeth", roeddem yn cynnig yn hytrach gofyn am "ddisgrifiad byr o'r gwasanaeth".
- 4.8 Mewn perthynas â darparwyr PRS a oedd wedi cofrestru â'r PSA o'r blaen, roeddem yn cynnig dibynnu ar rywfaint o wybodaeth bresennol a gasglwyd gan y PSA gan ddarparwyr PRS cyn dechrau'r Gorchymyn PRS, yn ogystal â'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn Atodlen 2 y Gorchymyn PRS drafft.
- 4.9 Ar ben hynny, roeddem yn cynnig na fyddai unrhyw ofyniad ar gyfer cofrestru blynyddol, fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan baragraff 3.8.7 Cod 15 ac na fyddem angen unrhyw ffi gofrestru na ffi adnewyddu cofrestru ar wahân i dalu costau Ofcom wrth ddelio â chofrestru. Yn hytrach, roeddem yn cynnig adennill ein costau fel rhan o'n ffioedd gweinyddol.

Ymatebion rhanddeiliaid

Gwybodaeth gofrestru

- 4.10 Dywedodd y Groes Goch Brydeinig ei bod yn fodlon ar y cyfan â'n cynigion a chyfeiriodd yn benodol at ddileu'r gofynion ynghylch manylion hyrwyddo, brandio a dyddiadau gwasanaeth, a dywedodd fod hyn yn "fuddiol" iddynt fel elusen sy'n aml yn sefydlu PRS wrth godi arian.
- 4.11 Roedd gan BT a Channel 5 ddiddordeb yn ein rhesymeg dros symleiddio faint o wybodaeth y gofynnwyd amdani gan ddarparwyr PRS o'i gymharu â'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan God 15. Roedd BT, yn benodol, yn poeni bod hyn "*o bosibl yn tanseilio'r lefelau sicrwydd ynghylch darparwyr*".
- 4.12 Dywedodd Infomedia nad oedd ganddo unrhyw sylwadau ar y gofynion cyffredinol ar gyfer cofrestru ar yr amod nad yw'r weinyddiaeth yn rhy feichus o ran pryd y mae angen newid y manylion. Nododd hefyd y bydd llawer o ddarparwyr yn darparu gwasanaethau PRS a CPRS,

ond nid o reidrwydd ar yr un pryd nac yn gyson ac felly, “byddai digon o bwyllo yn awgrymu y byddai pob darparwr PRS eisiau cofrestru gydag OFCOM beth bynnag, gan ddileu unrhyw ostyngiad disgwylidig mewn adnoddau gweinyddol”.

- 4.13 Nododd Mobile UK y byddai'r broses gofrestru arfaethedig yn newydd ond nad yw symleiddio'r wybodaeth sydd ei hangen yn debygol o gael effaith negyddol ar weithrediad y farchnad o ddydd i ddydd.
- 4.14 Holodd Mobile UK a VMO2 a oedd Ofcom yn bwriadu dileu'r gofyniad i gofrestru gwybodaeth am wasanaeth i gwsmeriaid, fel y disgrifir yn ein hymgyngoriad.
- 4.15 Dywedodd Telecom2 Ltd ei fod yn croesawu ein cynnig i ddileu rhai gofynion ar gyfer cofrestru, yn enwedig yr angen i gofrestru'n flynyddol. Nododd fod y gofyniad i hysbysu'r rheoleiddiwr yn brydlon am unrhyw newidiadau yn golygu nad oes angen cofrestru dro ar ôl tro.

Person ag awdurdod cyffredinol

- 4.16 Roedd Action 4 Limited, aimm, BBC Plant mewn Angen, Channel 4, Channel 5, Donr Ltd a Global yn poeni bod yn rhaid i'r “person sydd wedi'i awdurdodi'n gyffredinol” fod yn “uwch reolwr”. Yn benodol, roeddent yn dweud nad yw'r unigolyn, neu'r unigolion, sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros weithgarwch PRS bob amser yn mynd i ddal swyddi uwch reolwyr o ystyried natur gymhleth ac arbenigol y diwydiant. O'r herwydd, roeddent yn gofyn am eglurder ynghylch a oedd “uwch reolwyr” yn golygu rhywun ar lefel bwrdd neu rywun sy'n gyfrifol am lofnodi contractau'n is i lawr. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 4.17 Gwnaed nifer o awgrymiadau eraill hefyd ar gyfer diffinio'r person sydd â chyfrifoldebau'r “person ag awdurdod cyffredinol”. Awgrymodd Action 4 Limited y dylem nodi bod yn rhaid i “ddarparwr PRS gael person cyfrifol, enwebedig neu benodedig sy'n gyfrifol am gydymffurfio”. Roedd Donr Ltd hefyd yn dadlau bod “person cyfrifol” yn gweddu'n well na chyfeirio at “uwch reolwyr”. Dywedodd: “mae hyn yn dilyn dull gweithredu Comisiwn Hapchwarae y DU sy'n enwi'r person(au) sydd â chyfrifoldeb cyffredinol mewn sefydliad ond sy'n caniatáu hyblygrwydd i gydnabod nad yw'r cyfrifoldeb hwn o reidrwydd yn cyd-fynd â gwahanol ddehongliadau uwch reolwyr ar draws y sbectrwm eang o sefydliadau. Byddai cyfeiriad at “person cyfrifol” yn dileu amwysedd y cymal hwn.” Dywedodd Channel 5 y dylid priodoli'r cyfrifoldeb i'r “person ag awdurdod cyffredinol” yn hytrach na rhywun sy'n “uwch reolwr”.
- 4.18 Yn ogystal, dadleuodd Infomedia y dylai'r cyfrifoldeb dros “brosesu a thalu anfonebau” gael ei wahanu oddi wrth rôl y person awdurdodedig. Dywedodd, “Yn y rhan fwyaf o fusnesau, mae'r swyddogaethau cyllid hyn yn cael eu cadw'n fwriadol ar wahân i rannau eraill o'r busnes, a byddai'n anarferol dod o hyd i un person sy'n gyfrifol am brosesu a thalu anfonebau sydd hefyd yn gyfrifol am y tri maes arall, heblaw efallai am y Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Gyfarwyddwr mewn ystyr gyffredinol iawn”. Awgrymodd ein bod yn disodli'r geiriad arfaethedig gyda'r canlynol: “**cymeradwyo** derbyn, prosesu a thalu...” (pŵyslais wedi'i ychwanegu).

Masnachwyr cyswllt

- 4.19 Gofynnodd Telecom2 Ltd am i fasnachwyr cyswllt gael eu cynnwys yn y Gorchymyn PRS gan mai nhw yn aml yw achos toramodau sy'n ymwneud â Chod 15 ac nad yw masnachwyr yn ymwybodol o weithredoedd masnachwr cyswllt nes bod y niwed wedi'i achosi.

Cychwyn gwasanaeth

- 4.20 Roedd Donr Ltd yn cwestiynu'r angen i ddarparwyr PRS aros pum diwrnod gwaith rhwng cofrestru a dechrau gwasanaeth. Nododd nad oedd oedi o'r fath yn bodoli o dan God 15 a chredai y dylid dileu'r gofyniad gan ei fod yn creu cyfyngiadau diangen o ran amser.

Newidiadau mewn amgylchiadau

- 4.21 Cwestiynodd aimm y rhesymeg dros y gofyniad arfaethedig i ddarparwyr PRS roi gwybod i Ofcom bum diwrnod cyn unrhyw newid i'r wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru. Dywedodd fod Cod 15 yn caniatáu i ddarparwyr roi gwybod i'r PSA am unrhyw newidiadau i wybodaeth gofrestru hyd at bum diwrnod gwaith ar ôl i'r newidiadau gael eu gwneud. Dywedodd hefyd fod erthygl 10(2) y Gorchymyn PRS drafft yn golygu y bydd yn rhaid i ddarparwyr, yn hytrach na chael cyfnod gras o bum diwrnod i roi gwybod i Ofcom am unrhyw newidiadau i wybodaeth (fel y mae'r PSA yn ei ganiatáu ar hyn o bryd) roi gwybod i Ofcom bum diwrnod cyn unrhyw newidiadau, *"sy'n golygu bod gwahaniaeth arfaethedig o ddeg diwrnod"*. Dywedodd hefyd *"o ystyried bod y model presennol yn gweithio heb niwed i ddefnyddwyr, byddai aelodau'n gofyn i'r model presennol gael ei gadw, sy'n fwy hyblyg ac yn llawer mwy ymarferol i'r gadwyn gwerth"*. Roedd MCP Insight yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 4.22 Roedd Donr Ltd yn cydnabod bod y sefyllfa hon yn y Gorchymyn PRS drafft yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnai Cod 15 drwy ddatgan: *"rydym yn cydnabod bod cymal 10(3) yn adlewyrchu'r gofyniad 5 diwrnod gwaith i ddiweddarau unrhyw newidiadau (3.8.4(d) yng Nghod 15)"*.
- 4.23 Dywedodd Donr Ltd hefyd ei fod yn teimlo bod ein cynnig ynghylch newidiadau i amgylchiadau darparwr PRS yn glir gan mai'r darparwr sy'n gyfrifol am ddiweddarau cofnodion y darparwr. Dywedodd y byddai'n fuddiol egluro'r rôl y mae cyfryngwr neu weithredwr rhwydwaith yn ei chwarae yn y dull hwn ac, yn benodol, eu rôl o ran sicrhau bod y cofrestriad wedi'i gwblhau'n gywir.

Ffioedd cofrestru

- 4.24 Gofynnodd Action 4 Limited pam y dylai diwydiant orfod talu ffioedd cofrestru hyd at y pwynt pan ddaw'r Gorchymyn PRS i rym.

Dadgofrestru

- 4.25 Dywedodd Mobile UK a VMO2 y dylai fod gofyniad i ddadgofrestru er mwyn sicrhau bod gan Ofcom ddarlun cywir o'r farchnad. Roeddent yn dadlau'n benodol y dylai hwn fod y dyddiad olaf y digwyddodd trafodiad taliad. Roeddent hefyd yn dadlau bod yn rhaid i endidau sydd wedi'u dadgofrestru hefyd fod â rhwymedigaeth i gynnal cyswllt â chwsmeriaid a gwasanaeth ar ôl gwerthu am gyfnod o ddim llai na chwe mis ar ôl dadgofrestru.
- 4.26 Ar ben hynny, roeddent hefyd yn gofyn am eglurhad ynghylch a fyddai gwybodaeth cofrestru PSA yn cael ei chadw at ddibenion asesu risg yn y dyfodol yn ogystal â sut byddai gwybodaeth yn cael ei chadw am endidau sydd wedi'u dadgofrestru.

Sylwadau eraill

- 4.27 Cawsom hefyd nifer o sylwadau gan randdeiliaid ynghylch statws y gwiriwr gwasanaeth PSA, yr adnodd cofrestru PSA a chyngor cydymffurfio PSA ar ôl trosglwyddo rheoleiddio o'r PSA i Ofcom. Rhoddir sylw i'r materion mwy cyffredinol hyn yn adran 13 y datganiad hwn.

Ein penderfyniad

- 4.28 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen yn fras â'r cynigion roeddem wedi ymgynghori yn eu cylch. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud rhai newidiadau yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid. Rydym hefyd wedi gwneud rhai mân newidiadau testunol: gweler Atodiad 3 – Tabl o newidiadau, i gael manylion am y newidiadau hynny.

Gwybodaeth gofrestru

- 4.29 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig sy'n ymwneud â faint o wybodaeth sydd ei hangen at ddibenion cofrestru, gydag un eithriad. Nid ydym yn bwrw ymlaen â'r gofyniad am lofnod enghreifftiol y "person ag awdurdod cyffredinol". Mae hyn wedi'i dynnu o erthygl 11, Atodlen 1 ac Atodlen 2 y Gorchymyn PRS. Ar ôl pwyso a mesur, gan ystyried sylwadau rhanddeiliaid, rydym yn cytuno nad oes angen y llofnod enghreifftiol hwn at ein dibenion rheoleiddio.
- 4.30 Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig i symleiddio'r wybodaeth sydd ei hangen. Fodd bynnag, gofynnodd rhai rhanddeiliaid am eglurhad ar ein rhesymeg dros y symleiddio hwn. Y prif reswm yw nad ydym yn credu bod angen yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan God 15 arnom ac rydym wedi ceisio cadw gwybodaeth sydd, yn ein hasesiad, yn hanfodol at ddibenion cofrestru yn unig.
- 4.31 Mewn ymateb i sylwadau Mobile UK a VMO2 ynghylch darparu gwybodaeth am wasanaeth i gwsmeriaid fel rhan o wybodaeth gofrestru, nid oeddem yn cynnig dileu'r gofyniad hwn yn llwyr ar gyfer pob darparwr PRS. I egluro, roeddem yn cynnig (ac rydym bellach wedi penderfynu) dim ond mynnu bod masnachwyr yn darparu gwybodaeth am wasanaeth i gwsmeriaid gan ein bod yn credu bod y gofyniad hwn yn berthnasol iddyn nhw gan eu bod yn darparu'r CPRS i ddefnyddwyr. Mae hyn yn wahanol i God 15 lle mae gwybodaeth am wasanaeth i gwsmeriaid wedi bod yn ofynnol gan bob darparwr PRS, gan gynnwys gweithredwyr rhwydwaith a chyfryngwyr. O'r herwydd, rydym wedi cynnwys gofyniad ym mharagraff 9(d) Atodlen 1 y Gorchymyn PRS drafft sy'n mynnu bod yn rhaid i fasnachwyr "ddarparu'r rhif ffôn neu'r cyfeiriad e-bost i'w ddefnyddio gan ddefnyddwyr ar gyfer gwneud unrhyw gwynion neu ymholiadau".
- 4.32 Nodwn fod nifer o randdeiliaid hefyd wedi gofyn am eglurhad ynghylch argaeledd gwybodaeth ar wiriwr gwasanaeth, tebyg i'r gwiriwr gwasanaeth PSA. Rydym wedi rhoi sylw i'r sylwadau hyn yn adran 13 (gweler paragraffau 13.90 a 13.91).

Person ag awdurdod cyffredinol

- 4.33 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen i raddau helaeth â'n dull gweithredu arfaethedig sy'n ymwneud â'r diffiniad o "person a awdurdodwyd yn gyffredinol", ar wahân i wneud rhai newidiadau yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid.
- 4.34 Rydym yn nodi'n benodol bod rhanddeiliaid yn poeni y gallai'r cyfeiriad at berson sy'n uwch reolwr fod yn rhy gyfyngol. Yn hynny o beth, ein bwriad yw sicrhau bod rhywun sydd â digon o awdurdod yn y sefydliad yn goruchwyllo ac yn gyfrifol am weithgareddau a reoleiddir. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod yn rhaid i'r person hwn o reidrwydd fod yn rhywun sydd, er enghraifft, ar lefel cyfarwyddwr mewn endid corfforaethol. Yn ein barn ni, mae'n ddigon i'r person fod mewn sefyllfa o awdurdod o ran gwneud penderfyniadau, rheoli neu drefnu'r gweithgareddau y cyfeirir atynt yn ein diffiniad o "uwch reolwr" yn erthygl 10(6) y Gorchymyn PRS drafft, sy'n nodi bod "uwch reolwr" yn golygu:
- "pobl sydd â rôl arwyddocaol o ran—*
- (a) gwneud penderfyniadau ynghylch sut mae'r cyfan neu ran sylweddol o weithgareddau darparwr PRS yn cael eu rheoli neu eu trefnu, neu*

(b) sydd yn rheoli neu drefnu'r cyfan neu ran sylweddol o weithgareddau darparwr PRS."

- 4.35 Nid ydym yn credu y bydd y gofyniad hwn yn gyfyngol, gan nad oes dim i atal y person hwnnw rhag cael ei gefnogi gan bobl eraill sydd â phrofiad neu arbenigedd o ddydd i ddydd mewn PRS ar yr amod bod y gofynion yn erthygl 10(5) a 10(6) y Gorchymyn PRS yn cael eu bodloni.⁴⁴
- 4.36 Rydym hefyd wedi ystyried bod ymateb Infomedia sy'n ymwneud ag erthygl 10(1)(b) drafft yn cael ei ddehongli fel un sy'n mynnu bod un person yn cyflawni'r dibenion sy'n gysylltiedig â "pherson a awdurdodwyd yn gyffredinol" – gan gynnwys prosesu a thalu anfonebau. Nid dyma oedd ein bwriad. Yn unol â hynny, rydym wedi diwygio'r ddarpariaeth yn erthygl 10(1)(b) y Gorchymyn PRS i egluro y gellir penodi "un neu fwy" o bobl sy'n uwch reolwyr at y dibenion yn erthygl 10(5) y Gorchymyn PRS. Rydym wedi dileu'r gofyniad i'r person gael awdurdod i weithredu ar ran y darparwr PRS at "pob diben" sy'n ymwneud â'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn PRS, ac yn ychwanegol at y cyfeiriad yn erthygl 10(2)(a) at y person hwnnw'n cael ei benodi at ddibenion "pob" diben, rydym wedi cynnwys opsiwn yn erthygl 10(2)(b) i fwy nag un person gael ei benodi at un neu fwy o'r dibenion, fel nad oes unrhyw ofyniad mwyach bod "person ag awdurdod cyffredinol" yn gyfrifol am bob un o'r dibenion. Mae'n werth nodi ein bod wedi dileu "derbyn, prosesu a thalu anfonebau sy'n ymwneud â ffioedd Ofcom o dan Ran 3 y Gorchymyn" fel un o'r dibenion a restrwyd yn erthygl 10(4)(a)(i) y Gorchymyn PRS drafft gan ein bod, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, o'r farn nad oedd hyn yn swyddogaeth angenrheidiol i'r "person ag awdurdod cyffredinol".
- 4.37 Rydym hefyd wedi dileu'r gofyniad am gyfeiriad e-bost ar gyfer y person ag awdurdod cyffredinol "*mewn perthynas â bod y person hwnnw'n fodlon derbyn hysbysiadau a dogfennau a drosglwyddir gan OFCOM ar ffurf electronig yn unol ag adran 395(5)*" o baragraff 9 Atodlen 1 a pharagraff 7 Atodlen 2 y Gorchymyn PRS drafft. Mae hyn oherwydd ein bod o'r farn bod y gofyniad hwn eisoes wedi'i gynnwys yn atodlenni 1 a 2 y Gorchymyn PRS (ym mharagraff 7 Atodlen 1 a pharagraff 5 Atodlen 2) ac, felly, mae'r gofyniad ychwanegol hwn yn ddiangen.

Masnachwyr cyswllt

- 4.38 Nid oes gennym unrhyw bwerau o dan y Ddeddf i osod rhwymedigaethau ar, neu orfodi yn erbyn, personau nad ydynt yn bodloni'r diffiniad statudol o berson sy'n darparu PRS yn adran 120(9) y Ddeddf. Felly, ni allwn osod rhwymedigaethau o dan y Gorchymyn PRS ar fasnachwyr cyswllt lle nad ydynt yn ddarparwr a reoleiddir fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn PRS. Dyma hefyd oedd y sefyllfa o dan God 15 nad oedd chwaith yn ceisio rheoleiddio masnachwyr cyswllt.
- 4.39 Rydym o'r farn mai darparwyr PRS sy'n gyfrifol am hyrwyddo a marchnata eu gwasanaethau. Os bydd darparwr PRS yn contractio â masnachwyr cyswllt sy'n torri gofynion o dan y Gorchymyn PRS, yna'r darparwr PRS hwnnw sy'n gyfrifol yn y pen draw. Am y rheswm hwn, byddem yn disgwyl i ddarparwyr a reoleiddir fod â threfniadau contract ar waith gyda phartion heb eu rheoleiddio sy'n eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Gorchymyn PRS.

Cychwyn gwasanaeth

⁴⁴Trafodir mater "person a awdurdodir yn gyffredinol" yn fwy manwl ym mharagraffau 5.123-5.126.

- 4.40 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â'r cyfnod amser o bum diwrnod gwaith, a nodir yn erthygl 10(3)(b) y Gorchymyn PRS.
- 4.41 Rydym yn cydnabod bod hwn yn newid o God 15 sydd ond yn gofyn am gofrestru cyn i'r gwasanaeth fod ar gael, tra bo erthygl 10(3)(b) yn gofyn am gofrestru bum diwrnod gwaith ymlaen llaw. At ddibenion y Gorchymyn PRS, credwn ei bod yn bwysig ein bod yn darparu manylion penodol o ran faint o amser sydd ei angen rhwng cofrestru a dechrau'r gwasanaeth. Yn ein barn ni, mae pum diwrnod gwaith yn gyfnod rhesymol i brosesu cofrestradau ac, yn ymarferol, byddai hyn ond yn arwain at nifer cyfyngedig iawn o ddiwrnodau ychwanegol wrth lansio gwasanaeth, ac mae'n annhebygol o fod yn arbennig o feichus i'r diwydiant.

Newidiadau mewn amgylchiadau

- 4.42 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig i fynnu bod darparwyr PRS yn rhoi gwybod i Ofcom am unrhyw newidiadau i wybodaeth o fewn pum diwrnod gwaith i unrhyw newidiadau.
- 4.43 Mewn ymateb i bryder aimm, rydym yn nodi yr ymdrinnir â newidiadau i'r wybodaeth gofrestru a roddwyd i Ofcom yn flaenorol yn erthygl 10(4) y Gorchymyn PRS (erthygl 10(3) yn flaenorol yn y Gorchymyn PRS drafft). Mae hyn yn caniatáu cyfnod gras o bum diwrnod gwaith ar gyfer rhoi gwybod i Ofcom am unrhyw newidiadau i wybodaeth sydd eisoes wedi cael ei hysbysu, gan ddechrau gyda'r diwrnod y byddai darparwr rhesymol mewn amgylchiadau tebyg wedi bod yn ymwybodol o anghywirdeb yr wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol. Rydym o'r farn bod hyn yn adlewyrchu gofynion presennol Cod 15 ac y dylai gael effaith fach iawn ar ddarparwyr PRS.
- 4.44 Mae'n werth nodi bod erthygl 10(2) y Gorchymyn PRS drafft y cyfeirir ati yn ymdrin â'r gofynion ar gyfer darparwyr PRS 'newydd' nad oeddent wedi cofrestru â'r PSA cyn i'r Gorchymyn PRS ddod i rym. Dylid nodi yr ymdrinnir â newidiadau i'r wybodaeth gofrestru a roddwyd i Ofcom yn flaenorol yn erthygl 10(4) y Gorchymyn PRS (erthygl 10(3) yn flaenorol yn y Gorchymyn PRS drafft). Rydym o'r farn bod hyn yn adlewyrchu'r hyn y mae Cod 15 yn ei gyflawni ac yn nodi bod Donr Ltd wedi cydnabod hyn yn ei ymateb ar y mater hwn drwy ddatgan: *"rydym yn cydnabod bod cymal 10(3) [y Gorchymyn PRS drafft] yn adlewyrchu'r gofyniad 5 diwrnod gwaith i ddiweddarau unrhyw newidiadau (3.8.4(d) yng Nghod 15)"*.
- 4.45 Fodd bynnag, yn bwysig, rhaid i ddarparwyr a gofrestrwyd yn flaenorol gyda'r PSA cyn i'r Gorchymyn PRS ddod i rym gydymffurfio â darpariaethau erthygl 13 (ac Atodlen 2). Trafodir Erthygl 13 isod ym mharagraffau 4.104 – 4.112. Mewn perthynas â'r mater hwn a godwyd gan aimm, mae erthygl 13(6) y Gorchymyn PRS yn nodi rhwymedigaethau darparwyr presennol i adolygu'r wybodaeth yng nghofrestr Ofcom heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl dechrau'r Gorchymyn PRS (erbyn 2 Mehefin 2025) ac, os oes unrhyw anghywirdebau yn y wybodaeth honno, *"diweddarau OFCOM yn unol â hynny yn y modd a bennir gan OFCOM ar ei wefan, o fewn pum diwrnod gwaith (gan ddechrau ar y diwrnod y byddai darparwr rhesymol mewn amgylchiadau tebyg wedi dod yn ymwybodol o'r gwall)"*. Unwaith eto, mae hyn yn darparu ar gyfer pedwar mis wedi'i ddilyn gan gyfnod gras o bum diwrnod ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r cofrestriad presennol. O ganlyniad, ar ôl ystyried y sylwadau hyn, nid ydym yn credu bod angen gwneud unrhyw newidiadau i'r gofynion gan ein bod eisoes wedi meddwl yn ofalus am y gofynion ar gyfer darparwyr a oedd wedi cofrestru â'r PSA yn flaenorol ac wedi adlewyrchu'r achosion hyn yn y gofynion cofrestru yn y Gorchymyn PRS.

- 4.46 O ran pwynt Donr Ltd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiweddarau gwybodaeth gofrestru, ein bwriad polisi yw bod pob darparwr PRS yn gyfrifol am roi gwybod i ni am yr wybodaeth ofynnol yn gywir ac yn brydlon, er mwyn i ni allu adlewyrchu hynny yn y gofrestr. Fodd bynnag, os byddai darparwr arall yn sylwi ar unrhyw wallau yng ngwybodaeth gofrestredig darparwr gwahanol, byddem yn ddiolchgar pe bai hyn yn cael ei ddwyn i sylw Ofcom.

Ffioedd cofrestru

- 4.47 Mewn perthynas â sylw Action 4 Limited am yr angen i barhau i dalu ffioedd cofrestru tan y pwynt y daw'r Gorchymyn PRS i rym, mater i'r PSA ac nid i Ofcom yw hyn. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y PSA wedi ymgynghori'n ddiweddar ar y ffi gofrestru fel rhan o'i ymgynghoriad ar y gyllideb a'r cynllun busnes ar gyfer 2024/25.⁴⁵
- 4.48 Ar ôl cymeradwyo cynllun busnes a chyllideb PSA, cafodd y cynllun cofrestru ei wneud yn rhad ac am ddim o 1 Ebrill 2024 ymlaen.⁴⁶ Mae hyn yn gwneud y broses o gofrestru yn symlach ac yn sicrhau bod dull rheoleiddio'r PSA mewn perthynas â ffioedd cofrestru yn cyd-fynd â chynlluniau Ofcom.

Dadgofrestru

- 4.49 Rydym o'r farn nad oes angen gofyniad dadgofrestru penodol arnom er mwyn ein galluogi i gael darlun cynhwysfawr o'r farchnad weithredol. Nodwn fod Cod 15 yn cynnwys darpariaeth benodol ynghylch dadgofrestru yn 3.8.14. Pan fydd darparwr PRS yn gadael y farchnad, rydym o'r farn y byddai hyn yn cael ei ystyried yn newid mewn amgylchiadau o dan erthygl 10(4) y Gorchymyn PRS, felly byddai'n rhaid i ni gael gwybod am y newid hwn mewn unrhyw achos er mwyn iddo gael ei dynnu oddi ar ein cofrestr, fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 4.36(c) ein hymgynghoriad.
- 4.50 Mewn ymateb i sylwadau Mobile UK sy'n awgrymu y dylid gosod gofynion ar endidau sydd wedi'u dadgofrestru i gynnal cyswllt â chwsmeriaid a gwasanaeth ar ôl gwerthu, ni fydd gennym unrhyw sail i osod gofynion o'r fath ar gyfer endidau sydd wedi'u dadgofrestru gan na fyddant mwyach yn ddarparwr rheoleiddiedig o dan y Gorchymyn PRS.
- 4.51 O ran cadw gwybodaeth sy'n ymwneud â darparwyr nad ydynt yn darparu CPRS mwyach, byddwn yn cadw gwybodaeth ar ôl i ddarparwyr PRS adael y farchnad oherwydd bydd angen gwybodaeth o'r fath er mwyn i ni allu arfer ein swyddogaethau, yn enwedig gydag unrhyw weithgareddau gorfodi sy'n ymwneud â'r darparwyr PRS tra oeddent yn weithredol yn y farchnad. Byddwn yn rheoli unrhyw ddata personol sy'n cael ei gadw fel rhan o'r cofnodion hyn yn unol â chyfreithiau diogelu data perthnasol a'n polisi rheoli cofnodion a gwybodaeth.⁴⁷
- 4.52 Yn yr un modd, byddwn hefyd yn cadw gwybodaeth gofrestru PSA sy'n angenrheidiol i gefnogi unrhyw waith monitro cydymffurfiad darparwyr PRS ag asesiadau risg yn y dyfodol, yn unol â chyfreithiau diogelu data perthnasol a'n polisi rheoli cofnodion a gwybodaeth.

Esemptiad ar gyfer masnachwyr penodol (Erthygl 11)

Cynigion yr ymgynghoriad

⁴⁵ [Business-Plan-and-Budget-2024-2025-consultation-statement.ashx \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/business-plan-and-budget-2024-2025-consultation-statement.ashx)

⁴⁶ [Registration scheme now free of charge \(psauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/registration-scheme-now-free-of-charge)

⁴⁷ [Records and information management policy - Ofcom](https://psa.gov.uk/records-and-information-management-policy)

- 4.53 Roeddem yn cynnig cadw rhai o'r gofynion cofrestru presennol o dan God 15 i alluogi masnachwyr mewn amgylchiadau diffiniedig i gael eu hesemptio rhag cofrestru. Yn benodol, roeddem yn cynnig cadw'r esemptiadau cofrestru canlynol:
- a) esemptiad rhag cofrestru ar gyfer masnachwyr sy'n gweithredu gwasanaethau drwy un cyfryngwr yn unig (esemptiad cyfryngwr unigol); neu
 - b) esemptiad rhag cofrestru ar gyfer masnachwyr sy'n rhedeg gwasanaethau drwy siop apiau darparwr cyfryngwr (esemptiad siop apiau).
- 4.54 Fodd bynnag, nid oeddem yn cynnig cadw'r esemptiad ar gyfer masnachwyr sy'n gweithredu rhifau PRS sy'n dechrau gyda 087 a chodau byr llais sy'n costio 20c neu lai am y rhesymau a esbonnir ym mharagraffau 4.43 – 4.46 yr ymgynghoriad.
- 4.55 O ran y gofynion esemptio arfaethedig, roeddem yn cynnig y bydd angen i'r holl gyfryngwyr sydd eisiau galluogi eu masnachwyr cymwys i gael eu hesemptio o ofynion cofrestru (i) gadw cofnodion perthnasol ar gyfer y masnachwyr hynny; (ii) defnyddio proses ar gyfer delio â chwynion defnyddwyr mewn perthynas â'r masnachwr sydd wedi'i esemptio; a (iii) rhoi gwybod i Ofcom mewn perthynas â'r materion hyn.
- 4.56 Fe wnaethom nodi bod hyn yn wahanol i ofynion esemptio presennol y PSA. Yn benodol, o dan esemptiad siopau apiau presennol y PSA⁴⁸, nid yw'n ofynnol i'r siop apiau gyfryngol hysbysu'r PSA ynghylch pa fasnachwyr sy'n elwa o'r esemptiad. Mae hyn yn wahanol i esemptiad cyfryngwr unigol y PSA,⁴⁹ lle mae'n rhaid i'r cyfryngwr ddarparu rhestr o fasnachwyr sy'n elwa o'r esemptiad i'r PSA.
- 4.57 Roedd ein cynigion hefyd yn cynnwys diffiniad newydd o "siop apiau", nad yw wedi'i gynnwys yng Nghod 15, a diffiniadau cysylltiedig o "gyfleuster ar-lein" a "gweithredwr" mewn perthynas â'r diffiniad o siop apiau.
- 4.58 Ar ben hynny, roeddem yn cynnig y byddai angen i gyfryngwyr sy'n cyflwyno hysbysiad i sefydlu esemptiadau ar gyfer eu masnachwyr wneud hyn o leiaf bum diwrnod gwaith cyn darparu'r CPRS, ac eithrio yn achos masnachwr a oedd wedi'i eithrio'n flaenorol o'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth at ddibenion cofrestru. Yn yr achos olaf, roeddem yn cynnig y byddai disgwyl i'r cyfryngwyr roi gwybod i Ofcom o fewn mis gan ddechrau pan ddaw'r Gorchymyn i rym.

Ymatebion rhanddeiliaid

Manteisio ar esemptiadau

- 4.59 Roedd nifer o randdeiliaid yn poeni y gellid manteisio ar yr esemptiadau cofrestru roeddem wedi'u cynnig.
- 4.60 Dywedodd aimm, BT, Fonix, Global, Telecom2 Ltd a VMO2 y gallai'r esemptiad cyfryngwr unigol greu bylchau anfwriadol a chael eu hecsbloetio gan weithredwyr drwg. Roeddent yn poeni y gallai arwain at gofrestru fel eithriad yn hytrach na'r rheol gan fod "*y rhan fwyaf o fasnachwyr yn rhedeg gwasanaethau drwy gyfryngwr unigol*". Roedden nhw'n dweud y byddai'r esemptiad hwn yn ei gwneud hi'n anoddach i ddefnyddwyr, a thimau gwasanaeth OCP, ddod o hyd i fasnachwyr os bydd unrhyw broblemau'n codi. Y rheswm am hyn yw na

⁴⁸ <https://psauthority.org.uk/-/media/Files/PSA/00NEW-website/For-business/Does-my-service-benefit-from-an-exemption/Code-15-exemptions/App-Store-Exemption-16-02-2022.ashx>

⁴⁹ <https://psauthority.org.uk/-/media/Files/PSA/00NEW-website/For-business/Does-my-service-benefit-from-an-exemption/Code-15-exemptions/Registration-Exemption-16-02-2022.ashx>

fyddai cysylltiad cyfryngwyr â gwasanaethau yn weladwy i OCPs na defnyddwyr. Dywedodd Telecom2 Ltd *“mae'n rhaid i Gyfryngwyr sicrhau bod manylion cyswllt Masnachwyr ar gael ar eu gwefan ond ni fydd defnyddwyr yn gwybod ble i chwilio”*. Dywedodd Fonix fod defnyddio'r esemptiad hwn dan y PSA yn broses ymgeisio benodol ac y dylai hynny barhau. Dywedodd Global ei fod yn credu bod yr eithriad hwn wedi cael ei *“gamddehongli o God 15”* a bod *“ganddo botensial enfawr i achosi niwed i ddefnyddwyr”*. Ar ben hynny, mynegodd aimm a Global bryderon ynghylch esemptio masnachwyr sydd wedi'u hesemptio o swyddogaethau math gwiriwr rhifau. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.

- 4.61 Dywedodd aimm, Mobile UK, VMO2 a Vodafone, bod diffyg diffiniad clir o siop apiau, yn creu cymhellant i ddarparwyr PRS ddynodi eu hunain yn siop apiau er mwyn hawlio esemptiad cyffredinol. Gallent wedyn elwa o lefel is o faich rheoleiddio ar gyfer eu masnachwr neu eu datblygwyr apiau. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm. Dywedodd Mobile UK, er nad oedd yn glir y byddai darparwyr â bwriad maleisus yn chwilio am y llwybr hwn, mae diffyg diffiniad clir *“yn hwyluso'r defnydd o'r ddyfais hon gan weithredwyr a allai fod â bwriad maleisus a llai o ystyriaeth i ddefnyddwyr”*. Gofynnodd i'r diffiniad gael ei ddiwygio i *“nodwch nodweddion y siopau apiau sydd mewn golwg ar hyn o bryd h.y., boed yn gyrhaeddiad daearyddol, nifer y cysylltiadau rhwydwaith ar draws y byd neu drosiant ariannol”*.

Diogelu at y dyfodol

- 4.62 Mae aimm a Donr Ltd yn gofyn sut gallai busnesau tebyg gael eu hesemptio yn y dyfodol ac roeddent yn teimlo bod y diffyg proses wedi'i chofnodi ar gyfer esemptiadau yn wrth-gystadleuol. Dywedodd Donr Ltd, *“O dan God 15, gallai sefydliad gael esemptiad yn dilyn proses wedi'i chofnodi a oedd yn deg i bob darparwr. Mae'n ymddangos bod y broses hon wedi cael ei dileu yn y Gorchymyn ac felly mae'n dal yn aneglur sut mae cyfranogwyr gwasanaethau sy'n haeddu cael eu hesemptio yn y dyfodol yn cael yr un buddion â'r rheini o dan God 15”*. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 4.63 Dywedodd Action 4 Limited na ddylid cael unrhyw esemptiad na gwahaniaethau o ran cofrestru ar gyfer y gwahanol chwaraewyr sy'n ymwneud â'r diwydiant hwn. Dadleuodd fod rheoleiddio'n gweithio orau gyda chwarae teg i bawb.

Cofnod o fasnachwyr esempt

- 4.64 Dywedodd Action 4 Limited, Donr Ltd a Google Play (“Google”) nad oedd yn angenrheidiol mynnu bod llofnod enghreifftiol ar gyfer “person ag awdurdod cyffredinol” y masnachwr yn cael ei gasglu fel rhan o'r cofnod ar gyfer masnachwyr esempt. Yn benodol, gofynnodd Google a oedd unrhyw ddulliau adnabod neu wybodaeth eraill y gallai siopau apiau eu cadw yn hytrach na llofnod enghreifftiol.
- 4.65 Nododd Google y byddai casglu rhywfaint o'r wybodaeth yn erthygl 11(4)(h) y Gorchymyn PRS drafft yn *“her sylweddol”* ar gyfer siopau apiau mawr fel Google ac y byddai angen *“newidiadau i'w llif cynefino byd-eang dim ond at ddibenion cydymffurfio â'r ddarpariaeth hon”*. Gofynnodd a fyddai'n ddigon i siopau apiau gasglu a chadw manylion y cynrychiolydd unigol a ddewiswyd gan fasnachwr ar gyfer eu cyfrif siop apiau perthnasol (sy'n gyfrifol am reoli'r cyfrif hwnnw) yn hytrach nag oddi wrth “berson ag awdurdod cyffredinol” y masnachwr fel y nodir yn ein gofynion esemptio arfaethedig. Dywedodd y byddai casglu'r wybodaeth a restrir ar gyfer “person ag awdurdod cyffredinol” pob masnachwr yn anodd gan na fyddai'r unigolion y mae masnachwyr yn eu defnyddio i greu a rheoli eu cyfrifon masnachwr ar siopau apiau o reidrwydd yn “berson ag awdurdod cyffredinol”.

Rhifau 087 a chodau byr llais sy'n costio 20c neu lai

- 4.66 Roedd Telecom2 Ltd o'r farn y bydd "dod â rhifau 087 o fewn cwmpas y cod newydd yn achosi symiau sylweddol o waith ychwanegol. Dywedodd fod "nifer y rhifau 087 sy'n cael eu defnyddio yn enfawr a bydd eu cofrestru yn dasg enfawr i fasnachwyr ac i Ofcom".

Eglurder ynghylch paragraff 4.51 y ddogfen ymgynghori

- 4.67 Gofynnodd aimm am eglurhad ynghylch paragraff 4.51 y ddogfen ymgynghori. Yn benodol, nododd ein bod yn dweud y canlynol: "Yr unig beth yr ydym yn gofyn i gyfryngwyr ei wneud yw casglu a chadw **yn** wybodaeth hon" (pwyslais wedi'i ychwanegu). O'r herwydd, gofynnodd am gadarnhad ynghylch a yw hwn yn air diangen ychwanegol neu a oes fformat penodol y dylid cadw cofnodion ynddo. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.

Ein penderfyniad

- 4.68 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen yn fras â'n cynnig sy'n ymwneud ag esemptiadau i fasnachwyr sy'n gweithredu drwy gyfryngwyr unigol a chyfryngwyr siopau apiau. Fodd bynnag, rydym wedi diwygio erthygl 11 fel bod angen i gyfryngwyr cymwys roi ymrwymiad cyffredinol i Ofcom yn hytrach na hysbysiadau mewn perthynas â phob masnachwr sy'n dymuno dibynnu ar yr esemptiad. Bydd y dull ychydig yn wahanol hwn yn caniatáu i'r cyfryngwr ddarparu'r ymgymeriad ar ran pob masnachwr a allai fod yn dymuno cael ei esemptio yn y dyfodol, ar yr amod bod y cyfryngwr hwnnw'n cydymffurfio ym mhob ffordd â'r gofynion yn erthygl 11.
- 4.69 O dan erthygl 11 y Gorchymyn PRS, mae masnachwr wedi'i esemptio rhag cofrestru os yw'n darparu CPRS:
- y mae'r ffioedd i ddefnyddwyr yn cael eu hwyluso gan gyfryngwr unigol cymwys (esemptiad cyfryngwr unigol); neu,
 - sydd ar gael drwy siop apiau a ddarperir gan gyfryngwr cymwys (eithriad siop apiau).
- 4.70 Yn y ddau achos, y gofynion yw bod rhaid i "gyfryngwr cymwys":
- fod wedi'i gofrestru ei hun fel darparwr PRS ac yn diweddarau ei wybodaeth gofrestru;
 - darparu ymrwymiad i Ofcom i gynnig ei wasanaethau i'r masnachwyr sydd wedi'u heithrio dim ond pan fydd yn cyflawni'r gweithgareddau yn c) a d) isod ac yn rhoi gwybod i Ofcom am ymrwymiad o'r fath yn y modd a nodir ar wefan Ofcom;
 - ar gyfer pob masnachwr esempt, gwneud gofnod o'r canlynol a'i gadw'n gyfredol:
 - enw a chyfeiriad y masnachwr;
 - enw brand (os o gwbl) y gwasanaeth a ddarperir gan y masnachwr;
 - enw, teitl swydd, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost person (neu bersonau) ag awdurdod cyffredinol y masnachwr; a
 - gweinyddu proses ar gyfer delio â chwynion mewn perthynas â masnachwyr sydd wedi'u hesemptio gan gynnwys, yn benodol, sicrhau bod manylion cyswllt y masnachwyr ar gael ar ei wefan.
- 4.71 Dylid nodi bod yr uchod yn grynodeb o'r rhwymedigaethau o dan y Gorchymyn PRS a dylid cyfeirio at y Gorchymyn PRS am fanylion llawn a phenodolrwydd y rhwymedigaethau hyn.
- 4.72 Mae erthygl 11(7) hefyd yn pennu ei bod yn rhaid i bum diwrnod gwaith fod wedi mynd heibio ers y diwrnod y mae'r cyfryngwr cymwys yn rhoi ei hysbysiad o'r ymrwymiad i Ofcom cyn y bydd yr esemptiad cofrestru yn berthnasol i'r masnachwr.

- 4.73 Pan fydd cyfryngwr cymwys yn dod yn ymwybodol o newidiadau sy'n golygu nad yw, neu na fydd, yn gallu parhau i roi ei ymrwymiad i Ofcom, mae erthygl 11(9) yn datgan bod yn rhaid i gyfryngwr roi gwybod i fasnachwyr esempt y mae newid o'r fath yn effeithio ar eu hesemptiad ar unwaith ac Ofcom, yn y modd a nodir ar wefan Ofcom, o fewn pum diwrnod gwaith.
- 4.74 Pan oedd masnachwr wedi'i esemptio gan y PSA rhag y gofyniad i ddarparu gwybodaeth at ddibenion cydymffurfio â pharagraff 3.8.1 Cod 15 (h.y. wedi'i esemptio o ofynion cofrestru yn unig), bydd yn parhau i fod yn fasnachwr esempt tan 3 Mawrth 2025. Mae hwn yn gyfnod gras ar ôl dechrau'r Gorchymyn PRS pan fydd angen i unrhyw fasnachwr a oedd wedi'i esemptio o'r blaen naill ai gydymffurfio â'r gofynion yn erthygl 10 neu sicrhau ei hun bod cyfryngwr cymwys wedi cydymffurfio â gofynion erthygl 11.
- 4.75 Mae'n ofynnol i'r cyfryngwr cymwys ddarparu ymrwymiad i Ofcom y bydd yn bodloni'r amodau angenrheidiol yn erthygl 11, yn hytrach na bod yn ofynnol iddo roi hysbysiadau unigol i Ofcom mewn perthynas â phob masnachwr esempt. Mae hyn yn golygu mai dim ond pan fo'r cyfryngwr wedi darparu ymgymriad o'r fath y bydd yr esemptiad yn berthnasol. Os nad yw'r cyfryngwr yn darparu ymrwymiad o'r fath, nid yw'r masnachwr wedi'i esemptio a bydd angen iddo gofrestru.
- 4.76 Rydym o'r farn, er mwyn cyflawni ein swyddogaeth reoleiddio, bod angen i gyfryngwr cymwys wneud a chadw cofnod o'r masnachwyr esempt). Mae'r gofyniad hwn yn angenrheidiol er mwyn i wybodaeth allweddol am fasnachwyr sydd wedi'u hesemptio fod yn hysbys i Ofcom petai cwynion yn cael eu gwneud am y gwasanaeth dan sylw, gan gynnwys enw brand y CPRS (os o gwbl) a'r cyfeiriad allweddol a'r wybodaeth gofrestru a nodir yn y diffiniad o "gofnod perthnasol" sy'n ymwneud â'r masnachwr. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth sy'n ymwneud â'r masnachwr a pherson (neu bersonau) ag awdurdod cyffredinol y masnachwr er mwyn cyflwyno hysbysiadau a dogfennau cyfreithiol eraill i fasnachwyr yn unol ag adrannau 394 a 395 y Ddeddf. Mae mynnu bod cyfryngwr yn casglu'r wybodaeth hon yn ein galluogi i ofyn am y wybodaeth hon gan y cyfryngwr cymwys o dan ein pwerau casglu gwybodaeth (gweler adran 12 y datganiad hwn) mewn amgylchiadau priodol.

Manteisio ar esemptiadau

- 4.77 Nid ydym yn credu bod yr esemptiadau cofrestru yn y Gorchymyn PRS yn agored i gamfanteisio yn y ffordd a ddisgrifir gan randdeiliaid nac ychwaith ein bod wedi camdehongli'r esemptiadau cofrestru o dan God 15. Yn benodol, rydym yn nodi bod erthygl 11(2) y Gorchymyn PRS yn nodi mai dim ond i'r graddau y mae'n bodloni'r amodau yn 11(3), (4), (6) a (7) y gall y cyfryngwr fod yn "gyfrwng cymwys", gan gynnwys hysbysu Ofcom. Y gwahaniaeth allweddol rhwng dull presennol y PSA a'n dull gweithredu ni yn y Gorchymyn PRS yw faint o wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r rheoleiddiwr ymlaen llaw. Yn benodol, o ran yr esemptiad cyfryngwr unigol, o dan God 15, mae rhestr o fasnachwyr yn cael ei darparu i'r PSA ac yn cael ei diweddarau, ond o dan y Gorchymyn PRS, mae'n rhaid i'r cyfryngwr cymwys gadw cofnod perthnasol a'i ddarparu i Ofcom ar gais. O ran y potensial ar gyfer camfanteisio, mae hefyd yn bwysig nodi bod yr esemptiadau yn erthygl 11 y Gorchymyn PRS ond yn esemptio'r masnachwyr hynny rhag y gofyniad i gofrestru gydag Ofcom, ond mae'n rhaid i'r masnachwyr hynny barhau i gydymffurfio â gweddill y Gorchymyn PRS.
- 4.78 Yn unol â hynny, rydym o'r farn ein bod yn goruchwyllo ac yn rheoli'r defnydd o esemptiadau a chofrestriadau o'i gymharu ag ymarfer y PSA o dan God 15. Mae hyn yn

arbennig o wir mewn perthynas â'r esemptiad siopau apiau. O dan God 15, nid yw'n ofynnol ar hyn o bryd i'r siop apiau gyfryngol hysbysu'r PSA ynghylch pa fasnachwyr sy'n elwa o'r esemptiad. Felly, mae'n bosibl nad oes cofnod o'r masnachwyr esempt hynny sy'n gweithredu yn y siop apiau honno. I'r gwrthwyneb, o dan y Gorchymyn PRS, bydd yn rhaid i siopau apiau (a chyfryngwyr unigol) gadw cofnod o'r holl fasnachwyr sy'n defnyddio'r esemptiad. O ganlyniad, bydd Ofcom yn gallu cael gafael ar wybodaeth sydd yn y "cofnod perthnasol" am y masnachwyr hyn (y mae'n rhaid i gyfryngwr cymwys ei chadw o dan y Gorchymyn PRS) os bydd angen.

- 4.79 O ran y pryderon a godwyd ynghylch "*cofrestru'n [dod yn] eithriad*" o dan y Gorchymyn PRS, rydym yn nodi bod yr ymatebwyr yn dweud bod y rhan fwyaf o fasnachwyr yn rhedeg gwasanaethau drwy gyfryngwr unigol. Yn hynny o beth, rydym o'r farn ei bod yn briodol cynnal dull y PSA o ymdrin â gofynion cofrestru drwy ddibynnu ar yr esemptiad cyfryngwr unigol. Ynghylch pwynt Telecom 2 ynghylch anawsterau defnyddwyr o ran dod o hyd i fanylion y masnachwr ar wefan y cyfryngwr cymwys, dylid nodi yn gyntaf mai dim ond at ddibenion cofrestru y bydd y masnachwr wedi'i esemptio rhag darparu gwybodaeth i Ofcom. Ar ben hynny, bydd yn dal yn ofynnol i fasnachwyr ddarparu gwybodaeth amdanynt eu hunain yn uniongyrchol i ddefnyddwyr o dan ofynion yn y Gorchymyn PRS – gweler, yn benodol, y wybodaeth cyn-contract, sy'n mynnu bod gwybodaeth am y masnachwr yn cael ei darparu, fel enw masnachu ac enw a manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol am ddelio ag ymholiadau a chwynion defnyddwyr ar ran y masnachwr. Ar ben hynny, rydym yn nodi y bydd gan ddefnyddwyr hawl i gael manylion am fasnachwyr o dan yr Amodau Cyffredinol.⁵⁰
- 4.80 Hefyd, rydym o'r farn y dylai gofynion diwydrwydd dyladwy ac asesu risg atal problemau rhag codi oherwydd, er enghraifft, dylai cyfryngwyr fod yn gwirio bod masnachwyr wedi'u cofrestru, neu wedi'u hesemptio rhag cofrestru, a bydd angen iddynt sicrhau eu bod eu hunain wedi bodloni'r amodau yn erthygl 11 er mwyn bod yn "gyfryngwr cymwys". Bydd angen i fasnachwyr sicrhau bod y cyfryngwr yn gyfryngwr cymwys at ddibenion bod wedi'i esemptio rhag yr angen i gofrestru. Nid yw'r Gorchymyn PRS yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r masnachwr ei wneud er mwyn bodloni ei hun bod y cyfryngwr wedi cydymffurfio â'r amodau yn erthygl 11, gan gynnwys darparu ymrwymiad i Ofcom. Fodd bynnag, mae'n bosibl, er enghraifft, i'r trefniadau cytundebol rhwng masnachwyr a chyfryngwyr ddelio â'r mater hwn.
- 4.81 Mewn perthynas ag esemptiadau siopau apiau, rydym yn nodi bod gan y Gorchymyn PRS ddiffiniad clir o siop apiau yn erthygl 11(10) (gweler hefyd y diffiniadau cysylltiedig o 'gyfleuster ar-lein' a 'gweithredwr' yn erthygl 11(10) y Gorchymyn PRS). Ein barn ni yw y bydd siopau apiau eu hunain yn ddarostyngedig i ofynion (gan gynnwys cofrestru) o dan y Gorchymyn PRS, lle maent yn bodloni'r diffiniad o Ddarparwr PRS yn erthygl 9 y Gorchymyn PRS, ac felly hefyd y masnachwyr esempt. Er na fydd yn rhaid i'r masnachwyr hynny gofrestru, bydd angen iddynt gydymffurfio â'r gofynion o dan y Gorchymyn PRS o hyd.

Diogel at y dyfodol

- 4.82 Fe wnaethom egluro yn ein hymgyngoriad nad oedd yn bosibl creu model cyfatebol i'r drefn esemptiadau gyffredol o dan God 15 lle mae'r PSA yn gallu caniatáu esemptiadau ar gyfer rhai categorïau gwasanaeth o bryd i'w gilydd (y cyfeirir atynt o dan God 15 fel "caniatadau"). Y rheswm am hyn yw nad yw'r Gorchymyn PRS mor hyblyg, nac mor hawdd

⁵⁰ <https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/phones-telecoms-and-internet/information-for-industry/general-authorisation-regime/general-conditions-of-entitlement-unofficial-consolidated-version-1-oct-24.pdf?v=381623>.

ei ddiwygio, â Chod 15. Dim ond drwy ddiwygio'r Gorchymyn PRS yn unol â'r broses seneddol y gellid cyflwyno unrhyw esemptiadau newydd.

- 4.83 Nid ydym am gyflwyno beichiau rheoleiddio diangen ar gyfer rhai categorïau o wasanaethau lle rydym o'r farn ei bod yn bosibl cyflawni canlyniadau'r gofynion arfaethedig drwy ddulliau amgen. Am y rheswm hwn, rydym wedi cyflwyno esemptiadau penodol yn y Gorchymyn PRS, gan adlewyrchu gofynion Cod 15 lle rydym o'r farn bod angen gwneud hynny. Nid ydym yn bwriadu darparu ar gyfer rhagor o esemptiadau rhag cofrestru yn y dyfodol.
- 4.84 Nid ydym yn credu bod yr esemptiadau cofrestru yn wrth-gystadleuol. Nodwn fod sylw Donr Ltd yn ymwneud â'r diffiniad o 'fasnachwr a oedd wedi'i esemptio o'r blaen' yn erthygl 11(4)(e) y Gorchymyn PRS drafft (mae hyn yn aros yn erthygl 11(10) y Gorchymyn PRS). Mae'r diffiniad hwn yn creu darpariaeth drosiannol ar gyfer masnachwyr a oedd wedi cael budd o esemptiad cofrestru'r PSA (cyfryngwr unigol) ac esemptiad siop apiau. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu unrhyw fasnachwr a oedd wedi'u hesemptio o'r blaen gan y PSA o dan y ddau esemptiad PSA a ddygir drosodd i erthygl 11.
- 4.85 Fel yr eglurwyd yn yr ymgynghoriad⁵¹, nid yw'r Gorchymyn PRS yn cynnwys cynllun 'caniatadau ymlaen llaw' y PSA a oedd yn rhoi caniatadau mewn rhai achosion i ddarparwyr gydymffurfio â rheolau Cod 15 mewn ffyrdd gwahanol. Mae hyn oherwydd bod y rhain yn benodol i sut mae'r PSA yn rheoleiddio PRS o dan God 15, sy'n galluogi disgrisiwn mewn rhai achosion o ran sut mae darparwyr PRS yn cydymffurfio â gofynion Cod 15.
- 4.86 Nid ydym yn cytuno â sylwadau Action 4 Limited mewn perthynas â'r angen i sicrhau nad oes unrhyw esemptiadau na gwahaniaethau o ran cofrestru na rheoleiddio ar gyfer y gwahanol weithredwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant hwn. Rydym yn credu bod ein dull gweithredu ar gyfer esemptiadau cyfyngedig sydd wedi'u diffinio'n glir yn ffordd gymesur o ddiogelu defnyddwyr y mae rheoleiddio'n ceisio ei gyflawni, gan leihau'r baich ar ddarparwyr lle bo hynny'n bosibl.

Cofnod o fasnachwyr esempt

- 4.87 Mewn perthynas â sylwadau Google, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol bod cyfryngwr cymwys yn cofnodi manylion person awdurdodedig cyffredinol y masnachwr fel y'u diffinnir yn erthygl 10(1)(b) y Gorchymyn PRS. Rydym wedi ystyried awgrym Google i ganiatáu iddynt yn hytrach gofnodi manylion unigolion y mae masnachwyr yn eu defnyddio i greu a rheoli eu cyfrifon masnachol ar eu siop apiau, ac nid ydym yn credu bod yr awgrym hwn yn ymarferol o ystyried ein bod wedi diffinio'r person ag awdurdod cyffredinol i ddarparu'r lefel angenrheidiol o oruchwyliaeth a sicrwydd sy'n ofynnol yn ein barn ni mewn perthynas â CPRS. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y diffiniad wedi'i ddrafftio'n eang, ac nid ydym o'r farn y dylai fod yn ormod o faich i fasnachwyr benodi unigolyn o'r fath a darparu eu manylion fel rhan o gofnod perthnasol a gesglir gan gyfryngwyr cymwys. Nid yw hyn yn golygu na all yr unigolyn o'i ddewis ddelio â chyfrif siop apiau masnachwr o ddydd i ddydd. Er ein bod yn cydnabod sylwadau Google bod hyn yn debygol o greu rhywfaint o faich ar gyfryngwyr cymwys a allai fod angen newid eu prosesau cynefino o ganlyniad i'r gofyniad hwn, rydym o'r farn bod y baich yn fach ac yn gymesur â'r nod rydym yn ceisio ei gyflawni wrth osod y gofyniad hwn, gan gydbwysu'r angen i fasnachwyr barhau â'u gweithgareddau masnachol presennol gyda siopau apiau. Fel y trafodwyd uchod, mae angen cofnod

⁵¹ Paragraffau 4.41 a 4.6 yr ymgynghoriad

perthnasol i sicrhau bod Ofcom yn gallu defnyddio gwybodaeth allweddol am fasnachwyr esempt os bydd cwynion yn cael eu gwneud am y gwasanaeth dan sylw.

- 4.88 Fodd bynnag, fel y trafodwyd ym mharagraff 4.28, rydym wedi penderfynu dileu'r gofyniad am lofnod enghreifftiol gan y person ag awdurdod cyffredinol o Atodlenni 1 a 2 y Gorchymyn PRS. Am yr un rhesymau, rydym wedi penderfynu dileu'r gofyniad tebyg o erthygl 11.

Rhifau 087 a chodau byr llais sy'n costio 20c neu lai

- 4.89 Rydym yn bwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â chael gwared ar esemptiadau cofrestru ar gyfer masnachwyr sy'n gweithredu rhifau PRS sy'n dechrau gyda 087 a chodau byr llais sy'n costio 20c neu lai. Nid ydym yn cytuno y bydd dod â 087 o fewn cwmpas y Gorchymyn PRS yn achosi llawer iawn o waith ychwanegol.
- 4.90 Fel yr eglurwyd ym mharagraffau 4.67-4.75, rydym yn gwneud newidiadau i'r ffordd y bydd y broses esemptiadau yn gweithio o dan y Gorchymyn PRS er mwyn cynyddu'r oruchwyliaeth dros fasnachwyr sy'n defnyddio'r esemptiadau. Rydym yn dileu'r gofyniad i dalu ffi gofrestru ar wahân ac yn gosod gofyniad ar y rheini sydd wedi'u hesemptio i roi gwybodaeth sy'n cyfateb yn fras i wybodaeth gofrestru er mwyn i unrhyw esemptiadau fod yn gymwys. Felly, at ddibenion y Gorchymyn PRS, ein hasesiad yw nad oes llawer o wahaniaeth ymarferol o ran a oes angen i ddarparwyr 087 gofrestru neu a ydynt wedi'u hesemptio o ofynion cofrestru.
- 4.91 Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rydym wedi ystyried tystiolaeth bod nifer y masnachwyr y mae'r newid hwn yn effeithio arnynt yn debygol o fod yn fach. Nid oes gennym ddata ar union nifer y masnachwyr yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, mae'r PSA wedi amcangyfrif y gallai oddeutu 50 o sefydliadau fod yn defnyddio rhifau 087. Nodwn hefyd nad oedd yr esemptiad 087 rhag cofrestru yn berthnasol i rifau PRS 087 a ddefnyddir ar gyfer ICSS, gwasanaethau cyngor proffesiynol a gwasanaethau adloniant byw, ac yn ôl y PSA, PRS yw'r rhain sy'n defnyddio'r ystod rhifau 087 yn bennaf⁵².

Eglurder ynghylch paragraff 4.51 y ddogfen ymgynghori

- 4.92 Mewn perthynas â chais aimm am eglurhad yn ymwneud â pharagraff 4.51 y ddogfen ymgynghori, gallwn gadarnhau bod cynnwys "yn yn gamgymeriad ac y gellir ei anwybyddu. Dylai'r frawddeg ddarllen "rydyn ni'n gofyn i gyfryngwyr gasglu a chadw'r wybodaeth hon".

Dyletswydd Ofcom i sefydlu a chynnal cofrestr (Erthygl 12)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 4.93 Roeddem yn cynnig bod yn rhaid i Ofcom sefydlu a chynnal cofrestr at ddibenion cyflawni ein swyddogaethau o dan y Gorchymyn PRS. Roeddem wedi cynnwys yr wybodaeth roeddem yn cynnig y dylid ei chofnodi yn y gofrestr yn erthygl 12(2) y Gorchymyn PRS drafft. Roedd hyn yn ceisio efelychu dull presennol y PSA o gyhoeddi gwybodaeth i raddau helaeth, fel y nodir ym mharagraff 3.8.4 (a) ac (c) o God 15. Roedd hefyd yn ceisio

⁵² Gweler adran 3 (paragraffau 3.28 – 3.30) sydd hefyd yn rhoi sylw i sylwadau rhanddeiliaid ynghylch sut mae rhifau 087 yn cael eu rheoleiddio.

efelychu'n fras ymrwymiad y PSA i gynnal cofrestr (gweler paragraffau 3.8.2 a D.2.53 Cod 15).

Ymatebion rhanddeiliaid

- 4.94 Mynegodd A2B Telecoms Ltd, aimm, Channel 4 a Telecom2 Ltd bryder ynghylch y gofyniad arfaethedig i ddarparu "*enw unrhyw berson arall a gontractiwyd mewn perthynas â'r gwasanaeth, gan gynnwys ar gyfer hyrwyddo a marchnata'r gwasanaeth hwnnw*" fel rhan o'r broses gofrestru o dan erthygl 10 ac Atodlen 1 y Gorchymyn PRS drafft. Roeddent yn dweud bod hon yn wybodaeth fasnachol gyfrinachol ac na ddylai fod ar gael i gystadleuwyr. Dywedodd Channel 4 hefyd y gellid dehongli'r gofyniad hwn yn ehangach nag y mae wedi'i fwriadu ac y gallai fod yn rhy feichus. Roeddent yn cynnig diwygiad i'r paragraff hwn i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth o'r fath gael ei chadw'n gyfrinachol gan Ofcom. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 4.95 Dywedodd Channel 4 a Telecom2 Ltd hefyd eu bod yn credu y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel rhan o'r gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy ac asesu risg.
- 4.96 Cododd Cancer Research UK ac ITV bryderon tebyg ond mewn perthynas â'r gofyniad union yr un fath ym mharagraff 9(b) Atodlen 2 y Gorchymyn PRS drafft ynghylch cofrestru ar gyfer achosion trosiannol. Dadleuodd y ddau fod hyn yn faich gweinyddol diangen ac anghymesur. Hefyd, ac yn yr un modd â'r pryderon a godwyd uchod, roeddent yn dadlau, os credir bod angen darparu'r wybodaeth hon, y dylid ei thrin yn gyfrinachol.
- 4.97 Mynegodd Donr Ltd bryderon nad oedd cymhellion i Ofcom sicrhau ei fod yn cymryd y cyfrifoldeb o weithredu'r gwasanaeth o ddifri. Dadleuodd y dylai Ofcom wynebu ôl-ffeithiau os nad yw'n addas i'r diben neu os yw'r gofrestr yn cynnwys cofnodion ffug neu goll.

Ein penderfyniad

- 4.98 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig o ran ein dyletswydd i sefydlu a chynnal cofrestr yn amodol ar fân newidiadau drafftio, gan gynnwys nodi y bydd y gofrestr yn cynnwys pob cyfarwyddyd neu benderfyniad a roddir o dan Atodlen 4 yn rhinwedd erthygl 66. Y rheswm am hyn yw y cyfeirir at y cyfarwyddiadau a'r penderfyniadau hyn yn erthygl 16 y Gorchymyn PRS (gwahardd delio â phobl y gosodwyd cyfarwyddyd, penderfyniad neu sancsiwn perthnasol arnynt) ac felly rydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol bod darparwyr PRS yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth berthnasol yng nghofrestr Ofcom er mwyn cydymffurfio â'r ddarpariaeth honno. Nid ydym yn credu bod hyn yn cael unrhyw effaith mewn perthynas ag amcanion polisi erthygl 12.
- 4.99 Rydym hefyd wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu gwybodaeth am is-gontractwyr sy'n ymwneud â darparu a/neu hyrwyddo'r gwasanaeth (gweler paragraff 9(f) Atodlen 1 y Gorchymyn PRS).
- 4.100 Nodwn fod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi gwrthwynebiad i ddarparu'r wybodaeth hon at ddibenion cofrestru ar y sail ei bod yn wybodaeth fasnachol gyfrinachol ac, felly, na ddylid ei chyhoeddi. Y gofyniad yw mai dim ond enw'r is-gontractwr sydd i'w gyhoeddi, yn hytrach na gwybodaeth fel telerau ac amodau contract. Nid ydym yn ystyried bod cyhoeddi'r enw ei hun yn wybodaeth fasnachol gyfrinachol.
- 4.101 Rydym o'r farn bod angen cyhoeddi'r wybodaeth hon er mwyn galluogi defnyddwyr i fod yn ymwybodol o'r bobl sy'n ymwneud â darparu a/neu hyrwyddo'r gwasanaeth y maent wedi'i

ddefnyddio neu sydd wedi effeithio arnynt. Mae'r dull hwn yn wahanol i'r sefyllfa bresennol o dan God 15, lle mae gan y PSA hawl i gasglu'r wybodaeth hon ond nid yw'n ei chyhoeddi yn ei Wiriwr Gwasanaeth. Rydym yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol am y rhesymau uchod, felly rydym wedi cadw'r gofyniad i'r wybodaeth hon (enw pobl eraill sydd wedi'u contractio) gael ei chyhoeddi ar gofrestr Ofcom o dan erthygl 12 y Gorchymyn PRS.

- 4.102 Nodwn fod Channel 4 a Telecom 2 Ltd wedi nodi y byddai gwybodaeth sy'n ymwneud ag is-gontractwyr yn cael ei chasglu fel rhan o'r gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy ac asesu risg. Byddem yn cytuno â hyn ac, yn benodol, yn nodi bod erthygl 17(3)(d) yn mynnu bod darparwyr PRS yn ystyried gwybodaeth gyhoeddus am unrhyw is-gontractwyr y mae'n eu defnyddio.
- 4.103 Mewn ymateb i sylwadau Donr Ltd, mae gan Ofcom ddyletswydd cyfreithiol i sefydlu a chynnal cofrestr o dan y Gorchymyn PRS. Mae Ofcom yn cymryd ei holl ddyletswyddau statudol o ddifri.

Cofrestru ar gyfer achosion trosiannol (Erthygl 13)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 4.104 Roeddem yn cynnig cael gofynion cofrestru gwahanol ar gyfer darparwyr PRS presennol er mwyn lleihau effaith ein gofynion cofrestru ar ddarparwyr a oedd wedi cofrestru â'r PSA yn y gorffennol.
- 4.105 Yn benodol, roeddem yn cynnig bod yn rhaid i ddarparwyr PRS a oedd wedi cofrestru â'r PSA yn y gorffennol roi gwybodaeth benodol i Ofcom o dan Atodlen 2 ddim hwyrach na thri mis ar ôl dechrau'r Gorchymyn PRS drafft. Os bydd y terfyn amser o dri mis yn dod i ben ac nad oes unrhyw wybodaeth ofynnol wedi'i darparu, bydd y person yn peidio â chael ei drin fel darparwr PRS. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei diweddarau. Bwriad yr wybodaeth a roddir yw casglu gwybodaeth nad yw'n ofynnol i ddarparwyr PRS ei darparu i'r PSA ar hyn o bryd, ond sydd, ym marn Ofcom, yn angenrheidiol at ddibenion ei reoleiddio.
- 4.106 Dywedasom hefyd y byddem yn defnyddio gwybodaeth y mae'r PSA wedi'i chasglu mewn perthynas â'r darparwyr hyn, felly roedd angen i ni sicrhau ei bod yn gywir. Felly, roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr presennol wirio cofrestr Ofcom mewn perthynas â gwybodaeth amdanynt sy'n cael ei chyhoeddi a rhoi gwybod i Ofcom pan nad yw'r wybodaeth honno'n gywir.

Ymatebion rhanddeiliaid

- 4.107 Dywedodd y Groes Goch Brydeinig ei fod yn croesawu'r trefniadau pontio a gynigiwyd gan Ofcom ar gyfer darparwyr presennol a dywedodd ei fod yn gwerthfawrogi'r camau a gymerwyd i osgoi gorfod darparu gwybodaeth eto. Fodd bynnag, gofynnodd am eglurhad ynghylch amserlenni y byddai angen i ddarparwyr PRS presennol lynu wrthynt wrth gofrestru CPRS newydd. Dywedodd ei fod yn deall o'r ymgynghoriad y byddai angen iddo gofrestru'r CPRS newydd hyn gydag Ofcom "*o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl iddyn nhw fynd yn fyw – yn wahanol i ddarparwyr PRS newydd, sydd angen cofrestru PRS newydd bum diwrnod gwaith cyn iddyn nhw fynd yn fyw*". Dywedodd y byddai'n "*anodd iawn*" iddynt gofrestru'r holl CPRS bum diwrnod gwaith "*cyn iddynt fynd yn fyw*" oherwydd natur y CPRS a ddarperir.

- 4.108 Gofynnodd VMO2 a allai Ofcom egluro'r broses gofrestru. Yn benodol, gofynnodd a oedd angen i weithredwyr rhwydweithiau symudol gofrestru yn ychwanegol at y cofrestriad presennol.
- 4.109 Gofynnodd Mobile UK a VMO2 am eglurhad ynghylch y pwynt lle mae angen i wasanaethau gydymffurfio â'r rheoliadau newydd ac a yw hyn wrth gofrestru neu pan aeth gwasanaethau'n fyw am y tro cyntaf. Dywedodd Mobile UK mai eu rhagdybiaeth oedd y byddai Ofcom yn mynnu cydymffurfio'n llawn â'r rheolau newydd o 2 Ionawr 2025 ymlaen (yn seiliedig ar y dyddiadau gwreiddiol yn y Gorchymyn PRS drafft) ac ar yr adeg honno dylai'r holl ofynion cofrestru fod wedi cael eu bodloni. Gofynnodd VMO2 i Ofcom roi arweiniad ynghylch pryd mae angen i weithredwyr rhwydweithiau symudol adolygu'r wybodaeth gofrestru berthnasol.

Ein penderfyniad

- 4.110 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â chofrestru ar gyfer achosion trosiannol, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau drafftio i wella eglurder. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu union ddyddiadau ar gyfer pryd y bydd gofynion penodol yn berthnasol a symud diffiniadau o dermau fel Cod 15 i erthygl 2 y Gorchymyn PRS.
- 4.111 Mewn perthynas ag ymateb y Groes Goch Brydeinig, mae erthygl 13(6) y Gorchymyn PRS yn nodi rhwymedigaethau darparwyr presennol i adolygu'r wybodaeth yng nghofrestr Ofcom heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl dechrau'r Gorchymyn PRS (h.y. erbyn 2 Mehefin 2025) ac, os oes unrhyw anghywirdebau yn y wybodaeth honno, "*diweddarar OFCOM yn unol â hynny yn y modd a bennir gan OFCOM ar ei wefan, o fewn pum diwrnod gwaith (gan ddechrau ar y diwrnod y byddai darparwr rhesymol mewn amgylchiadau tebyg wedi dod yn ymwybodol o'r gwall)*". Unwaith eto, mae hyn yn darparu ar gyfer pedwar mis o ddyddiad dechrau'r Gorchymyn PRS, wedi'i ddilyn gan gyfnod gras o bum diwrnod ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r cofrestriad presennol. Mewn perthynas â chais VMO2 am eglurhad, rydym yn deall mai ystyr cofrestriad presennol i VMO2 yma yw gofyniad cofrestru'r PSA. Roedd ein hymgyngoriad yn egluro'r gofynion ar gyfer cofrestru ar ôl i'r Gorchymyn PRS ddechrau.⁵³
- 4.112 Mewn perthynas â sylwadau Mobile UK a VMO2, rydym ni'n credu bod erthygl 13 ac Atodlen 2 y Gorchymyn PRS yn egluro'n glir eu bod yn berthnasol i ddarparwyr sydd eisoes wedi cofrestru â'r PSA cyn i'r Gorchymyn PRS gael ei roi ar waith ar 1 Chwefror 2025. Mae hyn yn golygu y byddai'n ofynnol i VMO2, neu unrhyw MNO arall, gydymffurfio ag erthygl 13 ac Atodlen 2 os oeddent eisoes wedi'u cofrestru gyda'r PSA cyn hynny. Mae erthygl 13 bellach yn nodi'r dyddiadau penodol erbyn pryd y mae'n rhaid cymryd camau penodol, er mwyn darparu eglurder ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys, mewn ymateb i ymholiad VMO2, y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i'r darparwyr hynny adolygu gwybodaeth yn y gofrestr (gweler erthygl 13(6)). Os nad oedd y darparwr wedi'i gofrestru cyn dechrau'r Gorchymyn PRS, rhaid iddo yn lle hynny gydymffurfio ag erthyglau 10 neu 11.

⁵³Gweler paragraffau 4.56 a 4.57.

5. Diwydrwydd dyladwy, rheoli risg a phrofion diogelwch perthnasol

- 5.1 Mae'r adran hon yn delio â'r gofynion yn y Gorchymyn PRS ynghylch sut mae darparwyr yn rheoli risg i ddefnyddwyr wrth ddarparu eu gwasanaethau drwy nodi'r camau i'w cymryd cyn gwneud trefniadau mewn perthynas â CPRS/gweithgaredd a reoleiddir⁵⁴, yn ogystal â'r camau i'w cymryd pan fydd trefniadau gyda darparwyr PRS eraill ar waith. Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r gofynion profion diogelwch yn y Gorchymyn PRS a fydd yn berthnasol i gyfryngwyr a gweithredwyr rhwydwaith.
- 5.2 Yn benodol, mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau ar y canlynol:
- gwaharddiadau ar ddelio â darparwyr PRS anghofrestredig a phersonau y gosodwyd cyfarwyddyd, penderfyniad neu sancsiwn perthnasol arnynt (erthyglau 15 ac 16 Rhan 4 y Gorchymyn PRS, gweler paragraffau 5.5 – 5.21);
 - asesiadau risg (erthygl 17 Rhan 4 y Gorchymyn PRS, gweler paragraffau 5.22 – 5.86);
 - gofynion ar weithredwyr rhwydwaith a chyfryngwyr i atal trefniadau o dan amgylchiadau penodol (erthyglau 18 a 19 Rhan 4 y Gorchymyn PRS, gweler paragraffau 5.85 - 5.91);
 - cydsyniad tybiedig ar gyfer trefniadau y mae darparwyr PRS yn ymrwmo iddynt cyn i'r Gorchymyn PRS ddod i rym (erthygl 20 Rhan 4 y Gorchymyn PRS, gweler paragraffau 5.87 – 5.91); a,
 - profion diogelwch perthnasol (Rhan 5 y Gorchymyn PRS, gweler paragraffau 5.92 – 5.121);
- 5.3 Yn gyffredinol, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion a nodir yn ein hymgyngoriad. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud amryw o welliannau drafftio a newidiadau esboniadol i fersiynau drafft yr erthyglau. Gweler Atodiad 3 – Tabl Newidiadau, i gymharu fersiynau drafft a therfynol pob erthygl ac adran 3 y datganiad am esboniadau o newidiadau i ddiffiniadau CPRS allweddol a wnaed drwy gydol y Gorchymyn PRS.
- 5.4 Ar ben hynny, rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol mewn perthynas â chwech o'n herthyglau arfaethedig, naill ai o ganlyniad i sylwadau rhanddeiliaid, neu lle rydym wedi ailystyried yr erthygl honno'n fwy cyffredinol. Yn benodol, rydym wedi gwneud y canlynol:
- wedi cyfyngu ar gwmpas erthygl 16 fel nad yw ond yn gymwys pan fyddai'r trefniant yn peri i'r person dorri'r cyfarwyddyd, y penderfyniad neu'r sancsiwn blaenorol perthnasol. Mae hyn yn fwy cyfyng o ran cwmpas na'r hyn a gynigiwyd yn y Gorchymyn PRS drafft (a oedd yn gwahardd darparwyr PRS rhag gweithio gyda pherson sy'n destun sancsiwn/cyfarwyddyd, ni waeth a fyddai hynny'n arwain at dorri'r sancsiwn neu'r penderfyniad). Rydym o'r farn bod angen y diwygiad hwn i gyd-fynd â'r safbwynt yng Nghod 15 (gweler paragraffau 5.17 – 5.21);

⁵⁴Fel y'i diffinnir yn erthygl 9(12) y Gorchymyn PRS.

- b) diwygio erthygl 17 i'w gwneud yn ofynnol hefyd i ddarparwyr PRS roi sylw i ddarparu, cynnwys a hyrwyddo a marchnata'r CPRS sy'n destun y trefniant y maent yn cynnal asesiad risg mewn perthynas ag ef (gweler paragraff 5.52);
- c) diwygio erthygl 17 i egluro, mewn perthynas â defnyddio is-gontractwyr wrth gynnal asesiadau risg o dan yr erthygl honno, mai dim ond "gwybodaeth gofrestrdig" ar gyfer is-gontractwyr o'r fath y mae angen i ddarparwyr PRS ei hystyried. Mae "gwybodaeth gofrestrdig" wedi'i diffinio i nodi'r union wybodaeth y bydd angen ei hystyried (gweler paragraff 5.51);
- d) ymestyn cwmphas erthygl 18 fel y bydd yn rhaid i weithredwyr rhwydwaith atal unrhyw drefniadau gyda masnachwr lle mae ganddynt sail resymol dros amau bod gwendid diogelwch (neu risg o hyn) yn systemau'r masnachwr, neu lle mae'r masnachwr yn mynd yn groes i ofyniad a osodwyd arno o dan y Gorchymyn PRS, neu wedi mynd yn groes iddo. Nid oedd y gofyniad yn y Gorchymyn PRS drafft ond wedi cynnig bod hyn yn berthnasol mewn perthynas â gweithredwyr rhwydwaith mewn perthynas â'u trefniadau gyda chyfryngwyr (gweler paragraffau 5.80 – 5.86);
- e) diwygio erthygl 21 (yn Rhan 5 y Gorchymyn PRS) i bennu bod yn rhaid i'r profion diogelwch perthnasol gael eu cymeradwyo gan y person ag awdurdod cyffredinol y mae'n ofynnol i'r cyfryngwr eu penodi o dan erthygl 10, yn hytrach na chan berson arall sy'n uwch reolwr fel y cynigiwyd yn wreiddiol (gweler paragraffau 5.114 - 5.116); a
- f) newid ein dull gweithredu yn erthygl 21 fel ei bod yn ofynnol i gyfryngwyr sy'n cynnal profion diogelwch rannu canlyniadau hyn â gweithredwyr rhwydwaith. O dan y Gorchymyn PRS, bydd yn ofynnol i gyfryngwyr rannu eu canlyniadau profion diogelwch perthnasol â gweithredwyr rhwydwaith perthnasol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau'r profion diogelwch perthnasol, yn hytrach na dim ond pan ofynnir iddynt wneud hynny gan weithredwr y rhwydwaith fel y cynigiwyd yn wreiddiol yn y Gorchymyn PRS drafft (gweler paragraffau 5.117 – 5.118).

Gwahardd delio â darparwyr PRS heb eu cofrestru (Erthygl 15)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 5.5 Roeddem yn cynnig gwahardd darparwr PRS rhag ymrwymo i drefniadau gyda darparwr PRS arall oni bai fod y darparwr PRS hwnnw wedi cofrestru ag Ofcom (oni bai ei fod wedi'i esemptio). Roedd hyn yn ceisio efelychu paragraff 3.9.4 Cod 15 sy'n dweud y gall darparwyr PRS ond ymrwymo i gontractau sy'n ymwneud â PRS gyda darparwyr PRS eraill sydd wedi'u cofrestru â'r PSA, oni bai eu bod wedi'u heithrio.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 5.6 Dim ond un ymateb a gawsom, gan Infomedia, a fynegodd bryder y byddai darparwyr PRS yn naturiol eisiau ymrwymo i gontractau neu drefniadau ar gyfer tiriogaethau lluosog. Dywedodd y byddai'n afresymol i fusnesau gofrestru ar gyfer darpariaeth PRS yn y DU os nad ydynt yn bwriadu gweithredu yn y DU neu os ydynt am archwilio cyfleoedd yn y farchnad.
- 5.7 Awgrymodd hefyd y dylid diwygio'r gofyniad hwn i egluro bod angen cofrestru gydag Ofcom cyn trefniant "i gychwyn" gweithgaredd a reoleiddir, ac nid dim ond o ran "mewn perthynas â gweithgarwch a reoleiddir" sydd, yn eu barn nhw, yn rhy eang.

Ein penderfyniad

- 5.8 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn fel y cynigiwyd, ac eithrio ar gyfer drafftio gwelliannau a wnaed er mwyn egluro. Mae hyn yn cynnwys diwygiad i erthygl 15 yn y Gorchymyn PRS i egluro bod yn rhaid i ddarparwyr PRS ystyried yr wybodaeth yng nghofrestr Ofcom wrth wirio a yw darparwr PRS arall wedi'i gofrestru neu wedi'i esemptio rhag cofrestru.
- 5.9 Rydym o'r farn bod y gofyniad hwn yn wiriad pwysig ar gyfer sicrhau bod unrhyw ddarparwyr PRS heb eu cofrestru yn cael eu hatal rhag gweithredu yn y farchnad. Rydym yn credu na fydd llawer o effaith ar ddarparwyr PRS, gan gynnwys ar eu trefniadau cytundebol, gan ei bod eisoes yn ofynnol iddynt fod yn gwirio ac yn gwneud hyn o dan God 15.
- 5.10 Rydym yn nodi nad yw'r gofyniad hwn yn ymwneud â phryd mae'n rhaid i ddarparwr PRS gofrestru. Ymdrinnir â hyn yn erthygl 10 y Gorchymyn PRS (gweler paragraffau 4.4 – 4.51). Mae'r erthygl hon yn ceisio atal darparwyr PRS sydd heb eu cofrestru rhag gweithredu yn y farchnad gan fod darparwyr PRS eraill wedi'u gwahardd rhag gwneud busnes â nhw a byddant yn torri'r Gorchymyn PRS os canfyddir eu bod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad hwn yn atal darparwr PRS rhag gallu archwilio cyfleoedd gyda busnesau eraill cyn cwblhau contract. Nid yw ychwaith yn atal darparwyr PRS rhag ymrwymo i gcontractau gyda busnesau sy'n darparu gwasanaethau y tu allan i'r DU yn unig.
- 5.11 Mae'r cyfeiriad yn erthygl 15 at "mewn perthynas â gweithgaredd a reoleiddir" wedi'i gynnwys er mwyn ei gwneud yn glir bod yr erthygl yn berthnasol i gcontractau rhwng darparwyr PRS gan mai dim ond darparwyr PRS sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir. Diffinnir y term "gweithgaredd a reoleiddir" yn erthygl 9(12) y Gorchymyn PRS i olygu darparu gwasanaeth neu rwydwaith o fewn ystyr diffiniadau darparwyr PRS, neu drefniadau a wneir ar gyfer hyrwyddo a marchnata PRS rheoledig. I'r perwyl hwnnw, rydym o'r farn nad yw'r cyfeiriad at "mewn perthynas â gweithgaredd a reoleiddir" yn eang ond yn eithaf penodol wrth gyfeirio at weithgareddau sy'n gallu cael eu gwneud gan ddarparwyr PRS yn unig fel y'u diffinnir o dan y Gorchymyn PRS.

Gwahardd delio â phersonau y gosodwyd cyfarwyddyd, penderfyniad neu sancsiwn perthnasol arnynt (Erthygl 16)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 5.12 Roeddem yn cynnig gwahardd darparwr PRS rhag contractio, mewn perthynas â gweithgaredd a reoleiddir, â pherson arall pan fydd y person hwnnw'n destun cyfarwyddiadau gan Ofcom, neu sancsiynau gan y PSA sy'n dal mewn grym. Rydym hefyd yn nodi beth fyddai'r cyfarwyddiadau a'r sancsiynau perthnasol yn y Gorchymyn PRS drafft.
- 5.13 Roedd y cynigion hyn yn ceisio cadw'r gwaharddiad o baragraff 3.1.4 Cod 15 ac ymestyn ei gwmpas i gynnwys cyfarwyddiadau penodol y gall Ofcom eu rhoi o dan y Gorchymyn PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 5.14 Holodd aimm, BBC Plant mewn Angen a Fonix a fydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi gan Ofcom ynghylch sut gall darparwr PRS benderfynu bod gan unigolyn y mae'n dymuno

contractio ag ef sancsiwn perthnasol a osodwyd arno. Gofynnwyd hefyd a fyddai Ofcom yn darparu rhestr o gwmnïau sy'n destun ymchwiliad ac sydd wedi cael sancsiynau er mwyn sicrhau bod darparwyr PRS yn gallu cydymffurfio â'n gofynion arfaethedig. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.

- 5.15 Gwnaeth Telecom2 Ltd bwynt tebyg a gofynnodd i gyfarwyddiadau Ofcom gael eu harddangos yn amlwg ar wefan Ofcom.
- 5.16 Nododd Donr Ltd fod angen i Ofcom gyflawni ei rwymedigaethau i sicrhau bod y gofrestr yn gyflawn, yn gywir a bod data'n cael ei ychwanegu ati mewn modd amserol. Dywedodd hefyd y dylai Ofcom ddarparu hysbysiad e-bost yn rhoi gwybod i ddarparwyr PRS am yr holl newidiadau i'r gofrestr.

Ein penderfyniad

- 5.17 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn yn fras fel y cynigiwyd, ac eithrio bod newid i gwmpas yr erthygl yn adlewyrchu ein bwriad polisi yn fwy cywir. Rydym hefyd wedi gwneud rhai newidiadau esboniadol i'r drafft.
- 5.18 Mae'r newid sylweddol i gwmpas yr erthygl yn erthygl 16(1) y Gorchymyn PRS, lle rydym bellach yn dweud bod darparwr PRS wedi'i wahardd rhag ymrwymo i drefniant â pherson arall lle byddai'r trefniant hwnnw'n arwain at fynd yn groes i unrhyw benderfyniad, cyfarwyddyd neu sancsiwn penodedig y mae'r person yn ddarostyngedig iddo. Mae hyn yn wahanol i'r fersiwn a gynigir yn yr ymgynghoriad, lle rydym yn nodi y byddai ein cynigion wedi gwahardd darparwyr PRS rhag gweithio gyda pherson sy'n destun cyfarwyddyd, penderfyniad neu sancsiwn a nodir yn erthygl 16 ni waeth a fyddai'r trefniant hwnnw'n arwain at dorri'r cyfarwyddyd, y penderfyniad neu'r sancsiwn a osodir ar y person hwnnw. Petaem wedi bwrw ymlaen â'n dull arfaethedig, byddai hynny wedi golygu y byddai unrhyw berson sydd â sancsiwn neu gyfarwyddyd yn cael ei wahardd rhag gweithio gyda darparwr PRS, hyd yn oed os na fyddai'r trefniant yn gysylltiedig â'r cyfarwyddyd, y penderfyniad neu'r sancsiwn y mae'n ddarostyngedig iddo. Rydym o'r farn bod hyn yn ehangach na bwriad y polisi, sef adlewyrchu 3.1.4 Cod 15 (gan ddiwygio i gyfeirio at Ofcom a'r cyfarwyddiadau/penderfyniadau rheoleiddio perthnasol y bydd Ofcom yn eu gwneud). Felly, rydym wedi diwygio erthygl 16 i fod yn fwy cyfyng o ran cwmpas, fel y bydd ond yn berthnasol pan fydd y trefniant yn achosi i'r person dorri'r cyfarwyddyd, y penderfyniad neu'r sancsiwn y mae'n ddarostyngedig iddo.
- 5.19 Nid ydym yn credu y bydd yna unrhyw effaith ar ddarparwyr PRS o ganlyniad i'r newid hwn, gan fod yr erthygl hon yn adlewyrchu'r gofynion presennol o dan God 15 (ond gyda'r gofynion ychwanegol mewn perthynas â chyfarwyddiadau a phenderfyniadau Ofcom), nad ydym yn disgwyl iddynt gynyddu'r baich rheoleiddio.
- 5.20 Mae mân newidiadau drafftio eraill i'r erthygl yn cynnwys egluro cyfarwyddiadau a phenderfyniadau penodol Ofcom y mae'r erthygl yn berthnasol iddynt, a hefyd nodi bod sancsiwn yn un a gyhoeddir ar wefan y PSA.
- 5.21 Mewn perthynas â'r ymatebion i'r ymgynghoriad sydd wedi cael eu gwneud i'r erthygl hon, bydd cyfarwyddiadau a phenderfyniadau Ofcom y cyfeirir atynt yn yr erthygl hon yn cael eu cyhoeddi gan Ofcom yn ei gofrestr sydd i'w sefydlu a'i chynnal o dan erthygl 12. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y gofrestr yn hygyrch, yn gywir ac yn cael ei diweddar'u rheolaidd er mwyn helpu darparwyr PRS i gydymffurfio â'r Gorchymyn PRS. Felly, rydym yn cynnig dilyn y dull PSA yn fras ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth berthnasol, ac

ar ôl i ddarparwyr PRS gofrestru eu sefydliadau, byddant yn gallu cael gafael ar wasanaethau Gwiriwr Rhifau a gwybodaeth diwydrwydd dyladwy berthnasol, gan gynnwys mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan atodlenni 1 a 2. O ran y sancsiynau gan y PSA a'i ragflaenwyr, bydd y rhain ar gael o hyd drwy wefan y PSA unwaith y daw'r Gorchymyn PRS i rym. Bydd holl achosion gorfodi etifeddol y PSA yn cael eu harchifo ar wefan y PSA a byddant ar gael yn rhwydd ar wefan Ofcom fel bod gwahaniaeth clir rhwng achosion PSA blaenorol ac achosion Ofcom yn y dyfodol.

Gofynion asesu risg (Erthygl 17)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 5.22 Roeddem yn cynnig cadw gofynion Cod 15 sy'n ymwneud yn fras â diwydrwydd dyladwy, a rheoli (DDRAC) ond symleiddio'r gofynion hyn a chanolbwyntio ar yr hyn roeddem yn credu oedd y materion allweddol y mae angen i ddarparwyr PRS fynd i'r afael â nhw wrth geisio gwneud trefniadau gyda darparwyr PRS eraill a thrydydd partion. Roeddem yn cynnig na chaiff unrhyw ddarparwr PRS ymrwymo i drefniant mewn perthynas â PRS rheoledig oni bai ei fod wedi cynnal asesiad risg mewn perthynas â'r trefniant hwnnw. Cynigiwyd bod yn rhaid i'r asesiad ystyried y risgiau i ddefnyddwyr a allai godi, gan ystyried pwrpas a natur y trefniant, a'r partion i'r trefniant. Wrth ystyried risg, roeddem yn cynnig bod yn rhaid i ddarparwyr PRS ystyried gwybodaeth y gallant yn rhesymol ei chael am y parti maent yn ceisio ymrwymo i'r trefniant gydag ef, gan gynnwys gallu'r parti hwnnw i dalu ei ddyledion, yn ogystal â'i hanes cyfreithiol a hanes cydymffurfio. Byddai darparwyr PRS hefyd yn cymryd camau priodol a chymesur pan fyddant yn nodi risgiau i ddefnyddwyr, er mwyn atal effeithiau niweidiol sy'n deillio o risgiau o'r fath.
- 5.23 Roeddem yn cynnig cyfuno'r gofyniad ym mharagraff 3.9.1 Cod 15 i gyflawni diwydrwydd dyladwy effeithiol gyda'r gofyniad mwy cyffredinol i gynnal asesiadau risg ym mharagraff 3.9.2 Cod 15. Roeddem hefyd wedi uno'r rhan fwyaf o'r gofynion diwydrwydd dyledus ac asesu risg sy'n weddill o God 15 fel bod y Gorchymyn PRS drafft yn nodi:
- yr asesiad risg cyntaf y mae'n rhaid ei wneud cyn gwneud trefniadau â pherson arall (y parti sy'n contractio) – mae hyn yn adlewyrchu'n fras y mesur diwydrwydd dyladwy sy'n ofynnol gan baragraff 3.9.1 Cod 15; a
 - sut y bydd yr asesiad risg hwn wedyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarw drwy gydol oes y trefniant – mae hyn yn adlewyrchu'n fras y gofyniad asesu risg ym mharagraff 3.9.2 Cod 15.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Cwmpas yr asesiadau risg a'r diffiniad o risg

- 5.24 Gofynnodd A2B Telecoms Ltd, aimm, Donr Ltd, Mobile UK a VMO2 am eglurhad ynghylch y diffiniad o risg. Yn benodol, gofynnwyd a yw risg yn cyfeirio at gŵyn, twyll neu weithgarwch troseddol. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm. Gofynnodd VMO2 a all pob gweithredwr rhwydwaith symudol barhau i geisio diffinio beth mae risg yn ei olygu iddyn nhw, gan nodi y gall prosesau rheoli risg amrywio ymysg y gweithredwyr rhwydweithiau symudol. Ar ben hynny, holodd Mobile UK pwy fyddai'n penderfynu bod risg yn bodoli.

- 5.25 Roedd Strategic Brief yn bryderus bod ein gofynion arfaethedig yn erthygl 17 y Gorchymyn PRS drafft yn ymwneud â threfniadau corfforaethol y partïon yn unig ac nad oedd gofyniad penodol i ystyried y gwasanaeth ei hun. Awgrymodd hefyd y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr ystyried “*natur, ffurfweddiad a fformat y PRS rheoledig.*” Roedd yn dadlau y byddai hyn yn helpu’r diwydiant i fynd i’r afael â risgiau gwasanaethau newydd a allai ymddangos eu bod yn cydymffurfio ond y gallai cyfryngwr neu MNO ystyried eu bod yn rhy beryglus i’w derbyn.
- 5.26 Dywedodd TalkTalk y gallai’r gofynion diogelu defnyddwyr yn Rhan 6 y Gorchymyn PRS drafft gyflwyno “*mwy o oddrychedd ar ran darparwyr PRS (gan gynnwys gweithredwyr rhwydwaith) mewn gofynion asesu risg ac a ellid ystyried bod gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr yn gamarweiniol.*” Aeth TalkTalk ymlaen i ddweud “*rydym felly’n rhagweld heriau cynyddol rhwng cwmnïau cadwyn gyflenwi (gweithredwyr rhwydwaith, cyfryngwyr a masnachwyr) oherwydd yr hyn yr ystyrir ei fod yn cydymffurfio a allai yn ei dro olygu bod angen mwy o gyfranogiad gan Ofcom ar ffurf cyngor cydymffurfio (fel sy’n cael ei weithredu ar hyn o bryd gan y PSA)*”.
- 5.27 Gofynnodd Telecom2 Ltd a oeddem yn bwriadu cynnal diwydrwydd dyladwy ar bob cyflenwr sy’n cael ei ddefnyddio i hyrwyddo a darparu CPRS. Nododd, pe bai hyn yn digwydd, y byddai gweithredwyr peiriannau chwilio yn cael eu boddi gan geisiadau i ddarparu gwybodaeth. Holodd hefyd sut y gall masnachwyr gyflawni diwydrwydd dyladwy arnyn nhw eu hunain.
- 5.28 Dywedodd Telecom2 Ltd hefyd fod achos PSA diweddar yn awgrymu, pan fydd darparwr sy’n gweithredu fel gweithredwr rhwydwaith yn lletya darparwr arall ar ei rwydwaith, y dylai gyflawni prosesau DDRAC⁵⁵ ar y darparwr a letyir oherwydd byddai’r darparwr hwnnw’n cael ei ystyried yn gyfryngwr. Roedd yn credu, ar yr amod bod y rhwydweithiau wedi’u gwahanu’n llwyr, y byddai’n wrthgystadleuol i weithredwr rhwydwaith gael gweld gwasanaethau a chwsmeriaid gweithredwyr rhwydwaith eraill. Gofynnodd am eglurhad ynghylch sut y byddai’r gofynion yn berthnasol yn yr amgylchiadau hyn.

Cymhwyso gofynion asesu risg i siopau apiau⁵⁶

- 5.29 Cawsom nifer o ymatebion gan randdeiliaid mewn perthynas â sut mae’r fframwaith rheoleiddio yn berthnasol i siopau apiau.
- 5.30 Holodd aimm pa mor hawdd fyddai cynnal diwydrwydd dyladwy ar wasanaethau hysbysebu Google, er enghraifft. Roedd yn dadlau pe bai siopau apiau yn cael eu rheoleiddio’n uniongyrchol gan Ofcom, yna byddai gwasanaethau hyrwyddo sy’n cael eu darparu gan siopau apiau yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 5.31 Mynegodd Mobile UK bryderon nad yw siopau apiau wedi’u diffinio’n glir a’u bod wedi’u hesemptio o oruchwyliaeth reoleiddiol fanwl gan Ofcom neu’r MNOs. Dywedodd Mobile UK nad yw’r MNOs yn ceisio difrodi cyfranogiad y siopau apiau ond roeddent am fynegi pryder ynghylch amharoddrwydd rhai siopau apiau i’w prosesau DDRAC fod yn destun craffu gan y MNOs.

⁵⁵Diwydrwydd dyladwy, asesu a rheoli risg, fel y defnyddir yng Nghod 15. Fel yr eglurwyd ym mharagraff 4.86(d) yr ymgynghoriad ar y Gorchymyn PRS drafft, nid ydym wedi cadw’r gofynion rheoli cytundebol yng Nghod 15 yn y Gorchymyn PRS.

⁵⁶Codwyd mater siopau apiau hefyd yn adran 3 ar ddiffiniadau (gweler paragraffau 3.95 – 3.100) ac adran 4 ar gofrestru (gweler paragraffau 4.76 – 4.80).

- 5.32 Mynegodd Vodafone bryderon hefyd ynghylch siopau apiau ac, yn benodol, bod eu maint masnachol yn cynrychioli lefel uchel o risg i gydymffurfriad rheoleiddiol Vodafone o ran DDRAC. Dywedodd bod gosod disgwyliadau presennol DDRAC arnynt yn ei gwneud yn ofynnol i Vodafone wybod pa wasanaethau sy'n gweithredu ar ei rwydwaith a rhoi mesurau rheoli a risg priodol ar waith ar gyfer y gwasanaethau hyn, a bod hyn yn anymarferol i weithredwyr byd-eang. Roedd hefyd yn tynnu sylw at bryder y gallai siop apiau sydd â disgwyliadau DDRAC gwael gael ei diogelu rhag unrhyw ôl-ffeithiau rheoleiddiol a achosir gan fasnachwr yn gweithredu'n anonest oherwydd esemptiad cofrestru, ac y gallai'r un masnachwr arwain at fethiant Vodafone i gydymffurfio â'i rwymedigaethau DDRAC.

Cwmpas y partïon y mae'n rhaid cynnal diwydrwydd dyladwy ac asesiadau risg mewn perthynas â nhw

- 5.33 Nododd Apple fod y Gorchymyn PRS drafft yn cynnig mesurau diwydrwydd dyladwy newydd y bydd disgwyl i ddarparwyr eu rhoi ar waith. Roeddent o'r farn y dylai mesurau diwydrwydd dyladwy o'r fath fod: (a) wedi'u cefnogi gan Asesiad o'r Effaith (IA); (b) yn gymesur; ac (c) wedi'u gweithredu ar sail y rôl y mae darparwr yn ei chwarae yn yr ecosystem.

Gallu'r parti i dalu dyledion

- 5.34 Roedd Action 4 Limited yn cwestiynu a fyddai rhai o'r gofynion yn ein cynigion yn gydnaws â chyfraith cwmnïau Lloegr. Gofynnodd pwy sy'n penderfynu a all cwmni dalu ei ddyledion. Awgrymodd hefyd y dylem ail-eirio ein gofynion fel rhywbeth tebyg i *"fel y disgwylir yn rhesymol y gellir setlo ei ddyledion ar ôl i wasanaethau ddechrau."*
- 5.35 Roedd A2B Telecoms Ltd, aimm a BBC Plant mewn Angen yn poeni am orfod asesu a fyddai darparwr PRS yn methu talu ai dyledion ynteu a fyddai'n debygol o fethu â thalu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus. Dywedasant y byddai'n amhosibl gwybod hyn ymlaen llaw mewn llawer o achosion. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 5.36 Dywedodd Donr Ltd ei bod yn ymddangos bod ein cynnig yn dibynnu ar wybodaeth sy'n seiliedig ar ragweld y dyfodol ac efallai na fydd darparwyr PRS yn gallu amcangyfrif statws ariannol darparwr arall ar gyfer blynyddoedd i ddod. Awgrymodd Donr Ltd y dylid mabwysiadu dull lle mae'n rhaid i'r parti hunanardystio eu bod yn ariannol ddiddyled.

Achosion cyfreithiol a hanes cydymffurfio

- 5.37 Roedd A2B Telecom Ltd, aimm, y BBC, BBC Plant mewn Angen, BT, Cancer Research UK, Channel 4, Donr Ltd, ITV a Telecom2 Ltd yn dadlau y dylai asesiadau risg gael eu cyfyngu i ystyried achosion cyfreithiol sydd ond yn ymwneud â CPRS, yn hytrach na phob achos cyfreithiol y mae'r parti wedi bod yn gysylltiedig ag ef. Roeddent yn dweud bod y gofyniad arfaethedig yn anghymesur, gyda BT yn dweud bod hyn yn rhy eang ac, mewn llawer o achosion, y byddai'n golygu datgelu achosion na fyddent yn berthnasol i'r asesiad risg. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 5.38 Yn yr un modd â'u sylwadau ar allu partïon i dalu dyledion, dywedodd Donr Ltd fod y ddarpariaeth sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol yn dibynnu ar wybodaeth sy'n seiliedig ar ragweld y dyfodol ac na fyddai darparwr PRS yn gallu amcangyfrif statws cyfreithiol parti arall yn gywir. Unwaith eto, awgrymwyd y dylai'r parti arall hunanardystio nad oes unrhyw ymgyfreitha yn yr arfaeth yn eu herbyn.

- 5.39 Nododd Donr Ltd a Infomedia y byddai'r gofyniad i ystyried hanes cydymffurfio yn dibynnu ar Ofcom yn cynnal cofrestr er mwyn i ddarparwyr PRS allu dod o hyd i benderfyniadau blaenorol.

Mesurau i liniaru a rheoli risg

- 5.40 Holodd Donr Ltd ynghylch defnyddio'r term "priodol a chymesur" wrth ddisgrifio'r mesurau y mae'n rhaid i ddarparwyr PRS eu cymryd i atal effeithiau niweidiol sy'n deillio o'r risgiau a nodwyd yn eu hasesiadau risg. Dywedodd fod hyn yn oddrychol a bod angen ei ddiffinio'n well er mwyn rhoi arweiniad cliriach ar yr hyn a ddisgwylid.
- 5.41 Awgrymodd ITV fân ddiwygiadau i'r gofyniad hwn fel mai dim ond pan fyddai risgiau sylweddol i ddefnyddwyr y byddai'r gofyniad yn berthnasol, gan ganiatáu i weithredwyr asesu a gwerthuso niwed posibl i ddefnyddwyr a chael disgresiwn priodol ynghylch a ddylid lliniaru neu dderbyn unrhyw risgiau yn unol â disgwyliadau defnyddwyr. Gofynnodd hefyd i ni ddileu ein cynnig na ddylai darparwyr PRS ymrwmo i drefniadau lle na allant gymryd mesurau o'r fath. Roedd yn teimlo bod hyn yn ddiangen o ystyried bod angen lliniaru risgiau perthnasol ac felly byddai'r gofyniad arfaethedig hwn yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i gyflawni amcanion y rheoliad.
- 5.42 Roedd Mobile UK a VMO2 yn poeni nad oedd Ofcom yn trosglwyddo i'r Gorchymyn PRS drafft y gofyniad i reoli risg o God 15. Dywedodd VMO2 y bydd rheoli risg yn amrywio rhwng y gwahanol weithredwyr rhwydwaith symudol. Roeddent yn dweud y byddai rhai yn datblygu mesurau lliniaru priodol i reoli risgiau penodol, tra byddai eraill yn ystyried bod risgiau tebyg yn rhy gymhleth neu'n anaddas i'w sefydliad. Gofynnodd VMO2 am eglurhad bod hyn yn dderbyniol ac na fwriedir i ddileu'r derminoleg "rheoli" atal y prosesau rheoli risg presennol. Nododd Mobile UK *"Mae rhai risgiau'n gallu bod yn werth eu lliniaru ac eraill yn werth eu cario, ond ochr yn ochr â'r gofyniad i atal yn hytrach na dim ond y pŵer cytundebol i atal, mae'r prif ddefnydd o asesiadau risg yn debygol o arwain at ddull mwy gwrth-risg yn y pen blaen."*

Adolygu asesiadau risg

- 5.43 Dywedodd Donr Ltd y dylai amllder adolygu asesiadau gael ei nodi'n uniongyrchol yng nghymal perthnasol y Gorchymyn PRS. Roedd yn credu bod y drafft arfaethedig a oedd yn cyfeirio at "gyfnod priodol", a ddiffiniwyd wedyn yn ddiweddarach yn yr erthygl fel 12 mis, yn aneglur ac yn amwys.
- 5.44 Gofynnodd Mobile UK am eglurhad mewn perthynas ag asesiadau risg parhaus unwaith y bydd CPRS wedi mynd yn fyw. Roedd yn tybio y bydd unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn cael eu hasesu ar sail risg a bod gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth am niwed i ddefnyddwyr yn caniatáu i'r cyfryngwr neu'r rhwydwaith sbarduno adolygiad o asesiad risg.

Ein penderfyniad

- 5.45 Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid yn ofalus, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen yn fras â'n cynigion ar gyfer erthygl 17, gyda rhai diwygiadau i'n cynigion er mwyn gwella eglurder a sicrhau gwell cysondeb â'n hamcanion polisi a'n nodau.

Cwmpas yr asesiadau risg a'r diffiniad o "risg"

- 5.46 Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y byddai darparu diffiniad o "risg" yn helpu i egluro'r hyn y dylai darparwyr PRS fod yn ei asesu. Felly, rydym wedi ychwanegu diffiniad o risg at erthygl 17 y Gorchymyn PRS.

- 5.47 Mae Erthygl 17(12) y Gorchymyn PRS bellach yn diffinio risg fel:
- “...unrhyw amgylchiad neu ddigwyddiad rhesymol allai achosi effaith niweidiol bosibl ar ddefnyddwyr sy’n defnyddio’r PRS rheoledig y mae’r trefniant y cyfeirir ato ym mharagraff (1) [h.y. y trefniant sy’n destun yr asesiad risg] yn gysylltiedig ag ef...”*
- 5.48 Rydym o’r farn bod y diffiniad hwn yn egluro bod yn rhaid i ddarparwyr PRS, fel rhan o’u hasesiad risg, edrych ar bethau a fydd yn cael effeithiau niweidiol posibl ar y defnyddwyr a fydd yn defnyddio’r CPRS perthnasol. Mae’r gair “rhesymol” yn ceisio cynnwys prawf gwrthrychol a barnu’r tebygolrwydd y bydd amgylchiad neu ddigwyddiad adnabyddadwy yn cael effeithiau niweidiol posibl o’r fath.
- 5.49 Yng ngoleuni sylwadau rhanddeiliaid, rydym hefyd wedi gwneud y newidiadau canlynol mewn perthynas â chwmpas yr asesiad risg y mae’n rhaid ei gynnal o dan erthygl 17 y Gorchymyn PRS:
- rydym wedi ystyried ac yn cytuno â’r sylwadau gan Strategic Brief ac felly rydym wedi ychwanegu gofyniad newydd (erthygl 17(2)(c) y Gorchymyn PRS) i egluro bod angen i ddarparwyr PRS hefyd ystyried y CPRS ei hun ac nid dim ond trefniadau sy’n ymwneud â materion corfforaethol;
 - rydym wedi ychwanegu cyfeiriad (yn erthygl 17(3) y Gorchymyn PRS) i egluro mai dim ond gwybodaeth sy’n rhesymol hygyrch “o ffynonellau cyhoeddus” y mae’n rhaid i ddarparwyr PRS ei hystyried. Diffinnir “ffynonellau cyhoeddus” yn erthygl 17(12) fel ffynonellau sy’n cynnwys gwybodaeth sydd ar gael i aelodau o’r cyhoedd yn y DU. Mae hwn yn ofyniad cymesur a dylai ddarparu eglurder i ddarparwyr o ran y wybodaeth y bydd angen iddynt ei hystyried fel rhan o’u hasesiadau risg;
 - rydym hefyd wedi diwygio’r gofyniad yn erthygl 17(3)(d) i egluro mai dim ond “gwybodaeth gofrestredig” am is-gontractwyr y mae angen i ddarparwyr PRS ei ystyried, gyda diffiniad o “wybodaeth gofrestredig” yn erthygl 17(12) sy’n nodi’r wybodaeth benodol y mae angen ei hystyried. Mae hyn yn cynnwys enw a chyfeiriad yr is-gontractwr. Drwy gael y wybodaeth hon, rydym o’r farn bod gan ddarparwyr PRS fan cychwyn defnyddiol, ynghyd â ffynonellau eraill sydd ar gael iddynt, i ganfod pa mor ddibynadwy yw’r is-gontractwr, gan gynnwys unrhyw risgiau cysylltiedig.
- 5.50 Ein dealltwriaeth o sylwadau TalkTalk yw ei fod yn poeni, o ganlyniad i’r Gorchymyn PRS, y bydd gan ddarparwyr PRS safbwyntiau gwahanol ynghylch yr hyn sy’n ofynnol yn y broses asesu risg er mwyn cydymffurfio. Rydym o’r farn bod erthygl 17 y Gorchymyn PRS yn ddigon clir ynghylch y risgiau y mae angen i ddarparwyr PRS chwilio amdanynt cyn gwneud trefniadau, pa fath o wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud hyn, a pha gamau y bydd angen i’r darparwyr eu cymryd wedyn pan fydd risg yn cael ei nodi (gweler paragraffau 5.46 i 5.45 am drafodaeth ar y gofyniad i gymryd camau i liniaru a rheoli risgiau sy’n briodol ac yn gymesur).
- 5.51 Rydym hefyd wedi ystyried ymatebion Telecom2 Ltd. O ran cwmpas y gofynion, rydym yn cadarnhau y bydd y gofynion i gynnal asesiadau risg yn erthygl 17 y Gorchymyn PRS yn berthnasol pan fydd darparwr PRS yn dymuno gwneud trefniadau gyda pheiriant chwilio mewn perthynas â gweithgaredd a reoleiddir/CPRS e.e. contract i’r peiriant chwilio hyrwyddo ei CPRS penodol. Gall hyn arwain at ofyn i beiriannau chwilio ddarparu gwybodaeth benodol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag erthygl 17, er y dylid nodi bod erthygl 17(3) y Gorchymyn PRS wedi cael ei diwygio i egluro bod modd cymryd yr wybodaeth sydd i’w chasglu mewn perthynas â’r parti arall i’r trefniant (fel y peiriant chwilio) o ffynonellau sydd ar gael i’r cyhoedd. Dylai hyn olygu nad yw peiriannau chwilio yn

cael eu boddi gan geisiadau gan fod darparwyr PRS yn gallu cynnal eu hymchwil eu hunain er mwyn cael yr wybodaeth berthnasol. Rydym yn nodi na fyddai'r gofyniad i gynnal asesiadau risg mewn perthynas â pheiriannau chwilio yn wahanol i God 15, a oedd yn mynnu yn 3.9.2 bod darparwyd PRS yn asesu risgiau posibl yn barhaus gan unrhyw berson y maent yn contractio gydag ef mewn perthynas â darparu, cynnwys, hyrwyddo a marchnata CPRS. Byddai'r gofyniad hwnnw wedi bod yn berthnasol i ddarparwyr PRS sy'n contractio gyda pheiriannau chwilio mewn perthynas â CPRS/gweithgaredd a reoleiddir, ac mae'r sefyllfa honno wedi cael ei chynnal o dan y Gorchymyn PRS.

- 5.52 Rydym yn credu bod ymateb Telecom2 Ltd i sut gall masnachwyr gynnal diwydrwydd dyladwy arnynt eu hunain yn dod o baragraff 4.74 y ddogfen ymgynghori, lle roeddem yn cynnig y bydd pob darparwr PRS yn ddarostyngedig i'r gofynion yn erthygl 17, gan gynnwys y mesur diwydrwydd dyladwy ar ffurf cynnal yr asesiad risg cyntaf. Mae hyn ychydig yn wahanol i baragraff 3.9.1 Cod 15 sy'n mynnu bod gweithredwyr rhwydwaith a chyfryngwyr yn cynnal diwydrwydd dyladwy yn unig. O ran ymateb Telecom2 Ltd, rydym o'r farn bod erthygl 17 y Gorchymyn PRS (ynghyd â'r gofynion eraill o dan Ran 4 y Gorchymyn PRS) yn glir ei fod yn berthnasol dim ond pan fydd darparwr PRS yn bwriadu gwneud trefniadau â pharti arall (naill ai darparwr PRS arall neu drydydd parti, yn dibynnu ar yr erthygl). Felly, o dan y Gorchymyn PRS, ni fydd yn ofynnol i fasnachwyr gynnal diwydrwydd dyladwy arnynt eu hunain.
- 5.53 Rydym hefyd yn deall pryderon Telecom2 y byddai'r gofyniad asesu risg a gynigir yn yr ymgynghoriad yn wrth-gystadleuol i weithredwyr rhwydweithiau drwy allu gweld gwasanaethau a chwsmeriaid ei gilydd. Bwriad ein polisi oedd peidio â mynnu bod gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif yn cael ei datgelu gan un darparwr PRS i un arall. Yn hytrach, yr hyn roedden ni'n ei fwriadu oedd i gyfryngwyr ystyried gwybodaeth gyhoeddus sy'n ymwneud â'r pethau yn erthygl 17(3) y Gorchymyn PRS drafft (e.e. defnyddio is-gontractwyr).
- 5.54 Rydym felly wedi diwygio erthygl 17(3) yn y Gorchymyn PRS ac wedi egluro rhai agweddau. Yn gyntaf, rydym wedi nodi'n glir mai'r wybodaeth sydd i'w hystyried wrth gynnal asesiad risg yw gwybodaeth y gellir yn rhesymol ei chael o ffynonellau cyhoeddus. O ran is-gontractwyr eu hunain, fel yr eglurir ym mharagraff 5.52, rydym wedi egluro mai gwybodaeth gofrestredig yn unig sydd ei hangen (ac felly ni ddylai fod yn fanylion a fydd yn fasnachol sensitif). Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r wybodaeth arall sy'n ofynnol o dan erthygl 17(3) e.e. gwybodaeth am achosion cyfreithiol.
- 5.55 Rydym hefyd yn nodi na ddylid tybio o reidrwydd, pan fydd gweithredwr rhwydwaith yn lletya gweithredwr rhwydwaith arall ar ei rwydwaith, y bydd y ddau yn bodloni'r diffiniad o weithredwr rhwydwaith o dan erthygl 9(7) i (9) y Gorchymyn PRS – bydd angen penderfynu ar hyn fesul achos.

Cymhwyso asesiadau risg i siopau apiau

- 5.56 Rydym wedi nodi sylwadau mewn perthynas â'r heriau o ran cynnal asesiadau risg gyda siopau apiau.
- 5.57 Mewn ymateb i Mobile UK, mae'n bwysig egluro bod siopau apiau'n cael eu rheoleiddio'n uniongyrchol o dan y Gorchymyn PRS i'r graddau eu bod yn bodloni'r diffiniad o ddarparwr PRS (h.y. masnachwr, cyfryngwr neu weithredwr rhwydwaith) o dan erthygl 9 y Gorchymyn PRS. Pan mai dyna'r sefyllfa, bydd yn ofynnol i'r siopau apiau hynny gydymffurfio â Rhan 4 y Gorchymyn PRS pan fyddant yn bwriadu gwneud trefniadau sy'n ymwneud â CPRS/gweithgaredd a reoleiddir. Edrychwch ar baragraffau 3.95 – 3.100 i gael rhagor o

drafodaeth ar y diffiniad o siopau apiau a sut byddant yn cael eu rheoleiddio o dan y Gorchymyn PRS.

- 5.58 Mewn perthynas â'r sylwadau a godwyd gan aimm, Vodafone a Mobile UK, rydym yn nodi bod y rhain yn ymwneud yn gyffredinol â phŵer canfyddedig y siopau apiau mwy a'r anawsterau posibl i ddarparwyr PRS wrth gynnal diwydrwydd dyladwy ac asesiadau risg mewn perthynas â'r siopau apiau hyn. I'r perwyl hwn, mae'n bwysig nodi bod yr esemptiad siop apiau yn erthygl 11 y Gorchymyn PRS ond yn esemptio masnachwyr rhag y gofyniad i gofrestru gydag Ofcom, nid o'r gofyniad i gydymffurfio â gweddill y Gorchymyn PRS. Ar ben hynny, fel rhan o'r esemptiad hwnnw, mae'n rhaid i siopau apiau sy'n "gyfryngwyr cymwys" gasglu a chadw gwybodaeth benodol am y masnachwyr hyn, yn ogystal â chael proses ar waith ar gyfer delio â chwynion mewn perthynas â'r masnachwyr hyn. Dyma wybodaeth y dylai siopau apiau allu ei rhannu'n rhwydd â darparwyr PRS eraill y maent yn bwriadu contractio â nhw fel rhan o'r gofynion diwydrwydd dyladwy ac asesu risg o dan y Gorchymyn PRS. Beth bynnag, rydym wedi drafftio'r gofyniad yn erthygl 17(3) y Gorchymyn PRS er mwyn i'r wybodaeth ofynnol sydd i'w chael am y siop apiau fod yn wybodaeth y gall y Darparwr PRS yn rhesymol ei chael o ffynonellau cyhoeddus. Credwn fod hyn yn gymesur ac yn delio â phryderon Vodafone am eu gallu i gydymffurfio â Rhan 4 y Gorchymyn PRS a allai gael ei lesteirio gan siopau apiau.

Cwmpas y partïon y mae'n rhaid cynnal diwydrwydd dyladwy ac asesiadau risg mewn perthynas â nhw

- 5.59 Rydym wedi ystyried sylwadau Apple ynghylch cymesuredd diwydrwydd dyladwy. Nodwn, yn benodol, fod pryderon Apple yn seiliedig yn bennaf ar y ffaith ei fod yn ystyried nad yw ADIL yn gweithredu fel asiant neu gyfryngwr i ddatblygwyr siopau apiau pan fo, mewn gwirionedd, yn fasnachwr ac, o'r herwydd, ni all fynnu bod datblygwyr yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.
- 5.60 Unwaith eto, fel y nodwyd uchod, mae'n bwysig nodi mai dim ond i'r graddau y mae partïon yn bodloni'r diffiniad o ddarparwr PRS (h.y. masnachwr, cyfryngwr neu weithredwr rhwydwaith) o dan erthygl 9 y Gorchymyn PRS y mae'r gofynion hyn yn berthnasol. I'r graddau y maent yn bodloni'r diffiniad hwn, byddem yn disgwyl iddynt gydymffurfio â'r gofynion hyn (boed yn fasnachwr, yn gyfryngwr neu'n weithredwr rhwydweithiau). Fodd bynnag, er bod hyn ychydig yn wahanol i baragraff 3.9.1 Cod 15 sy'n mynnu bod gweithredwyr rhwydwaith a chyfryngwyr yn cynnal diwydrwydd dyladwy yn unig, rydym yn nodi bod y gofyniad i gynnal asesiadau risg ym mharagraff 3.9.2 Cod 15 yn berthnasol i bob darparwr PRS ac, felly, rydym yn disgwyl y byddai masnachwyr eisoes yn cyflawni gweithgareddau tebyg o dan God 15.
- 5.61 Rydym hefyd yn nodi bod Apple yn dadlau y dylai mesurau diwydrwydd dyladwy gael eu hategu gan IA. Fel rydyn ni'n egluro yn adran 13 (gweler paragraffau 13.45 i 13.49), mae'r dadansoddiad rydyn ni'n ei gyflwyno yn y datganiad hwn yn cynrychioli Asesiad o'r Effaith ar ein penderfyniadau i ymgorffori swyddogaethau rheoleiddio'r PSA yn Ofcom. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn ategu'r asesiad o'r effeithiau yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â chyhoeddi'r Gorchymyn PRS. O ran DDRAC, rydym yn nodi ein bod wedi symleiddio'r gofynion sy'n ymwneud â DDRAC, gan gynnwys dileu'r gofyniad i weithredwyr rhwydwaith a chyfryngwyr fod â pholisïau a gweithdrefnau DDRAC ysgrifenedig ar waith a dileu'r gofyniad i weithredwyr rhwydweithiau a chyfryngwyr fod â gofynion rheoli cytundebol ar waith. Rydym yn cydnabod na fydd arbedion yn fawr gan fod gan weithredwyr rhwydweithiau a chyfryngwyr bolisïau ysgrifenedig eisoes ar waith i gydymffurfio â Chod 15. Fodd bynnag, ein barn ni yw y bydd arbedion i ddarparwyr, gan

gynnwys costau parhaus i ddarparwyr drwy beidio â gorfod diweddarau polisïau ysgrifenedig a pheidio â gorfod rheoli camau gweithredu partneriaid sydd is i lawr, a gallai arbed rhywfaint o gostau sefydlu i ddarpar newydd-ddyfodiaid.

- 5.62 O ran sylwadau Apple ynghylch y gofyniad i adolygu asesiadau risg yn flynyddol, neu yn dilyn newid sylweddol, rydym o'r farn bod hyn yn gymesur. Yn benodol, rydym yn nodi bod hyn yn dilyn Cod 15 yn fras yn nhermau paragraff 2.2 Atodiad 2 i God 15 sy'n datgan bod yn rhaid adolygu gwybodaeth a restrir o dan baragraff 2.3 (sy'n ymwneud â diwydrwydd dyladwy) yn flynyddol a'i diweddarau'n brydlon pan fydd unrhyw wybodaeth o'r fath wedi newid.
- 5.63 Byddem hefyd yn nodi ein bod wedi symleiddio'r ffactorau y mae'n rhaid i ddarparwyr PRS eu hystyried o dan y Gorchymyn PRS ac rydym wedi canolbwyntio ar y ffactorau hynny sy'n hanfodol yn ein barn ni i benderfynu ar addasrwydd y parti sy'n contractio at ddibenion darparu CPRS. Yn ein barn ni, felly, dylai hyn fod yn gymharol llai beichus i ddarparwyr PRS ei gyflawni na'r hyn sy'n digwydd o dan God 15.

Gallu'r parti i dalu ei ddyledion

- 5.64 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod darparwyr PRS yn ystyried a oes sail resymol dros amau nad yw'r parti arall yn y trefniant yn gallu, neu'n debygol o fethu, talu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus (erthygl 17(3)(b) y Gorchymyn PRS). Er bod hyn yn debyg i'r gofyniad o dan Atodiad 2 Cod 15, sy'n mynnu bod darparwyr PRS yn cael yr wybodaeth hon mewn perthynas â darparwyr sy'n gyfryngwyr a darparwyr sy'n fasnachwyr, rydym yn ymestyn y gofyniad i gael gwybodaeth mewn perthynas â phob parti i'r trefniant.⁵⁷ Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y bydd hyn yn ormod o faich ac, yn benodol, rydym o'r farn y bydd darparwyr PRS yn gallu cynnal chwiliadau syml i ganfod a oes risg bosibl (yn y dyfodol) o ansolfedd neu fethdaliad (sef yr hyn y mae'r iaith a ddefnyddir yn y ddarpariaeth hon yn ei ddisgrifio) yn ymwneud â chwmnïau y maent yn bwriadu ymrwymo i drefniadau contract gyda nhw. Rydym hefyd o'r farn ei bod yn rhan bwysig o asesiad risg darparwr PRS i wybod am iechyd ariannol busnes y mae'n bwriadu ymrwymo i drefniadau ag ef. Ar ben hynny, mae'r gofyniad wedi cael ei ddiwygio fel ei bod yn ofynnol i ddarparwyr PRS ystyried gwybodaeth y gallant yn rhesymol ei chael o ffynonellau cyhoeddus, yr ydym yn credu sy'n ychwanegu at gymesuredd y gofyniad o ran bod yn haws cydymffurfio ag ef.
- 5.65 Yn ogystal, mae'r iaith yn erthygl 17(3)(b) yn ceisio cyfeirio at risgiau ansolfedd neu fethdaliad. Fodd bynnag, nid oes gan y geiriau hynny unrhyw ystyron technegol yn y gyfraith, ond yn hytrach maent yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle nad yw person yn gallu talu ei ddyledion. Mae'r iaith rydym wedi'i defnyddio yn erthygl 17(3)(b) yn cael ei defnyddio'n gyffredin mewn deddfwriaeth arall i ddisgrifio ansolfedd neu fethdaliad, felly rydym o'r farn bod eglurder a sicrwydd ynghylch yr ystyr yn y cyd-destun hwn.

Achosion cyfreithiol a hanes cydymffurfio

- 5.66 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion i fynnu o dan erthygl 17(3)(c) ac (e) y Gorchymyn PRS ei bod yn ofynnol i ddarparwyr PRS ystyried gwybodaeth y gallant yn rhesymol ei chael o ffynonellau cyhoeddus am gyfranogiad parti mewn unrhyw achos cyfreithiol, yn ogystal â hanes cydymffurfio perthnasol y parti yn y drefn honno. Mae Atodiad 2 Cod 15 yn mynnu bod darparwyr PRS yn cael yr wybodaeth hon am achosion cyfreithiol mewn perthynas â darparwyr sy'n gyfryngwyr a darparwyr sy'n fasnachwyr⁵⁸. Yn

⁵⁷ Gweler paragraff 2.3(g) Atodiad 2 i God 15.

⁵⁸ Gweler paragraff 2.3(g) yr Atodiad i God 15.

ein barn ni, mae'n bwysig bod hanes parti mewn perthynas â phob achos cyfreithiol yn cael ei ystyried gan ddarparwyr PRS, gan ei fod yn eu galluogi i fod yn glir ynghylch ymddygiad busnesau y maent yn contractio gyda nhw a, thrwy hynny, y tebygolrwydd o niwed i ddefnyddwyr. Dylai hefyd fod yn ddangosydd o batrymau ymddygiad ehangach sy'n debygol o fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr PRS wrth gyflawni eu hasesiadau risg (e.e. os yw'r parti wedi cael ei siwio am dorri contract, gallai hyn ddangos i'r darparwr PRS y gall ailadrodd hyn yn y contract ar gyfer CPRS).

- 5.67 Mewn perthynas â sylw Donr Ltd, rydym yn deall y pryder na fydd darparwyr PRS yn gallu cadarnhau achosion cyfreithiol yn y dyfodol. Mae Erthygl 17(3) y Gorchymyn PRS yn nodi'n glir mai'r gofyniad yw gwybodaeth am achosion cyfreithiol blaenorol neu barhaus – nid yw'n ofynnol i ddarparwr PRS ragweld na chael gwybod am unrhyw achosion yn y dyfodol y gellir eu dwyn yn erbyn y parti arall.
- 5.68 Mewn perthynas â'r ymatebion gan Donr Ltd ac Infomedia ynghylch sut bydd angen i gofrestr Ofcom a gedwir o dan erthygl 12 y Gorchymyn PRS yn cael ei diweddarau o ran cofnodi hanes cydymffurfio perthnasol, rydym yn cytuno ac, yn unol â'r ddyletswydd hon, byddwn yn cadw cofrestr fel ei bod yn gywir ac yn gyfredol mewn perthynas â'r wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol o dan atodlenni 1 a 2 (gan gynnwys manylion cyffredinol darparwr PRS a gwybodaeth benodol sy'n ofynnol gan fasnachwyr), penderfyniadau a chyfarwyddiadau Ofcom h.y. penderfyniadau a phenderfyniadau a wneir o dan y Gorchymyn PRS. Ar gyfer penderfyniadau eraill, naill ai gan Ofcom, neu gan gorff rheoleiddio arall, dylai'r darparwr PRS edrych ar y gwefannau perthnasol i gael yr wybodaeth hon.

Gofynion asesu risg mewn perthynas ag is-gontractwyr

- 5.69 Ni chawsom sylwadau penodol yn uniongyrchol ar erthygl 17(3)(d) y Gorchymyn PRS drafft, a oedd yn ofyniad i ystyried y defnydd o is-gontractwyr.⁵⁹ Fodd bynnag, fe wnaethom ailedrych ar y ddarpariaeth hon yn fwy cyffredinol a phenderfynu diwygio'r gofyniad hwn fel ei bod yn ofynnol yn awr i ddarparwyr PRS, o dan erthygl 17(3)(d) y Gorchymyn PRS, ystyried gwybodaeth gofrestredig (os yw'n bodoli) am unrhyw is-gontractwyr sy'n cael eu defnyddio, neu sydd i'w defnyddio, gan y parti y mae'r darparwr PRS yn bwriadu contractio ag ef.
- 5.70 Diffinnir "gwybodaeth gofrestredig" yn erthygl 17(12) y Gorchymyn PRS fel a ganlyn:
- ar gyfer cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU, yr enw cofrestredig, y rhif, y cyfeiriad ac unrhyw enw masnachu;
 - ar gyfer unrhyw gwmni, ffyrn, corff anghorfforedig neu gymdeithas arall sy'n berson cyfreithiol, manylion eu ffurf gyfreithiol o dan y gyfraith sy'n llywodraethu hynny, unrhyw gofrestr y mae'n cael ei gofnodi ynddi a'i enw cofrestredig, ei rif, ei gyfeiriad ac unrhyw enw masnachu; ac
 - ar gyfer pob achos arall, enw (gan gynnwys unrhyw enw masnachu) a chyfeiriad hysbys diwethaf y person hwnnw.

⁵⁹Wrth wneud sylwadau ar gofrestru, mynegodd Channel 4 a Telecom2 Ltd bryder ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am is-gontractwyr yn y gofrestr a gedwir o dan erthygl 12 y Gorchymyn PRS, a'u bod yn credu y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu fel rhan o'r gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy ac asesu risg. Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw sylwadau gan Channel 4 na Telecom2 Ltd mewn perthynas â'n darpariaethau is-gontractwyr yn benodol yn erthygl 17 (yn hytrach, mae'n ymddangos eu bod yn sylwadau cyffredinol), ac felly nid ydym yn delio â nhw yn yr adran hon. Yn hytrach, gweler paragraffau (4.93 – 4.96 a 4.97 – 4.103) am drafodaeth ar eu sylwadau ar gofrestru.

- 5.71 Rydym o’r farn, drwy nodi’r wybodaeth amrywiol yn erthygl 17(12) y Gorchymyn PRS sydd ei hangen yn dibynnu ar ffurf gyfreithiol yr is-gontractwr, ein bod yn darparu eglurder i ddarparwyr PRS ynghylch pa wybodaeth fanwl y mae angen ei chael mewn perthynas ag is-gontractwyr (gan gynnwys unrhyw rai a allai fod wedi’u lleoli y tu allan i’r DU). Unwaith eto, gan mai dim ond i wybodaeth gofrestredig y gall darparwr PRS gael gafael arni’n rhesymol o ffynonellau cyhoeddus y bydd hyn yn berthnasol, rydym o’r farn bod hyn yn ofyniad cymesur. Rydym hefyd o’r farn y gall darparwyr PRS wedyn ddefnyddio hyn fel sail ar gyfer archwiliadau manylach i’r is-gontractwyr os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mesurau i liniaru a rheoli risg

- 5.72 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’n dull gweithredu arfaethedig sy’n ymwneud â mesurau i liniaru a rheoli risg, ond gyda rhywfaint o eglurhad. Mae hyn yn erthygl 17(5) y Gorchymyn PRS. Yn benodol, rydym yn cadw’r cyfeiriad at “briodol a chymesur” gan ein bod o’r farn y bydd pob darparwr, yn ymarferol, yn wynebu set wahanol o amgylchiadau ffeithiol ac y bydd hyn, felly, yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparwyr PRS wrth benderfynu pa gamau sy’n angenrheidiol i liniaru a rheoli unrhyw risgiau a nodwyd ar sail eu hamgylchiadau eu hunain. Os oes amheuaeth o dorri’r Gorchymyn PRS, bydd Ofcom hefyd, wrth ymchwilio, yn edrych ar amgylchiadau ffeithiol penodol y darparwr ac yn gofyn am esboniadau ynghylch pam, yng ngoleuni’r amgylchiadau hynny, roedd y darparwr PRS o’r farn ei bod yn briodol ac yn gymesur cymryd y camau a wnaeth. Felly, mewn perthynas â gorfodi’r gofyniad, mae hyn yn golygu y bydd Ofcom yn edrych ar gydymffurfriad â’r gofyniad hwn yn wrthrychol.
- 5.73 Mewn ymateb i’r newidiadau a awgrymwyd gan ITV er mwyn caniatáu disgresiwn priodol, rydym o’r farn bod erthygl 17(5) y Gorchymyn PRS fel y’i drafftwyd yn caniatáu i bob darparwr PRS gymryd y camau angenrheidiol fesul achos.
- 5.74 Byddem hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y gofyniad i gymryd camau “priodol a chymesur” yn cael ei ddefnyddio yn erthygl 17(5) mewn deddfwriaeth arall mewn amgylchiadau tebyg, gan gynnwys adran 105A y Ddeddf sy’n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr rhwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus neu wasanaeth cyfathrebu electronig cyhoeddus gymryd pa gamau bynnag sy’n briodol ac yn gymesur at ddibenion—
- a) nodi’r risgiau o beryglu diogelwch;
 - b) lleihau’r risgiau o beryglu diogelwch; a
 - c) paratoi ar gyfer peryglu diogelwch.
- 5.75 Rydym hefyd wedi penderfynu peidio â dileu’r gwaharddiad ar ymrwymo i drefniadau lle na ellir cymryd camau lliniaru neu reoli, yn unol â chais ITV. Mae’r gwaharddiad hwn yn erthygl 17(6) y Gorchymyn PRS. Rydym yn credu bod y gofyniad hwn yn bwysig gan nad yw’n ddigon i ddarparwyr PRS gynnal asesiad risg yn unig ac yna peidio â chymryd unrhyw gamau ar sail canfyddiadau perthnasol. Felly, rydym o’r farn ei bod yn angenrheidiol nodi yn y Gorchymyn PRS pan fydd yr asesiad risg wedi nodi risgiau na ellir eu lliniaru na’u rheoli, na ddylai’r darparwr PRS ymrwymo i’r trefniant. Mae’r gofyniad hwn bellach yn cynnwys mân newidiadau drafftio o’r fersiwn a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn dilyn ein hadolygiad o erthygl 17 yn fwy cyffredinol. Gwnaed y newidiadau hyn am resymau esboniadol.
- 5.76 O ran gofynion i reoli risgiau a nodir yn yr asesiad risg, gallwn gadarnhau nad ydym wedi dileu’r rhain. Yn benodol, rydym yn nodi bod erthygl 17(5) y Gorchymyn PRS yn nodi’n glir pan fydd risgiau o’r fath yn bodoli, bod yn rhaid i ddarparwyr PRS gymryd camau priodol a chymesur i liniaru a rheoli unrhyw risgiau a nodwyd. Gellir dweud yr un peth am erthygl 17(8) y Gorchymyn PRS, sy’n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr PRS gymryd camau

“priodol a chymesur” pan fyddant yn cynnal adolygiad o’r asesiad risg (ar ôl i’r trefniant gael ei wneud) sy’n nodi risgiau sydd wedi newid yn sylweddol neu risgiau newydd. Rydym o’r farn bod y darpariaethau hyn yn gweithredu fel ffordd o reoli, gan ganiatáu i ddarparwyr PRS benderfynu pa gamau sydd fwyaf addas i’w hamgylchiadau penodol.

Adolygu asesiadau risg

- 5.77 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’n dull gweithredu arfaethedig sy’n ymwneud ag adolygu asesiadau risg ac, yn benodol, “cyfnodau priodol” gan ein bod o’r farn ei bod yn gliriach cyfeirio at erthygl 17(12) y Gorchymyn PRS i weld beth mae’r diffiniad “cyfnod priodol” yn ei olygu yn hytrach nag ymgorffori’r diffiniad yn y ddarpariaeth yn erthygl 17(7).
- 5.78 Mewn perthynas â sylwadau Mobile UK am asesiadau risg parhaus, rydym o’r farn bod erthygl 17(7) y Gorchymyn PRS yn glir bod yn rhaid adolygu a diweddarau unrhyw asesiadau risg sy’n cael eu cynnal wrth i’r trefniant fynd rhagddo er mwyn canfod risgiau sy’n dod i’r amlwg. Rydym hefyd yn nodi bod ein diffiniad o “gyfnodau priodol” (yn erthygl 17(12) yn mynnu bod yr adolygiadau hyn yn cael eu cynnal bob 12 mis, ond nad yw hyn yn atal darparwyr PRS rhag cynnal adolygiadau mwy rheolaidd os ydynt yn credu bod angen gwneud hynny.
- 5.79 Un newid bach y dylid cyfeirio ato yw ein bod wedi diwygio erthygl 17(7) i fod yn gliriach mai’r gofyniad yw adolygu a diweddarau’r asesiad risg. Dyma oedd bwriad y polisi yn y fersiwn arfaethedig o erthygl 17 y Gorchymyn PRS drafft, ond yn y fersiwn honno dim ond at y gofyniad i adolygu yr oeddem wedi cyfeirio (yr oeddem yn credu ei fod yn ddigon eang i gynnwys gofyniad i ddiweddarau hefyd). Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rydym wedi diwygio erthygl 17(7) y Gorchymyn PRS i gyfeirio’n benodol at ddiweddarau’r asesiad risg hefyd. Daeth y newid hwn o’n hadolygiad cyffredinol o’r erthygl.

Atal trefniadau gan weithredwyr rhwydwaith (Erthygl 18) a chyfryngwyr (Erthygl 19)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 5.80 Roeddem yn cynnig:
- bod rhaid i weithredwyr rhwydwaith atal trefniadau â chyfryngwr pan fo ganddynt sail resymol dros amau bod yna berygl diogelwch (neu risg o hyn) yn systemau'r cyfryngwr, neu pan fo'r cyfryngwr yn mynd neu wedi mynd yn groes i ofyniad a osodwyd arno o dan y Gorchymyn PRS; a
 - rhaid i gyfryngwyr atal unrhyw drefniadau gyda masnachwyr lle mae ganddynt sail resymol dros amau bod gwendid diogelwch (neu risg o hyn) yn systemau'r masnachwr, neu lle mae'r masnachwr yn mynd yn groes i ofyniad a osodwyd arno o dan y Gorchymyn PRS, neu wedi mynd yn groes iddo.
- 5.81 Roedd y cynigion hyn yn adlewyrchu paragraffau 3.9.8, 3.9.9, 3.10.8 a 3.10.9 Cod 15 i raddau helaeth, gydag ychydig o wahaniaethau allweddol yn seiliedig ar ein bwriadau polisi ein hunain a natur y Gorchymyn PRS drafft. Roedd y rhain yn cynnwys:
- mynnu bod gweithredwyr rhwydwaith a chyfryngwyr yn atal trefniadau gyda phartion sydd wedi’u contractio pan fydd amodau penodol yn cael eu bodloni (fel y nodir uchod), yn hytrach na fframio hyn fel un o delerau contract yr oedd angen iddynt sicrhau ei fod ganddynt (fel y caiff ei nodi yng Nghod 15; a

- b) dileu cyfeiriadau at ddarparwyr dilysu cydsyniad trydydd parti, o ystyried ein dull gweithredu diwygiedig ar gyfer gofynion cydsyniad (gweler paragraff 4.81 o'n hymgyngoriad).

Ymatebion rhanddeiliaid

- 5.82 Gofynnodd aimm a Telecom2 Ltd am gadarnhad bod yr un gofynion yn berthnasol rhwng gweithredwyr rhwydwaith a masnachwyr. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwad aimm.
- 5.83 Roedd Mobile UK yn poeni am y diffyg eglurder ynghylch y sail dros atal gwasanaeth, yn enwedig a ddylai'r cyfryngwr neu'r MNO fod yn atal y trefniant.

Ein penderfyniad

- 5.84 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen yn fras â'n cynigion ar gyfer erthyglau 18 a 19. Fodd bynnag, yng ngoleuni sylwadau rhanddeiliaid, rydym yn ymestyn cwmpas erthygl 18 yn y Gorchymyn PRS fel ei bod hefyd yn berthnasol pan fydd gan weithredwyr rhwydweithiau drefniadau gyda masnachwyr, yn ogystal â chyfryngwyr. Ar ôl ystyried sylwadau rhanddeiliaid, rydym yn derbyn y gallai fod amgylchiadau lle mae rhwydweithiau'n contractio'n uniongyrchol â masnachwyr ac, felly, mae'n bwysig bod y Gorchymyn PRS yn cynnwys y trefniadau hyn hefyd.
- 5.85 Ar ben hynny, rydym o'r farn bod y ddwy erthygl yn glir ynghylch yr amgylchiadau pan fydd angen atal y trefniadau hyn.
- 5.86 Rydym hefyd wedi gwneud mân newidiadau drafftio i'r ddwy erthygl i wella'r eglurder, gan gynnwys teilwra'r diffiniadau o beryglon a systemau diogelwch yng nghyd-destun yr erthyglau hyn.

Trefniadau yr ymrwymir iddynt cyn 1 Chwefror 2025 (Erthygl 20)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 5.87 Roeddem yn cynnig, mewn perthynas â threfniadau CPRS a wnaed cyn i'r Gorchymyn PRS terfynol ddod i rym, y bydd darparwyr PRS yn cael eu hystyried yn unol â'r Gorchymyn PRS lle maent eisoes wedi cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ym mharagraffau 3.9.1 i 3.9.15, 3.10.8 a 3.10.9 Cod 15.

Ymatebion rhanddeiliaid

- 5.88 Holodd y BBC pryd "*y byddai'r cloc yn dechrau*" o ran cydymffurfio tybiedig o dan ein cynigion. Dywedodd ei fod yn tybio y bydd cydymffurfio yn cael ei ystyried o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn PRS i rym.

Ein penderfyniad

- 5.89 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig, ac eithrio ar gyfer mân newidiadau drafftio sydd â'r nod o egluro union effaith yr erthygl hon mewn perthynas ag erthygl 17 (h.y. egluro pa ddarpariaethau yn erthygl 17 y Gorchymyn PRS y byddid wedi

penderfynu eu bod wedi cydymffurfio â nhw ac a fyddai'n dal i fod angen cydymffurfio'n barhaus) yn ogystal â newidiadau i'r dyddiadau a gynigiwyd yn wreiddiol.

- 5.90 Rydym yn credu bod hyn yn ofyniad pwysig oherwydd mae'n sicrhau yr ystyrir y bydd unrhyw ddarparwyr PRS sydd eisoes wedi cydymffurfio â rhai o ofynion y Rheoliadau hyn o dan God 15 cyn i'r Gorchymyn PRS ddod i rym wedi cydymffurfio â'r darpariaethau perthnasol o dan y Gorchymyn PRS mewn perthynas â'r contractau presennol hynny. Bydd hyn yn sicrhau nad yw unrhyw gontractau presennol yn cael eu peryglu gan Ran 4 y Gorchymyn PRS lle mae'r diwydrwydd dyladwy a'r mesurau risg priodol eisoes wedi cael eu cymryd.
- 5.91 O ran sylwadau'r BBC, gallwn gadarnhau bod y cydymffurfio tybiedig yn digwydd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn PRS i rym ar 1 Chwefror 2025 pan fydd darparwr PRS yn bodloni'r gofynion a nodir o dan erthygl 20(1).

Gofynion sy'n ymwneud â phrofion diogelwch perthnasol (Erthygl 21)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 5.92 Roeddem yn cynnig adlewyrchu'r gofynion mewn perthynas â Chod 15 paragraff 3.10 i raddau helaeth. Fodd bynnag, roeddem yn cynnig symleiddio'r rhan fwyaf o'r gofynion mewn un erthygl sy'n canolbwyntio ar ofyniad profion diogelwch yn hytrach na chael nifer o ofynion mewn perthynas â systemau a llwyfannau'n fwy cyffredinol. Y rheswm am hyn yw ein bod o'r farn bod hwn yn ddull symlach wedi'i dargedu a fydd yn cyflawni'r un canlyniadau'n fras â Chod 15.

Sylwadau rhanddeiliaid

Gofyniad am brofion diogelwch perthnasol

- 5.93 Dywedodd aimm a Plant mewn Angen y dylid cynnal profion diogelwch perthnasol yn ôl yr angen mewn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg yn y cyfnodau interim rhwng profion diogelwch blynyddol. I'r perwyl hwnnw, gofynnwyd i'r Gorchymyn PRS gynnwys amserlen i fynd i'r afael â phrofion mewn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwad aimm.
- 5.94 Dywedodd Mobile UK a VMO2 eu bod yn falch o weld parhad gofynion profion diogelwch ar gyfer llwyfannau bilio gweithredwyr. Fodd bynnag, tynnodd VMO2 sylw at bryder nad oedd geiriad erthygl 21 fel y cynigiwyd yn ddigonol i sicrhau'r rhwymedigaeth bod y "*Partner yn cynnal y profion ni waeth a yw'r MNO yn gwneud cais ai peidio*".
- 5.95 Gofynnodd aimm a BT am eglurhad ynghylch a oes angen profion diogelwch perthnasol ar gyfer llwyfannau eraill fel llwyfannau PSMS. Nododd VMO2 hefyd fod esemptiad ar gyfer gwasanaethau llais ond nad oes cyfeiriad penodol at y gofynion ar gyfer PSMS yn y diffiniad o filiau gweithredwyr.

Diffiniad o brofion diogelwch perthnasol a pherygl diogelwch

- 5.96 Dywedodd Donr Ltd nad oedd y term "profion diogelwch" wedi cael ei ddiffinio'n briodol yn y Gorchymyn PRS drafft oherwydd nad yw'r term "perygl diogelwch" yn cwmpasu'n ddigonol yr ystod o risgiau gweithredol i PRS. Awgrymodd aimm a Donr Ltd mai dull gwell fyddai mynnu bod darparwyr yn bodloni safon profi gyffredin, gyda Donr Ltd yn awgrymu

bod darparwyr PRS yn cael eu hachredu neu'n bodloni safon ISO 27001⁶⁰ yn unol â dull diogelwch y Comisiwn Hapchwarae sy'n cael ei ddiweddarau gyda'r arferion gorau diweddaraf, ac a fyddai'n fwy addas ar gyfer gofynion y cymal hwn yn y dyfodol. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwad aimm.

Gofyniad ar gyfer cymeradwyo profion diogelwch perthnasol

- 5.97 Roedd Action 4 Limited, BT, Mobile UK a VMO2 yn cwestiynu'r gofyniad i berson sy'n uwch reolwr gymeradwyo profion diogelwch perthnasol yn hytrach na phobl sydd â chymwysterau neu brofiad addas fel y disgrifir yng Nghod 15.
- 5.98 Roedd Action 4 Limited yn cwestiynu pam nad oeddem wedi dweud bod yn rhaid i berson cyfrifol neu gymwys fod yn gyfrifol am ddiogelwch ar gyfer pob darparwr PRS. Holodd hefyd pwy fyddai ar fai os oedd nam ar y system (h.y. ai'r gwneuthurwr neu'r pennaeth diogelwch fyddai hwnnw?).
- 5.99 Dywedodd BT, Mobile UK a VMO2 fod angen baich profi cryf ar gyfryngwyr a gweithredwyr rhwydwaith i roi'r gorau i gefnogi gweithgarwch a reoleiddir, ac y gallai gostyngiad yn nifer y profion sy'n cael eu cymeradwyo gan berson â chymwysterau addas i uwch reolwr beryglu'r gweithgaredd hwn. Ar y sail honno, roeddent wedi gofyn i Ofcom adolygu ac ailystyried y dull gweithredu a nodir ym mharagraffau 4.95 a 4.98 yr ymgynghoriad.
- 5.100 Roedd gan Mobile UK a VMO2 bryderon ynghylch y geiriad presennol a'r cyfrifoldebau arfaethedig ynghylch y person penodedig sy'n gorfod cymeradwyo'r profion diogelwch yn erthygl 21 fel y cynigir yn yr ymgynghoriad. Gofynnodd VMO2 a yw dull gweithredu Ofcom yn debyg i'r drefn uwch reolwyr sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, ble mae gan uwch arweinydd gyfrifoldeb yn y pen draw ond mae'r pwynt cyswllt o ddydd i ddydd yn wahanol.
- 5.101 Mynegodd Action 4 Limited, Mobile UK a VMO2 bryderon hefyd ynghylch sut byddai'r gofyniad yn cael ei weithredu gan sefydliadau llai nad oes ganddynt efallai uwch dîm rheoli na pherson sydd â'r sgiliau angenrheidiol.

Gofynion ar gyfer rhannu canlyniadau profion diogelwch

- 5.102 Awgrymodd aimm, BT a Mobile UK y dylai fod yn ddyletswydd ar gyfryngwyr i ddarparu canlyniadau profion diogelwch perthnasol pan gânt eu cwblhau, yn lle "ar gais" fel y disgrifir yn y Gorchymyn PRS drafft, gan y bydd y canlyniadau'n hanfodol i sicrhau bod eu systemau'n gadarn. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwad aimm.
- 5.103 Dywedodd Mobile UK nad oedd digon o orfodaeth ar siopau apiau i ddarparu canlyniadau profion diogelwch llawn o dan y Gorchymyn PRS drafft. O ganlyniad, gofynnodd i ni ddiwygio'r gofynion arfaethedig fel bod gan MNOs hawl fwy penodol i fynnu hyn.
- 5.104 Dywedodd VMO2 nad oedd y geiriad yn y darpariaethau a oedd yn disgrifio gofynion profion diogelwch perthnasol yn ddigonol i sicrhau bod partner yn cynnal profion diogelwch perthnasol ni waeth a yw MNO yn gwneud cais ai peidio.

Cymhwysio profion diogelwch i siopau apiau

- 5.105 Dadleuodd Apple, fel llwyfan technoleg blaenllaw, fod yr App Store wedi'i ddylunio i ddarparu'r diogelwch gorau posibl i ddefnyddwyr p'un a yw PRS yn cael ei ddarparu ai peidio. Nododd fod ei lwyfan bilio wedi cael achrediad o dan safonau uchaf y diwydiant, a

⁶⁰ Safon ryngwladol ar gyfer systemau rheoli diogelwch gwybodaeth a ddatblygwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Safoni (ISO). Gweler: <https://www.iso.org/standard/27001>.

bod angen profi achrediadau o'r fath yn rheolaidd. Yn unol â hynny, ei farn oedd y dylai'r Gorchymyn PRS ddarparu egwyddorion ar gyfer profion diogelwch yn hytrach na rhagnodi sut y dylid cynnal profion diogelwch.

Ein penderfyniad

- 5.106 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn yn y Gorchymyn PRS yn fras fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, ac eithrio'r newidiadau a nodir isod, ynghyd â rhai mân newidiadau esboniadol i'r drafftio.

Gofyniad am brofion diogelwch perthnasol

- 5.107 Rydym wedi ystyried pryder VMO2 nad oedd yr erthygl yn ddigonol i sicrhau bod y "partner" yn cynnal y profion diogelwch perthnasol ni waeth a yw'r MNO yn gwneud cais ai peidio. Rydym yn tybio bod y cyfeiriad yma at "*bartner*" yn cyfeirio at gyfryngwr a bod y cyfeiriad at "*MNO*" yn cyfeirio at weithredwr rhwydwaith sy'n gweithio gyda'r cyfryngwr hwnnw. Ar y sail honno, rydym o'r farn bod erthygl 21(1) yn y Gorchymyn PRS yn glir na all cyfryngwr gyflawni gweithgaredd a reoleiddir oni bai ei fod yn cwblhau'r profion diogelwch ac yn parhau i wneud hyn yn flynyddol, ni waeth a yw gweithredwr rhwydwaith yn gofyn am hyn ai peidio.
- 5.108 Rydym wedi penderfynu peidio ag ychwanegu unrhyw ofyniad pellach mewn perthynas â risgiau sy'n dod i'r amlwg. Y profion diogelwch perthnasol sy'n ofynnol o dan erthygl 21 yn y Gorchymyn PRS yw'r lleiafswm sy'n ofynnol ond os yw cyfryngwr o'r farn bod amgylchiadau yn golygu bod angen profion diogelwch perthnasol ychydig fisoedd ar ôl y prawf diwethaf, mae'n rhydd i wneud hyn. Gallai hyn fod yn rhywbeth y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol o ganlyniad i risg sy'n dod i'r amlwg ac, felly, nid ydym o'r farn bod angen diwygio'r erthygl i ddelio'n benodol â'r senario hwn.
- 5.109 Ar ben hynny, rydym o'r farn y bydd darpariaethau eraill yn y Gorchymyn PRS hefyd yn caniatáu i ddarparwyr PRS ddelio'n fwy cyffredinol â risgiau sy'n dod i'r amlwg. Yn benodol, mae erthygl 17(7) y Gorchymyn PRS yn mynnu bod darparwyr PRS yn adolygu ac yn diweddarau eu hasesiadau risg ac yn ystyried a oes unrhyw risgiau newydd wedi codi, a all gynnwys risgiau sy'n dod i'r amlwg.
- 5.110 Mewn ymateb i ymholiadau ynghylch ai dim ond llwyfannau bilio gweithredwyr sy'n rhwym wrth y gofyniad i gynnal profion diogelwch perthnasol, rydym yn cadarnhau bod hyn yn gywir.
- 5.111 Roeddem hefyd wedi ystyried yr ymatebion a oedd yn gofyn am eglurhad ynghylch a oedd y gofyniad i gynnal profion diogelwch perthnasol yn berthnasol i lwyfannau SMS premiwm. Ar ôl gwneud hynny, rydym wedi penderfynu diwygio ein diffiniad o "filiau gweithredwyr" fel y cynigir yn y Gorchymyn PRS drafft. Yn hytrach, yn erthygl 21(8) y Gorchymyn PRS, mae gennym ddiffiniad diwygiedig o "filiau gweithredwyr" a diffiniad newydd o "filiau gweithredwyr perthnasol" sydd, o'u darllen gyda'i gilydd, yn egluro mai ystyr "biliau gweithredwyr" yw pan fo defnyddiwr yn prynu CPRS drwy "wasanaeth mynediad i'r rhyngwyd", yn hytrach na thrwy alwad neu neges destun.

- 5.112 Nid ydym yn credu bod angen diffinio yn y Gorchymyn PRS beth mae “gwasanaeth mynediad rhyngwyd” yn ei olygu, gan y bydd y diffiniad o hynny yn adran 32(2B) y Ddeddf yn berthnasol.⁶¹

Diffiniad o brofion diogelwch a pherygl diogelwch

- 5.113 Rydym hefyd wedi ystyried sylwadau rhanddeiliaid ynghylch safonau amgen ar gyfer profion diogelwch a'n diffiniadau o “brofion diogelwch perthnasol” a “pheryglon diogelwch”. Rydym wedi penderfynu cadw'r diffiniadau fel y'u cynigir (ac eithrio ar gyfer mân newidiadau drafftio esboniadol).
- 5.114 Rydym o'r farn bod y diffiniad o “berygl diogelwch” fel y'i diffinnir yn erthygl 21(8) y Gorchymyn PRS yn ddigon eang i gwmpasu'r ystod o risgiau gweithredol a all godi mewn perthynas â CPRS, ac mae hefyd yn seiliedig yn rhannol ar ddiffiniad presennol o “berygl diogelwch” yn adran 105A y Ddeddf.
- 5.115 Rydym hefyd yn nodi awgrym aimm a Donr Ltd ein bod yn cyfeirio at safonau rhyngwladol fel rhan o'r gofynion ar gyfer profion diogelwch. Un o'r gofynion allweddol yn erthygl 21 y Gorchymyn PRS yw cynnal profion diogelwch perthnasol, sy'n cynnwys penderfynu, mewn egwyddor, a oes risg o beryglon diogelwch. Wrth wneud hynny, bydd gan gyfryngwyr rywfaint o ddisgresiwn o ran sut maen nhw'n mynd ati i bennu'r risg hon gan nad yw'r Gorchymyn PRS yn gorfodi safon benodol i'w dilyn yn hytrach nag unrhyw un arall. Pa gamau bynnag y mae cyfryngwyr yn dewis eu cymryd er mwyn cydymffurfio ag erthygl 21, bydd angen iddynt sicrhau eu bod yn caniatáu iddynt benderfynu a oes risg o beryglon diogelwch ac, wrth asesu cydymffurfiaeth â hyn, bydd Ofcom yn edrych ar arferion mewn perthynas â hyn yn fwy cyffredinol. Felly, credwn fod y gofyniad yn y Gorchymyn PRS yn glir.

Gofyniad ar gyfer cymeradwyo profion diogelwch perthnasol

- 5.116 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig bod yn rhaid i berson sy'n un o uwch reolwyr cyfryngwr gymeradwyo'r profion diogelwch perthnasol sy'n cael eu cynnal, er bod hyn bellach wedi cael ei ddiwygio yn y Gorchymyn PRS i fod yn ofyniad i gael y “person ag awdurdod cyffredinol” (a benodir o dan erthygl 10(1)(b)) i'w cymeradwyo. Mae hyn ychydig yn wahanol i'r gofyniad arfaethedig yn erthygl 21(2) a (3) y Gorchymyn PRS drafft, nad oedd yn nodi bod yn rhaid i hwn fod y person ag awdurdod cyffredinol, ond yn hytrach yn unigolyn sy'n uwch reolwr. Rydym wedi gwneud y newid hwn i adlewyrchu bwriad y polisi y gall “person ag awdurdod cyffredinol” oruchwylio'r profion diogelwch perthnasol ac nid oes angen penodi unigolyn ar wahân ar gyfer y diben hwn yn unig. Fel y trafodwyd ym mharagraff 4.35, mae'n bosibl i ddarparwr PRS benodi mwy nag un “person ag awdurdod cyffredinol” ac felly rydym o'r farn y gall cyfryngwr benodi “person ag awdurdod cyffredinol” sydd â chyfrifoldeb penodol dros brofion diogelwch perthnasol, ac efallai y bydd yn dymuno gwneud hynny.
- 5.117 Rydym yn cydnabod yr ymatebion a nodir uchod ynghylch pam y dylai'r sawl sy'n cymeradwyo'r profion diogelwch perthnasol fod yn rhywun sy'n gymwys, yn gyfrifol neu'n brofiadol mewn perthynas â phrofion diogelwch perthnasol, yn hytrach na rhywun sy'n uwch reolwr. Ein nod rheoleiddio yw sicrhau bod person sydd ag awdurdod sy'n uwch reolwr yn atebol am benderfyniadau mewn perthynas â phrofion diogelwch perthnasol ac unrhyw risgiau o beryglon diogelwch y gallai'r profion hyn eu canfod. Mae a oes gan y

⁶¹O dan adran 11 Deddf Dehongli 1978, pan fo yna bŵer i lunio is-ddeddfwriaeth (megis y Gorchymyn PRS), bydd gan ymadroddion a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth honno, oni bai bod bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos, yr ystyr sydd iddynt yn y Ddeddf.

person hwnnw arbenigedd penodol mewn perthynas â phrofi diogelwch yn fwy cyffredinol yn gwestiwn gwahanol. Rydym yn disgwyl i'r "person ag awdurdod cyffredinol", fel yn achos y rhan fwyaf o bobl mewn swyddi uwch mewn sefydliadau, fod yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau ar sail mewnbwn/cyngor arbenigol gan weithwyr eraill. Felly, mae'n agored i gyfryngwyr gael prosesau ar waith i sicrhau bod y "person ag awdurdod cyffredinol" yn cael ei friffio'n briodol gan gydweithwyr mwy cymwys cyn gwneud y penderfyniad i gymeradwyo.

- 5.118 Beth bynnag fo maint neu strwythur corfforaethol y cyfryngwr, bydd yr holl gyfryngwyr yn gallu dewis un o'u huwch reolwyr i gyflawni'r swyddogaeth hon. Gallant ddewis sefydlu unrhyw brosesau sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy i gefnogi'r uwch reolwr i gyflawni eu rôl, fel sicrhau eu bod yn cael eu briffio'n briodol gan arbenigwyr perthnasol fel sy'n briodol cyn gwneud y penderfyniad i gymeradwyo.

Gofynion ar gyfer rhannu canlyniadau profion diogelwch

- 5.119 Gan ystyried sylwadau rhanddeiliaid, rydym wedi penderfynu newid ein dull o rannu canlyniadau profion diogelwch perthnasol o'r hyn roeddem wedi'i gynnig yn yr ymgynghoriad. Mae'r Gorchymyn PRS nawr yn mynnu bod cyfryngwyr yn rhannu canlyniadau eu profion diogelwch â gweithredwyr rhwydwaith "cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau" y profion diogelwch perthnasol (gweler erthygl 21(5)). Byddai hyn yn berthnasol i unrhyw siop apiau sy'n bodloni'r diffiniad o gyfryngwr a nodir yn erthygl 9 y Gorchymyn PRS.
- 5.120 Er ein bod o'r farn y byddai ein dull gweithredu arfaethedig yn fwy dymunol i randdeiliaid ar y sail y byddai'n lleihau'r dasg weinyddol o rannu canlyniadau dim ond ar gais, rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed i gefnogi gorfodi rhannu'r canlyniadau ni waeth a ofynnir am hyn ai peidio. Rydym yn cytuno bod rhannu canlyniadau profion diogelwch perthnasol yn bwysig oherwydd ei fod yn caniatáu i gwmnïau rhwydwaith asesu a yw defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag y risg o beryglu diogelwch wrth ddefnyddio llwyfan talu'r cyfryngwr ar gyfer biliau gweithredwyr.

Cymhwyso profion diogelwch i siopau apiau

- 5.121 Rydym hefyd wedi ystyried sylwadau Apple mewn perthynas â gofynion profi diogelwch. Drwy wneud hynny, rydym yn nodi bod Apple wedi dadlau y dylai'r Gorchymyn PRS ddarparu egwyddorion ar gyfer profion diogelwch yn hytrach na rhagnodi sut y dylid cynnal profion diogelwch. Rydym o'r farn ei bod yn glir bod "profion diogelwch perthnasol" (fel y'u diffinnir yn erthygl 21(2) y Gorchymyn PRS) yn mynnu bod cyfryngwyr yn cynnal proses i benderfynu a yw eu llwyfannau talu ar gyfer biliau gweithredwyr perthnasol "mewn egwyddor" yn wynebu risg o unrhyw beryglon diogelwch. Mae hyn yn cyd-fynd yn well â defnyddio dull 'ar sail egwyddorion' na rhagnodi'r union gamau i'w cymryd gan gyfryngwyr, gan gynnwys pa safonau i'w dilyn.
- 5.122 Fel y nodwyd yn ein hymgyngoriad (gweler paragraff 4.102 yr ymgynghoriad), roeddem yn cynnig symleiddio'r gofynion presennol sy'n ymwneud â phrofi diogelwch o dan God 15 ar yr un pryd. Yn benodol, rydym wedi ceisio dileu'r baich rheoleiddio mewn perthynas â phroffion diogelwch a chaniatáu rhywfaint o hyblygrwydd, gan ddileu gwahanol ofynion cysylltiedig (e.e. yr angen i benodi un neu fwy o bobl â chymwysterau neu brofiad addas; yr angen i gyfryngwyr gydymffurfio â'r safonau technegol yn Atodiad 3 o God 15; yr angen i weithredwyr rhwydweithiau a chyfryngwyr ddarparu canlyniadau profion y cyfryngwr i'r rheoleiddiwr; a'r angen i gyfryngwyr a gweithredwyr rhwydwaith weithredu 'cynllun datgelu gwendidau cydlynol').

5.123 Fel hyn, rydym wedi ceisio cydbwysu'r angen i sicrhau bod ein gofynion yn cael eu targedu a'u bod yn cynrychioli'r lleiafswm sy'n angenrheidiol gyda'r angen i sicrhau bod llwyfannau talu yn gadarn ac yn ddiogel yn dechnegol.

6. Gwybodaeth a chaniatâd cyn-contract

- 6.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau mewn perthynas â'r gofynion gwybodaeth a chaniatâd cyn-contract sydd ym Mhennod 3 Rhan 6 y Gorchymyn PRS, ynghyd â'r gofyniad cysylltiedig i wneud a chadw cofnodion cysylltiedig yn erthygl 35 y Gorchymyn PRS.
- 6.2 Yn gryno, rydym wedi penderfynu:
- bwrw ymlaen â'n cynnig bod yn rhaid rhoi gwybodaeth gyffredinol cyn-contract i ddefnyddwyr mewn ffordd glir, ddealladwy ac amlwg cyn iddynt ymrwymo i unrhyw gontract CPRS (gweler paragraffau 6.4 – 6.19);
 - bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu, pan ymrwymir i gontract tanysgrifio drwy wasanaeth mynediad i'r rhyngrwyd (wedi'i labelu fel "ar-lein ac o bell" yn yr ymgynghoriad), bod yn rhaid i fasnachwyr ddarparu gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr yn uniongyrchol cyn iddynt ymrwymo i'r contract a chael cydsyniad datganedig y defnyddiwr. Fodd bynnag, rydym wedi ehangu'r cwmpas i gynnwys gwasanaethau rhoddion rheolaidd (gweler paragraffau 6.20 – 6.31);
 - bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu, pan ymrwymir i gontract tanysgrifio drwy neges SMS, bod yn rhaid i fasnachwyr ddarparu gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr yn uniongyrchol cyn iddynt ymrwymo i'r contract a chael cydsyniad datganedig y defnyddiwr (gweler paragraff 6.32- 6.39);
 - bwrw ymlaen â'r rhan fwyaf o'n cynigion mewn perthynas â chael cydsyniad datganedig y defnyddiwr ar gyfer ICSS. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'n cynigion i ddarparu'r wybodaeth cyn-contract i'r defnyddiwr yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn golygu bod ein gofynion ar gyfer ICSS yn adlewyrchu'r rheini o dan God 15 (gweler paragraffau 6.41 – 6.58); a
 - bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod masnachwyr yn gwneud ac yn cadw cofnodion o gydsyniad defnyddwyr i ymrwymo i gontract CPRS ac unrhyw ffioedd a bennir o dan y contract (gweler paragraffau 6.58 – 6.73).
- 6.3 Rydym hefyd wedi gwneud amryw o welliannau drafftio a newidiadau esboniadol o'i gymharu â fersiynau drafft yr erthyglau perthnasol. Gweler Atodiad 3 – Tabl Newidiadau, i gymharu fersiynau drafft a therfynol pob erthygl; a gweler paragraff 3.105 ac ymlaen am newidiadau i ddiffiniadau a wneir drwy gydol y Gorchymyn PRS.

Gwybodaeth i'w darparu cyn ymrwymo i gontract CPRS (Erthygl 26)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 6.4 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr ddarparu gwybodaeth gyffredinol cyn-contract i ddefnyddwyr mewn modd clir, dealladwy ac amlwg cyn i'r defnyddiwr ymrwymo i unrhyw gontract CPRS. Roedd yr wybodaeth benodol roedden ni'n cynnig y byddai'n rhaid i fasnachwyr ei darparu i ddefnyddwyr wedi'i rhestru yn Atodlen 3 y Gorchymyn PRS drafft.

Sylwadau rhanddeiliaid

Sut y rhoddir y wybodaeth

- 6.5 Dywedodd aimm, BT, BBC Plant mewn Angen, Cancer Research, Channel 4, Channel 5, Fonix, Global, Mobile UK, MCP Insight Ltd a Telecom2 Ltd nad yw ein gofynion arfaethedig yn gwahaniaethu rhwng darnau o wybodaeth yn seiliedig ar eu pwysigrwydd i'r defnyddiwr. Roedd rhanddeiliaid yn dadlau bod gwahaniaeth o dan God 15 rhwng y wybodaeth bwysicaf (sy'n cael ei rhoi adeg prynu) a gwybodaeth arall llai pwysig. Roedd rhai rhanddeiliaid yn honni, oherwydd y diffyg gwahaniaeth hwn, nad oes fawr o hyblygrwydd, os o gwbl, i'r masnachwyr o ran sut maen nhw'n darparu'r wybodaeth cyn-contract hon. Tynnwyd sylw at y ffaith, yn achos radio, er enghraifft, y byddai'n rhaid i'r holl wybodaeth a restrir yn Atodlen 3 gael ei chyfleu ar lafar.
- 6.6 I'r gwrthwyneb, roedd Mobile UK yn poeni, heb arweiniad, y gallai unrhyw ryddid pellach o ran sut a phryd y mae'r wybodaeth cyn-contract yn cael ei rhoi i ddefnyddwyr gael ei chamddefnyddio naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol.
- 6.7 Gofynnodd Mobile UK hefyd a fyddai modd cadw'r dull dilysu aml-ffactor (MFA) fel rhan o godau ymarfer MNOs er mwyn cael proses gydsynio dau neu dri cham.

Gwybodaeth Atodlen 3

- 6.8 Dywedodd TÜV SÜD Limited fod paragraff 2(h) Atodlen 3 i'r gorchymyn PRS drafft yn awgrymu mai dim ond yn fisol y gall ffioedd cyfradd sefydlog ddigwydd, ond y gallai codi tâl ddigwydd hefyd, er enghraifft, yn wythnosol neu'n chwarterol.
- 6.9 Roedd Action 4 Limited yn dadlau na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr roi eu cyfeiriad daearyddol fel rhan o'r wybodaeth cyn-contract oherwydd ei fod yn poeni y gallai arwain at ddefnyddwyr yn mynd i'r safleoedd hyn gyda bwriad maleisus.
- 6.10 Gofynnwyd pam fod angen enw a manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol am ofal cwsmeriaid. Yn benodol, nododd efallai nad yw'r person hwn yn rhywun sy'n delio'n uniongyrchol â defnyddwyr. Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Ein penderfyniad

Sut y rhoddir y wybodaeth

- 6.11 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig bod yn rhaid rhoi gwybodaeth gyffredinol cyn-contract i ddefnyddwyr mewn ffordd glir, ddealladwy ac amlwg cyn iddynt ymrwymo i unrhyw gontract CPRS. Rydym o'r farn bod yr holl ddarnau o wybodaeth a restrir yn Atodlen 3 y Gorchymyn PRS yn bwysig i gwsmer wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a ddylid ymrwymo i'r contract ar gyfer y gwasanaeth.
- 6.12 Fodd bynnag, nid yw erthygl 26 y Gorchymyn PRS yn nodi'n union sut neu pryd y mae'n rhaid rhoi gwybodaeth cyn-contract i'r defnyddiwr. Yn groes i'r safbwyntiau a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid, rydym o'r farn bod y dull hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i fasnachwyr ddarparu'r wybodaeth mewn ffordd sy'n addas ar gyfer y dull cyfathrebu (a allai gynnwys dulliau cyfathrebu lluosog) a ddefnyddir i hyrwyddo a darparu'r gwasanaeth. Er enghraifft, gellid darparu rhywfaint o wybodaeth fel rhan o ddeunydd hyrwyddo (e.e. ar lafar mewn darllediad radio neu ar hysbysfwrdd) a gwybodaeth arall a roddir yn ddiweddarach yn nhaith y cwsmer (o bosibl drwy ddulliau gwahanol) cyn belled â bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhoi mewn modd clir, dealladwy ac amlwg cyn i'r cwsmer roi ei ganiatâd.

- 6.13 Rydym yn cydnabod bod Mobile UK wedi mynegi pryder ynghylch y potensial i ddarparwyr gamddefnyddio'r hyblygrwydd hwn. O ystyried y gwahanol amgylchiadau lle mae angen darparu gwybodaeth cyn-contract, rydym o'r farn bod ein gofyniad yn taro cydbwysedd rhwng rhoi'r hyblygrwydd i ddarparwyr allu cydymffurfio â'r gofyniad a'r angen i ddiogelu defnyddwyr drwy sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei dangos mewn ffordd sy'n galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a ydynt am ymrwymo i gontract CPRS ai peidio.
- 6.14 Fodd bynnag, rydym yn pwysleisio bod y baich profi bod y wybodaeth ofynnol cyn-contract wedi cael ei roi i ddefnyddwyr ar y pwynt priodol ar ysgwyddau'r masnachwyr, nid defnyddwyr. Felly, mae'n fanteisiol i'r masnachwyr ystyried yn ofalus sut maen nhw'n cyflawni'r rhwymedigaethau hyn. Gobeithio y bydd y baich hwn hefyd yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer unrhyw gam-drin.
- 6.15 O ran ymholiad Mobile UK am MFA, nid oes unrhyw beth yn ein gofynion a fyddai'n gwahardd defnyddio MFA. Fel yr eglurwyd yn ein hymgyngoriad, nid ydym yn ceisio gosod gofynion i nodi sut y dylid cael cydsyniad defnyddwyr ac, felly, nid oeddem yn cynnig cadw MFA, fel y nodir ym mharagraffau 3.3.7 i 3.3.9 Cod 15. Fodd bynnag, mae defnyddio MFA yn ffordd o ddilysu hunaniaeth defnyddiwr sy'n ceisio defnyddio PRS rheoledig masnachwr. Felly, mae dilysu o'r fath yn berthnasol i'r baich profi uchod ar fasnachwyr i ddangos bod defnyddwyr wedi rhoi caniatâd.

Gwybodaeth Atodlen 3

- 6.16 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion ynghylch y wybodaeth cyn-contract y mae'n rhaid ei darparu. Mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi yn Atodlen 3 y Gorchymyn PRS. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud rhai newidiadau testunol i Atodlen 3 o'i gymharu â'n Gorchymyn PRS drafft i wneud union natur yr wybodaeth sydd ei hangen yn gliriach mewn rhai ffyrdd.
- 6.17 Yn benodol, ac yn ogystal â rhai mân newidiadau testunol, rydym wedi:
- a) cysoni'r wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraffau 2(d) a 2(e) yn Atodlen 3 y Gorchymyn PRS i sicrhau bod y ddau fath o CPR o dan y diffiniad o gystadleuaeth neu wasanaethau pleidleisio (h.y. cyfleusterau i gymryd rhan mewn cystadleuaeth/hawlio gwobr a chyfleusterau i gofrestru pleidlais/ cofnodi dewis) yn dod o dan ofynion gwybodaeth cyn-contract cyfatebol; ac
 - b) egluro'r wybodaeth am y ffioedd ar gyfer CPRS ym mharagraffau 2(f) a 2(h) yn Atodlen 3 fel bod yr wybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas â thanysgrifio CPRS yn cyd-fynd yn agosach â darpariaethau tebyg (fel yn Atodlen 23) yn Neddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 ("Deddf DMCC"), sy'n eithrio'n benodol danysgrifiadau ar gyfer PRS o ofynion yn Rhan 4, Pennod 2 sy'n ymwneud â chontractau tanysgrifio.⁶² Mae hyn yn helpu i sicrhau cysondeb o ran pa fath o wybodaeth sy'n cael ei darparu i ddefnyddwyr mewn perthynas â thanysgrifiadau CPRS, yn ogystal â thanysgrifiadau eraill sy'n cael eu rheoleiddio gan Ddeddf DMCC. Rydyn ni o'r farn bod yr esboniad hwn hefyd yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan TÜV SÜD Limited ynghylch pa mor aml y gallai rhai masnachwyr godi tâl ar ddefnyddwyr.
- 6.18 Rydym yn cydnabod sylwadau Action 4 Limited ynghylch cyfeiriadau daearyddol yn cael eu defnyddio yng nghyd-destun bwriad maleisus ac rydym yn poeni am y sefyllfaoedd hyn. Serch hynny, rydym yn dal o'r farn bod cyfeiriadau daearyddol manau busnes yn elfennau

⁶²Gweler paragraff 6 Atodlen 22 y Ddeddf DMCC.

pwysig o'r wybodaeth cyn-contract. Nodwn fod angen gwybodaeth o'r fath o dan baragraff (c) Atodlen 2 i Reoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Ffioedd Ychwanegol) 2013 (SI 2013/3134) ar gyfer contractau o bell ac oddi ar y safle.⁶³ Rydym o'r farn bod unrhyw risg i'r darparwr o ganlyniad i ddarparu gwybodaeth ddaearyddol i ddefnyddwyr yn cael ei wrthbwysio gan y manteision o gael y wybodaeth honno gan ddefnyddwyr yn ystod y cam cyn-contract. Er enghraifft, gallai'r wybodaeth ddaearyddol hon fod yn bwysig i rai defnyddwyr wrth benderfynu a ydynt yn dymuno llunio contractau gyda masnachwyr sydd wedi'u sefydlu mewn lleoliadau neu awdurdodaethau penodol (megis dramor). I ddefnyddwyr eraill, gallai'r wybodaeth hon fod yn bwysig rhag ofn eu bod am gyfathrebu drwy'r post neu ofyn am apwyntiad wyneb yn wyneb er mwyn datrys unrhyw gwynion neu ymholiadau gan ddefnyddwyr. Ar ben hynny, rydym yn credu bod y risg wirioneddol yn isel o ystyried y cosbau troseddol neu sifil, neu'r ddau, a allai ddeillio o gamau maleisus yn cael eu cymryd yn erbyn eiddo neu ddeiliaid y darparwr.

- 6.19 Mewn ymateb i ymholiad aimm ynghylch pam ein bod yn gofyn am fanylion cyswllt rhywun sy'n gyfrifol am ofal cwsmeriaid, rydym o'r farn bod angen i fasnachwyr fod yn dryloyw i ddefnyddwyr ynghylch pwy yn y pen draw sy'n gyfrifol ar eu rhan am wneud unrhyw benderfyniadau mewn perthynas ag ymholiadau a chwynion cwsmeriaid. Rydym wedi gwneud newid esboniadol i baragraffau (m) ac (n) yn Atodlen 3 y Gorchymyn PRS i adlewyrchu hyn. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr fanylion person a enwir os ydynt yn dymuno cwyno am ganlyniad y gwasanaeth maent yn ei dderbyn, yn ogystal â'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer delio ag ymholiadau a chwynion defnyddwyr. Rydym yn nodi bod hyn yn adlewyrchu gofyniad presennol yng Nghod 15.⁶⁴

Cydsyniad datganedig ar gyfer ffioedd a godir o dan gontract tanysgrifio a ymrwymir iddo drwy wasanaeth mynediad i'r rhyngrwyd (Erthygl 27)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 6.20 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol, pan ymrwymir i gontract tanysgrifio ar-lein ac o bell, bod yn rhaid i fasnachwyr roi cydsyniad datganedig i'r defnyddwyr drwy sicrhau bod y defnyddiwr yn cydnabod yn glir bod darparu'r gwasanaeth dan sylw yn golygu rhwymedigaeth i dalu ffi.
- 6.21 Roeddem hefyd yn cynnig bod yn rhaid i fasnachwyr ddarparu gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr yn uniongyrchol cyn iddynt gytuno i dalu'r ffi. Rhaid i'r wybodaeth hon fod ar gael mewn ffordd glir a darllenadwy wrth ymyl y botwm y mae'n rhaid i ddefnyddiwr ei bwysio i ddangos ei gydsyniad. Byddai'n rhaid i fotwm o'r fath gael ei labelu'n ddiamwys gan ddangos bod ei ysgogi gan y defnyddiwr yn golygu rhwymedigaeth i dalu i'r masnachwr.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 6.22 Dywedodd aimm ac A2B Telecoms Ltd, oherwydd maint a natur y wybodaeth sydd ei hangen, y gallai fod anawsterau ymarferol o ran cyflwyno'r wybodaeth ofynnol "*wrth ymyl y botwm (neu swyddogaeth debyg)*" y mae'r defnyddiwr yn rhoi caniatâd drwyddo.

⁶³ Gweler <https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2013/3134/made>.

⁶⁴ Cod 15, paragraff 3.2.2(f)

Ychwanegodd Donr Ltd mai ffactor ychwanegol yn yr anawsterau ymarferol hyn yw'r ystod o ddyfeisiau y gall defnyddwyr eu defnyddio, er enghraifft, cyfrifiaduron bwrdd gwaith gyda monitorau bwrdd gwaith mawr neu ffonau symudol bach. Yn hytrach, awgrymodd y rhanddeiliaid hyn y dylai'r ddarpariaeth hon adlewyrchu'r gofynion presennol o dan God 15, h.y. gellir rhoi'r wybodaeth hon ar wahanol gamau cyn i'r defnyddiwr ymrwymo i'r contract.

- 6.23 Dywedodd Donr hefyd y dylai labelu'r botwm ar-lein neu swyddogaeth debyg y cyfeirir ati yn yr erthygl hon egluro yng nghorff y Gorchymyn PRS ymadroddion eraill a fyddai hefyd yn dderbyniol.
- 6.24 Bu i aimm a Donr Ltd hefyd gwestiynu pam, os nad yw'r erthygl hon yn berthnasol i wasanaeth rhoddion rheolaidd, y mae'n berthnasol i wasanaeth loteri cymdeithas.
- 6.25 Dywedodd Telecom2 Ltd *"y dylai fod yn bosibl rhoi caniatâd drwy ddulliau ar wahân i bwysu botwm DTMF⁶⁵. Dylai cydsyniad AI Voice, er enghraifft, fod yn addas hefyd"*.
- 6.26 Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Ein penderfyniad

- 6.27 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn fel y cynigiwyd ond (i) rydym wedi dileu'r esemptiad ar gyfer gwasanaethau rhoddion rheolaidd fel bod y rhain bellach yn ddarostyngedig i'r gofynion yn erthygl 27 y Gorchymyn PRS a (ii) wedi ailddrafftio erthygl 27(1) i gyfeirio at "drwy wasanaeth mynediad i'r rhyngwrwyd" yn hytrach nag "ar-lein ac o bell".
- 6.28 Rydym yn dal o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn angenrheidiol i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar y wybodaeth bwysicaf ar y pwynt pan fyddant yn gallu ymrwymo i gontractau tanysgrifio ar-lein. Mae mynnu bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno wrth ymyl y botwm y mae angen iddynt ei bwysu i lofnodi'r contract yn helpu'r defnyddiwr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch ymrwymo i'r contract. Fodd bynnag, ar ôl ystyried sylwadau aimm a Donr Ltd, rydym yn cytuno y dylid cael cysondeb o ran sut mae'r Gorchymyn PRS yn trin gwasanaethau rhoddion rheolaidd a gwasanaethau loteri cymdeithas oherwydd gellir sefydlu'r ddau wasanaeth hyn ar-lein.
- 6.29 O ran sylwadau aimm, A2B Telecoms Ltd a Donr Ltd, rydym yn nodi bod yr erthygl hon wedi'i geirio fel ei bod yn ofynnol i fasnachwyr "sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael" a allai olygu defnyddio dolen neu droednodyn wrth ymyl y botwm i gyfeirio defnyddwyr at yr eitemau gwybodaeth hyn. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i fasnachwyr o ran sut mae'r wybodaeth hon ar gael ar-lein wrth ymyl y botwm (neu swyddogaeth debyg). Felly, rydym o'r farn bod ein gofynion yn adlewyrchu'r gofynion presennol o dan God 15.
- 6.30 Nodwn gais Donr Ltd y dylai'r Gorchymyn PRS nodi ffyrdd eraill y gellir labelu'r botwm. Mae Erthygl 27(6) y Gorchymyn PRS yn disgrifio'r botwm fel "botwm neu swyddogaeth debyg wedi'i labelu mewn modd hawdd ei ddarllen gyda geiriau fel 'TANYSGRIFIO' neu fformiwleiddiad diamwys cyfatebol sy'n dangos bod ei ysgogi gan y defnyddiwr yn golygu rhwymedigaeth i dalu'r masnachwr". Rydym o'r farn bod yr erthygl yn ddigonol o ran diogelu defnyddwyr rhag niwed sy'n deillio o fotymau sydd wedi'u labelu'n amwys ac o ran rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i fasnachwyr o ran sut yn union mae'r botymau hyn yn cael eu labelu. Rydym hefyd wedi diwygio erthygl 27(6), fel ei bod yn defnyddio'r gair

⁶⁵Amledd lluosog tôn ddeuol.

‘TANYSGRIFIO’ yn hytrach na ‘PRYNU NAWR’, fel roeddem wedi’i gynnig yn wreiddiol, oherwydd mae’r gwasanaethau y mae’r erthygl hon yn ymwneud â nhw yn wasanaethau tanysgrifio.

- 6.31 O ran sylwadau Telecom2 Ltd am roi cydsyniad drwy ddulliau ar wahân i fotwm DTMF, ac er ein bod wedi ceisio rhoi mwy o ddisgresiwn o ran sut mae darparwyr yn bodloni’r gofynion hyn, rydym o’r farn bod botwm neu swyddogaeth debyg yn dal yn fesur diogelu pwysig i ddefnyddwyr oherwydd ei fod yn ddiamwys a yw’r defnyddiwr wedi ysgogi’r botwm neu swyddogaeth debyg. I’r gwrthwyneb, efallai na fydd “AI Voice” (yr ydym yn deall ei fod yn cyfeirio at dechnoleg adnabod llais) yn sicrhau’r un lefel o ddibynadwyedd a sicrwydd â DTMF.

Cydsyniad datganedig ar gyfer ffioedd a godir o dan contract tanysgrifio a ymrwymir iddo drwy neges SMS (Erthygl 28)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 6.32 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol, pan ymrwymir i contract tanysgrifio drwy neges SMS, bod yn rhaid i fasnachwyr gael cydsyniad datganedig gan y defnyddwyr drwy sicrhau bod y defnyddiwr yn cydnabod yn glir bod darparu’r gwasanaeth dan sylw yn golygu rhwymedigaeth i dalu ffi. Byddai cydsyniad datganedig y defnyddiwr yn cael ei roi mewn neges SMS sy’n cynnwys gair neu ymadrodd (fel ‘CYCHWYN’) sy’n dangos yn ddiamwys rwymedigaeth y defnyddiwr i dalu’r masnachwr.
- 6.33 Roeddem hefyd yn cynnig bod yn rhaid i fasnachwyr ddarparu gwybodaeth benodol am ffioedd a hyd contract i ddefnyddwyr yn uniongyrchol cyn iddynt gytuno i dalu’r ffi. Rhaid i’r wybodaeth hon fod ar gael mewn modd clir, dealladwy ac amlwg. Byddai’n rhaid darparu gwybodaeth o’r fath mewn neges SMS. Gellid darparu gwybodaeth arall naill ai mewn neges SMS neu drwy dudalen we y cyfeirir ati yn y neges SMS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 6.34 Dywedodd Donr Ltd y dylid ymestyn y term SMS i ganiatáu i dechnolegau yn y dyfodol, fel Gwasanaethau Cyfathrebu Cyfoethog (“RCS”)⁶⁶ a thechnolegau eraill yn y dyfodol, yn ogystal ag SMS, ddefnyddio PRS heb orfod diwygio’r Gorchymyn PRS.

Ein penderfyniad

- 6.35 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r gofyniad hwn i raddau helaeth fel y cynigiwyd. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu cysoni ein diffiniad o “neges SMS” (“SMS” yn flaenorol yn y Gorchymyn PRS drafft) â’r diffiniad a nodir yn Neddf Diogelwch Ar-lein 2024.⁶⁷
- 6.36 Ein diffiniad o “neges SMS” nawr yw:

⁶⁶Mae RCS yn brotocol cyfathrebu sy’n eithaf tebyg i SMS er bod ganddo swyddogaethau ychwanegol ac, yn wahanol i SMS, mae’n cael ei ddarparu fel Amlgyfrwng Protocol Rhyngwryd (“IP”).

⁶⁷ Adran 55(12) Deddf Diogelwch Ar-lein 2024.

“Mae “neges SMS” yn golygu neges testun Gwasanaeth Neges Fer’ sy’n bennaf yn cynnwys llythrennau neu rifau a ellir ei hanfon rhwng rhifau ffôn a ddyrannir yn unol â chynllun rhifau ffôn cenedlaethol neu ryngwladol”

- 6.37 Rydym wedi ystyried sylwadau Donr Ltd yn ofalus am RCS a thechnolegau’r dyfodol. Rydym yn nodi bod y PSA, yn ei ymgynghoriad ar God 15⁶⁸, wedi datgan:
- “Hyd yma, nid ydym wedi gweld RCS yn cael ei ddefnyddio i unrhyw raddau helaeth sy’n gysylltiedig â gwasanaethau talu dros y ffôn – mae wedi cael ei ddefnyddio i raddau helaeth fel dull gwell o anfon negeseuon swmp. Ni fu dim hyd yma yn ein trafodaethau â’r diwydiant sy’n awgrymu y bydd RCS yn newid ein hasesiad o dueddiadau’r farchnad a defnyddwyr yn sylweddol yn y tymor agos i’r tymor canolog.”*
- 6.38 Ar ben hynny, rydym yn nodi mai dim ond ffonau clyfar Android amrywiol (y rheini sy’n defnyddio Android 5 ac uwch) sy’n gydnaws â RCS ar hyn o bryd. Rydym yn nodi bod RCS yn cael ei gefnogi ar iOS 18 diweddaraf Apple. Er ein bod yn gweld bod RCS felly’n cael ei gyflwyno’n ehangach, rydym yn credu ei bod yn briodol cadw’r Gorchymyn PRS yn benodol i SMS. Y rheswm am hyn yw, yn wahanol i RCS nad yw ar gael ym mhobman, mae SMS yn cael ei gefnogi gan bob llwyfan system weithredu symudol. Serch hynny, byddwn yn monitro’r angen i ymestyn y gofyniad hwn, yn y dyfodol, i dechnolegau eraill fel RCS.
- 6.39 Ar ben hynny, diben “neges SMS” yn y Gorchymyn PRS yw sicrhau, pan fydd defnyddwyr yn ymrwymo i gontract CPRS drwy SMS, y dylid rhoi unrhyw hysbysiadau yn ôl iddynt drwy’r un dull. Os oes newid sylweddol yn y defnydd o dechnolegau eraill fel RCS, byddwn yn ystyried a fydd angen diwygio’r Gorchymyn PRS i adlewyrchu’r datblygiad hwn.
- 6.40 Sylwch hefyd ein bod wedi diwygio ein diffiniad o “wasanaeth rhoddion rheolaidd” yn erthygl 28(6) y Gorchymyn PRS i ddileu’r ymadrodd “yn cynnwys” gan ddilyn y rhesymeg a nodir ym mharagraff 3.104 ymlaen. Mae’r diffiniad newydd bellach yn cyfeirio at “ddarparu cyfleuster ar gyfer gwneud taliadau’n rheolaidd i elusen”. Fel y nodir ym mharagraff 3.6, mae’r diffiniad o “elusen” bellach wedi’i gynnwys yn adran ddehongli gyffredinol y Gorchymyn PRS (erthygl 2).

Cydsyniad datganedig ar gyfer ffioedd a godir o dan gontract ar gyfer ICSS (Erthygl 29)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 6.41 Roeddem yn cynnig mynnu bod masnachwyr ICSS yn darparu gwybodaeth benodol cyn-contract i ddefnyddwyr cyn codi tâl ar y defnyddiwr am y gwasanaeth. Roeddem yn cynnig bod yn rhaid i fasnachwyr ddarparu gwybodaeth benodol cyn-contract mewn ffordd glir, ddealladwy ac amlwg drwy neges awtomatig. Mae’r agwedd hon ar y cynnig yn adlewyrchu Cod 15, fel y’i diwygiwyd gan y PSA ym mis Medi 2023.⁶⁹

⁶⁸ Gweler paragraff 88, <https://psauthority.org.uk/-/media/Files/PSA/00NEW-website/Research-and-consultations/Consultations/2021/Draft-Code-15/FINAL-Condoc-for-publication.ashx>.

⁶⁹ Cod 15, paragraff 3.2.10 ac Atodiad 1. Daeth y gofynion hyn i rym ar 18 Medi 2023 <https://psauthority.org.uk/research-and-consultations/consultation-articles/2023/march/consultation-on-code-15-amendments-to-requirement-3-2-10-and-annex-1>.

- 6.42 Yn ogystal ag adlewyrchu Cod 15, roeddem hefyd yn cynnig mynnu bod y wybodaeth cyn-contract yn cael ei darparu am ddim. Gwnaethom y cynnig hwn ar sail ein hasesiad:
- a) y codwyd tâl ar ddefnyddwyr o'r eiliad y mae galwad ICSS yn dechrau; a
 - b) cafodd cyfran uchel o alwadau ICSS eu terfynu o fewn y funud gyntaf.
- 6.43 Roeddem o'r farn bod yr olaf yn awgrymu nad oedd cyfran uchel o ddefnyddwyr eisiau defnyddio ICSS oherwydd eu bod wedi dod â'r galwadau hyn i ben o fewn y funud gyntaf. Felly, roedd ein cynigion yn ceisio atal codi tâl ar ddefnyddwyr nes eu bod wedi cael gwybodaeth cyn-contract ac wedi rhoi eu caniatâd penodol.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 6.44 Roedd Panel Defnyddwyr PSA, BT a Action 4 Ltd yn cefnogi ein cynigion. Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cefnogi ein cynigion ac yn ychwanegu ei fod yn cefnogi gwaharddiad cyffredinol ar ICSS.
- 6.45 Roedd Vodafone hefyd yn cefnogi ein cynigion ar sail ei farn nad yw "*ICSS yn gyfystyr â gwasanaethau dilys*". Fodd bynnag, ychwanegodd Vodafone fod ei gefnogaeth yn seiliedig ar Ofcom yn cyfarwyddo'r diwydiant i ddefnyddio'r pwynt pris priodol sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n galluogi munud cyntaf am ddim.⁷⁰ Y rheswm am hyn oedd y gallai ICSS achosi niwed sylweddol i ddefnyddwyr, sy'n golygu ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw ofyniad i greu pwyntiau pris newydd yn pasio unrhyw asesiad effaith.
- 6.46 Dywedodd A2B Telecoms Ltd, Caller Centre Ltd (CCL) ac aimm, gan fod newidiadau rheoleiddio sylweddol wedi cael eu gwneud yn ddiweddar gan y PSA, fod ein cynigion yn cael eu gwneud rhy gynnar oherwydd nad yw effeithiau'r newidiadau diweddaraf wedi cael digon o amser i gael eu gwireddu'n llawn. Dywedodd CCL, o'i farnu yn erbyn y meini prawf o dan adran 47 y Ddeddf a'r dyletswyddau o dan adran 3 y Ddeddf, nad yw Ofcom wedi cyflwyno'r achos yn foddhaol bod cyfiawnhad dros gamau rheoleiddio mewn perthynas ag ICSS.
- 6.47 Dywedodd CCL ei fod yn credu bod y newidiadau gan y PSA wedi rhoi amddiffyniad cadarn i ddefnyddwyr. Roedd yn cwestiynu'r dystiolaeth a'r asesiad roedd Ofcom wedi dibynnu arnynt wrth wneud ei gynnig. Yn benodol, roedd o'r farn bod ymchwil a chanfyddiadau'r PSA ynghylch niwed i ddefnyddwyr wedi dyddio a bod ein hasesiad o ICSS a niwed i ddefnyddwyr yn anghyson â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf⁷¹. Dywedodd CCL hefyd y dylem orfodi rhwymedigaethau penodol ar OCPs a TCPs i sicrhau bod pwyntiau prisiau newydd ar gael ar gyfer masnachwyr ICSS.
- 6.48 Dywedodd A2B Telecom Ltd, aimm, BT, Mobile UK, CCL a Telecom 2 Ltd nad oeddem wedi ystyried effaith ffioedd mynediad ar sioc biliau a deimlir gan ddefnyddwyr.
- 6.49 Dywedodd CCL a Vodafone nad oedd ein cyfnod gweithredu arfaethedig ar gyfer ICSS yn ddigonol o ystyried y newidiadau angenrheidiol i bwyntiau pris sy'n cynnwys cydweithio yn y diwydiant. Ychwanegodd Vodafone fod risg o gostau ychwanegol yn deillio o greu pwyntiau pris diangen ac na fyddai hyn yn pasio asesiad effaith hyd yn oed gan ystyried, yn ei farn ef, y posibilrwydd o niwed sylweddol i ddefnyddwyr a fyddai'n deillio o ICSS.

⁷⁰Rydym yn deall bod Vodafone yn cyfeirio at bwynt pris Tâl Gwasanaeth 073 fel y cyfeirir ato yn ein Hymgyngoriad, gweler troednodyn 94 ar dudalen 58.

⁷¹Yn benodol, ein dyletswyddau o dan adran 7 y Ddeddf i gynnal asesiadau effaith.

- 6.50 Gofynnodd aimm ac A2B Telecom Ltd beth oedd y disgwyliadau ar fasnachwyr a oedd yn gallu darparu'r wybodaeth angenrheidiol cyn-contract a chael cydsyniad datganedig o fewn 30 eiliad i'r 60 eiliad gyntaf am ddim. Dywedodd Telecom2 Ltd fod cyhoeddiadau cyn-awlad fel arfer yn cael eu cwblhau o fewn pymtheg eiliad.
- 6.51 Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Ein penderfyniad

- 6.52 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r rhan fwyaf o'n cynigion mewn perthynas â chydsyniad datganedig ar gyfer ICSS. Fodd bynnag, ar ôl ystyried sylwadau rhanddeiliaid, nid ydym yn bwrw ymlaen â'n cynigion i ddarparu'r wybodaeth cyn-contract i'r defnyddiwr am ddim.
- 6.53 Mae hyn yn golygu bod ein gofynion ar gyfer ICSS yn adlewyrchu'r rheini o dan God 15, yn benodol, paragraff 3.2.10. Bydd masnachwyr ICSS yn cael eu gwahardd rhag codi tâl oni bai fod y defnyddiwr wedi cael gwybodaeth benodol cyn-contract a bod y defnyddiwr wedi rhoi caniatâd datganedig i barhau i ddefnyddio'r ICSS (gan gynnwys cysylltiad dilynol â'r person neu'r sefydliad targed).
- 6.54 Y wybodaeth benodol cyn-contract sydd i'w rhoi drwy neges awtomatig yw:
- cyfanswm y ffi am y gwasanaeth;
 - yr holl ffioedd ychwanegol (pan fo'n gymwys), gan gynnwys unrhyw ffi mynediad, neu os na ellir yn rhesymol gyfrifo'r ffioedd ymlaen llaw, y ffaith y gallai ffioedd ychwanegol o'r fath fod yn daladwy;
 - enw'r masnachwr (gan gynnwys unrhyw enw masnachu);
 - rhif ffôn y person neu'r sefydliad targed;
 - esboniad y byddai'r ffi am gysylltiad pellach yn ddrytach na'r gost (os o gwbl) i'r defnyddiwr fynd yn uniongyrchol at y person neu'r sefydliad targed; a
 - esboniad o'r uchafswm ffi ar gyfer yr ICSS y gellir ei chodi a beth sy'n digwydd pan gyrhaeddir yr uchafswm ffi honno.
- 6.55 Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau esboniadol i erthygl 29 y Gorchymyn PRS i gadarnhau bod yn rhaid rhoi'r wybodaeth hon yn syth i'r defnyddiwr cyn gynted ag y bydd cysylltiad rhwng y defnyddiwr a'r masnachwr wedi'i sefydlu a bod y defnyddiwr wedi rhoi gwybod i'r masnachwr ei fod yn dymuno iddo gysylltu ag ef. Nid ydym yn rhagnodol ynghylch y ffordd y mae'r defnyddiwr yn rhoi gwybod i'r masnachwr pwy y mae'n dymuno cael ei gysylltu ag ef. Bydd sawl ffordd o roi gwybod i fasnachwyr e.e. gellid gwneud hyn ar lafar neu drwy bwysu botwm i gadarnhau. Enghraifft arall yw y bydd defnyddwyr, mewn llawer o achosion (ond nid pob un) yn ffonio ICSS sy'n gysylltiedig ag un person neu wasanaeth targed yn unig y gellir cysylltu'r defnyddiwr ag ef. Felly, nid ydym yn disgwyl o dan yr amgylchiadau hynny y bydd angen i'r defnyddiwr roi gwybod yn benodol i'r masnachwr y mae'n dymuno cael ei gysylltu ag ef. Y rheswm am hyn yw ei fod ymhlyg yn nefnydd y defnyddiwr o'r ICSS hwnnw.
- 6.56 Tybir bod cydsyniad datganedig y defnyddiwr wedi cael ei roi unwaith y bydd y defnyddiwr yn pwysu botwm mewn ymateb i neges awtomataidd y masnachwr.
- 6.57 Ers i ni gyhoeddi ein hymgyngoriad, rydym wedi gallu asesu effaith y newid a wnaeth y PSA i God 15 ym mis Medi 2023. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'n cynnig i ddarparu gwybodaeth cyn-contract yn rhad ac am ddim. Wrth ddod i'r casgliad

hwn, rydym wedi ystyried, yn benodol, bod newidiadau'r PSA wedi cael effaith sylweddol ar y niwed sy'n gysylltiedig ag ICSS. Yn hynny o beth, rydym yn nodi bod y PSA, ar 2 Mai 2024, wedi cyhoeddi ⁷²diweddariad ar effaith ei weithgarwch rheoleiddio. Amlygodd hyn y canlynol:

- a) mae cwynion wedi gostwng o gyfartaledd o 38 o gwynion y mis ym mlwyddyn ariannol 2022/23 i 3 y mis ers y newidiadau ar 18 Medi 2023;
- b) mae gwariant defnyddwyr ar ICSS wedi gostwng 75% ers y newidiadau ar 18 Medi 2023 o'i gymharu â'r cyfnod a aseswyd yn ystod Adolygiad Thematig y PSA (1 Gorffennaf 2021 – 30 Mehefin 2022); ac
- c) amcangyfrif bod niwed i ddefnyddwyr wedi gostwng o £10m y flwyddyn i £3.3m y flwyddyn.

6.58 Mae'r data hwn yn dangos bod llawer llai o alwadau ICSS yn cael eu gwneud (ac mae llai o lawer o wariant a niwed i ddefnyddwyr) ers i'r PSA gyflwyno ei newidiadau diweddar i God 15. Yn ein barn ni, mae'r wybodaeth ddiweddaraf hon yn lleihau budd tebygol ein cynigion oherwydd bod newidiadau'r PSA eisoes wedi lleihau niwed i ddefnyddwyr yn sylweddol ac nid yw'n glir mwyach y byddai'r manteision posibl i ddefnyddwyr yn drech na'r effeithiau ar y diwydiant heb i ni gynnal adolygiad manylach yn gyntaf. Felly, ar y cyfan, rydym o'r farn na fyddai'n gymesur cyflwyno rhagor o ofynion ar hyn o bryd.

Cofnodion cydsyniad (Erthygl 35)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 6.59 Roeddem yn cynnig mynnu bod masnachwyr yn gwneud ac yn cadw cofnodion o gydsyniad defnyddwyr i ymrwmo i gontract CPRS ac unrhyw ffioedd a bennir o dan y contract. Fe wnaethom ddweud nad oeddem yn credu y byddai angen cymryd camau rhagnodol iawn ac, yn lle hynny, ein cynnig oedd mynnu bod cofnodion o gydsyniad yn cael eu cadw.
- 6.60 Er gwaethaf hyn, roeddem hefyd wedi dweud ein bod yn rhagweld y bydd masnachwyr yn parhau i fodloni'r gofynion MFA o dan God 15 er mwyn dangos tystiolaeth briodol o gydsyniad defnyddwyr.

Sylwadau rhanddeiliaid

Trydydd partïon

- 6.61 Roedd aimm, BBC Plant mewn Angen, Cancer Research UK, Channel 4 a Channel 5 yn poeni efallai na fydd masnachwyr yn gallu cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol i wneud y cofnodion angenrheidiol. Gofynnwyd a allai trydydd parti wneud a chadw'r cofnodion cydsyniad hyn.
- 6.62 Cododd Mobile UK a VMO2 fater tebyg ynghylch ein cynnig i beidio â mynnu bod cyfryngwyr yn cadw'r cofnodion hyn a'r effeithiau y gallai hyn eu cael ar rwydweithiau.
- 6.63 Dywedodd Infomedia Services Limited y bydd dileu dilysu trydydd parti yng nghyd-destun MFA a chofnodion cydsynio yn arwain, yn yr achosion gwaethaf, at "*ailfyndiad gan weithredwyr diegwyddor a allai geisio ffugio tystiolaeth o gydsyniad*".

Masnachwyr lluosog

⁷² <https://psauthority.org.uk/news/news/2024/may/icss-update>

- 6.64 Cyfeiriodd y BBC, BBC Plant mewn Angen, Channel 4 a Channel 5 at fater mynediad masnachwr at yr wybodaeth angenrheidiol yng nghyd-destun rhoddion elusennol sy'n cael eu hyrwyddo drwy ddarlledu. Roeddent yn credu y gallai fod diffyg eglurder yn yr amgylchiadau hynny ynghylch pa un o nifer o fasnachwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth ar ymgyrch codi arian yw'r masnachwr ar gyfer y CPRS mewn perthynas â'r rhodd elusennol benodol honno. Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Penodolrwydd y gofyniad

- 6.65 Dywedodd aimm, Channel 4, Channel 5, Global, Infomedia ac MCP Insight Ltd nad oedd yn glir beth yn union oedd yn cynrychioli cofnod o gydsyniad. Mynegodd aimm bryder ei bod yn ymddangos bod y gofynion ar gyfer cydsyniad yn llai cadarn nag o dan God 15. Dywedodd, er eu bod yn cytuno y gallai rhagnodi'r union broses ar gyfer cael cydsyniad achosi problemau o ran diogelu'r Gorchymyn PRS yn y dyfodol, y dylai'r Gorchymyn PRS ddarparu "*safon sylfaenol*" ar gyfer cydsyniad. Gofynnodd eu haelodau am arweiniad ar y pwynt hwn ac awgrymu rhai gofynion ychwanegol i'w cynnwys yn y Gorchymyn PRS mewn perthynas â chofnodion cydsyniad a allai fod yn ddefnyddiol yn eu barn nhw.⁷³ Gofynnodd nifer o ymatebion eraill am eglurhad hefyd. Dywedodd MCP fod y dull arfaethedig o ymdrin â chofnodion cydsynio "*yn gwneud synnwyr mai'r masnachwr sy'n gyfrifol am gontract*" ond eu bod yn "*cytuno'n gryf*" â'r awgrymiadau a wnaed gan aimm.

Gwasanaethau adloniant byw

- 6.66 Mynegodd Action 4 Limited bryder nad oeddem yn cyflawni'r gofyniad i recordio gwasanaethau adloniant byw. Dywedodd y bydd darparwyr sy'n gweithredu'r gwasanaethau hyn yn recordio fel mater o drefn ac mae hyn er mwyn diogelu eu hunain a'r defnyddiwr, er enghraifft i ddelio ag unrhyw geisiadau am ad-daliad.

Ein penderfyniad

- 6.67 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn fel y cynigiwyd.
- 6.68 Dylai rhanddeiliaid nodi nad yw gofynion yr erthygl hon wedi'u cyfyngu i gofnodion sy'n cael eu gwneud a'u cadw mewn perthynas â chydsynio i'r tâl cyfradd premiwm yn unig. Mae'r gofynion yn berthnasol i unrhyw dâl. Er enghraifft, mae erthygl 26 ac Atodlen 3 y Gorchymyn PRS yn gosod gofynion ar fasnachwyr i ddarparu gwybodaeth am ffioedd mynediad a ffioedd danfon nad ydynt, ynddynt eu hunain, yn CPRS. Credwn fod hyn yn angenrheidiol oherwydd holl sylfaen y gofynion gwybodaeth cyn-contract yw bod yn rhaid i'r defnyddiwr gael gwybod am yr holl ffi y mae'n debygol o'i ysgwyddo fel rhan o'i ddefnydd o'r CPRS dan sylw.

Trydydd partïon

- 6.69 Masnachwyr fydd yn gyfrifol am wneud a chadw cofnod ysgrifenedig o gydsyniad. Fodd bynnag, mae croeso i fasnachwyr roi cyfarwyddyd i drydydd parti wneud a chadw cofnod

⁷³ Awgrymodd aimm: (1) Rhaid i'r dystiolaeth ddilysu bod y cydsyniad i godi ffi yn cyd-fynd â'r hyn a welodd y defnyddiwr ynghylch prisio a gwybodaeth allweddol arall cyn y cydsyniad hwnnw; (2) Dylai'r broses o ddilysu Cydsyniad i Godi Ffi fod yn ddigon annibynnol ar y masnachwr ac ni ddylai'r masnachwr allu ymyrryd â'r broses ddilysu. Dylid cyflwyno'r dogfennau Cydsyniad i Godi Ffi yn glir, yn annibynnol ac yn hawdd eu harchwilio, a dylai fod yn amlwg na ellir ymyrryd â hwy; (3) Gellir archwilio cydsyniad cadarn mewn ffordd sy'n profi na fyddai'r cydsyniad wedi cael ei roi mewn unrhyw ffordd arall heblaw drwy weithredoedd penodol y defnyddwyr.

ysgrifenedig ar eu rhan. Os ydynt yn dewis gwneud hynny, mae masnachwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y cofnodion hyn wedi cael eu gwneud a bod ganddynt fynediad atynt. Rydym yn rhagweld y byddai masnachwyr yn sicrhau cydymffurfiaeth o'r fath drwy eu trefniadau cytundebol eu hunain gyda thrydydd partïon.

- 6.70 Rydym yn nodi sylwadau ychwanegol Infomedia ynghylch dilysu trydydd parti a'r effeithiau niweidiol posibl sy'n deillio o fasnachwyr diegwyddor. Fel y nodwyd ym mharagraff 4.130 (gan gynnwys troednodyn 81) yr ymgynghoriad, nid ydym yn credu bod angen cymryd camau rhagnodol iawn o ran cofnodion cydsyniad. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd masnachwyr yn parhau i fodloni gofynion MFA o dan God 15 er mwyn dangos tystiolaeth briodol o gydsyniad defnyddwyr, gan gynnwys drwy ddefnyddio dilysu trydydd parti. Beth bynnag, fel y nodir uchod, cyfrifoldeb y masnachwr mewn unrhyw achos yw sicrhau bod caniatâd wedi'i roi a bod cofnodion addas wedi'u gwneud a'u bod ar gael i'r masnachwr.

Masnachwyr lluosog

- 6.71 Rydyn ni'n nodi bod y BBC, yn ei enghraifft, wedi dweud mai'r elusen "[yw'r] masnachwr sy'n cael ei ddehongli fel y gwrthbatri i'r defnyddiwr yn y contract PRS rheoledig". O dan delerau'r Gorchymyn PRS, mewn perthynas â CPRS penodol, mewn egwyddor gellir ond cael un masnachwr sy'n darparu'r CPRS hwnnw i ddefnyddwyr (gweler erthygl 9(6) y Gorchymyn PRS). Bydd y person sydd i'w ystyried yn fasnachwr yn fater o ffaith yn yr amgylchiadau penodol.

Penodolrwydd y gofyniad

- 6.72 O ran beth sy'n gyfystyr â chofnod cydsynio, rydym yn nodi bod y baich profi ar y masnachwr i ddangos bod y defnyddiwr wedi rhoi cydsyniad i ddarparu'r CPRS.⁷⁴ Mae'n rhaid i bob masnachwr gael cydsyniad defnyddiwr cyn codi tâl ar y defnyddiwr am ddarparu CPR. Mewn rhai achosion, rydym wedi nodi beth yw'r cydsyniad datganedig hwn (gweler erthyglau 27 i 29 y Gorchymyn PRS). Fodd bynnag, ym mhob achos arall, mater i'r masnachwr yw penderfynu sut y dylid rhoi cydsyniad. Bydd y cofnod perthnasol o gydsyniad yn deillio o'r mecanwaith a ddefnyddir gan y defnyddiwr i roi ei gydsyniad. Gall y dull a ddefnyddir gan y defnyddiwr i roi cydsyniad amrywio yn ôl y gwahanol fathau o CPRS a gynigir gan fasnachwyr a'r gwahanol lwyfannau a ddefnyddir e.e. negeseuon SMS neu wefannau. Nid ydym yn credu ei bod yn angenrheidiol i ni nodi'r hyn y dylai'r cofnodion cydsynio hynny ei gynnwys ar gyfer pob math o gontractau CPRS a/neu lwyfannau a ddefnyddir ar daith y defnyddiwr.
- 6.73 Wedi dweud hynny, byddem yn disgwyl i bob masnachwr gael trywydd archwilio effeithiol o ran sut a phryd y rhoddwyd caniatâd gan ddefnyddwyr, er mwyn iddynt allu darparu tystiolaeth os cânt eu herio.⁷⁵ Mae cofnodion cydsyniad o'r fath yn debygol o gynnwys y canlynol o leiaf:
- i) enw'r defnyddiwr ynghyd ag unrhyw ddynodwr cysylltiedig (er enghraifft, at ddibenion ar-lein);
 - ii) y dyddiad a'r amser y rhoddodd y defnyddiwr gydsyniad fel y dangosir gan, er enghraifft, gopi o ddogfen wedi'i dyddio, cofnodion ar-lein sy'n cynnwys stamp

⁷⁴Nodwn fod hyn yn gyson â chyfraith bresennol y DU, sef Rheoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Ffioedd Ychwanegol) 2013. Mae rheoliad 17 y rheoliadau hyn yn nodi'r baich profi mewn perthynas â chontractau oddi ar y safle a chontractau o bell sy'n cyfateb i gontractau CPRS.

⁷⁵Sylwch, fel y nodir yn erthygl 56, ei bod yn ofynnol cadw cofnodion o gydsyniad am o leiaf 2 flynedd. Gweler paragraffau 12.116 ymlaen.

amser neu nodyn o'r amser a'r dyddiad a wnaed ar adeg y sgwrs (ar gyfer cydsyniadau llafar);

- iii) y wybodaeth a roddwyd i'r defnyddiwr a allai, ar gyfer cydsyniadau llafar, gynnwys copi o'r sgript a ddefnyddiwyd ar y pryd; a
- iv) thystiolaeth ynghylch sut roedd defnyddwyr wedi rhoi cydsyniad, rhywbeth y gellir ei ddangos mewn ffordd debyg i gofnodion ar gyfer (ii) uchod.

Gwasanaethau adloniant byw

- 6.74 Nodwn fod paragraff 3.2.9 Cod 15 yn darparu: "*Os bydd galwad yn cael ei recordio neu ei fonitro, yna rhaid datgan hyn yn glir ac yn syth ar ôl cysylltu'r defnyddiwr â'r gwasanaeth.*" Fe wnaethom egluro yn yr ymgynghoriad (gweler paragraff 4.247(d) o'r ymgynghoriad) nad ydym yn adlewyrchu'r gofyniad i recordio galwadau a wneir fel rhan o wasanaethau adloniant byw. Rydym o'r farn bod y gofyniad hwn yn dyblygu deddfwriaeth diogelu data bresennol ac, felly, nid oes angen ei chynnwys yn y Gorchymyn PRS. Nid yw'r gofyniad hwn yng Nghod 15 mewn gwirionedd yn gorfodi recordio galwadau ar gyfer gwasanaethau o'r fath ond mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i ddarparwyr ei wneud os byddant yn recordio galwadau.

7. Ffioedd a thanysgrifiadau

- 7.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau mewn perthynas â ffioedd a gofynion penodol ar gyfer contractau tanysgrifio ar gyfer CPRS.
- 7.2 Yn gryno, rydym wedi penderfynu:
- a) bwrw ymlaen â'n cynnig bod yn rhaid i fasnachwyr sy'n darparu CPRS drwy wasanaeth ffôn symudol roi gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr yn rhad ac am ddim drwy gyfrwng priodol (e-bost neu neges SMS). Fodd bynnag, rydym wedi gwneud rhai newidiadau i alinio'r erthygl hon â rhannau eraill o'r Gorchymyn PRS (gweler paragraffau 7.4 – 7.13);
 - b) bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod masnachwyr yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am wasanaethau sgwrsio rhithiol bob tro y bydd y defnyddiwr yn gwario o leiaf £10 yn gynyddraddol (gweler paragraffau 7.14 – 7.17);
 - c) bwrw ymlaen â'n cynnig bod gan ddefnyddwyr hawl i derfynu contractau tanysgrifio yn amodol ar y diwygiadau a esbonnir isod (gweler paragraffau 7.18 – 7.20);
 - d) peidio â bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod masnachwyr yn cyhoeddi hysbysiadau atgoffa am ganslo ffioedd ar gyfer gwasanaethau rhoddion rheolaidd, oherwydd nid yw hyn yn ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer pob masnachwr o dan God 15 (gweler paragraffau 7.21 – 7.27);
 - e) bwrw ymlaen â'n cynnig bod yn rhaid i fasnachwyr roi hysbysiadau atgoffa i ddefnyddwyr mewn perthynas â therfynu contractau tanysgrifio; fodd bynnag, rydym wedi penderfynu eithrio gwasanaethau loteri cymdeithas o'r gofyniad hwn yn ogystal â gwasanaethau rhoddion rheolaidd (gweler paragraffau 7.28 – 7.41);
 - f) bwrw ymlaen â'n cynnig ychwanegol sy'n ymwneud ag ad-daliadau i fynnu bod masnachwyr yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am statws a chynnydd unrhyw gais am ad-daliad (gweler paragraffau 7.42 – 7.48);
 - g) bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod masnachwyr mathau penodol o CPRS sy'n cael eu defnyddio drwy alwad yn rhoi gwybod i gwsmeriaid pan fydd trothwyon codi tâl penodol wedi'u cyrraedd (gweler paragraffau 7.49 i 7.53); a
 - h) bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod masnachwyr ICSS yn codi dim mwy na £40 ar ddefnyddwyr am ddarparu'r gwasanaeth, yn amodol ar y diwygiadau a esbonnir isod (gweler paragraffau 7.54 i 7.60).
- 7.3 Rydym hefyd wedi gwneud amryw o welliannau drafftio a newidiadau esboniadol i'r erthyglau cysylltiedig o'i gymharu â'r Gorchymyn PRS drafft: gweler atodiad 3 – Tabl Newidiadau, i gymharu fersiynau drafft a therfynol pob erthygl a pharagraff 3.105 o'r atodiad hwnnw ar gyfer newidiadau i ddiffiniadau a wneir drwy'r Gorchymyn PRS.

Gwybodaeth codi ffioedd ar gyfer CPRS a brynwyd drwy ddefnyddio gwasanaeth ffôn symudol (Erthygl 31)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 7.4 Roeddem yn cynnig mynnu bod masnachwyr sy'n darparu CPRS drwy wasanaeth ffôn symudol⁷⁶ yn darparu gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr yn rhad ac am ddim, drwy e-bost neu neges SMS, a heb oedi gormodol ar ôl darparu'r CPRS.
- 7.5 Roeddem hefyd yn cynnig y dylai'r erthygl hon fod yn berthnasol i CPRS a ddarperir drwy wasanaeth ffôn symudol ond heb gynnwys galwadau a gwasanaethau sgwrsio rhithwir.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 7.6 Dywedodd aimm, BBC Plant mewn Angen a Donr Ltd nad yw'n ymddangos bod y diffiniad o "gyfrwng priodol" yn yr erthygl hon yn addas ar gyfer y dyfodol ar gyfer technolegau fel RCS. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 7.7 Roedd Action 4 Limited yn cefnogi'r angen am eglurder a symrlwydd i gwsmeriaid. Fodd bynnag, roedd yn poeni am ymarferoldeb rhoi hysbysiadau yn rhad ac am ddim, a dywedodd ei fod yn bosibl drwy negeseuon SMS ond nid ar bob llwyfan llais.
- 7.8 Dywedodd Global nad yw'n glir y byddai'r erthygl hon yn berthnasol i dderbynebau ar ôl prynu o'i gymharu â phrynu ymlaen llaw ac roedd angen egluro hyn.
- 7.9 Ailadroddodd TÜV SÜD Limited y pryderon a godwyd ganddo mewn perthynas â gwybodaeth cyn-contract (gweler paragraff 6.8) ynghylch bylchau posibl yn erthygl 31(3)(d) y Gorchymyn PRS drafft yng ngoleuni'r rhagdybiaeth mai dim ond yn fisol y mae contractau a godir ar gyfraddau sefydlog yn digwydd.

Ein penderfyniad

- 7.10 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn i raddau helaeth fel y cynigiwyd. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud rhai newidiadau drafftio i'r erthygl, yn bennaf fel a ganlyn:
- a) cysoni'r wybodaeth y mae'n ofynnol i fasnachwyr ei darparu i ddefnyddwyr o dan erthygl 31(3) y Gorchymyn PRS gyda'r hyn sydd bellach wedi'i nodi yn Atodlen 3 y Gorchymyn PRS (yn dilyn ein newidiadau a drafodir yn adran 6) a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei hanfon am contractau tanysgrifio (gweler paragraffau 6.16 i 6.17);
 - b) diwygio'r diffiniad o wasanaeth sgwrsio rhithwir yn erthygl 31(5) i ddelio â gorgyffwrdd diffiniadol (gweler paragraffau 3.105 ymlaen); a
 - c) diwygio'r diffiniad o "gyfrwng priodol" yn erthygl 31(5) i gyfeirio at "neges SMS" (gweler paragraff 3.5).
- 7.11 Rydym wedi ystyried sylwadau Action 4 Limited ac yn cadarnhau nad yw'r erthygl hon yn berthnasol i alwadau llais nac i wasanaethau sgwrsio rhithwir.
- 7.12 Mewn ymateb i sylw Global, rydym o'r farn bod y gofyniad yn yr erthygl yn glir gan ei bod yn ofynnol i fasnachwyr roi'r wybodaeth i'r defnyddiwr ar ôl codi'r ffi. Mae erthygl 31(2) y Gorchymyn PRS yn datgan bod yn rhaid i'r darparwr roi gwybodaeth benodol i'r defnyddiwr "heb oedi gormodol ar ôl i ffi am ddarparu'r PRS rheoledig gael ei chodi".
- 7.13 Rydym wedi mynd i'r afael â phryderon TÜV SÜD Limited ynghylch pa mor aml y gall rhai masnachwyr godi tâl ar ddefnyddwyr ym mharagraff 6.17 y datganiad hwn.

⁷⁶Sylwch fod hwn yn grynodeb o erthygl 31(1) sy'n datgan bod erthygl 31 yn berthnasol "i ddarparu PRS rheoledig y mae'n ofynnol i ddefnyddiwr dalu'r ffi amdano i berson sy'n darparu gwasanaeth ffôn symudol y darperir y PRS rheoledig dan sylw ar ei gyfer".

Hysbysiadau o ffioedd ar gyfer gwasanaethau sgwrsio rhithwir (erthygl 32)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 7.14 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr roi hysbysiad i'r defnyddiwr am y ffioedd a ysgwyddir bob tro y bydd y defnyddiwr yn gwario o leiaf £10 yn gynyddraddol.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 7.15 Ni chawsom unrhyw sylwadau gan randdeiliaid am y ddarpariaeth hon yn benodol, ond nodwn fod Action 4 Limited wedi mynegi pryder ynghylch darparu'r hysbysiad yn rhad ac am ddim tra bo'r defnyddiwr yn ymgysylltu â gwasanaeth fel gwasanaeth sgwrsio dros y we.

Ein penderfyniad

- 7.16 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn fel y cynigiwyd, yn amodol ar rai mân newidiadau drafftio a newid esboniadol ym mharagraff (4)(c) i nodi bod yn rhaid darparu dolen i dudalen we'r masnachwr sy'n cynnwys yr wybodaeth benodol (a threfniadau amgen os nad oes gan y masnachwr hwnnw wefan).
- 7.17 Mewn perthynas â sylwadau Action 4 Limited, nodwn fod yr erthygl hon yn adlewyrchu'r gofynion presennol o dan God 15.⁷⁷ Ar ben hynny, mae'r gofyniad yn datgan bod rhaid anfon yr hysbysiad "heb oedi gormodol" ar ôl i gost darpariaeth y defnyddiwr gyrraedd unrhyw gynyddran o £10. Gan fod y gwasanaeth yn cynnwys anfon negeseuon testun symudol (neu ddelweddau gweledol) ar wahân, rydym o'r farn bod digon o amser rhwng y cyfathrebiadau electronig ar wahân hyn lle gellir anfon yr hysbysiad drwy neges destun symudol heb oedi gormodol.

Yr hawl i derfynu contractau tanysgrifio (erthygl 33)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 7.18 Roeddem yn cynnig rhoi hawl i ddefnyddwyr derfynu contractau tanysgrifio ar unrhyw adeg heb roi rheswm a heb wynebu unrhyw atebolrwydd.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 7.19 Ni chawsom unrhyw sylwadau gan randdeiliaid am y cynnig hwn.

Ein penderfyniad

- 7.20 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn fel y cynigiwyd, ac eithrio ar gyfer diwygiad esboniadol. Rydym wedi diwygio'r geiriau "*heb wynebu unrhyw rywmedigaeth*" yn erthygl 33(1) y Gorchymyn PRS drafft i ddarparu cymhwysiad i'r perwyl, os oes atebolrwydd heb ei dalu sydd wedi cael ei ysgwyddo'n briodol gan y defnyddiwr, na ddylai'r rhwymedigaeth honno gael ei dileu gan yr erthygl hon. Yn hytrach, mae erthygl 33(1) y

⁷⁷Gweler paragraff 1.7 Atodiad 1 (Ffioedd gwasanaeth penodol a hyd galwadau) o God 15.

Gorchymyn PRS bellach yn rhoi hawl i ddefnyddwyr derfynu *“heb ddod yn atebol am unrhyw ffi sy’n gysylltiedig â chyfnod ar ôl i’r contract ddod i ben”*.

Hysbysiadau atgoffa am ganslo ffioedd am wasanaethau rhoddion rheolaidd (erthygl wedi’i dileu)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 7.21 Roeddem yn cynnig gwahardd masnachwyr rhag codi unrhyw dâl ar ddefnyddiwr o dan gontract am wasanaeth rhoddion rheolaidd⁷⁸ oni bai fod y masnachwr yn darparu gwybodaeth benodol i’r defnyddiwr yn rhad ac am ddim, drwy neges SMS, o leiaf 24 awr cyn y rhodd nesaf.
- 7.22 Roedd y cynnig hwn yn erthygl 34 yn y Gorchymyn PRS drafft yn ceisio efelychu paragraff 3.3.11 Cod 15, sy’n nodi gofynion amrywiol sy’n cael eu gosod ar wasanaeth rhoddion rheolaidd mewn amgylchiadau lle mae’r masnachwr yn rhoi’r opsiwn i’r cwsmer *“sgipio”* taliad misol.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 7.23 Dywedodd aimm, BBC Plant mewn Angen a Donr Ltd fod y gofyniad cyfatebol yng Nghod 15 yn ddewisol, ond roeddem yn cynnig ei orfodi yn y Gorchymyn PRS drafft. Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â’r sylwadau a’r awgrymiadau a wnaed gan aimm.
- 7.24 Gofynnodd Donr Ltd am eglurder hefyd ynghylch achosion lle mae plant yn defnyddio gwasanaeth rhoddion rheolaidd sydd wedi’i anelu at oedolion yn unig.

Ein penderfyniad

- 7.25 Rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â’r cynnig hwn. Gan ystyried sylwadau rhanddeiliaid, nid ydym yn credu bod angen gosod ein gofyniad arfaethedig mwyach.
- 7.26 Yn benodol, rydym yn nodi nad yw’r gofyniad cyfatebol o dan God 15 yn ofyniad ar gyfer pob masnachwr gwasanaethau rhoddion rheolaidd. Mae’n berthnasol dim ond os yw’r masnachwr yn cynnig y gallu i ddefnyddwyr *“sgipio”* y rhodd nesaf yn y gwasanaeth rhoi rheolaidd. Felly, nid oes rhaid i unrhyw fasnachwr sy’n darparu gwasanaethau rhoddion rheolaidd nad ydynt yn cynnig swyddogaethau o’r fath gydymffurfio â pharagraff 3.3.11 Cod 15. Nid ydym yn credu ei bod yn angenrheidiol adlewyrchu’r gofyniad hwn yn y Gorchymyn PRS i fynd i’r afael ag unrhyw niwed penodol i ddefnyddwyr.
- 7.27 Wrth ddod i’r casgliad hwn, rydym hefyd wedi ystyried sylwadau Donr Ltd. Fodd bynnag, gan ein bod wedi penderfynu dileu’r erthygl hon, nid oes angen darparu’r eglurder y gofynnwyd amdano gan Donr Ltd. Fodd bynnag, nodwn y codwyd pwynt tebyg gan Cancer Research UK mewn perthynas ag erthygl 23 (Hyrwyddo a marchnata gwasanaethau i blant) y Gorchymyn PRS. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.15 y datganiad hwn, yn ein diffiniad arfaethedig o *“wasanaeth plant”* rydym yn adlewyrchu paragraff 3.5.5 Cod 15 sy’n cyfeirio at *“wasanaeth sydd wedi’i anelu at blant neu sy’n debygol o apelio tuag atynt”*.

⁷⁸Neu wasanaeth plant sy’n darparu cyfleuster sydd wedi’i gynnwys mewn gwasanaeth rhoddion rheolaidd.

Hysbysiadau atgoffa ynghylch terfynu contractau tanysgrifio (erthygl 34)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 7.28 Roeddem yn cynnig gwahardd masnachwyr rhag codi tâl am wasanaeth tanysgrifio, oni bai fod y defnyddiwr wedi cael hysbysiad atgoffa yn cynnwys gwybodaeth benodol. Fe wnaethom ddweud bod yn rhaid darparu'r hysbysiad atgoffa hwn yn rhad ac am ddim⁷⁹, drwy e-bost neu neges SMS.
- 7.29 Roeddem hefyd yn cynnig bod yn rhaid i hysbysiadau atgoffa ar gyfer tanysgrifiad tymor gael eu hanfon o leiaf saith diwrnod calendr ond dim mwy na 30 diwrnod calendr cyn y dyddiad canslo olaf.
- 7.30 Roeddem hefyd yn cynnig bod rhaid anfon hysbysiadau atgoffa am danysgrifiadau am gyfnod amhenodol cyn pen pob blwyddyn ar ôl y dyddiad yr ymrwymwyd i'r contract gan y defnyddiwr a dim llai na 14 diwrnod calendr cyn y pen-blwydd hwnnw. Nodwn, fodd bynnag, fod gwall teipograffyddol yn ein cynnig ynghylch tanysgrifiadau hyd amhenodol. Ein bwriad oedd ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiadau atgoffa gael eu hanfon cyn pob pen-blwydd y dyddiad yr ymrwymwyd i'r contract gan y defnyddiwr ac nid mwy na 14 diwrnod calendr cyn y pen-blwydd hwnnw.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 7.31 Roedd Donr Ltd o'r farn ei bod yn annheg nad oedd yr erthygl hon yn berthnasol i wasanaethau tanysgrifio sy'n cynnwys gwasanaeth rhoddion rheolaidd ond a oedd yn berthnasol i wasanaethau loteri cymdeithas. Dywedodd y dylid cynnig yr esemptiad hwn i'r holl wasanaethau tanysgrifio y gall elusen eu defnyddio ac felly y dylai gwasanaethau rhoddion rheolaidd a gwasanaethau loteri cymdeithas gael eu hesemptio o'r gofyniad hwn.
- 7.32 Dywedodd aimm a Donr Ltd nad yw'n glir a fyddai negeseuon atgoffa wythnosol neu fisol yn ddigonol ar gyfer y wybodaeth hon a gofynnodd am gadarnhad, pe bai'r negeseuon atgoffa wythnosol neu fisol hyn yn cael eu hanfon, na fyddai angen neges flynyddol ar wahân.
- 7.33 Yn ogystal, dywedodd aimm hefyd fod y PSA wedi caniatáu esemptiad o dan God 15 sy'n dileu'r gofyniad am nodyn atgoffa o'r fath, lle mae negeseuon atgoffa wythnosol neu fisol yn cael eu hanfon fel mater o drefn. Ychwanegodd aimm y byddai cost negeseuon atgoffa blynyddol yn gwyro oddi wrth weithdrefnau gweithredu arferol ac, felly, yn arwain at gostau anghymesur.
- 7.34 Hefyd, dywedodd aimm nad yw tanysgrifiadau PRS yn "*awto-adnewyddu*" gan ei fod ar gael am unrhyw gyfnod y mae'r defnyddiwr yn ei ddewis ac, o'r herwydd, nid oes ganddo gyfnod sefydlog penodol.
- 7.35 Nododd aimm hefyd fod "*Ymgynghoriad BEIS ar Ebrill 2022 'Pennod 2; Hawliau Defnyddwyr' yn ceisio mynd i'r afael â thrapiau tanysgrifio*". Dywedodd fod y ddogfen hon yn

⁷⁹Rydym o'r farn nad yw ei gwneud yn glir bod yr hysbysiadau atgoffa hyn yn rhad ac am ddim yn newid sylweddol i God 15 oherwydd mae paragraff 3.2.11 Cod 15 yn datgan bod yn rhaid i unrhyw negeseuon y mae angen i'r defnyddiwr eu gweld er mwyn defnyddio neu ymgysylltu â PRS ond sy'n cael eu darparu ar wahân i'r gwasanaeth ei hun, gael eu darparu heb gost ychwanegol i'r defnyddiwr. Felly, mae eisoes yn ofynnol darparu hysbysiadau atgoffa yn rhad ac am ddim.

crynhoi, “Er mwyn grymuso defnyddwyr, cynyddu eu hyder, a hwyluso twf pellach yn y farchnad, mae’r llywodraeth yn gwneud newidiadau i reolau tanysgrifiadau ac yn deddfu i: gyflwyno gofyniad penodol ar fasnachwyr i anfon negeseuon atgoffa at ddefnyddwyr cyn i gontract gael ei gario (neu awto-adnewyddu) i gyfnod newydd”.

7.36 Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â’r sylwadau a’r awgrymiadau a wnaed gan aimm.

Ein penderfyniad

- 7.37 Rydym wedi penderfynu gosod y gofyniad hwn i raddau helaeth fel y cynigiwyd. Fodd bynnag, yr ydym wedi penderfynu eithrio gwasanaethau rhoddion rheolaidd a gwasanaethau loteri cymdeithas yng ngoleuni sylwadau Donr Ltd ynghylch triniaeth gyfartal i’r gwasanaethau hyn o ystyried eu tebygrwydd mewn sawl ffordd. Rydym hefyd wedi mynd i’r afael â’r gwall teipograffyddol yn y gofyniad ar gyfer amseru hysbysiadau atgoffa ar gyfer tanysgrifiadau hyd amhenodol (gweler paragraff 7.30 uchod).
- 7.38 O ran sylwadau aimm ynghylch esemptiadau presennol o dan God 15 ar gyfer negeseuon atgoffa blynyddol lle mae negeseuon atgoffa wythnosol neu fisol yn cael eu hanfon, rydym wedi gwirio gyda’r PSA nad oes esemptiadau o’r fath ar waith o dan God 15. Felly, nid yw’r hyn rydym wedi penderfynu ei osod yn y cyswllt hwn yn ofyniad newydd gan ei fod yn adlewyrchu’r gofynion presennol o dan God 15.
- 7.39 Mewn perthynas â Donr Ltd ac ymholiadau eraill gan randdeiliaid ynghylch anfon negeseuon atgoffa wythnosol neu fisol, nodwn nad oes dim sy’n atal masnachwyr rhag anfon negeseuon atgoffa wythnosol neu fisol ychwanegol os ydynt yn dymuno gwneud hynny, cyn belled ag yr anfonir hysbysiad atgoffa yn unol ag erthygl 34 y Gorchymyn PRS, yn cynnwys yr amseroedd a’r fformat ym mharagraff (4) yr erthygl ac mae’n cynnwys yr wybodaeth benodol sy’n ofynnol gan baragraff (3). Mae anfon hysbysiadau ychwanegol yn mynd y tu hwnt i’r safon sylfaenol y mae’r gofynion yn erthygl 34 yn ei gosod mewn perthynas â hysbysiadau atgoffa ar gyfer contractau tanysgrifio.
- 7.40 Rydym hefyd wedi ystyried haerriad aimm nad oes contractau tanysgrifio sy’n adnewyddu’n awtomatig. Fodd bynnag, rydym yn deall bod tanysgrifiadau tymor yn cael eu cynnig ar hyn o bryd gan fasnachwyr fel tanysgrifiadau i gynlluniau premiwm ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth ddigidol (fel Spotify) sy’n golygu bod defnyddiwr yn cael mynediad at wasanaethau digidol bob mis. Mae’r mynediad misol yn adnewyddu’n awtomatig bob mis oni bai fod y defnyddiwr yn ymadael yn benodol â’r contract tanysgrifio. Yn y cyd-destun hwn, rydym hefyd yn nodi ein bod wedi trosglwyddo’r cysyniad o danysgrifiadau “tymor” o baragraff 3.3.12(a) Cod 15 ac nad yw hwn yn gysyniad newydd at ddiben y Gorchymyn PRS.
- 7.41 Mewn ymateb i sylw aimm bod trapiau tanysgrifio yn cael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth arall, rydym yn nodi bod Deddf DMCC fel y cyfeirir ati ym mharagraff 6.17 y datganiad hwn, yn eithrio tanysgrifiadau ar gyfer PRS yn benodol o’r gofynion yn Rhan 4, Pennod 2 mewn perthynas â chontractau tanysgrifio.⁸⁰

⁸⁰Gweler paragraff 6 Atodlen 22 y Ddeddf DMCC.

Gofynion ychwanegol sy'n ymwneud ag ad-daliadau (erthygl 38)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 7.42 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr am statws a chynnydd cais defnyddiwr am ad-daliad. Roeddem hefyd yn cynnig y dylai masnachwyr roi rheswm dros y penderfyniad a wnaed ynghylch yr ad-daliad.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 7.43 Gofynnodd aimm, BBC Plant mewn Angen, Channel 5 a Donr Ltd am eglurder ynghylch a oes angen cynnig ad-daliadau i ddefnyddwyr o dan y Gorchymyn PRS. Dywedodd Donr Ltd, yn benodol, nad oedd yn glir ynghylch disgwyliadau defnyddwyr os oedd y defnyddiwr yn anghytuno â'r penderfyniad ynghylch ad-daliad. Gofynnodd Donr Ltd, gan dybio bod y gwasanaeth yn bodloni'r gofynion, a bod set gyfartalog o ddefnyddwyr yn credu ei fod yn deg ac yn dryloyw, a fyddai Ofcom yn ystyried bod gwaharddiad cyffredinol ar ad-daliadau yn ganlyniad derbyniol. Yn yr achos hwn, dadleuodd Donr Ltd y dylai'r erthygl hon nodi unrhyw gyfleoedd i apelio er mwyn gosod disgwyliadau ar gyfer pob masnachwr.
- 7.44 Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm.

Ein penderfyniad

- 7.45 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig, yn amodol ar fân ddiwygiadau.
- 7.46 Rydym wedi dileu'r cyfeiriad at y cyfnod o 14 diwrnod ar gyfer talu'r ad-daliad i'r defnyddiwr gan fod amseriad yr ad-daliad eisoes wedi'i nodi'n glir yn erthygl 38(5)(a) y Gorchymyn PRS. Rydym hefyd wedi dileu'r esboniad ychwanegol ynghylch pryd yr ystyrir y bydd penderfyniad yn cael ei "ddarparu" i ddefnyddiwr gan ein bod o'r farn bod y gofyniad yn ddigon clir hebddo.
- 7.47 O ran cais rhanddeiliaid am eglurder ychwanegol, rydym yn nodi mai dim ond pan fydd masnachwr yn cael cais am ad-daliad gan ddefnyddiwr y bydd y gofynion hyn yn erthygl 38 yn berthnasol. Yn dilyn cais o'r fath gan ddefnyddiwr, mae'r erthygl hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r masnachwr benderfynu a fydd ad-daliad yn cael ei dalu ai peidio. Rhaid i benderfyniad o'r fath gael ei roi i'r defnyddiwr heb oedi gormodol, a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth a nodir yn erthygl 38(4). Rydym o'r farn nad yw hyn yn wahanol pan fydd defnyddwyr yn anghytuno â'r penderfyniad ar yr amod bod masnachwyr wedi bodloni'r gofynion a nodir yn erthygl 38(3) a (4) y Gorchymyn PRS. O ran sylwadau Donr Ltd ynghylch gwaharddiad cyffredinol ar ad-daliadau gan gynnwys sôn am gyfleoedd i apelio, nid yw'n glir a yw Donr Ltd yn cyfeirio at waharddiad llwyr neu a oes cyfle i'r defnyddiwr apelio yn erbyn y gwaharddiad hwn (ac felly cael ad-daliad). Serch hynny, fel y nodir uchod, dim ond pan fydd masnachwr yn cael cais am ad-daliad gan ddefnyddiwr y bydd y gofynion hyn yn berthnasol. Rydym yn nodi mewn nifer o erthyglau yn y Gorchymyn PRS, mae gwaharddiad ar godi tâl ar y defnyddiwr mewn rhai amgylchiadau neu nes bydd amodau penodol wedi cael eu bodloni. Yn y sefyllfaoedd hynny, h.y. pan fydd masnachwr wedi codi tâl na ddylai fod wedi'i wneud, byddem yn ystyried bod angen i'r masnachwr roi ad-daliad. Er enghraifft, rydym yn gofyn yn benodol am ad-daliadau mewn achosion pan fydd masnachwr gwasanaeth cystadleuaeth neu bleidleisio yn codi tâl am ymgais i ddefnyddio'r cyfleuster ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben, gweler erthygl 45(3) y Gorchymyn PRS.

- 7.48 Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym o'r farn bod y gofynion hyn yn angenrheidiol i ddiogelu defnyddwyr rhag bod yn ddiarwybod o statws unrhyw gais am ad-daliad neu'r rheswm y tu ôl i'r penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi ad-daliad ai peidio. Mae'r gofynion hyn hefyd yn sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu niweidio pan fydd unrhyw ad-daliad yn cael ei dalu iddynt, oherwydd mae'r gofyniad yn glir ynghylch sut mae'r ad-daliad yn cael ei dalu ac na ellir codi tâl am ei dalu.

Cyfyngiadau prisio ar gyfer rhai mathau o CPRS (erthygl 46)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 7.49 Roeddem yn cynnig mynnu bod masnachwyr mathau penodol o CPRS sy'n cael eu defnyddio drwy alwad yn rhoi gwybod i gwsmeriaid pan fydd trothwyon codi tâl penodol wedi'u cyrraedd. Dyma'r mathau o CPRS:
- a) gwasanaeth llinell sgwrsio,
 - b) gwasanaeth adloniant byw,
 - c) gwasanaeth cynghori proffesiynol a ddefnyddir drwy alwad, a
 - d) gwasanaeth cynnwys rhywiol a ddefnyddir drwy alwad.
- 7.50 Ar ben hynny, roeddem yn cynnig gwahardd y masnachwr rhag codi mwy na £40 am yr alwad.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 7.51 Dywedodd BT fod hyn yn newid i'r gofyniad ym mharagraff 1.6 Atodiad 1 i God 15 sy'n mynnu bod galwadau i wasanaethau adloniant rhywiol, adloniant byw, llinell sgwrsio a chynghor proffesiynol yn cael eu terfynu ar ôl i'r ffi am alwad o'r fath gyrraedd £40. Gofynnodd BT am eglurhad ynghylch a fyddai'r ffi mynediad yn dal yn berthnasol ar ôl i'r ffi am alwad o dan yr erthygl hon gyrraedd £40.

Ein penderfyniad

- 7.52 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig, ond rydym wedi gwneud mân newidiadau i'r testun, gan gynnwys mewn perthynas â sut dylid rhoi'r hysbysiad i'r defnyddiwr unwaith y bydd unrhyw drothwy codi tâl wedi'i gyrraedd. Rydym wedi egluro bod yn rhaid rhoi hyn "yn ystod yr alwad".
- 7.53 O ran sylwadau BT, rydym yn cytuno bod hyn yn newid o God 15. Rydym o'r farn ei bod yn fuddiol i ddefnyddwyr gael gwared ar y gofyniad i derfynu'r alwad ar ôl codi tâl am £40 oherwydd ei bod yn caniatáu'r posibilrwydd i'r alwad barhau. Rydym yn rhagweld, yn ymarferol, y bydd yn rhaid i fasnachwyr ddod â'r alwad i ben er mwyn atal rhagor o ffioedd i'r defnyddiwr. Fodd bynnag, efallai y bydd modd parhau â'r alwad unwaith y bydd cyfyngiad o £40 wedi'i gyrraedd heb godi rhagor ar y defnyddiwr. Nid ydym yn dymuno mandadu bod yn rhaid terfynu'r alwad gan fod hyn o bosibl yn cyfyngu'n ddiangen. Cyn belled na chodir unrhyw ffi bellach ar y defnyddiwr, mae'r niwed o ran codi mwy na £40 ar y defnyddiwr am yr alwad yn cael ei atal. O ran y pwynt am y ffi mynediad, os oedd y defnyddiwr yn gallu aros ar yr alwad ar ôl i'r cyfyngiad o £40 gael ei gyrraedd heb orfod talu rhagor, rydym yn disgwyl i'r ffi mynediad barhau i gael ei osod o ystyried y bydd yr ECS ei hun yn parhau.

Ffioedd am ddarparu ICSS (erthygl 50)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 7.54 Roeddem yn cynnig gwahardd masnachwyr ICSS rhag codi mwy na £40 ar ddefnyddwyr am ddarparu'r gwasanaeth. Mae ein cynigion yn nodi ymhellach, pan fydd defnyddiwr yn talu mwy na £40, nad yw'r defnyddiwr wedi'i rwymo gan y contract ICSS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 7.55 Roedd CCP/ACOD yn cefnogi'r cap o £40 ar alwadau ICSS. Fodd bynnag, nododd fod £40 yn dal yn swm sylweddol o arian i'w dalu am un alwad a allai achosi tralod a niwed i rai defnyddwyr. Dywedodd fod hyn yn arbennig o wir ar gyfer y rheini ar gyllideb dynn a allai gael eu rhoi mewn dyled neu mewn sefyllfa o fethu fforddio'r hanfodion. Gofynnodd am inni barhau i adolygu'r cap o £40.
- 7.56 Rydym hefyd yn nodi awgrym cysylltiedig gan CCP/ACOD i ni ddiweddarau ein canllaw *Trin Cwsmeriaid Agored i Niwed yn Deg*⁸¹ oherwydd costau galwadau uchel annisgwyl posibl ar gyfer ICSS. Mae'r sylw hwn a'n hymateb wedi'u nodi ym mharagraffau 10.32 a 10.49.

Ein penderfyniad

- 7.57 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig, gyda rhai addasiadau. Yn benodol rydym wedi penderfynu peidio â nodi, pan fydd defnyddiwr yn talu mwy na £40, nad yw'r defnyddiwr wedi'i rwymo gan y contract ICSS. Ar ôl ystyried hyn, nid ydym yn credu bod angen datgan yn benodol os nad yw masnachwr wedi cydymffurfio â pharagraff (1), nad yw'r defnyddiwr wedi'i rwymo gan y contract ar gyfer darparu'r ICSS. Y rheswm am hyn yw bod y gwaharddiad ym mharagraff (1) yr erthygl hon yn ddigonol ynddo'i hun i atal niwed i ddefnyddwyr.
- 7.58 Ar ben hynny, rydym wedi diwygio'r erthygl i egluro pan fydd masnachwr yn darparu ICSS i blentyn, ni fydd erthygl 50 yn berthnasol ac yn lle hynny bydd angen i'r masnachwr hwnnw gydymffurfio ag erthygl 49 y Gorchymyn PRS. Mae Erthygl 49 yn cynnwys terfyn isaf y bwriedir iddo amddiffyn defnyddwyr sy'n blant drwy fynnu bod masnachwyr yn:
- a) sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n manteisio ar hygoledd, diffyg profiad neu ymdeimlad o deyrngarwch unrhyw blentyn; a
 - b) peidio â gosod newidiadau ar gyfer y CPRS sy'n fwy na:
 - i) £5 ar gyfer un trafodiad, hyd at £20 y mis ni waeth beth yw nifer y trafodiadau (lle nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu o dan gontract tanysgrifio); a
 - ii) £5 y mis lle darperir y gwasanaeth o dan gontract tanysgrifio.
- 7.59 Rydym wedi gwneud y diwygiad hwn i roi eglurder i fasnachwyr, lle maent yn darparu ICSS i blentyn, na fydd y cyfyngiad o £40 ar ffioedd yn berthnasol ond yn hytrach bydd y terfynau perthnasol yn erthygl 49 yn berthnasol.
- 7.60 O ran sylwadau CCP/ACOD, rydym yn nodi ein bod yn adlewyrchu'r cap presennol o dan God 15. Fodd bynnag, gan ystyried diweddariad diweddar y PSA⁸² ar ICSS, ac fel y trafodwyd

⁸¹ <https://www.ofcom.org.uk/cy/phones-and-broadband/vulnerable-customers/treating-vulnerable-consumers-fairly/?language=cy>

⁸² <https://psauthority.org.uk/news/news/2024/may/icss-update>

ym mharagraff 6.51 ymlaen, rydym yn nodi bod nifer y galwadau a'r niwed i ddefnyddwyr wedi gostwng yn sylweddol. Ar ben hynny, rydym yn nodi bod y diweddariad PSA yn tynnu sylw at y ffaith bod 95% o'r holl alwadau, ers 18 Medi 2023, wedi cael eu gwneud ar sail ffi is. Mae hyn yn golygu bod 95% o'r holl alwadau ICSS yn cael eu capio ar £6, sef y ffi uchaf, gan gynnwys TAW, ar gyfer galwad ICSS. Felly, mae hyn yn lleihau'n sylweddol nifer y galwadau sy'n cyrraedd yr uchafswm o £40.

8. Cyfyngiadau oedran a gwasanaethau plant

- 8.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau ar ofynion sy'n gysylltiedig ag oedran yn y Gorchymyn PRS, yn ogystal â gofynion sy'n ymwneud â gwasanaethau plant, a gofynion lle mae masnachwyr yn darparu CPRS (fel ICSS) i blant.
- 8.2 Rydym wedi diwygio ein diffiniad o "wasanaethau plant" a nodir yn erthygl 23(2) y Gorchymyn PRS er mwyn symleiddio'r diffiniad yn unol â'r newidiadau eraill a drafodir yn adran 3 sy'n ymwneud â diffiniadau sy'n gorygffwrdd (gweler paragraff 3.105 ymlaen). Rydym hefyd wedi egluro cwmpas erthygl 49 y Gorchymyn PRS, drwy ddiwygio'r erthygl i gadarnhau ei bod yn berthnasol i fasnachwyr sy'n darparu CPRS i blant.
- 8.3 Ar wahân i'r newidiadau hyn (a mân newidiadau drafftio), rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion i:
- a) wahardd darparwyr rhag cynnig mathau penodol o CPRS (gwasanaethau llinell gymorth, gwasanaethau adloniant byw, gwasanaethau gamblo o bell, gwasanaethau cynnwys rhywiol a gwasanaethau sgwrsio rhithiol) oni bai fod hyrwyddo a marchnata'r gwasanaethau hyn yn datgan yn glir:
 - i) na chaniateir defnyddio'r gwasanaeth gan unrhyw un o dan 18 oed,
 - ii) os nad y defnyddiwr yw'r talwr biliau, rhaid i'r defnyddiwr gael caniatâd y talwr biliau cyn defnyddio'r gwasanaeth, a
 - iii) gall manylion y gwasanaeth ymddangos ar fil y talwr biliau; (gweler paragraffau 8.4 – 8.9);
 - b) gwahardd darparwyr rhag darparu'r gwasanaethau uchod i unrhyw un dan 18 oed (gweler paragraffau 8.10 – 8.19);
 - c) gofyn am ddilysu oedran ar gyfer y gwasanaethau uchod (gweler paragraffau 8.20 – 8.39);
 - d) gwahardd darparwyr rhag cynnig gwasanaeth plant oni bai bod unrhyw hyrwyddo a marchnata yn cynnwys y wybodaeth ganlynol;
 - i) unrhyw ofynion oedran perthnasol i ddefnyddio'r gwasanaeth; a
 - ii) datganiad yn rhoi gwybod i'r defnyddiwr, os nad nhw yw'r talwr biliau, bod yn rhaid iddynt gael caniatâd y sawl sy'n talu'r bil cyn defnyddio'r gwasanaeth (gweler paragraffau 8.40 - 8.50); a
 - e) ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr sy'n darparu PRS rheoledig i blant i:
 - i) sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n manteisio ar hygoledd, diffyg profiad neu ymdeimlad o deyrngarwch unrhyw blentyn; a
 - ii) cydymffurfio â chyfyngiadau ar y ffioedd ar gyfer y gwasanaethau hyn (gweler paragraffau 8.51 - 8.54).

Gofynion defnyddio i rai mathau o CPRS gael eu datgan wrth hyrwyddo a marchnata (Erthygl 25)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 8.4 Roeddem yn cynnig gwahardd darparwyr PRS rhag cynnig rhai mathau o CPR, oni bai fod hyrwyddo a marchnata'r gwasanaethau hyn yn datgan yn glir:
- na chaniateir defnyddio'r gwasanaeth gan unrhyw un o dan 18 oed,
 - os nad y defnyddiwr yw'r talwr biliau, rhaid i'r defnyddiwr gael caniatâd y talwr biliau cyn defnyddio'r gwasanaeth, a
 - gall manylion y gwasanaeth ymddangos ar fil y talwr biliau.
- 8.5 Roeddem yn cynnig y byddai'r gofyniad hwn (a'r gofynion o dan erthyglau 48 a 49 y Gorchymyn PRS drafft) yn berthnasol mewn perthynas â'r gwasanaethau canlynol:
- Gwasanaethau llinell sgwrsio,
 - Gwasanaethau adloniant byw,
 - Gwasanaethau gamblo o bell,
 - Gwasanaethau cynnwys rhywiol,
 - Gwasanaeth tanysgrifio sy'n rhan o wasanaeth cynnwys rhywiol, a
 - Gwasanaethau sgwrsio rhithwir.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 8.6 Dywedodd aimm a Donr Ltd fod angen diwygio'r gofyniad hwn, oherwydd gall pobl dros 16 oed gymryd rhan mewn gwasanaethau loteri cymdeithas (nid dim ond y rhai dros 18 oed). Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Ein penderfyniad

- 8.7 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig sy'n ymwneud â gofynion defnyddio ar gyfer rhai mathau o CPR, ac eithrio un newid drafftio sylweddol mewn perthynas â'r diffiniad o wasanaethau adloniant byw.
- 8.8 Rydym wedi diwygio'r diffiniad o "wasanaethau adloniant byw" (yn erthygl 25(4) y Gorchymyn PRS) mewn rhai ffyrdd allweddol, yn benodol:
- Rydym wedi cynnwys cyfeiriad at "wasanaeth wedi'i eithrio" er mwyn eithrio gwasanaethau trothwy penodol eraill a ddiffinnir yn y Gorchymyn PRS o'r diffiniad hwn. Ar ôl ystyried y diffiniad arfaethedig yn fanylach, gallem weld y gellid cael dadl resymol y gallai rhai gwasanaethau trothwy eraill (fel y'u diffinnir yn erthygl 4 y Gorchymyn PRS) sy'n cael eu darparu drwy alwad, hefyd gynnwys cynnwys o'r fath natur fel ei bod yn rhesymol tybio ei fod yn cael ei gynhyrchu'n unig neu'n bennaf at ddibenion diddanu defnyddiwr. Er mwyn osgoi'r gorgyffwrdd hwn yn y diffiniadau, rydym felly wedi eithrio gwasanaeth plant, gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio, gwasanaeth gamblo o bell a gwasanaeth loteri cymdeithas rhag bod yn wasanaeth adloniant byw.
 - Rydym hefyd wedi diwygio'r diffiniad i ddweud "yn cynnwys" yn hytrach na "yn gynnwysedig mewn, neu ei brif nodwedd yw" wrth gyfeirio at gynnwys o natur o'r fath fel ei bod yn rhesymol tybio ei fod wedi'i gynhyrchu'n unig neu'n bennaf at ddibenion diddanu defnyddiwr. Mae hyn yn cyd-fynd â newidiadau i ddelio â gorgyffwrdd

diffiniadol posibl yn y Gorchymyn PRS (gweler paragraff 3.99 ymlaen) ac mae wedi'i ddylunio i egluro y bydd unrhyw CPRS sy'n cynnwys y cynnwys hwn yn gymwys fel gwasanaeth adloniant byw, ac eithrio'r rheini sydd wedi cael eu heithrio.

- c) Rydym hefyd wedi diwygio'r diffiniad i nodi y bydd yn berthnasol pan fydd o leiaf dau berson ar alwad. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a gynigiwyd gennym yn y Gorchymyn PRS drafft, lle'r oeddem yn cyfeirio at alwad rhwng dau berson. Fodd bynnag, bwriad y polisi yw adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghod 15⁸³, sef y gall galwad ddigwydd rhwng mwy na dau berson ar y tro ar gyfer gwasanaethau adloniant byw. Nid oedd ein diffiniad arfaethedig yn y Gorchymyn PRS drafft wedi cyflawni'r canlyniad hwn ac felly rydym wedi penderfynu gwneud y diwygiad hwn.

- 8.9 O ran y sylwadau gan randdeiliaid, nodwn nad yw erthygl 25 yn berthnasol i wasanaethau loteri cymdeithas (gweler paragraff 8.34) ac, felly, nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau yng ngoleuni sylwadau aimm a Donr Ltd.

Gwahardd darparu rhai CPRS i bobl dan ddeunaw oed (erthygl 47)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 8.10 Roeddem yn cynnig gwahardd masnachwyr rhag darparu mathau penodol o CPRS (gweler paragraff 8.5) i ddefnyddwyr dan ddeunaw oed.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 8.11 Dywedodd Mobile UK ei fod am i'r gofyniad hwn newid o fod yn waharddiad llwyr ar ddarpariaeth i bobl ifanc dan 18 oed i ofyniad bod yn rhaid gwneud "*pob ymdrech resymol i sicrhau nad yw'r ddarpariaeth yn cael ei gwneud [i rai dan 18 oed]*". Ychwanegodd, pe na bai'r newid hwn yn cael ei wneud, "*gallai godi lefelau'r risgiau y tu hwnt i'r hyn sy'n dderbyniol i MNOs er mwyn caniatáu i rai gwasanaethau fynd yn fyw, a fyddai, yn eu tro, yn cael effaith sylweddol ar y farchnad*".
- 8.12 Nododd aimm, BBC Plant mewn Angen a Cancer Research UK fod ein dogfen ymgynghori yn anghywir gan ei bod yn disgrifio'r erthygl hon fel un sy'n berthnasol i bob gwasanaeth tanysgrifio. Roeddent yn nodi y dylai ein dogfen ymgynghori, yn hytrach, adlewyrchu'r hyn a oedd yn yr erthygl arfaethedig, sef "*gwasanaeth tanysgrifio (gweler erthygl 8) a oedd yn rhan o wasanaeth cynnwys rhywiol*". Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.
- 8.13 Dywedodd Action 4 Limited ei bod yn "*wrthnysig y gallwch chi gael rhyw yn 16 oed yn y wlad hon a hyd at Ddeddf 2022 (Deddf Priodas a Phartneriaeth Sifil (Isafswm Oed) 2022) gallech briodi gyda chaniatâd eich rhiant neu warcheidwad, ond ni allwch ffonio na gweithio ar linell ffôn i oedolion.*"

Ein penderfyniad

⁸³ Gweler D.2.42.

- 8.14 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i raddau helaeth, ar wahân i ddileu'r cyfeiriad at "*wasanaeth tanysgrifio (gweler erthygl 8) sy'n rhan o wasanaeth cynnwys rhywiol*". Gweler paragraff 3.99 lle rydym yn nodi pam y cafodd hyn ei ddileu.
- 8.15 Beth bynnag am y newid hwn, rydym yn ddiolchgar i'r rheini a ymatebodd am dynnu ein sylw at yr amryfusedd yn y ffordd y gwnaethom gyfeirio at y gwasanaeth hwn yn y ddogfen ymgynghori. Maen nhw'n gywir o ran eu dealltwriaeth o'r hyn roedden ni'n bwriadu ei ddweud, h.y. nad oedd yr erthygl hon yn y Gorchymyn PRS drafft yn berthnasol i'r holl wasanaethau tanysgrifio ond dim ond gwasanaeth tanysgrifio sy'n rhan o wasanaeth cynnwys rhywiol. Roedd y Gorchymyn PRS drafft yn adlewyrchu'r sefyllfa gywir.
- 8.16 O ran yr erthygl yn fwy cyffredinol, rydym yn nodi bod y gofyniad hwn yn gweithredu ochr yn ochr â'r gofyniad i ddilysu oedran ar gyfer yr un gwasanaethau (gweler paragraffau 8.20 – 8.38 isod).
- 8.17 Ein hasesiad yw bod y risg o niwed i'r rheini dan 18 oed, pe baent yn defnyddio'r gwasanaethau a restrir ym mharagraff 8.3 uchod, yn uchel. Mae'r gwasanaethau hyn yn amhriodol i'r rheini o dan 18 oed oherwydd eu cynnwys a/neu'r posibilrwydd o niwed ariannol y gallai'r rheini sydd o dan 18 oed ei ddioddef oherwydd eu bod yn gaethiwus a/neu y gallent arwain at ddefnyddio'r gwasanaethau yn y tymor hir. O ran sylw Action 4 Limited am yr hyn y gall pobl dros 16 oed ei wneud (neu a allent ei wneud tan y newid deddfwriaethol diweddar), ein dyletswydd yw diogelu defnyddwyr CPRS rhag niwed sydd, wrth gwrs, yn cynnwys y rheini o dan 18 oed. Fel y nodwyd uchod, mae ein hasesiad o'r risg o niwed i blant yn uchel ac felly rydym yn credu ei bod yn briodol i'r gwaharddiad hwn fod ar waith, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau cynnwys rhywiol (sy'n cynnwys y llinellau ffôn i oedolion y cyfeirir atynt gan Action 4 Limited).
- 8.18 Er ein bod yn nodi nad yw'r gwaharddiad hwn wedi'i gynnwys yn benodol yng Nghod 15, rydym o'r farn bod y darpariaethau dilysu oedran o dan God 15 wedi'u hanelu at atal plant rhag defnyddio'r gwasanaethau hyn. Mae'r erthygl hon yn efelychu hynny drwy ddarparu gwaharddiad sy'n sail i'r gofynion dilysu oedran yn erthygl 48 y Gorchymyn PRS.
- 8.19 Mewn perthynas â sylwadau Mobile UK, rydym yn deall y pryder yma, er ein bod o'r farn, o ystyried y risg uchel o niwed i blant pe baent yn defnyddio'r gwasanaethau hyn, ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gorfodi gwaharddiad ar ddefnydd, yn hytrach na chyflwyno cyfyngiad ar ffurf ymdrechion rhesymol i atal darpariaeth. Nid ydym yn credu bod unrhyw beth llai na gwaharddiad yn rhoi'r warchodaeth angenrheidiol i'r rheini o dan 18 oed, yn ein barn ni, o ystyried y risg uchel o niwed o gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Rydym hefyd yn nodi na ddylai hyn fod yn newid o ganlyniad i ofynion dilysu oedran o dan God 15, a fydd, os caiff ei gyflawni'n briodol, hefyd yn sicrhau bod y rheini o dan 18 oed yn cael eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, na ddylai hyn roi baich ychwanegol ar MNOs pan oeddent yn cydymffurfio â'r gofynion dilysu oedran yng Nghod 15.

Dilysu oedran ar gyfer rhai mathau o CPRS (erthygl 48)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 8.20 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr rhai gwasanaethau ddilysu oedran i sicrhau nad yw defnyddwyr o dan 18 oed yn defnyddio'r CPRS penodol.
- 8.21 Yn benodol, roeddem yn cynnig bod yn rhaid i'r masnachwyr hyn wneud y canlynol:

- a) sefydlu a chynnal gweithdrefnau gwirio oedran;
 - b) cynnal y gweithdrefnau gwirio oedran hyn; a
 - c) cadw cofnodion ysgrifenedig o'r gweithgaredd dilysu oedran ar gyfer pob defnyddiwr.
- 8.22 Roeddem yn cynnig y byddai'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r un gwasanaethau ag yr oedd masnachwyr wedi'u gwahardd rhag eu darparu i bobl ifanc dan 18 oed (gweler paragraff 8.5 uchod).
- 8.23 Roeddem hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr ad-dalu unrhyw dalwr biliau y codwyd ffi arno o ganlyniad i rywun dan 18 oed yn defnyddio'r gwasanaeth heb oedi gormodol ar ôl i'r masnachwr ddod yn ymwybodol o'r ffaith.

Sylwadau rhanddeiliaid

Cwmpas y gofynion dilysu oedran

- 8.24 Dywedodd Telecom2 Ltd y dylai'r broses o ddilysu oedran fod yn berthnasol i bob gwasanaeth sydd wedi'i gyfyngu i oedran ac nid dim ond i rai.

Gwasanaeth loteri cymdeithas

- 8.25 Dywedodd Donr Ltd ei bod yn ymddangos bod erthygl 25 y Gorchymyn PRS drafft yn cynnwys loteriau cymdeithas o dan y diffiniad o wasanaethau gamblo o bell, ond nad oedd yr erthygl hon yn cyfateb i'r "model hunanardystio" o Ddeddf Gamblo 2005. Mae'n ymddangos bod hwn yn sylw tebyg i'r un a wnaed gan aimm, a ddywedodd nad oedd y gofynion dilysu oedran yn yr erthygl hon yn cyfateb i'r model hunanardystio ar gyfer loteriau cymdeithas, lle mae defnyddwyr yn ardystio eu bod dros 16 oed a'u bod yn cael addaliad am eu cost mynediad os bydd y broses dilysu oedran wedyn yn methu pan ddaw i hawliad am wobr. Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Cadw cofnodion

- 8.26 Dywedodd Action 4 Limited a TÜV SÜD Limited y dylai'r Gorchymyn PRS egluro'r cyfnod cadw ar gyfer y cofnodion dilysu oedran ysgrifenedig. Awgrymodd TÜV SÜD Limited y dylai hyn gyfeirio at Ddeddf Diogelu Data 2018 er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ynghylch cadw cofnodion. Dywedodd Action 4 Limited hefyd eu bod o'r farn bod y gofyniad i gadw cofnod ysgrifenedig o'r fath o'r broses ddilysu oedran mewn perthynas â phob defnyddiwr yn erthygl 50(4) y Gorchymyn PRS drafft yn feichus, gan nodi, ar gyfer darparwr PRS gyda miliynau o funudau y mis a miloedd o alwyr, y gallai fod yn anodd iawn gwneud hyn yn enwedig os nad oes rhaid gwneud recordiadau byw mwyach mewn perthynas â rhai gwasanaethau.

Dilysu oedran ar gyfer galwadau

- 8.27 Nododd Telecom2 Ltd, pan ddefnyddir CPRS drwy alwad, fod dilysu oedran yn heriol a gofynnodd am arweiniad ynghylch pa fath o wirio oedran sydd ei angen yn yr amgylchiadau hynny.

Mynediad pobl ifanc dan 18 oed at ddyfeisiau sydd wedi'u dilysu ar gyfer oedran

- 8.28 Dywedodd VMO2, oherwydd y gallai plant gael mynediad at ddyfeisiau sydd eisoes wedi'u dilysu ar gyfer oedran, nad yw masnachwyr yn gallu sicrhau bod dilysu oedran yn 100% gywir er gwaethaf eu hymdrechion gorau. Ychwanegodd y dylem adlewyrchu'r senario hwn yn y Gorchymyn PRS i sicrhau dull gweithredu cymesur.

Ein penderfyniad

- 8.29 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion, gyda mân newidiadau testunol yn unig. Yn benodol, rydym o'r farn bod y gofyniad hwn yn adlewyrchu paragraff 3.5.4 Cod 15 sy'n mynnu bod masnachwyr yn sicrhau bod mesurau dilysu oedran priodol ar waith ar gyfer rhai gwasanaethau. O ganlyniad, rydym o'r farn mai ychydig iawn o effaith, os o gwbl, y bydd gweithredu'r gofyniad hwn yn ei chael ar ddarparwyr o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol o dan God 15.

Cwmpas y gofynion dilysu oedran

- 8.30 Mae'r gofynion dilysu oedran yn berthnasol i'r mathau o CPRS a restrir ym mharagraff 8.5 uchod. Mae'r rhain yr un mathau o wasanaethau ag y mae erthygl 25 (Gofynion defnydd ar gyfer rhai mathau o PRS sydd i'w nodi wrth hyrwyddo a marchnata) ac erthygl 47 (Gwahardd darparu rhai CPRS i bersonau o dan ddeunaw oed) yn berthnasol iddynt.
- 8.31 Felly, ac mewn ymateb i sylwadau Telecom2 Ltd, rydym o'r farn bod y gofynion dilysu oedran yn berthnasol i bob CPRS sy'n gyfyngedig o ran oedran o dan y Gorchymyn PRS. Ar ben hynny, rydym o'r farn mai'r rhain yn y bôn yw'r un gwasanaethau y mae Cod 15 yn mynnu mesurau dilysu oedran ar eu cyfer o dan baragraff 3.5.4.
- 8.32 Ar ben hynny, pan fydd masnachwr yn gosod cyfyngiadau oedran ar wasanaethau nad ydynt wedi'u rhestru uchod ym mharagraff 8.5, gallant ddewis dilysu oedran ar gyfer y gwasanaethau hynny hefyd. Dylai darparwyr hefyd ystyried y gofyniad o dan erthygl 39 (gweler paragraffau 10.22 – 10.50) i gymryd camau rhesymol a chymesur i liniaru risgiau i ddefnyddwyr agored i niwed. Fel y nodir yn erthygl 39(4), un nodwedd benodol a allai wneud defnyddiwr yn agored i niwed yw oedran. Felly, gall cyfyngiadau oedran a dilysu oedran fod yn ffactor lliniaru y mae darparwyr yn ei roi ar waith i ddiogelu cwsmeriaid mewn perthynas â CPRS eraill y tu allan i gwmpas yr erthygl hon.

Gwasanaeth loteri cymdeithas

- 8.33 Nodwn sylwadau Donr Ltd ei bod yn ymddangos bod yr erthygl hon yn berthnasol i wasanaethau loteri cymdeithas. Fodd bynnag, nid yw'r erthygl hon yn berthnasol i wasanaethau loteri cymdeithas gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad o wasanaethau gamblo o bell yn erthygl 52(4) – maent wedi'u heithrio o'r diffiniad hwn. Felly, nid yw gwasanaethau loteri cymdeithas o fewn cwmpas yr erthygl hon.

Cadw cofnodion

- 8.34 Mae gofynion cadw cofnodion wedi'u nodi yn erthygl 56 y Gorchymyn PRS a byddant yn berthnasol i gofnodion dilysu oedran (gweler paragraffau 12.116 – 12.126), sy'n golygu y bydd angen i fasnachwyr gadw'r cofnodion hyn am o leiaf ddwy flynedd. Er nad oes darpariaeth gyfatebol ar gyfer cadw cofnodion dilysu oedran o dan God 15, bydd darparwyr PRS wedi bod yn destun yr hysbysiad ar gadw data a gyhoeddwyd gan y PSA⁸⁴ sy'n datgan y dylid cadw "data perthnasol" (a ddiffinnir fel yr holl wybodaeth sy'n cael ei chadw sy'n ymwneud â hyrwyddo, gweithredu, cynnwys a darparu unrhyw PRS) am o leiaf dwy flynedd. Felly, nid ydym yn credu y bydd y gofynion ynghylch cadw cofnodion yn y Gorchymyn PRS yn gosod beichiau rheoleiddio ychwanegol, sylweddol ar ddarparwyr PRS, gan eu bod yn cyd-fynd â'r dull presennol a weithredir gan y PSA.

⁸⁴ <https://psauthority.org.uk/-/media/Files/PSA/00NEW-website/For-business/Code-guidance-and-compliance/Other-important-documents/Code-15/Data-Retention-Notice-16-02-2022.ashx>

- 8.35 Lle'r oedd darparwyr PRS yn dibynnu'n flaenorol ar gofnodion anysgrifenedig, bydd angen iddynt ystyried sut i gynhyrchu cofnodion ysgrifenedig i gyd-fynd â'u gweithdrefnau dilysu oedran. O ystyried pwysigrwydd sicrhau bod oedran yn cael ei ddilysu ar y gwasanaethau perthnasol, rydym o'r farn bod gofyniad i gadw cofnodion ysgrifenedig sy'n dangos bod gwiriadau o'r fath wedi digwydd yn angenrheidiol i amddiffyn plant rhag defnyddio'r CPRS sy'n gyfyngedig o ran oedran ac sydd o fewn cwrdd y gofyniad hwn.
- 8.36 Rydym yn deall pryderon Action 4 Ltd ynghylch y gallai cadw cofnodion ysgrifenedig fod yn feichus i rai darparwyr PRS. Ar ôl ystyried y pwynt hwn, credwn fod hwn yn ofyniad y gall masnachwyr ei reoli. Er enghraifft, gall y systemau a ddefnyddir i dderbyn a chofnodi'r galwadau hynny wneud nodyn o'r gwiriadau a wneir yn awtomatig, neu gall y gweithredwr sy'n defnyddio systemau o'r fath wneud nodyn o'r gwiriadau perthnasol.

Dilysu oedran ar gyfer galwadau

- 8.37 Nodwn sylwadau Telecom2 Ltd ynghylch heriau dilysu oedran ar gyfer CPRS a ddarperir drwy alwad. Nid yw'r Gorchymyn PRS yn rhagnodol ynghylch y gweithdrefnau y mae'n rhaid i fasnachwyr eu rhoi ar waith. Dylai'r dull hwn eu galluogi i lunio gweithdrefnau sy'n briodol ac yn ymarferol ar gyfer y ffordd y darperir gwasanaeth. Felly, nid oes unrhyw fath penodol o weithdrefn dilysu oedran sy'n ofynnol ar gyfer mynediad at CPRS drwy alwad.

Mynediad pobl ifanc dan 18 oed at ddyfeisiau sydd wedi'u dilysu ar gyfer oedran

- 8.38 Mae Erthygl 48(2) y Gorchymyn PRS yn ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr "*sefydlu a chynnal gweithdrefnau ar gyfer caffael a dilysu nad yw defnyddiwr sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth o dan 18 oed.*" Bydd angen i fasnachwyr sicrhau eu bod wedi dylunio'r gweithdrefnau hynny mewn ffordd gadarn, gan ystyried ffyrdd posibl o gael mynediad at wasanaeth, er mwyn gwirio nad yw defnyddiwr ei wasanaeth o dan 18 oed. Fel rhan o'r gofyniad hwn, bydd angen iddynt hefyd ystyried sut y dylent fynd i'r afael â'r posibilrwydd o blant yn defnyddio dyfais sydd eisoes wedi'i dilysu i gael mynediad i'r gwasanaeth, fel mynnu bod angen dilysu oedran ar adegau perthnasol cyn y gellir defnyddio'r gwasanaeth.

Hyrwyddo a marchnata gwasanaethau plant (Erthygl 23)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 8.39 Roeddem yn cynnig gwahardd darparwyr rhag cynnig gwasanaethau plant oni bai eu bod yn cynnwys gwybodaeth benodol yn eu deunydd hyrwyddo a marchnata.
- 8.40 Roeddem yn cynnig diffinio gwasanaethau plant fel a ganlyn:
"gwasanaeth trothwy sy'n rhan o, neu ei brif nodwedd yw,
a) darparu cynnwys, neu
b) trefnu bod cyfleuster ar gael,
sydd wedi'i anelu at blant neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt apelio i blentyn"
- 8.41 Roeddem hefyd yn cynnig cymhwyso'r gofynion yn benodol i wasanaethau cystadlu neu bleidleisio a gwasanaethau rhoddion rheolaidd sy'n darparu cyfleuster sydd wedi'i gynnwys mewn gwasanaeth plant.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 8.42 Dywedodd Donr Ltd fod ein drafft arfaethedig yn ddryslyd. Nododd ei fod yn credu mai ein bwriad oedd y byddai'r gofynion hyn yn berthnasol i wasanaeth rhoddion rheolaidd sydd wedi'i dargedu at blant ond bod hyn yn anodd ei ddeall o'n drafft arfaethedig.
- 8.43 Dywedodd TÜV SÜD Limited nad oedd gofyniad cyfatebol i ddarparwr CPRS wirio oedran defnyddwyr.
- 8.44 Dywedodd Cancer Research UK fod ein diffiniad arfaethedig yn aneglur, y gallai fod yn anghyson ac yn groes i ddull gweithredu rheoleiddwyr eraill fel y Rheoleiddiwr Codi Arian a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu.
- 8.45 Dywedodd Mobile UK fod MNOs yn dal yn gyfforddus gyda'r darpariaethau hyn.

Ein penderfyniad

- 8.46 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i wahardd darparwyr rhag cynnig gwasanaeth plant, oni bai fod unrhyw hyrwyddo a marchnata yn cynnwys gwybodaeth benodol. Dyma'r wybodaeth y mae'n rhaid ei nodi:
- unrhyw ofynion oedran perthnasol i ddefnyddio'r gwasanaeth; a
 - datganiad yn rhoi gwybod i'r defnyddiwr, os nad nhw yw'r talwr biliau, bod yn rhaid iddynt gael caniatâd y sawl sy'n talu'r bil cyn defnyddio'r gwasanaeth.
- 8.47 Fodd bynnag, rydym wedi diwygio ein diffiniad o "wasanaethau plant" o'r hyn yr ymgynghorwyd arno, er mwyn darparu eglurhad ychwanegol ynghylch ein diffiniad. Yn ogystal â defnyddio "yn cynnwys" yn lle "sy'n rhan o, neu ei brif nodwedd yw" yn yr un modd â diffiniadau CPRS eraill yn y Gorchymyn PRS (gweler paragraff 3.105 ymlaen), nid yw erthygl 23 y Gorchymyn PRS bellach yn cyfeirio'n benodol at wasanaethau cystadlu neu bleidleisio neu wasanaethau rhodion rheolaidd fel yr oeddem wedi'i gynnig yn ein hymgynghoriad. Y rheswm am hyn yw ein bod o'r farn bod ein diffiniad terfynol o wasanaethau plant yn ddigon clir y bydd y gofynion hyn yn berthnasol i wasanaethau o'r fath lle maent wedi'u hanelu at blant, neu lle gellid disgwyl yn rhesymol iddynt apelio at blentyn, heb gyfeirio atynt yn benodol.
- 8.48 Mewn perthynas â sylwadau TÜV SÜD Limited, rydym yn nodi bod y gofynion mewn perthynas â dilysu oedran wedi'u cynnwys yn erthygl 48 (gweler paragraffau 8.20 – 8.38). Byddem yn ychwanegu nad oes angen dilysu oedran ar wasanaethau plant oherwydd bod tebygolrwydd isel o niwed yn deillio o blant yn defnyddio'r gwasanaethau hyn o'i gymharu â'r posibilrwydd o fwy o niwed i blentyn sy'n defnyddio gwasanaethau nad ydynt wedi'u hanelu at blentyn neu sy'n debygol o apelio at blentyn. Felly, nid oes ond angen gwirio oedran defnyddwyr gwasanaethau sy'n debygol o achosi niwed i'r rhai o dan oed penodol, yn yr achos hwn, plant.
- 8.49 Mewn perthynas â sylwadau Cancer Research UK am y diffiniad, rydym yn nodi ein bod yn syml yn adlewyrchu Cod 15 sy'n cyfeirio at "*wasanaeth sydd wedi'i anelu at blant neu sy'n debygol o apelio atynt*".⁸⁵ Felly, rydym yn adlewyrchu'r un cysyniad yn y bôn ag yng Nghod 15 sy'n golygu bod unrhyw wasanaeth y gellid disgwyl yn rhesymol iddo apelio i blentyn yn cael ei gwmpasu gan y gofyniad hwn.⁸⁶ Rydym hefyd o'r farn, gyda'r diwygiadau sy'n cyfeirio at "yn cynnwys", yn ogystal â dileu'r cyfeiriadau at gystadleuaeth neu wasanaeth

⁸⁵ Gweler paragraff 3.5.5 Cod 15.

⁸⁶ Nodwn i Donr Ltd wneud sylw tebyg ynghylch *Hysbysiadau atgoffa ynghylch canslo taliadau am wasanaethau rhoddion rheolaidd (erthygl wedi'i dileu)*, gweler paragraffau 7.21 – 7.27.

pleidleisio, a gwasanaeth rhoddion rheolaidd, bod y diffiniad hwn bellach yn symlach ac yn haws ei ddeall.

Gofynion ar gyfer CPRS a ddarperir i blant (erthygl 49)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 8.50 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr gwasanaeth plant sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd sy'n manteisio ar hygoledd, diffyg profiad neu ymdeimlad o deyrngarwch unrhyw blentyn. Roeddem hefyd yn cynnig gwahardd masnachwyr rhag codi mwy na throthwyon penodol.⁸⁷

Sylwadau rhanddeiliaid

- 8.51 Roedd Cancer Research UK yn poeni y gallai gwasanaethau rhoddion apelio at blant er eu bod wedi'u heithrio gan delerau gwasanaeth y masnachwr. Roedd yn ystyried, felly, y byddai'n rhaid i elusennau gydymffurfio â'r erthygl hon. Yn eu barn nhw, byddai hyn yn anodd oherwydd nad yw'r defnyddiwr yn rhoi gwybodaeth am oedran wrth roi drwy neges SMS. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r cap ar brisiau fod ar waith ar gyfer pob rhodd a byddai hynny'n effeithio ar faint y gall yr elusennau ei dderbyn drwy CPRS.

Ein penderfyniad

- 8.52 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofynion hyn fel y cynigir ond rydym wedi penderfynu cymhwyso'r gofynion hyn i fasnachwyr sy'n darparu CPRS i blentyn yn hytrach na gwasanaethau plant, fel sy'n cael ei gynnig yn erthygl 44(1) y Gorchymyn PRS drafft.
- 8.53 Rydym wedi penderfynu newid y cyfeiriad o ddarparu "gwasanaethau plant" i ddarparu "CPRS" i blentyn gan fod hyn yn cyflawni'r amcan polisi o sicrhau nad yw plant sy'n cael CPRS yn cael eu hecsbloetio na'n wynebu ffioedd uwchlaw trothwyon penodol. Mae hyn yn sicrhau nad oes rhaid i CPRS eraill sy'n debygol o apelio at blentyn ond nad ydynt yn cael eu darparu mewn gwirionedd i blentyn yn ymarferol (efallai oherwydd rheoliadau eraill e.e. codi arian) gydymffurfio â'r trothwyon ffioedd a allai fod yn broblemus. Er enghraifft, yn achos rhoddion i elusennau, nid yw plant yn defnyddio'r gwasanaethau hyn ond, gan y gallent apelio at blant, byddai elusennau wedi dod o fewn cwmpas yr erthygl hon fel y cynigiwyd yn flaenorol yn y Gorchymyn PRS drafft. Rydym o'r farn bod ein newid yn hynny o beth yn y Gorchymyn PRS yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan Cancer Research UK mewn perthynas â'r erthygl hon.

⁸⁷⁸⁷ Lle nad yw'r gwasanaeth yn danysgrifiad, y trothwyon yw £5 fesul un trafodiad ac £20 y mis beth bynnag fo nifer y trafodion o fewn y mis. Pan fydd y gwasanaeth yn danysgrifiad, y trothwy yw £5 y mis. Mae'r trothwyon hyn yn adlewyrchu paragraffau 1.10 ac 1.11 Atodiad 1 i God 15.

9. Gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio

- 9.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau mewn perthynas â gwasanaethau cystadleuaeth neu bleidleisio. Mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys yn Rhan 6, Pennod 6 y Gorchymyn PRS.
- 9.2 Yn gryno, rydym wedi penderfynu:
- defnyddio diffiniad ychydig yn wahanol o gystadleuaeth neu wasanaethau pleidleisio i'r hyn a gynigir (gweler paragraffau 9.3 – 9.11);
 - peidio â bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu na ddylai masnachwyr annog defnyddwyr i ddewis un ffordd benodol o ddefnyddio gwasanaeth cystadleuaeth a phleidleisio ar draul un arall (gweler paragraffau 9.12 – 9.16);
 - bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod rhaid rhoi tocynnau mynediad dilys i ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyn i'r terfyn amser ddod i ben, ond rydym wedi ychwanegu eithriad sy'n ymwneud ag amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y masnachwr. Rydym hefyd wedi dileu'r gofyniad bod yn rhaid cadarnhau'r cofnod yn ysgrifenedig. Gellir ei roi yn awr mewn ffordd sy'n briodol i'r cyfrwng cyfathrebu a ddefnyddir i gael mynediad (gweler paragraffau 9.17 – 9.26);
 - bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod darparwyr yn ystyried pob cais dilys yn deg a rhoi gwobrau i ddefnyddwyr yn ddi-dâl (gweler paragraffau 9.27 – 9.29); a
 - bwrw ymlaen â'n cynnig i wahardd masnachwyr rhag codi tâl ar ddefnyddwyr am geisiadau a wneir ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben (gweler paragraffau 9.30- 9.41).
- 9.3 Rydym hefyd wedi gwneud amryw o welliannau drafftio a newidiadau esboniadol i fersiynau drafft yr erthyglau. Gweler Atodiad 3 – Tabl Newidiadau, i gymharu fersiynau drafft a therfynol pob erthygl a pharagraffau 3.105 ymlaen ar gyfer newidiadau i ddiffiniadau a wneir drwy gydol y gorchymyn.

Ystyr gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio (erthygl 41)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 9.4 Roeddem yn cynnig diffinio gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio fel gwasanaeth trothwy sy'n darparu cyfleuster i ddefnyddwyr ar gyfer cystadlu, hawlio gwobr, cofrestru pleidlais neu gofnodi dewis. Roeddem yn cynnig eithrio betio (o fewn ystyr adrannau 9 i 11 Deddf Gamblo 2005) i atal gorgyffwrdd diffiniadol â gwasanaethau gamblo o bell.
- 9.5 Roeddem hefyd yn cynnig datgan yn benodol bod gwasanaeth plant sy'n darparu cyfleuster ar gyfer cystadlu, hawlio gwobr, cofrestru pleidlais neu gofnodi dewis yn cael ei ddarllen fel gwasanaeth cystadlu a phleidleisio.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 9.6 Roedd Mobile UK yn cytuno ag ymestyn y rheolaethau i gystadlaethau i blant.
- 9.7 Roedd Donr Ltd am i ni egluro a oedd ein diffiniad yn cynnwys loteriau cymdeithas o ystyried bod gwasanaethau betio wedi'u heithrio.

- 9.8 Roedd Global yn poeni y byddai cyfeirio at gystadlaethau yn unig yn arwain at ragdybiaeth nad oedd gwasanaethau cystadlu a phleidleisio yn cynnwys “Rafflau Gwobrau am Ddim” (lle nad yw talu am fynediad yn orfodol ac mae gwasanaethau cyfradd premiwm yn cael eu defnyddio fel llwybr mynediad ychwanegol ochr yn ochr â llwybr am ddim). Nododd fod Comisiwn Hapchwarae y DU yn gwahaniaethu rhwng “Cystadlaethau Gwobrau” a “Rafflau Gwobrau am Ddim”.
- 9.9 Awgrymodd Action 4 Limited fod cyfraith cystadleuaeth yn gofyn am eglurder ynghylch a yw cystadleuaeth yn seiliedig ar siawns neu’n seiliedig ar elfen o sgil er ei fod yn credu, mewn gwirionedd, y byddai darparwyr dibynadwy yn glir ynghylch pa fath o gystadleuaeth oedd y gwasanaeth.

Ein penderfyniad

- 9.10 Rydym wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau i’n diffiniad arfaethedig yng ngoleuni sylwadau rhanddeiliaid. Mae’r Gorchymyn PRS bellach yn diffinio gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio yn erthygl 41(1) fel a ganlyn:
- “gwasanaeth trothwy (ac eithrio gwasanaeth gamblo o bell neu wasanaeth loteri cymdeithas) sy’n cynnwys darparu cyfleuster ar gyfer—*
- a) cymryd rhan mewn cystadleuaeth neu hawlio gwobr, neu*
- b) cofrestru pleidlais neu gofnodi dewis”*
- 9.11 Rydym o’r farn bod y diffiniad hwn yn gliriach na’n cynnig wrth nodi’r mathau o wasanaethau a ddylai fod yn ddarostyngedig i’r rheolau ar gyfer gwasanaethau cystadlu a phleidleisio. Mae ein diffiniad wedi’i ddiweddarau, felly:
- a) yn dileu’r cyfeiriad at wasanaethau plant i fynd i’r afael â’r gorgyffwrdd yn y diffiniad fel y nodir ym mharagraffau 3.105 ymlaen. Rydym o’r farn ei bod yn glir o’r diffiniad bod gwasanaethau o’r fath yn ddarostyngedig i’r rheolau ar gyfer gwasanaethau cystadlu a phleidleisio heb y cyfeiriad penodol;
- b) yn dileu’r cyfeiriad at fetio a Deddf Gamblo 2005. Yn hytrach, rydym yn eithrio gwasanaethau gamblo yn benodol; ac
- c) yn ychwanegu eithriad penodol ar gyfer gwasanaethau loteri cymdeithas oherwydd, at ddibenion yr erthygl hon (a phob erthygl sy’n ymwneud â gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio), mae loteriau cymdeithas yn cyfateb yn sylweddol i wasanaethau gamblo o bell. Felly, gan fod y gwasanaethau gamblo o bell wedi’u heithrio’n benodol, rydym wedi penderfynu eithrio loteriau cymdeithas yn benodol hefyd.
- 9.12 Mewn perthynas â phwynt Global ar “Raffl Gwobrau am Ddim”, rydym o’r farn bod ein diffiniad yn glir ynghylch pa wasanaethau sy’n cael eu cwmpasu gan y diffiniad o wasanaeth cystadlu neu bleidleisio. Yn gyntaf, mae ein diffiniad yn nodi bod gwasanaethau cystadlu neu bleidleisio yn wasanaethau trothwy fel y’u diffinnir yn erthygl 4 (sy’n cyfeirio at y trothwyon codi tâl yn erthygl 3). Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os yw rhywbeth yn “Raffl Gwobr am Ddim”, mae’n cael ei gwmpasu gan ein diffiniad dim ond os codir tâl am fynediad i’r raffl honno drwy CPRS a bod y gwasanaeth yn bodloni’r diffiniad yn erthygl 4. Yn ail, rydym yn nodi bod ein diffiniad yn glir wrth nodi ei fod yn cynnwys cystadlu a hawlio gwobr.
- 9.13 Rydym yn nodi mewn perthynas â sylw Action 4 Limited, nad yw ein diffiniad yn nodi beth yw cystadleuaeth oherwydd ein bod yn dibynnu ar y diffiniad naturiol sy’n ymdrin â sgiliau a siawns.

Gwahanol ffyrdd o ddefnyddio gwasanaethau cystadlu a phleidleisio

Cynigion yr ymgynghoriad

- 9.14 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol, pan fydd masnachwr yn cynnig ffyrdd gwahanol o ddefnyddio gwasanaeth cystadlu a phleidleisio, na ddylai'r masnachwr annog defnyddwyr i ddewis un ffordd benodol ar draul un arall.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 9.15 Nododd aimm, BBC, BBC Plant mewn Angen a Global arfer presennol y diwydiant o ddefnyddio dolenni i dudalennau gwefan i ddarparu'r wybodaeth lawn am y gwahanol ffyrdd o ddefnyddio gwasanaethau cystadlu a phleidleisio. Roeddent yn nodi y gallai hyn fod yn fwy defnyddiol i ddefnyddwyr lle mae amser neu le yn gyfyngedig na cheisio cynnwys yr holl wybodaeth yn syth. Ychwanegodd y BBC ei fod yn credu na fyddai'r dull presennol hwn yn rhywbeth a fyddai'n achosi i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau trafodiadol na fyddent yn eu gwneud fel arall.
- 9.16 Roedd ITV yn poeni am effaith ein cynnig ar ei fusnes ac roedd o'r farn bod ein cynnig yn ofyniad newydd a ddylai gael ei gefnogi gan asesiad effaith. Nododd fod "*cael y gallu i gymell rhai llwybrau mynediad yn bwysig er mwyn lleihau costau cyffredinol cynnal cystadlaethau.*"
- 9.17 Dywedodd MCP Insight Ltd ei fod yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm ynghylch ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gwasanaethau cystadlu a phleidleisio, ac yn eu cefnogi.

Ein penderfyniad

- 9.18 Rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r gofyniad arfaethedig hwn.
- 9.19 Bwriad yr erthygl hon oedd adlewyrchu paragraff 3.1.8 Cod 15 a oedd yn mynnu bod pob llwybr mynediad (mewn gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio) yn cael ei gyflwyno a'i arddangos gyda'r un amlygrwydd. Ar ôl ystyried sylwadau rhanddeiliaid, nid ydym yn credu bod angen sicrhau nad yw masnachwyr yn annog defnyddwyr i ddewis un ffordd benodol o ddefnyddio gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio ar draul un arall ar yr amod bod defnyddwyr yn gwbl ymwybodol o wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth. Cyflawnir hyn drwy'r gofynion sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth cyn-contract yn y Gorchymyn PRS (gweler erthygl 26 ac Atodlen 3 paragraffau 2(d) a 2(e)).

Tocyn mynediad dilys ar gyfer gwasanaethau cystadlu neu bleidleisio (erthygl 42)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 9.20 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i docyn mynediad dilys gael ei roi i ddefnyddiwr sydd wedi defnyddio'r cyfleuster sydd ar gael mewn gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio cyn i'r terfyn amser ddod i ben ac sydd wedi bodloni unrhyw amodau perthnasol sy'n

berthnasol i'r gwasanaeth.⁸⁸ Dim ond defnyddwyr sydd â thocynnau mynediad dilys y dylid ystyried eu pleidlais neu gael cyfle i ennill y gystadleuaeth.

- 9.21 Roeddem hefyd yn cynnig, lle mai galwad ffôn oedd y dull mynediad, bod yn rhaid ystyried bod unrhyw alwad a oedd wedi dechrau yn ystod y cyfnod amser penodedig yn ddilys hyd yn oed os nad oedd yr alwad wedi dod i ben cyn diwedd y cyfnod amser penodol.
- 9.22 Fel rhan o'r erthygl hon, roeddem yn cynnig y byddai'n rhaid i ddarparwyr roi cadarnhad ysgrifenedig i ddefnyddwyr eu bod wedi gwneud cais dilys heb oedi gormodol.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 9.23 Roedd Mobile UK yn cefnogi ein cynnig mewn perthynas â thocynnau mynediad dilys.
- 9.24 Mynegodd aimm, BBC, Channel 4, Channel 5 ac ITV bryderon y byddai ein cynigion yn mynnu bod masnachwyr yn ystyried bod ceisiadau'n ddilys ar ôl i'r defnyddiwr anfon cais yn hytrach na phan fydd y masnachwr wedi cael y cais. Yn hynny o beth, rhoddodd aimm, Channel 4 a Channel 5 enghraifft o fasnachwr yn peidio â chael cais am fynediad mewn pryd, hyd yn oed os cafodd ei anfon cyn i'r terfyn amser ddod i ben, oherwydd methiant neu oedi yn y rhwydwaith.
- 9.25 Ar ben hynny, dywedodd aimm, Channel 4 a'r BBC na fyddai'n bosibl rhoi tocyn mynediad dilys yn ysgrifenedig i ddefnyddiwr sydd wedi defnyddio'r cyfleuster drwy ffonio'r masnachwr.
- 9.26 Awgrymodd y BBC y dylid drafftio newidiadau i'r erthygl hon er mwyn sicrhau bod ceisiadau drwy neges SMS yn cael eu trin yn gyfartal â'r rheini a wnaed drwy rif ffôn perthnasol.

Ein penderfyniad

- 9.27 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofynion i raddau helaeth fel y cynigiwyd. Fodd bynnag, gan ystyried adborth rhanddeiliaid am yr angen i dderbyn ceisiadau, rydym wedi penderfynu ychwanegu eithriad sy'n ymwneud ag amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y masnachwr.
- 9.28 Yn benodol, pan fydd defnydd defnyddiwr o'r cyfleuster cyn i'r terfyn amser ddod i ben yn anhysbys i'r masnachwr oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y masnachwr, nid oes rhaid i'r masnachwr roi tocyn mynediad dilys. Mewn amgylchiadau o'r fath, ac ar ôl i'r masnachwr ddod yn ymwybodol o ymgais defnyddwyr i ddefnyddio'r cyfleuster, rhaid i'r masnachwr yn lle hynny roi gwybod i'r defnyddiwr bod ei ymgais i gystadlu yn aflwyddiannus a naill ai cadarnhau na wnaed unrhyw dâl neu fod y defnyddiwr wedi talu ffi ond y bydd yn cael ei ad-dalu.⁸⁹
- 9.29 Rydym o'r farn bod hyn yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ynghylch masnachwyr yn gorfod ystyried bod cais yn ddilys os nad ydynt wedi'i dderbyn oherwydd, er enghraifft, toriad yn y cyflenwad trydan neu oedi rhwydwaith.
- 9.30 Rydym hefyd wedi penderfynu defnyddio dull gwahanol i'r hyn a gynigiwyd yn flaenorol mewn perthynas â sut mae cadarnhad yn cael ei roi i ddefnyddiwr ei fod wedi gwneud cais

⁸⁸Sylwch y bydd y terfyn amser a'r amodau perthnasol wedi cael eu darparu eisoes yn unol â'n gofynion gwybodaeth cyffredinol cyn-contract o dan Erthygl 26.

⁸⁹Sylwch fod erthygl 45(2) y Gorchymyn PRS yn gwahardd y masnachwr rhag codi unrhyw ffi ar y defnyddiwr mewn perthynas ag ymgais y defnyddiwr i ddefnyddio'r cyfleuster.

dilys. Nid yw erthygl 42 yn ei gwneud yn ofynnol i gadarnhad o'r fath gael ei roi yn ysgrifenedig. Yn hytrach, rhaid rhoi'r cadarnhad mewn ffordd sy'n briodol i'r dull cyfathrebu a ddefnyddiwyd. Er enghraifft, lle mae'r defnyddiwr yn defnyddio galwad llais, gellid rhoi'r cadarnhad drwy neges awtomatig yn ystod yr alwad.

- 9.31 O ran sylwadau'r BBC a'r newidiadau drafftio cysylltiedig, rydym o'r farn bod y rhain yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o bwrpas paragraff 3 yr erthygl hon. Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn glir, yn achos defnydd defnyddiwr o rif ffôn perthnasol i geisio ymuno â'r gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio a bod y defnydd hwn yn digwydd cyn diwedd y cyfnod ymgeisio, bod y masnachwr i drin y defnyddiwr fel un sydd wedi cwrdd â'r terfyn amser hyd yn oed os yw'r terfyn amser yn dod i ben tra bo'r defnyddiwr ar yr alwad. Nid oes angen gwneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer negeseuon SMS oherwydd mae'r neges SMS yn cael ei derbyn cyn i'r terfyn amser ddod i ben neu beidio. Does dim hyd amser ar gyfer y cysylltiad sy'n cael ei wneud gan neges SMS fel yn achos galwad.
- 9.32 Ar ben hynny, rydym yn nodi bod paragraff 4 yr erthygl hon yn ymdrin â'r sefyllfa, ymysg eraill, lle nad yw'r masnachwr yn cael y neges SMS cyn i'r terfyn amser ddod i ben er bod y defnyddiwr wedi anfon y neges SMS cyn i'r cais ddod i ben. Beth bynnag yw achos yr oedi wrth dderbyn y neges SMS, i'r graddau nad yw'r masnachwr yn gwybod amdano oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y masnachwr, mae'r cais yn aflwyddiannus. Felly, rydym wedi penderfynu peidio â mabwysiadu drafft y BBC.

Ystyried tocyn mynediad dilys ar gyfer gwasanaethau cystadlu a phleidleisio a hawlio gwobrau am ddim (Erthyglau 43 a 44)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 9.33 Roeddem yn cynnig y byddai angen i fasnachwyr ystyried pob cais dilys yn deg. Fe wnaethom egluro y byddai hyn yn golygu bod yn rhaid i bob tocyn mynediad dilys mewn cystadleuaeth gael yr un cyfle i ennill unrhyw wobwr sy'n cael ei chynnig, a bod yr holl docynnau mynediad dilys i gofrestru pleidlais neu ddewis yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar ganlyniad y gystadleuaeth neu'r bleidlais.
- 9.34 Roeddem hefyd yn cynnig y byddem yn mynnu bod masnachwyr yn rhoi unrhyw wobwr i ddefnyddwyr sydd wedi cael ei hennill yn rhad ac am ddim.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 9.35 Ni chawsom unrhyw sylwadau mewn perthynas â'n cynigion ynghylch ystyried tocynnau mynediad dilys a hawlio gwobrau am ddim.

Ein penderfyniad

- 9.36 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofynion hyn fel y cynigiwyd. Ni chawsom unrhyw ymatebion am y ddarpariaeth hon.

Ymdrech i ddefnyddio cyfleuster mewn gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio ar ôl i derfyn amser ddod i ben (Erthygl 45)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 9.37 Roeddem yn cynnig, pan oedd defnyddiwr yn ceisio defnyddio gwasanaeth cystadlu a phleidleisio ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben, y byddai'r masnachwr yn cael ei wahardd rhag codi tâl ar y defnyddiwr.
- 9.38 Roeddem hefyd yn cynnig, ar ôl i'r masnachwr ddod yn ymwybodol o ymgais defnyddwyr i ddefnyddio'r cyfleuster, rhaid i'r masnachwr roi gwybod i'r defnyddiwr bod ei ymgais i gystadlu yn aflwyddiannus a naill ai cadarnhau na wnaed unrhyw dâl neu fod y defnyddiwr wedi talu ffi ond y bydd yn cael ei ad-dalu.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 9.39 Nododd aimm a Global fod darpariaeth gyfatebol y PSA⁹⁰ yn caniatáu i'r masnachwr roi gwybod i ddefnyddwyr bod eu ceisiadau yn aflwyddiannus (neu'n annilys) drwy ddweud "ymlaen llaw" na fydd ceisiadau a dderbynnir y tu allan i'r ffenestr gofrestru yn cael eu derbyn. Roeddent yn dadlau y dylai ein cynigion, yn yr un modd, ganiatáu i fasnachwyr gyflawni'r cyfrifoldeb hwn yn y wybodaeth cyn-contract.
- 9.40 Roeddent hefyd yn sôn, gan fod y gwasanaethau hyn yn gallu agor a chau'n gyflym, y gallai ein cynigion arwain at anawsterau o ran cynnig gwasanaeth cystadlu a phleidleisio newydd ar yr un rhifau ffôn ochr yn ochr â chydymffurfio â'r gofyniad i roi gwybod i ddefnyddwyr am unrhyw ymgais aflwyddiannus i ymuno â'r gwasanaeth blaenorol.
- 9.41 Ar ben hynny, dywedodd aimm a Global nad oedd ein gofyniad arfaethedig yn nodi am ba hyd ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben y byddai'n rhaid i'r masnachwr barhau i roi gwybod i ddefnyddwyr am unrhyw ymgais aflwyddiannus. Dywedodd Global y gallai defnyddwyr, o dan ein cynnig ni, deimlo'n rhwystredig am ymdrechion aflwyddiannus (heb esboniad o'r rhesymau dros y methiant) ac y byddai hyn yn arwain at niwed i ddefnyddwyr a chwynion i'r masnachwr.
- 9.42 Gofynnodd aimm a TÜV SÜD Limited am eglurhad mewn perthynas â thaliadau mynediad. Gofynnodd aimm beth fyddai'n digwydd petai defnyddiwr yn defnyddio'r gwasanaeth ar ôl i'r gwasanaeth gau ac a fyddai'n dal i orfod talu'r ffi mynediad. Gwnaeth TÜV SÜD Limited bwynt tebyg yn ymwneud â lle codir ffi mynediad ar gwsmeriaid yn y sefyllfa hon, sy'n golygu y byddai defnyddwyr yn talu i gael mynediad at rywbeth nad ydynt yn gallu mynd i mewn iddo mwyach.

Ein penderfyniad

- 9.43 Rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull arfaethedig.
- 9.44 Mae Erthygl 45 yn rhoi eglurder a sicrwydd i ddefnyddwyr ynghylch a oedd eu hymdrechion i ddefnyddio'r cyfleuster ar ôl y terfyn amser penodedig yn llwyddiannus ai peidio ac a oes unrhyw ad-daliad yn ddyledus. Rydym o'r farn y bydd bod yn ddarwybod o lwyddiant neu

⁹⁰ Gweler paragraff 3.13.5 Cod 15.

fethiant yr ymgais hon yn arwain at niwed i ddefnyddwyr oherwydd, yn niffyg gwybodaeth y naill ffordd neu'r llall, efallai y bydd y defnyddiwr yn disgwyl bod siawns y bydd yn ennill cystadleuaeth hyd yn oed os na fu'r ymgais yn llwyddiannus. Neu, fel yn achos cyfleuster pleidleisio, efallai y bydd y defnyddiwr yn disgwyl i'w bleidlais gael ei chofnodi a'i hystyried. Felly, rydym o'r farn bod angen y gofyniad hwn i fynd i'r afael â'r risg o niwed i ddefnyddwyr o ganlyniad i ddefnyddwyr ddim yn gwybod bod eu cais wedi bod yn aflwyddiannus.

- 9.45 Rydym yn nodi safbwynt Global y bydd y gofyniad hwn yn achosi rhwystredigaeth i ddefnyddwyr yn sgil ymdrechion aflwyddiannus. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod hyn yn ganlyniad anochel i amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y masnachwr, fel defnyddiwr ddim yn dilyn yn llawn y cyfarwyddiadau ar gyfer mynediad neu oedi rhwydwaith cyn i'r neges destun symudol gyrraedd y masnachwr. Ar ben hynny, rydym yn credu y bydd unrhyw rwystredigaeth a deimlir gan ddefnyddwyr yn cael ei wrthbwyso gan y fantais i ddefnyddwyr o wybod bod ymgais i ymuno wedi bod yn aflwyddiannus ac y bydd ad-daliad yn cael ei roi (neu nad oes tâl wedi cael ei godi). Credwn fod defnyddwyr eisiau gwybod a fu ymgais i ddefnyddio'r gwasanaeth yn llwyddiannus ai peidio.
- 9.46 Mae hefyd yn bwysig bod defnyddwyr yn gwybod a godwyd ffi arnynt ai peidio yn ddi-oed ar ôl iddynt geisio cael mynediad. Rydym yn cydnabod y bydd bil ffôn y defnyddiwr yn cyfleu'r wybodaeth hon, ond efallai na fydd gan y defnyddiwr fynediad ar unwaith at y wybodaeth bilio hon. Ar ben hynny, os nad yw'r bil ffôn yn datgan yn glir bod ymgais wedi bod yn aflwyddiannus, byddai'n rhaid i'r defnyddiwr gasglu o absenoldeb taliad am y gwasanaeth hwnnw na wnaed unrhyw daliad o'r fath.
- 9.47 Nid ydym yn credu bod rhoi gwybod i ddefnyddwyr "cyn y ffaith", fel yr awgrymwyd gan rai ymatebwyr, yn darparu amddiffyniad digonol i ddefnyddwyr. Byddai hyn ond yn dweud wrth ddefnyddwyr, mewn egwyddor, na fydd cynigion hwyr yn cael eu hystyried. Bydd defnyddwyr unigol yn poeni am eu hymgais unigol i gael mynediad ar ôl y ffaith. Rydym o'r farn, er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o wybodaeth am lwyddiant (neu ddiffyg llwyddiant) eu cais, y dylent allu cael cysur yn y ffaith y byddant yn cael gwybod os na fu eu cais yn llwyddiannus. Rydym yn nodi bod yn rhaid i fasnachwyr ddarparu'r amodau mynediad fel rhan o'r wybodaeth cyn-contract o dan y Gorchymyn PRS (gweler erthygl 26 ac Atodlen 3(2)(d) ac (e)) ac, felly, bydd defnyddwyr yn cael gwybodaeth am y terfyn amser mewn unrhyw achos.
- 9.48 Nid yw ein gofynion yn ceisio bod yn rhagnodol nac yn fanwl ynghylch yr union amserlenni y mae'n rhaid i fasnachwr eu defnyddio i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth i roi gwybod i ddefnyddiwr am ymgais aflwyddiannus i ymuno â'r gwasanaeth. Mae'r ymadrodd "*heb oedi gormodol ar ôl i'r masnachwr ddod yn ymwybodol o ymgais y defnyddiwr*" yn gofyn am ddull gweithredu fesul achos gan fasnachwyr, gan ystyried amgylchiadau ac amodau unigol y gwasanaeth dan sylw. Rydym o'r farn bod angen yr hyblygrwydd hwn i sicrhau bod darparwyr yn gallu cydymffurfio â'r gofyniad hwn mewn perthynas â phob math o wasanaeth cystadlu a phleidleisio (gan gynnwys y rheini sydd ar agor am gyfnod byr yn unig).
- 9.49 Mewn perthynas ag ymholiadau aimm a TÜV SÜD Limited ynghylch ffioedd mynediad, nid yw'r Gorchymyn PRS yn nodi gofynion sy'n ymwneud â'r tâl mynediad ac eithrio bod gwybodaeth am unrhyw ffioedd ychwanegol (fel tâl mynediad) ar gael i ddefnyddwyr cyn i'r defnyddiwr ymrwymo i gontract CPRS. Rydym hefyd o'r farn bod erthygl 45 yn glir ei bod yn berthnasol mewn perthynas ag ymgais y defnyddiwr i ddefnyddio'r cyfleuster. Mae ffioedd mynediad y tu hwnt i reolaeth masnachwyr ac, felly, ni all y gofynion o dan yr erthygl hon ar

fasnachwyr i beidio â chodi unrhyw dâl ar y defnyddiwr mewn perthynas ag ymgais y defnyddiwr i ddefnyddio'r cyfleuster ond cyfeirio at ffioedd sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio ei hun, nid ffioedd mynediad. Rydym yn nodi y byddai unrhyw ddefnydd o ECS gan ddefnyddiwr, fel pan fydd ymgais i gymryd rhan mewn gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio'n cael ei wneud hyd yn oed os yw'n aflwyddiannus, yn arwain at unrhyw dâl mynediad perthnasol yn unol â thelerau'r contract rhwng y defnyddiwr a gweithredwr y rhwydwaith ar gyfer darparu'r ECS (sydd y tu hwnt i reolaeth masnachwyr).

10. Mesurau eraill i ddiogelu defnyddwyr

- 10.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau mewn perthynas â mesurau diogelu defnyddwyr cyffredinol a chwynion defnyddwyr. Ar ddiwedd yr adran hon (gweler paragraffau 10.102 ymlaen), rydym hefyd yn rhoi sylw i sylwadau rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud naill ai â'n cynigion i beidio ag adlewyrchu darpariaethau penodol sy'n bodoli eisoes o God 15 yn y Gorchymyn PRS neu sy'n ymwneud ag awgrymiadau neu sylwadau eraill a godwyd gan randdeiliaid.
- 10.2 I grynhoi, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion i wneud y canlynol:
- mynnu nad yw gwybodaeth a ddarperir gan ddarparwr PRS wrth gyflawni gweithgaredd a reoleiddir yn debygol o gamarwain defnyddiwr (gweler paragraffau 10.3 – 10.18);
 - mynnu bod masnachwyr yn darparu eu gwasanaeth i ddefnyddwyr o fewn amser rhesymol (gweler paragraffau 10.19 – 10.21);
 - gwahardd darparwyr PRS rhag ymgymryd ag unrhyw weithgarwch a reoleiddir oni bai eu bod yn cymryd camau rhesymol a chymesur i nodi risgiau posibl i fuddiannau defnyddwyr agored i niwed, ac i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd (gweler paragraffau 10.22 – 10.50);
 - gwahardd darparwyr PRS rhag cyflawni unrhyw weithgaredd a reoleiddir sy'n cynnwys deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb yn erbyn grŵp o bobl neu aelod o grŵp o bobl ar sail nodweddion penodol. Rhaid i ddarparwyr PRS hefyd gymryd pob cam rhesymol i atal y risg bod y gweithgaredd a reoleiddir yn achosi niwed i ddefnyddwyr (gweler paragraffau 10.51 – 10.67);
 - gwahardd masnachwyr rhag darparu CPRS nes eu bod wedi bodloni gofynion sy'n ymwneud â chwynion ac ymholiadau defnyddwyr, yn enwedig cael polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig (gweler paragraffau 10.68 – 10.86);
 - ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr PRS wneud a chadw cofnod ysgrifenedig o'r holl dystiolaeth sy'n angenrheidiol i gadarnhau honiadau a wneir wrth hyrwyddo a marchnata CPRS (gweler paragraffau 10.87 – 10.89);
 - ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr sy'n darparu gwasanaethau cyngor proffesiynol gymryd camau rhesymol a chymesur i sicrhau bod gan unrhyw un sy'n gweithio fel rhan o'r gwasanaeth sy'n rhoi cyngor neu gymorth o'r fath i ddefnyddwyr y cymwysterau a'r profiad sy'n angenrheidiol i wneud hynny (gweler paragraffau 10.90 – 10.93); a
 - ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr gwasanaethau gamblo o bell ddarparu cofnod i'r defnyddiwr o ddefnydd y defnyddiwr o'r gwasanaeth (gweler paragraffau 10.94 – 10.101).

Gwybodaeth gamarweiniol (erthygl 22)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 10.3 Roeddem yn cynnig gwahardd darparwyr PRS rhag cyflawni unrhyw weithgaredd a reoleiddir (boed y gweithgaredd hwnnw'n ddarparu CPRS neu hyrwyddo a marchnata) sy'n debygol o gamarwain defnyddwyr (naill ai drwy gynnwys gwybodaeth gamarweiniol neu

drwy hepgor gwybodaeth berthnasol). Diffinnir gwybodaeth berthnasol fel y wybodaeth yn Atodlen 3 (gwybodaeth cyn cysylltu).

Sylwadau rhanddeiliaid

- 10.4 Roedd A2B Telecom Ltd, Action 4 Limited, aimm, Channel 5, Donr Ltd a Telecom2 Ltd yn bryderus bod y cysyniad o “ddefnyddiwr cyffredin” yn rhy oddrychol ac angen mwy o eglurder. Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â’r sylwadau a’r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi. Roedd Action 4 Limited ac aimm, ynghyd â nifer o ymatebion eraill, hefyd yn gofyn am eglurhad ynghylch y diffiniad o “ddefnyddiwr agored i niwed arferol”. Nododd Action 4 Limited fod yna ddiffiniad o fregusrwydd yn y gyfraith, ond gall pob defnyddiwr neu fodau dynol fod yn agored i niwed ar ryw adeg yn eu bywydau. Holodd pwy fydd yn cymrodeddu beth yw ystyr y gair “rhesymol”, yr ydym yn tybio ei fod yn ymwneud â’r diffiniad o “ddefnyddiwr agored i niwed” (sy’n cael ei drafod yn fanylach ym mharagraff 10.22 isod). Dywedodd aimm hefyd ei fod yn ystyried byddai *“barnu beth allai defnyddiwr cyffredin fod – o fewn ehangder ystyriaethau bregusrwydd – yn anodd iawn neu’n agored iawn i lefel uchel iawn oddrychedd.”*
- 10.5 Dywedodd Donr Ltd nad oedd y Gorchymyn PRS drafft yn erthygl 22(5) yn egluro pa faint sampl fyddai ei angen i greu barn “gyffredin” gan ddefnyddiwr. Holodd a fyddai’n dderbyniol tybio nad yw’r gwasanaeth yn gamarweiniol pe bai dau berson yn adolygu gwasanaeth ac yn credu ei fod yn glir ac nad yw’n gamarweiniol. Dywedodd y dylai’r Gorchymyn PRS nodi’n well y disgwyliadau o ran pennu nifer briodol o bobl sydd eu hangen i greu barn “gyffredin” nad yw gwasanaeth yn gamarweiniol.
- 10.6 Dywedodd Mobile UK y gallai ein cynigion yn erthygl 22(3) a (4) y Gorchymyn PRS drafft ochr yn ochr â defnyddio asesiadau risg o dan ein rheolau diwydrwydd dyladwy a rheoli risg arwain at y gadwyn gwerth yn dychwelyd i “delerau ac amodau tudalennau WAP hen ffasiwn”.⁹¹ Roedd gan TalkTalk bryderon cyffelyb, gan nodi y gallai’r gofynion diogelu defnyddwyr yn Rhan 6 y Gorchymyn PRS drafft gyflwyno *“mwy o oddrychedd ar ran darparwyr PRS (gan gynnwys gweithredwyr rhwydwaith) mewn gofynion asesu risg ac a ellid ystyried bod gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr yn gamarweiniol.”*

Ein penderfyniad

- 10.7 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’n cynigion ynghylch gwybodaeth gamarweiniol, ond rydym wedi gwneud rhai newidiadau drafftio i wneud y gofynion yn gliriach yng ngoleuni sylwadau rhanddeiliaid. Wrth wneud hynny, rydym hefyd wedi ystyried sylwadau rhanddeiliaid a oedd yn gofyn am eglurder ynghylch y “defnyddiwr cyffredin” y cyfeirir ato drwy gydol erthygl 22. Mae Cod 15 yn cynnwys gofyniad cyffredinol yn 3.3.2 na ddylai darparwyr PRS a’u gwasanaethau gamarwain na bod yn debygol o gamarwain defnyddwyr mewn unrhyw ffordd. Mae’r Cod yn cynnwys rhagor o fanylion yn y canllawiau. Yn y Gorchymyn PRS, roeddem o’r farn bod angen ychwanegu eglurder ynghylch pryd y byddai cynnwys neu hepgor gwybodaeth yn cael ei ystyried yn gamarweiniol.

⁹¹Rydym yn deall bod Mobile UK yn cyfeirio at y Protocol Rhaglenni Di-wifr: https://en.wikipedia.org/wiki/Wireless_Application_Protocol..

- 10.8 Mae'r cysyniad o'r "defnyddiwr cyffredin" i'w weld mewn deddfwriaeth arall sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, yn enwedig yn y Ddeddf DMCC.⁹² Fel yr eglurwyd yn gynharach yn y ddogfen hon (gweler paragraff 6.17), mae Deddf DMCC yn eithrio contractau tanysgrifio ar gyfer PRS yn benodol o'r gofynion yn Rhan 4, Pennod 2 y Ddeddf DMCC.⁹³ Roedd Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008 ("Rheoliadau 2008") hefyd yn darparu diffiniad o "ddefnyddiwr cyffredin" sy'n cael ei fabwysiadu ar ffurf ddiwygiedig gan Ddeddf DMCC. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr PRS fod yn gyfarwydd â Rheoliadau 2008 gan fod llawer o ddarparwyr PRS wedi gorfod cydymffurfio â'r rheoliadau hynny.⁹⁴
- 10.9 Mae'r canllawiau⁹⁵ i Reoliadau 2008 yn egluro nad yw "cyffredin" yn golygu defnyddiwr sy'n ystadegol gyffredin, a bod cysyniad o'r defnyddiwr cyffredin wedi'i ddatblygu yng nghyfraith achosion Llys Cyfiawnder Ewrop. Felly, ar gyfer darparwyr PRS presennol o dan God 15, bydd y cysyniad hwn yn rhywbeth y dylent fod yn gyfarwydd ag ef i'r graddau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau hynny.
- 10.10 Mae Nodiadau Esboniadol y Ddeddf hefyd yn esbonio'r diffiniad o "ddefnyddiwr cyffredin" yn fwy manwl. Mae'n datgan:
- "Er bod y safon yn wrthrychol ei natur, mae'n cydnabod bod lefel sylw'r defnyddiwr ar gyfartaledd yn debygol o amrywio yn ôl categori'r nwyddau neu'r gwasanaethau dan sylw. Hefyd, er enghraifft, mae'n cydnabod bod defnyddiwr cyffredin yn debygol o beidio â bod yn arbenigwr technegol. Nid prawf ystadegol na chyfartaledd ystadegol yw'r diffiniad o ddefnyddiwr cyffredin."*⁹⁶
- 10.11 Mae erthygl 22(5) y Gorchymyn PRS yn nodi sut y dylid darllen cyfeiriadau at "ddefnyddiwr cyffredin" yn yr erthygl honno. Mae'n gwneud hynny mewn ffordd debyg i Ddeddf DMCC a Rheoliadau 2008. Yn benodol, mae erthygl 22(5) yn egluro bod "defnyddiwr cyffredin" yn un sydd:
- yn rhesymol wybodus,
 - yn rhesymol sylwgar, a
 - rhesymol ochelgar.
- 10.12 Mae defnyddwyr agored i niwed yn cael eu diffinio ar wahân yn y Gorchymyn PRS yn erthygl 39(4). Roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn cwestiynu beth mae "defnyddiwr agored i niwed arferol" yn ei olygu. Rydym wedi egluro erthygl 22, a oedd wedi'i nodi'n flaenorol ym mharagraff (7) y Gorchymyn PRS drafft:
- "Dylid darllen cyfeiriadau yn yr erthygl hon at y defnyddiwr cyffredin, i'r graddau y maent yn ymwneud ag achosion lle mae grŵp o ddefnyddwyr yn ddefnyddwyr agored i niwed, fel cyfeiriadau at aelod arferol o'r grŵp hwnnw (ac mae priodoledau'r defnyddiwr cyffredin ym mharagraff (5) i'w darllen yn unol â hynny)."*
- 10.13 Fodd bynnag, geiriad erthygl 22(6) bellach yw:

⁹²Adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, mae'r Ddeddf DMCC mewn grym yn rhannol. Bydd y rhan fwyaf o'r Ddeddf yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth.

⁹³Gweler paragraff 6 Atodlen 22 y Ddeddf DMCC.

⁹⁴Diddymir Rheoliadau 2008 gan Ddeddf DMCC – gweler adran 251 Deddf DMCC. Adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, nid yw'r adran hon mewn grym eto.

⁹⁵[Consumer protection from unfair trading - guidance - oft1008 \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/guidance/oft1008) – tudalen 69

⁹⁶<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2024/13/notes/division/9/index.htm> – paragraff 1434.

“Pan fydd gweithgaredd sy’n cael ei reoleiddio yn cael ei gyfeirio at grŵp penodol (gan gynnwys grŵp o ddefnyddwyr agored i niwed), mae cyfeiriadau at y defnyddiwr cyffredin yn gyfeiriadau at aelod cyffredin o’r grŵp hwnnw (ac mae priodoleddau’r defnyddiwr cyffredin ym mharagraff (5) i’w darllen yn unol â hynny).”

- 10.14 Rydym o’r farn bod ein hailddrafftiaid o’r ddarpariaeth hon bellach yn egluro, pan fydd gweithgaredd a reoleiddir yn cael ei “gyfeirio” at grŵp penodol, gan gynnwys grŵp o ddefnyddwyr agored i niwed (gweler erthygl 39 y Gorchymyn PRS yn ogystal â chanllawiau Ofcom ar ddefnyddwyr agored i niwed⁹⁷), y bydd cyfeiriadau at y defnyddiwr cyffredin yn erthygl 22 yn cael eu darllen fel pe bai’r defnyddiwr cyffredin yn aelod o’r grŵp hwnnw. Mae hyn yn adlewyrchu’n agos y sefyllfa o dan Reoliadau 2008⁹⁸ a Deddf DMCC.⁹⁹ Rydym ni o’r farn y dylai fod yn glir i’r darparwr PRS dan sylw a ydyn nhw’n cyfeirio eu gweithgaredd a reoleiddir at grŵp penodol o ddefnyddwyr, gan gynnwys defnyddwyr agored i niwed.
- 10.15 Rydym yn nodi sylwadau rhanddeiliaid bod y cysyniad o “defnyddiwr cyffredin” yn rhy oddrychol. Rydym yn anghytuno, gan fod defnyddio’r gair “rhesymol” yn dangos yn glir bod prawf gwrthrychol yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Nid yw’r erthygl yn rhagnodol ynghylch sut y dylai defnyddiwr cyffredin gael ei bennu gan ddarparwr PRS oherwydd yr angen i ystyried unrhyw amgylchiadau perthnasol wrth benderfynu sut dylid cyflwyno gwybodaeth i ddefnyddwyr, er enghraifft, cyd-destun y gwasanaeth, ei ddefnyddwyr a’r ffordd y caiff ei ddarparu. Mae’r diffiniad yn cydnabod nad yw’r defnyddiwr cyffredin yn debygol o fod yn arbenigwr technegol ac nad yw’n brawf ystadegol nac yn gyfartaledd ystadegol. Felly, rydym o’r farn bod erthygl 22 y Gorchymyn PRS yn rhoi digon o eglurder ynghylch y ffactorau y dylai darparwyr PRS eu hystyried wrth gyflwyno gwybodaeth i ddefnyddwyr, ac mae’r erthygl hon yn adlewyrchu’n agos ddeddfwriaeth arall sy’n canolbwyntio ar ddefnyddwyr.
- 10.16 Rydym o’r farn bod y gofyniad hwn hefyd yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr o ran sut mae gwybodaeth yn cael ei darparu i’r defnyddiwr ar yr amod nad yw’n camarwain defnyddiwr. Mewn ymateb i bryder Mobile UK y gallai’r gadwyn gwerth gael ei hannog, o ganlyniad i’r gofynion yn yr erthygl hon a defnyddio asesiadau risg, i ddychwelyd at “delerau ac amodau tudalennau WAP hen ffasiwn”, bydd angen i ddarparwyr PRS benderfynu sut mae darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn ffordd sy’n cydymffurfio â’r erthygl hon. Dylent wneud hynny drwy ystyried yr holl ofynion perthnasol eraill yn y Gorchymyn PRS sy’n ymwneud â gwybodaeth, fel gofynion gwybodaeth cyn-contract (gweler paragraffau 6.4 – 6.19).
- 10.17 Ein barn ni yw y dylai ein gofynion fel arfer roi hyblygrwydd o ran sut mae gwybodaeth yn cael ei darparu i ddefnyddwyr, er bod yn rhaid darparu gwybodaeth allweddol benodol mewn ffyrdd penodol.
- 10.18 Rydym hefyd yn nodi pryderon TalkTalk am oddrychedd mewn asesiadau risg cadwyn gwerth ynghylch yr hyn y gellid ei ystyried yn gamarweiniol a’r potensial ar gyfer mwy o her. Fel yr esboniwyd uchod, rydym o’r farn bod y gofynion yn yr erthygl hon yn galluogi asesiad gwrthrychol i gael ei gynnal gan ddarparwyr PRS. Rydym yn trafod sylwadau TalkTalk yn ein penderfyniad ynghylch asesiadau risg yn adrannau 5 (gweler paragraff 5.53).

⁹⁷ <https://www.ofcom.org.uk/cy/phones-and-broadband/vulnerable-customers/treating-vulnerable-consumers-fairly/?language=cy>

⁹⁸ Gweler Rheoliad 2 “dehongli” i gael diffiniad o “defnyddiwr cyffredin”.

⁹⁹ Gweler adran 247 Deddf DMCC “Ystyr “defnyddiwr cyffredin”: personau agored i niwed”.

Gofyniad i ddarparu PRS rheoledig o fewn amser rhesymol (erthygl 30)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 10.19 Roeddem yn cynnig y dylai masnachwyr ddarparu'r gwasanaeth i'r defnyddiwr o fewn cyfnod rhesymol. Roeddem hefyd yn cynnig mai dim ond mewn perthynas â CPRS nad yw'n pennu'n benodol yr amser ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn y contract y byddai hyn yn berthnasol.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 10.20 Ni chawsom unrhyw sylwadau gan randdeiliaid mewn perthynas â'r cynnig hwn.

Ein penderfyniad

- 10.21 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion mewn perthynas â darparu CPRS mewn cyfnod rhesymol. Fodd bynnag, yn y Gorchymyn PRS rydym wedi diwygio erthygl 30(2) i ddileu'r cyfeiriad at y contract rhwng masnachwr a defnyddiwr, gan gynnwys amod y mae'n rhaid i'r masnachwr ddarparu'r gwasanaeth o fewn cyfnod rhesymol. Ar ôl ystyried hyn, rydym o'r farn ei bod yn ddigonol, at ddibenion y Gorchymyn PRS, i osod gofyniad ar fasnachwyr bod yn rhaid darparu'r gwasanaeth o fewn cyfnod rhesymol, gan gymhwyso deddfwriaeth diogelu defnyddwyr (fel Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015) i reoleiddio contractau'n fwy cyffredinol pan fydd masnachwr yn methu â gwneud hyn.

Defnyddwyr agored i niwed (erthygl 39)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 10.22 Roeddem yn cynnig gwahardd darparwyr PRS rhag ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a reoleiddir oni bai fod y darparwr PRS hwnnw wedi ystyried buddiannau defnyddwyr agored i niwed.
- 10.23 Roedd cwmpas ehangach i'n cynnig na'r gofynion cyfatebol yng Nghod 15 a oedd yn gosod gofynion defnyddwyr agored i niwed ar gyfryngwyr a masnachwyr yn unig.

Sylwadau rhanddeiliaid

Cwmpas - cymhwyso i bob darparwr

- 10.24 Yn gyffredinol, roedd Infomedia yn cefnogi ehangu'r gofynion i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed i bob darparwr. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd ein cynigion ymgynghori yn nodi tystiolaeth ynghylch sut y bydd ehangu'r cwmpas yn y ffordd hon yn diogelu defnyddwyr yn well. Roedd yn poeni y byddai ein cynnig yn creu baich rheoleiddio diangen ar y cwmnïau hynny yn y gadwyn gwerth nad ydynt mewn cysylltiad â chwsmeriaid, fel darparwyr gwasanaethau technegol neu asiantaethau dylunio creadigol, na fyddai'n rhesymol disgwyl iddynt feddu ar bolisiâu llawn ar gwsmeriaid agored i niwed. Yn benodol, roedd yn poeni y byddai ehangu'r cwmpas yn cael "effaith lesteiriol" ar y farchnad drwy ddatgymell mynediad i'r farchnad a chystadleuaeth a lleihau'n sylweddol y gronfa o'r "darparwyr gwasanaeth ategol" hyn. Dywedodd Infomedia ei fod yn credu bod y trefniadau presennol yn darparu mwy na digon o amddiffyniad "*Ile mae darparwyr o'r fath yn cytuno'n*

gytundebol â masnachwyr, darparwyr sy'n gyfryngwyr neu MNOs i gydymffurfio â'r polisiau a phrosesau cwsmeriaid agored i niwed MNO a/neu gyfryngwr hynny heb fod angen dogfennau polisi ar wahân eu hunain".

Cwmpas – diffiniad o ddefnyddiwr agored i niwed

- 10.25 Roedd Action 4 Limited yn cytuno'n fras â'n cynnig. Fodd bynnag, dywedodd fod y prawf ar gyfer bod yn agored i niwed yn oddrychol a bod pawb yn agored i niwed mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ar ryw adeg yn eu bywydau. Dywedodd hefyd fod defnyddwyr yn defnyddio CPRS o'u hewylllys rhydd eu hunain ac, er bod rhai yn y diwydiant yn darparu ad-daliadau i'r rheini sy'n defnyddio CPRS mewn camgymeriad, mae'n annheg i'r diwydiant gael ei ddal yn atebol am ddefnyddwyr nad ydynt yn ddiffuant wrth ddefnyddio CPRS. Dywedodd, *"nid yw hyn yn golygu nad ydym yn cefnogi ad-daliadau i ddefnyddwyr, ac felly mewn egwyddor rydym yn cytuno â'r adran hon"*.
- 10.26 Dywedodd BT ei fod yn *"cefnogi'r egwyddorion o adnabod a diogelu defnyddwyr agored i niwed"*, ond cyfeiriodd hefyd at sylwadau aimm ar erthygl 22 y Gorchymyn PRS drafft y gallai barnu beth yw defnyddiwr cyffredin fod yn anodd iawn neu o leiaf yn agored i oddrychedd. Gwnaeth BBC Plant mewn Angen yr un sylw ond dywedodd ei fod *"yn gyfarwydd iawn ag ystyried defnyddwyr agored i niwed yng nghadwyn gwerth gwasanaethau talu dros y ffôn, gan fod hwn yn un o safonau Cod 15"*.
- 10.27 Dywedodd Donr Ltd na fyddai'n ymarferol gweithredu gwasanaeth ar raddfa fawr gydag ystod lawn o fesurau diogelu ar gyfer pob math o ddefnyddiwr agored i niwed. Awgrymodd hefyd mai dull cytbwys fyddai cynnig ad-daliadau i ddefnyddwyr o'r fath neu gyfyngu ar fynediad at y gwasanaeth yn y dyfodol.
- 10.28 Dywedodd Google fod y diffiniad o "ddefnyddiwr agored i niwed" yn cwmpasu ystod eang iawn o ddarpar ddefnyddwyr sydd â set amrywiol iawn o anghenion ac amgylchiadau. Oherwydd hyn, ychwanegodd Google (a gwnaeth Donr Ltd yr un pwynt) na fyddai'n ymarferol nac yn dechnegol ddichonadwy i Google asesu pob unigolyn o ran bod yn agored i niwed a byddai gwneud hynny'n codi *"pryderon sylweddol ynghylch preifatrwydd defnyddwyr"*.

Cyfrifoldeb siopau apiau

- 10.29 Dywedodd Google nad yw ein cynigion yn manylu ar yr hyn a olygir gyda "rhoi sylw i" neu sut mae cydymffurfio â'r erthygl hon yn edrych yn ymarferol ar gyfer cyfryngwyr (yn gyffredinol) a siopau apiau (yn benodol). Roedd hefyd yn gofyn am gadarnhad o'n disgwyliadau o ran cyfryngwyr/siopau apiau o dan yr erthygl. Roedd yn crynhoi beth, yn ei farn ef, oedd y sefyllfa, sef:

"i) sefydlu a chynnal prosesau a/neu bolisiau rhesymol a chymesur sy'n ystyried risgiau cyffredinol a nodwyd i'r categorïau "defnyddwyr agored i niwed" a restrir yn yr Erthygl 40 drafft ar adegau addas (i'w penderfynu gan y cyfryngwr/siop apiau ei hun);

ii) ceisio lliniaru unrhyw risgiau a nodwyd i'r categorïau hynny o "ddefnyddwyr agored i niwed"; a

iii) chadw polisiau/gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n rhoi tystiolaeth o'r prosesau/ystyriaethau hynny."

- 10.30 Gofynnodd Google a fyddai modd egluro hyn yn nhestun terfynol y Gorchymyn PRS, os yw eu dealltwriaeth yn adlewyrchu'n gywir ddisgwyliadau Ofcom o dan yr erthygl drafft.

Sylwadau cyffredinol

- 10.31 Dywedodd Panel Defnyddwyr PSA fod Cod 15 a'i ganllawiau cysylltiedig i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed yn darparu lefel dda o ddiogelwch i ddefnyddwyr a allai fod yn agored i niwed. Felly, roedd Panel Defnyddwyr PSA yn croesawu ein bwriad i adlewyrchu'r gofynion hyn yn ogystal â'r cynigion o dan yr erthygl 40 drafft (erthygl 39 yn y Gorchymyn PRS) i gryfhau rheoleiddio ym maes defnyddwyr agored i niwed. Yn benodol, roedd yn cefnogi ein bwriad i wahardd gweithgaredd a reoleiddir *"hyd nes bod sylw priodol ac amlwg wedi cael ei roi i ddefnyddwyr agored i niwed"* yn ogystal ag ehangu cwmpas y gofynion defnyddwyr agored i niwed ar draws y gadwyn gwerth gyfan.
- 10.32 Gwnaeth CCP/ACOD sylwadau mwy cyffredinol ar ein cynigion, gan nodi bod cylch gwaith y PSA yn rhoi safbwynt arall i Ofcom ei ddefnyddio i edrych ar fregusrwydd, a bod rhai cysylltiadau clir rhwng PRS ac Ofcom mewn perthynas â diogelwch ar-lein a gwneud synnwyr o'r cyfryngau. Felly, roedd yn ein hannog i sicrhau ein bod yn rhannu gwybodaeth a phrofiad ar draws ein timau ein hunain ac yn dysgu gan sectorau eraill.¹⁰⁰
- 10.33 Cytunodd y Groes Goch Brydeinig â'n cynigion ac ychwanegodd y byddai'n ddefnyddiol pe byddem yn cynhyrchu canllawiau cysylltiedig ar sut i ddehongli'r gofynion hyn.

Ein penderfyniad

- 10.34 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r diffiniad o ddefnyddwyr agored i niwed a'r gofynion yn yr erthygl hon yn sylweddol fel y cynigiwyd, er ein bod wedi gwneud rhai newidiadau drafftio i wneud y gofynion hyd yn oed yn gliriach.

Cwmpas - cymhwyso ddarparwyr

- 10.35 Rydym o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod y gofynion sy'n ymwneud â defnyddwyr agored i niwed yn berthnasol i bob darparwr PRS sy'n cyflawni unrhyw weithgaredd a reoleiddir, gan gynnwys hyrwyddo a marchnata. Ein barn ni yw ei bod yn briodol i'n gofynion yn y cyswllt hwn fod yn berthnasol i weithredwyr rhwydwaith yn ogystal ag i gyfryngwyr a masnachwyr. Yn benodol, rydym yn nodi bod llawer o wahanol ddarparwyr PRS yn bresennol ar draws y gadwyn gwerth, ac efallai na fydd modd gwahaniaethu'n glir rhwng hyrwyddo a marchnata a darparu gwasanaethau, ar adegau, o safbwynt y defnyddiwr. Y rheswm am hyn yw, mewn rhai achosion, mae hyrwyddo'r gwasanaeth yn cyd-fynd â darparu gwybodaeth cyn-contract a gall y defnyddiwr wedyn ymrwymo'n syth i'r contract ar gyfer y CPRS.
- 10.36 O ran sylwadau a nodwyd gan Infomedia, rydym yn nodi bod y rhwymedigaethau o dan yr erthygl hon yn berthnasol i "ddarparwyr PRS" fel y'u diffinnir gan y Gorchymyn PRS ac nad yw'n glir a fyddai'r "darparwyr gwasanaethau ategol" (darparwyr gwasanaethau technegol neu asiantaethau dylunio creadigol) a nodwyd gan Infomedia yn bodloni'r diffiniad hwn. Mater i'r "darparwyr gwasanaeth ategol" hynny yw penderfynu a ydynt o fewn cwmpas y diffiniad hwn ai peidio yng ngoleuni'r union weithgaredd y maent yn ei wneud. Rydym hefyd yn nodi'r posibilrwydd y bydd ein darpariaethau yn erthygl 9(3) a (6) y Gorchymyn PRS yn berthnasol i'r mater hwn, yn dibynnu ar y gweithgaredd a'r trefniadau sydd ar waith rhwng darparwyr.¹⁰¹

¹⁰⁰Yn benodol, dywedodd y byddai'n *"croesawu ddiweddariad i ganllaw Trin Cwsmeriaid Agored i Niwed yn Deg Ofcom i sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau yn rhoi ystyriaeth i ddefnyddwyr sy'n cael eu twyllo gan ddarparwyr ICSS i wneud galwadau â chost annisgwyl o uchel"*.

¹⁰¹Rydym yn nodi mai ein bwriad yw cwmpasu'r un darparwyr a gafodd eu cwmpasu gan God 15 o dan y Gorchymyn PRS.

- 10.37 Mewn perthynas â darparwyr PRS, mae gan gyfryngwyr a masnachwyr rwymedigaethau eisoes mewn perthynas â chwsmeriaid agored i niwed o dan God 15 (gweler paragraffau 3.5.1 i 3.5.3 Cod 15) ac mae'n rhaid i weithredwyr rhwydweithiau roi sylw i'r gofynion o dan baragraff 3.4.11 Cod 15 sy'n ymwneud â gofal cwsmeriaid i ddefnyddwyr agored i niwed (gweler hefyd baragraffau 3.5.3 Cod 15).
- 10.38 Felly, er y bydd y gofynion mewn perthynas â defnyddwyr agored i niwed yn y Gorchymyn PRS yn rhoi baich newydd ar weithredwyr rhwydweithiau, rydym o'r farn bod hyn yn golygu eu bod yn cyd-fynd â masnachwyr a chyfryngwyr. Yn ail, nid yw'r baich ychwanegol hwn yn gynnwys sylweddol i'r gofyniad presennol o dan baragraff 3.4.11 Cod 15. Serch hynny, rydym o'r farn bod unrhyw faich ychwanegol ar weithredwyr rhwydwaith yn angenrheidiol er mwyn diogelu defnyddwyr agored i niwed rhag niwed wrth ddefnyddio CPRS. Rydym o'r farn bod hyn yn rhwymedigaeth allweddol er mwyn lleihau'r risg o niwed posibl a sicrhau bod defnyddwyr agored i niwed yn cael eu trin yn deg.

Cwmpas - diffiniad o ddefnyddiwr agored i niwed

- 10.39 O ystyried natur CPRS a'r mathau eang o niwed a allai godi yn y farchnad hon, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod y diffiniad o fod yn agored i niwed yn ddigon clir i ddarparwyr PRS, gan gadw hyblygrwydd o ran yr amgylchiadau posibl a allai wneud defnyddwyr yn agored i niwed yng nghyd-destun CPRS er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid agored i niwed yn cael eu diogelu'n ddigonol bob amser.
- 10.40 Yng ngoleuni hyn, rydym wedi ailstrwythuro'r diffiniad o "ddefnyddwyr agored i niwed" yn erthygl 39(4) y Gorchymyn PRS er mwyn iddo fod yn gliriach o dan ba amgylchiadau y bydd defnyddwyr yn cael eu hystyried yn agored i niwed o dan y Gorchymyn PRS. Yn benodol, rydym yn ymestyn y gofynion i bob darparwr PRS nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a reoleiddir oni bai eu bod wedi ystyried buddiannau defnyddwyr agored i niwed. Mae hyn yn wahanol i God 15 sydd ond yn gosod y gofyniad hwn ar gyfryngwyr a masnachwyr. O'r herwydd, dim ond darparwyr rhwydwaith fydd yn gyfrifol am unrhyw effaith ar yr estyniad hwn.
- 10.41 Rydym hefyd wedi cynnwys diffiniad newydd o "benderfyniadau am PRS rheoledig" i'w darllen ochr yn ochr â "defnyddwyr agored i niwed", sy'n nodi bod y penderfyniadau hyn yn cynnwys penderfyniadau gan ddefnyddwyr ynghylch a ddylid, sut ac ar ba delerau y dylid prynu CPRS, talu am CPRS neu arfer hawliau cytundebol mewn perthynas â CPRS. Rydym yn credu bod ein diffiniad diwygiedig yn sicrhau diffiniad cytbwys a chynhwysol o fregusrwydd, a'i fod yn cyd-fynd yn agos â diffiniad Ofcom fel y'i diffinnir yn Amodau Cyffredinol Ofcom¹⁰² a'n dyletswyddau penodol o dan adran 3 y Ddeddf. Rydym wedi bod yn ofalus i gysoni'r diffiniad hwn ag ymagwedd ehangach Ofcom tuag at fregusrwydd gan ein bod o'r farn y bydd yn ein galluogi i fabwysiadu dull rheoleiddio cyson ar draws ein sectorau a thrwy hynny fod mewn gwell sefyllfa i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed yn effeithiol.
- 10.42 Mewn perthynas â sylwadau a wnaed gan BT a BBC Plant mewn Angen, rydym yn trafod yn fanwl uchod sut mae'r diffiniad o "ddefnyddiwr agored i niwed" yn berthnasol i'r gofynion ynghylch gwybodaeth gamarweiniol a'r term "defnyddiwr cyffredin" o dan erthygl 22 (gweler paragraffau 10.8 i 10.15).
- 10.43 Rydym yn cytuno â Google bod ein diffiniad o ddefnyddwyr agored i niwed (fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad ac fel y'i haildrafftwyd yn y Gorchymyn PRS) yn eang. Rydym yn credu

¹⁰² <https://www.ofcom.org.uk/phones-telecoms-and-internet/information-for-industry/telecoms-competition-regulation/general-conditions-of-entitlement>

bod hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod defnyddwyr, a allai fod yn agored i niwed oherwydd amgylchiadau gwahanol, yn cael eu diogelu. Rydym yn nodi mai agwedd bwysig ar y diffiniad yw y gallai fod angen cymorth ar ddefnyddwyr i wneud penderfyniadau am PRS rheoledig (fel penderfyniadau ynghylch a ddylid, sut ac ar ba delerau y dylid prynu PRS rheoledig, gwneud taliad ar gyfer PRS rheoledig neu ymarfer hawl gytundebol mewn perthynas â PRS rheoledig) oherwydd nodwedd, amgylchiadau neu angen penodol. Mae'r agwedd hon yn adlewyrchu diffiniad y PSA o ddefnyddiwr agored i niwed yn fras ym mharagraff D.280 Cod 15 sydd hefyd yn cyfeirio at wneud penderfyniadau.

- 10.44 O ran sylwadau Donr Ltd a Google am y gofynion hyn sy'n berthnasol i ddefnyddwyr ar lefel unigol, er bod y diffiniad o ddefnyddiwr agored i niwed yn eang ac yn gynhwysol, mae ein gofynion yn glir bod yn rhaid i ddarparwyr PRS gymryd camau rhesymol a chymesur i nodi a lliniaru risgiau i ddefnyddwyr agored i niwed. Nid oes rhaid gwneud hyn ar lefel unigol ar gyfer pob defnyddiwr, ond yn hytrach gellir cysylltu â grwpiau penodol o ddefnyddwyr sy'n rhannu'r un nodweddion bregus o ran nodweddion, amgylchiadau neu anghenion penodol a sut maent yn effeithio ar allu defnyddwyr i wneud penderfyniadau am CPRS.
- 10.45 Er ei bod yn ymddangos bod rhan o sylwadau Action 4 Limited yn ymwneud â'n cynigion mewn perthynas ag ad-daliadau (gweler paragraff 10.25), rydym wedi ystyried y sylwadau hynny mewn perthynas â'r erthygl hon ac, yn benodol, eu barn bod y diffiniad o "ddefnyddiwr agored i niwed" yn oddrychol. Nid yw'r gofynion yn erthygl 39 yn berthnasol i ad-daliadau fel y cyfryw, ond maent yn nodi'r camau y mae'n rhaid i bob darparwr PRS eu cymryd mewn perthynas â defnyddwyr agored i niwed cyn cyflawni unrhyw weithgaredd a reoleiddir. Rydym o'r farn bod ein diffiniad o "ddefnyddiwr agored i niwed" yn glir. Mae'r diffiniad wedi cael ei ddiwygio i gynnwys yn benodol y geiriau "*mewn ffordd y gellid disgwyl yn rhesymol i ddarparwr PRS ei ragweld*". Mae'r cyfeiriad at "rhesymol" yn golygu bod angen pennu'r agwedd ragweladwy yn wrthrychol (ac nid yn oddrychol fel y dywed Action 4 Limited) ynghylch a ddylid ystyried nodweddion, amgylchiadau neu anghenion penodol grwpiau penodol o ddefnyddwyr, a'u gallu neu fel arall i wneud penderfyniadau am CPRS, at ddibenion gofynion erthygl 39.

Cyfrifoldeb siopau apiau

- 10.46 Rydym wedi ystyried sylwadau Google ynghylch yr iaith a ddefnyddiwyd yn fersiwn yr ymgynghoriad o'r erthygl hon. Ar ôl ystyried hyn, rydym yn cytuno â sylwadau Google y gallai'r iaith flaenorol fod yn gliriach o ran y gwaharddiad yn erbyn ymgymryd â gweithgaredd reoleiddir oni bai fod "*y darparwr PRS wedi ystyried buddiannau defnyddwyr agored i niwed*" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Rydym felly wedi diwygio erthygl 39 yn y Gorchymyn PRS sydd bellach wedi'i eirio, ym mharagraff (1), fel a ganlyn:
- "(1) Rhaid i ddarparwr PRS beidio â chyflawni unrhyw weithgaredd a reoleiddir, oni bai bod y darparwr PRS yn cymryd camau rhesymol a chymesur i—*
(a) nodi risgiau posibl i fuddiannau defnyddwyr agored i niwed, a
(b) lliniaru unrhyw risgiau a nodwyd"
- 10.47 Yn hynny o beth, rydym yn nodi, yn benodol, ein bod wedi dileu'r ymadrodd "wedi ystyried" ac yn hytrach wedi egluro bod yn rhaid i ddarparwyr PRS gymryd camau rhesymol a chymesur i ganfod a lliniaru risgiau posibl. Mae paragraffau (2) a (3) hefyd yn cynnwys gofynion ynghylch polisïau a gweithdrefnau yn ysgrifenedig sydd yn bennaf yr un fath â'r fersiwn drafft, er bod rhai mân newidiadau drafftio.

- 10.48 Rydym yn credu bod y gofynion yn y Gorchymyn PRS ynghylch y camau y mae'n rhaid i ddarparwyr PRS eu cymryd mewn perthynas â defnyddwyr agored i niwed nawr yn glir o ran adlewyrchu ein bwriadau polisi o ddiogelu defnyddwyr agored i niwed.

Sylwadau cyffredinol

- 10.49 Nodwn fod y Groes Goch Brydeinig wedi gofyn am eglurder ynghylch sut i ddehongli'r gofynion hyn. Fel sy'n cael ei egluro uchod, rydym wedi gwneud rhai diwygiadau i egluro sut bydd y gofynion o dan yr erthygl hon yn berthnasol a'r camau y mae'n rhaid i ddarparwyr y sector rhentu preifat eu cymryd mewn perthynas â defnyddwyr agored i niwed. Rydym nawr o'r farn bod y gofynion hynny'n ddigon clir. Gan fod ein gofynion wedi'u bwriadu i adlewyrchu'n bennaf y rhwymedigaethau presennol o dan baragraffau 3.5.1 i 3.5.3 Cod 15, rydym yn disgwyl y bydd llawer o ddarparwyr presennol o dan God 15 eisoes yn cydymffurfio â'r gofynion hynny.
- 10.50 Rydym yn nodi sylwadau cyffredinol CCP/ACOD, gan gynnwys yr awgrymiadau ein bod yn rhannu gwybodaeth a phrofiad ar draws timau eraill ac, yn benodol, yr awgrym ynghylch diweddariad posibl i'r canllaw *Trin Cwsmeriaid Agored i Niwed yn Deg*.

Deunydd niweidiol (erthygl 40)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 10.51 Roeddem yn cynnig gwahardd darparwyr PRS rhag cyflawni unrhyw weithgaredd a reoleiddir sy'n cynnwys deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb yn erbyn grŵp o bobl neu aelod o grŵp o bobl ar sail nodweddion penodol. Y nodweddion hynny yw'r rhai a ddisgrifir yng Nghod 15 a nifer o nodweddion ychwanegol (sef, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, cenedligrwydd neu iaith) i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bresennol.
- 10.52 Ar ben hynny, roeddem yn cynnig gosod gofyniad cyffredinol bod yn rhaid i ddarparwyr PRS hefyd gymryd pob cam rhesymol i atal y risg o niwed i ddefnyddwyr.

Sylwadau rhanddeiliaid

Cwynion defnyddwyr

- 10.53 Gofynnodd aimm, BBC Plant mewn Angen ac MCP Insight Ltd, ai'r disgwyliad gennym ni, yn y senario bod gwasanaeth sy'n ymddangos ei fod yn cydymffurfio â'r disgwyliadau yn cynhyrchu cwynion defnyddwyr, yw y bydd niwed i ddefnyddwyr yn cael ei dybio a'r gwasanaeth yn cael ei atal/terfynu gan y rhwydwaith neu'r cyfryngwr. Dywedodd aimm nad yw cwynion defnyddwyr bob amser yn awgrymu niwed. Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Sylwadau eraill

- 10.54 Dywedodd Action 4 Limited, er ei fod yn credu bod ein cynnig yn synhwyrol ac yn bragmatig, ei fod o'r farn nad oedd yn glir, yn enwedig yng nghyd-destun rhyngweithio byw ag oedolion, sy'n gallu barnu'r beth sy'n sarhaus o gofio bod yr hyn sy'n cael ei ystyried yn dramgwyddus yn oddrychol.
- 10.55 Roedd y Groes Goch Brydeinig yn cefnogi ein cynnig, ond gofynnodd am ganllawiau cysylltiedig ar gyfer yr erthygl hon yn ogystal â'u cais am hyn mewn perthynas ag erthyglau eraill.

- 10.56 Dywedodd Donr Ltd ei fod yn credu bod y gofynion a gynigir yn yr erthygl hon yn “iawn” ond gofynnodd a fyddai cyfeiriad ychwanegol at “rywedd” fel “nodwedd benodol” yn fwy pragmatig, er ei fod yn dweud ei fod yn derbyn y gallai'r nodwedd “rhyw” awgrymu hyn.
- 10.57 Ar ben hynny, awgrymodd TÜV SÜD Limited y dylai'r nodweddion penodol gyfeirio at “iaith casineb arall”.
- 10.58 Dywedodd Infomedia, *“byddai'n croesawu petai OFCOM yn cadarnhau na fwriedir i'r gwaharddiadau yma, ac y bydd yn annhebygol y byddant yn cael eu gorfodi mewn perthynas ag adroddiadau newyddion a materion cyfoes ar ddeunydd o'r fath yn unol â rheoliadau darlledu mwy cyffredinol.”*
- 10.59 Dywedodd BT, Mobile UK a VMO2 fod gan y gweithredwyr eisoes bolisiau a gweithdrefnau cadarn (sydd ar gael i'r cyhoedd) a systemau technegol ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed a thramgwydd. Dywedodd y rhanddeiliaid hyn nad y Gorchymyn PRS drafft yw'r lle priodol ar gyfer y lefel hon o fanylder, ac mai Codau Ymarfer MNO yw'r lle iawn i ddarparu hyn.¹⁰³ Roeddent yn ailadrodd y cais i Godau Ymarfer MNO gael eu rhoi yn y Gorchymyn PRS i osgoi heriau cyfreithiol ddeillio o'u hepgor.

Ein penderfyniad

- 10.60 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn yn bennaf fel y cynigiwyd, ar wahân i'n penderfyniad i ddileu “cenedligrwydd neu iaith” fel nodwedd benodol er mwyn cysoni'r rhestr hon o nodweddion penodol â deddfwriaeth bresennol.¹⁰⁴

Cwynion defnyddwyr

- 10.61 Mae'n ymddangos bod y sylwadau gan randdeiliaid sy'n ymwneud â chwynion defnyddwyr yn berthnasol i asesiadau risg. Nid yw erthygl 40 yn cyfeirio at gwynion defnyddwyr fel y cyfryw, er ei bod yn cyfeirio at gyflawni unrhyw weithgaredd a reoleiddir. Rydym yn cytuno â sylwadau aimm nad yw pob cwyn neu ymholiad gan ddefnyddwyr o reidrwydd yn dangos diffyg cydymffurfio â'r gofynion yn yr erthygl hon. Beth bynnag, rydym yn disgwyl i ddarparwyr roi sylw i ymholiadau neu gwynion defnyddwyr wrth gynnal asesiadau risg fel sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn PRS a gallwn gymryd camau priodol fel atal neu derfynu trefniadau gyda darparwyr eraill.

Materion eraill

- 10.62 Mewn ymateb i sylwadau Action 4 Limited, yn wahanol i God 15, nid ydym wedi cyfeirio at y cysyniad o “dramgwydd” yn y gofynion yn yr erthygl hon yn y Gorchymyn PRS. Yn lle hynny, mae erthygl 40 y Gorchymyn PRS yn cynnwys gofyniad cyffredinol ym mharagraff (2) bod yn *“rhaid i ddarparwr PRS hefyd gymryd pob cam rhesymol i atal y risg bod y gweithgaredd a reoleiddir yn achosi niwed i ddefnyddwyr”*. Mae paragraff (3) yn egluro bod “niwed” yn cynnwys niwed i iechyd meddwl, gan gynnwys, er enghraifft, o ganlyniad i ddiodef ofn, pryder neu drallod. Rydym o'r farn bod hwn yn ofyniad cliriach a mwy gwrthrychol sy'n cyflawni'r un amcan o atal niwed i ddefnyddwyr.
- 10.63 Mewn perthynas â'r awgrym a wnaed gan TÜV SÜD Limited i gynnwys cyfeiriad at “iaith casineb arall” yn y rhestr o nodweddion penodol, rydym o'r farn y byddai ein gofyniad

¹⁰³Roedd y sylwadau hyn yn cyfeirio at faterion fel gwahardd defnyddio gwasanaethau dan oed a gorddefnyddio gwasanaethau.

¹⁰⁴Gweler adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>.

cyffredinol yn darparu'r amddiffyniad priodol i ddefnyddwyr sy'n deillio o unrhyw iaith casineb.

- 10.64 Mewn perthynas â'r awgrym gan Donr Limited i gynnwys "rhywedd" yn y rhestr o nodweddion penodol, rydym o'r farn y byddai hyn yn cael ei gwmpasu gan y nodwedd "rhyw" ac felly nid oes angen cynnwys rhywedd fel nodwedd ychwanegol. Mae hyn yn unol ag adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n cyfeirio'n unig at "ryw" ac "ailbennu rhywedd" ond nid yw'n cyfeirio at "rywedd".
- 10.65 Rydym wedi penderfynu peidio â chyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r gofynion yn yr erthygl hon ar hyn o bryd fel y nodir isod (gweler paragraffau 10.103 – 10.104).
- 10.66 O ran cais Infomedia am ein cadarnhad, rydym o'r farn y gallai rhai gweithgareddau mewn perthynas ag adroddiadau newyddion ddod o fewn ystyr "gweithgaredd a reoleiddir" fel y'i diffinnir yn erthygl 9(12) y Gorchymyn PRS. Mae a fyddai hynny'n wir ai peidio yn rhywbeth a fydd yn dibynnu ar y ffeithiau ym mhob achos unigol. Pan fo adroddiadau newyddion yn gyfystyr â gweithgaredd a reoleiddir, byddai'r darparwr PRS dan sylw, mewn egwyddor, yn ddarostyngedig i'r gwaharddiad yn erthygl 40(1) y Gorchymyn PRS. O'r herwydd, rhaid i'r darparwr PRS sicrhau nad yw'r adroddiadau newyddion perthnasol ei hun yn cynhyrchu nac yn atgynhyrchu deunydd niweidiol yn groes i'r gwaharddiad hwnnw.
- 10.67 Er ein bod yn cydnabod potensial, neu fudd gwirioneddol, Codau Ymarfer MNO, ein hamcan cyffredinol yw gosod gofynion o dan y Gorchymyn PRS sy'n ceisio adlewyrchu canlyniadau polisi Cod 15 ac, felly, rydym wedi penderfynu gosod y gofyniad hwn sy'n ymwneud â deunydd niweidiol o dan y Gorchymyn.¹⁰⁵ Serch hynny, gweler paragraffau 10.115 a 10.116 am ein casgliadau o ran Codau Ymarfer MNO.

Ymholiadau a chwynion defnyddwyr (erthyglau 36 a 37)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 10.68 Roeddem yn cynnig gwahardd masnachwyr rhag darparu CPRS i ddefnyddiwr oni bai eu bod yn cydymffurfio â nifer o ofynion sy'n ymwneud ag ymholiadau a chwynion defnyddwyr. Yn benodol, roeddem yn cynnig mynnu bod gan fasnachwyr bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ynghylch ymholiadau defnyddwyr, cwynion ac ad-daliadau (neu fathau eraill o iawn) ac y dylai'r rhain fod yn glir ac yn hygyrch i'r cyhoedd, yn rhad ac am ddim. Roeddem hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr adolygu a diwygio'r polisiau a'r gweithdrefnau hyn, lle bo angen, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo gan berson ag awdurdod cyffredinol.
- 10.69 Rydym hefyd yn nodi saith gofyniad arfaethedig sy'n ymwneud â sut dylai'r masnachwr ddelio ag ymholiadau, cwynion ac ad-daliadau defnyddwyr.
- 10.70 Roeddem yn cynnig cymhwyso'r gofynion hyn i fasnachwyr yn unig gan mai nhw yw'r darparwyr y mae defnyddwyr yn ymrwymo i gontractau CPRS gyda nhw ac, felly, mai nhw sy'n bennaf gyfrifol am ymholiadau a chwynion defnyddwyr.

Sylwadau rhanddeiliaid

¹⁰⁵Roedd y sylwadau hyn yn cyfeirio at faterion fel gwahardd defnyddio gwasanaethau dan oed a gorddefnyddio gwasanaethau.

Gwefannau brand a siopau apiau

- 10.71 Dywedodd aimm nad yw gwefan y masnachwr “weithiau’n gydnaws â phrofiad y defnyddiwr” a bod “gwefan brand (os yw’n wahanol) yn fwy priodol ar gyfer hyrwyddo’r polisiau a’r gweithdrefnau hyn”. Dywedodd hefyd y dylai siopau apiau sy’n delio â gofal cwsmeriaid gael y polisiau a’r gweithdrefnau sy’n ofynnol gan yr erthyglau hyn yn weledol ar eu llwyfannau. Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â’r sylwadau a’r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Rôl gwahanol ddarparwyr PRS

- 10.72 Gofynnodd BT a Mobile UK am eglurder ynghylch rôl gweithredwyr rhwydwaith mewn perthynas ag ymholiadau a chwynion defnyddwyr. Yn fwy penodol, dywedodd VMO2 fod MNOs yn cynnal diwydrwydd dyladwy ar gyfryngwyr, a thrwy ddileu’r gofyniad ar gyfryngwyr i gadw cofnodion o gydsyniad a goruchwyllo’r modd y mae masnachwyr yn delio â chwynion, gallai hynny arwain at effeithiau ar allu MNOs i gynnal ymchwiliad priodol os bydd masnachwr yn methu â delio’n briodol â chwynion defnyddwyr.

Dull o wneud cwyn

- 10.73 Holodd aimm hefyd a oedd ein cynigion yn mynnu bod cwynion yn cael eu gwneud dros y ffôn.

Rhoi gwybod am gwynion i Ofcom

- 10.74 Holodd aimm, BT, BBC Plant mewn Angen, Cancer Research UK a Mobile UK sut bydd defnyddwyr yn gallu rhoi gwybod am eu cwynion i’r rheoleiddiwr perthnasol ar ôl i’r Gorchymyn PRS ddod i rym. Dywedon nhw fod yr adran cwynion ar-lein bresennol ar wefan Ofcom yn cyfeirio at y PSA.
- 10.75 Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â’r sylwadau a’r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Diffiniadau

- 10.76 Nododd TÜV SÜD Limited nad oedd y gofynion yn darparu unrhyw ddiffiniad o gŵyn, ac nad oeddent yn pennu’r parth amser nac yn darparu diffiniad o “ddiwrnodau gwaith”. Tynnodd sylw at y ffaith y gallai diwrnodau gwaith fod yn wahanol mewn gwledydd eraill.

Ein penderfyniad

- 10.77 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’r gofyniad hwn yn sylweddol fel roeddem wedi’i gynnig ond rydym wedi gwneud mân newidiadau drafftio i’w wneud yn gliriach.

Gwefannau brand a siopau apiau

- 10.78 O ran sylwadau aimm am sut mae polisiau a gweithdrefnau sy’n ymwneud ag ymholiadau a chwynion yn cael eu darparu i ddefnyddwyr, rydym yn nodi nad yw ein gofyniad yn gwahardd gwefannau neu llwyfannau eraill (fel gwefannau brand neu siopau apiau) rhag darparu’r darnau hyn o wybodaeth. Ar ben hynny, mae erthygl 11(5)(b) yn y Gorchymyn PRS yn ei gwneud yn ofynnol i gyfryngwr cymwys (gan gynnwys siop apiau) weinyddu proses ar gyfer delio â chwynion a wneir gan ddefnyddwyr mewn perthynas â masnachwr sy’n bwriadu dibynnu ar yr esemptiad cofrestru yn erthygl 11 gan gynnwys, yn benodol, sicrhau bod manylion cyswllt y masnachwr ar gael i ddefnyddwyr ar ei wefan. Mae erthygl 36 yn ei gwneud yn ofynnol i bolisiau a gweithdrefnau o’r fath fod yn glir ac yn hygyrch i aelodau o’r cyhoedd yn ddi-dâl, gan gynnwys bod ar gael ar wefan y masnachwr os oes

ganddo un. Mae'r cyfrifoldeb ar y masnachwr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.

Rôl gwahanol ddarparwyr PRS

- 10.79 O ran sylwadau am rôl masnachwyr, cyfryngwyr a gweithredwyr rhwydwaith, rydym yn nodi bod yr erthyglau hyn yn berthnasol i'r masnachwr sy'n gyfrifol am ofalu am ei gwsmeriaid y mae wedi ymrwmo i gontractau â nhw yn unig.
- 10.80 Nid ydym yn ceisio dileu cyfranogiad cyfryngwyr na rhwydweithiau o'r broses gwyno, ond rydym yn gwneud masnachwyr yn gyfrifol yn y pen draw am y gofynion mewn perthynas ag ymholiadau a chwynion o dan y Gorchymyn PRS. Gellir dal i gontractio cyfryngwyr a phartion eraill i ddelio â chwynion yn ymarferol. Fodd bynnag, ein barn ni yw y dylai masnachwyr (ac o dan y Gorchymyn PRS) fod yn gyfrifol yn y pen draw am sut mae ymholiadau a chwynion defnyddwyr yn cael eu trin. O ran sut dylai gweithredwyr rhwydwaith gynnal eu hymchwiliadau i brosesau masnachwyr, mater i weithredwyr rhwydwaith yw penderfynu ar hyn. Fodd bynnag, rydym yn nodi'r ddyletswydd ar weithredwyr rhwydweithiau o dan ein gofynion diwydrwydd dyladwy ac asesu risg i atal trefniadau â darparwyr penodedig eraill os oes amheuaeth o dorri un neu fwy o'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn PRS.¹⁰⁶ Rydym hefyd yn nodi'r gofynion asesu risg ehangach a allai fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch a/neu drefniadau contract rhwng darparwyr PRS. Felly, efallai y bydd gweithredwyr rhwydwaith yn dymuno ystyried y rhain wrth archwilio prosesau masnachwyr. Gweler yr esboniad manwl o ofynion asesu risg o dan y Gorchymyn PRS yn adran 5 y datganiad hwn.

Dull o wneud cwyn

- 10.81 Rydym yn nodi bod erthygl 37(2) yn nodi'r gofyniad, pan fydd defnyddwyr yn gwneud unrhyw ymholiad neu gŵyn gan ddefnyddio ffôn, ei bod yn rhaid iddynt allu gwneud hynny ar gyfradd nad yw'n uwch na'r gyfradd sylfaenol. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i ddefnyddwyr wneud ymholiadau neu gwynion dros y ffôn – gallant ddefnyddio dulliau eraill i wneud hynny – ond rhaid i'r dulliau eraill hynny fod yn rhad ac am ddim. Mae trydydd gofyniad erthygl 37, ym mharagraff (4), yn cyfeirio at "ymholiadau a chwynion a wneir drwy dulliau heblaw galwad".

Rhoi gwybod am gwynion i Ofcom

- 10.82 Mae gennym broses sydd wedi hen ennill ei phlwyf ar gyfer delio â chwynion a wneir i ni am ein sectorau rheoledig eraill. O ran masnachwyr yn cydymffurfio drwy roi manylion priodol ar gyfer rhoi gwybod i ni am gwynion, bydd rhanddeiliaid eisoes yn ymwybodol o fanylion ein cyfeiriad cyffredinol ar gyfer cwynion yn ysgrifenedig ac ar y ffôn.¹⁰⁷ Ar ben hynny, rydym wrthi'n diweddarau ein tudalen we bwrpasol ar gyfer gwneud cwynion defnyddwyr drwy gyfeirio at y sector PRS. Rydym yn disgwyl i gwynion CPRS gael eu trin yn yr un ffordd, gan gynnwys cwynion yn ysgrifenedig, ar-lein (drwy ffurflen ar-lein) neu dros y ffôn.¹⁰⁸

Diffiniadau

- 10.83 Rydym wedi ystyried sylwadau TÜV SÜD Limited am y gwahanol ddiffiniadau o dan yr erthyglau hyn, ond nid ydym o'r farn bod angen unrhyw ddiwygiadau o ganlyniad i'r sylwadau hynny.

¹⁰⁶ Gweler erthygl 18 y Gorchymyn PRS.

¹⁰⁷ <https://www.ofcom.org.uk/cy/make-a-complaint/get-in-touch/?language=cy>

¹⁰⁸ [Make a complaint - Ofcom](#)

- 10.84 Rydym yn nodi'n gyntaf bod erthygl 2 y Gorchymyn PRS yn rhoi diffiniad o "ddiwrnod gwaith" sydd fel a ganlyn:
- "ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod heblaw— (a) dydd Sadwrn neu ddydd Sul, neu (b) diwrnod sy'n wyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig."*
- 10.85 Yn ail, er nad yw'r gair 'cwyn' yn cael ei ddiffinio yn y Gorchymyn PRS, rydym o'r farn bod ei ystyr naturiol a chyffredin yn ddigon clir at ein dibenion yn y Gorchymyn PRS.
- 10.86 O ran pwynt TÜV SÜD Limited ynghylch parth amser perthnasol, mae eisoes yn glir o adran 9 Deddf Dehongli 1978 bod amser safonol Greenwich yn berthnasol ac mae hynny'n gymwys yn awtomatig i'r Gorchymyn PRS heb fod angen i ni ddatgan hynny'n benodol.¹⁰⁹

Hawliadau ffeithiol wrth hyrwyddo a marchnata ynghylch CPRS (Erthygl 24)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 10.87 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr PRS wneud a chadw cofnod ysgrifenedig o'r holl dystiolaeth sy'n angenrheidiol i gadarnhau honiadau a wneir wrth hyrwyddo a marchnata CPRS. Byddai'r gofyniad hwn yn berthnasol i bob darparwr PRS sy'n ymgymryd â gwaith hyrwyddo a marchnata.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 10.88 Ni chawsom unrhyw ymatebion am y cynnig hwn yn benodol. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod Mobile UK wedi dweud, mewn perthynas â'r erthyglau ym Mhennod 2 y Gorchymyn PRS drafft, bod "*y MNOs yn dal yn gyfforddus gyda'r darpariaethau hyn.*"

Ein penderfyniad

- 10.89 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig, ond rydym wedi gwneud mân newidiadau drafftio i erthygl 24.

Cymwysterau perthnasol ar gyfer gwasanaethau cyngor proffesiynol (erthygl 51)

Cynigion yr ymgynghoriad

¹⁰⁹ Mae adran 9 Deddf Dehongli 1978 yn datgan "*yn ddarostyngedig i adran 3 Deddf Amser yr Haf 1972 (creu cyfeiriadau at bwyntiau amser yn ystod cyfnod yr haf), pryd bynnag y bydd datganiad o amser yn digwydd mewn Deddf, y bydd yr amser y cyfeirir ato, oni nodir yn benodol fel arall, yn cael ei ystyried yn amser safonol Greenwich.*" <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1978/30/section/9>. Yn hynny o beth, dylid nodi y dylid trin y cyfeiriad at "Ddeddf" yn yr adran honno fel pe bai'n gymwys hefyd i is-ddeddfwriaeth, fel y Gorchymyn PRS: gweler adran 23 Deddf Dehongli 1978.¹¹⁰ Mae erthygl 51(3)(b) y Gorchymyn PRS yn esbonio bod cyfeiriadau at gyngor neu gymorth yn cynnwys, yn benodol, gyngor neu gymorth i ddatrys materion o natur gyfreithiol, ariannol, meddygol a phersonol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â theulu, perthnasoedd a phroblemau seicolegol neu broblemau iechyd eraill.

- 10.90 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr sy'n darparu gwasanaethau cyngor proffesiynol gymryd camau rhesymol a chymesur i sicrhau bod gan unrhyw un sy'n gweithio fel rhan o'r gwasanaeth sy'n rhoi cyngor neu gymorth o'r fath i ddefnyddwyr y cymwysterau a'r profiad sy'n angenrheidiol i wneud hynny.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 10.91 Gofynnodd Action 4 Limited pwy sy'n pennu cymwysterau'r rheini sy'n gweithio ar wasanaethau cyngor proffesiynol.

Ein penderfyniad

- 10.92 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion, gyda rhai mân newidiadau testunol yn unig. Rydym hefyd wedi diwygio'r diffiniad o "wasanaeth cyngor proffesiynol", i newid yr iaith sy'n nodi bod hwn yn wasanaeth "sy'n rhan o, neu ei brif nodwedd yw" darparu gwasanaeth a chyngor gydag iaith sy'n nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n "cynnwys deunydd sy'n cynnwys cyngor a chymorth"¹¹⁰ (pwyslais wedi'i ychwanegu). Trafodir ein rhesymau dros wneud hynny ym mharagraff 3.99 ymlaen, sy'n ymwneud â gorgyffwrdd diffiniadol. Rydym o'r farn bod hyn yn ei gwneud yn glir, pan fydd CPRS yn cynnwys y math hwn o gynnwys, y bydd yn dod o fewn y diffiniad o wasanaeth cyngor proffesiynol ac felly bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r erthygl hon (yn ogystal â gofynion eraill mewn perthynas â gwasanaethau cyngor proffesiynol sydd wedi'u nodi yn y Gorchymyn PRS, ynghyd â'r gofynion mwy cyffredinol).
- 10.93 Rydym hefyd yn nodi nad yw erthygl 51 yn rhagnodol o ran unrhyw gamau penodol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu cymryd i sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i roi cyngor neu gymorth. Bydd angen i fasnachwyr benderfynu beth sy'n rhesymol a chymesur, gan ystyried amgylchiadau penodol y gwasanaeth dan sylw. Yn hynny o beth, efallai y bydd masnachwyr yn dymuno cyfeirio at unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau perthnasol sy'n ymwneud â'r proffesiwn/proffesiynau dan sylw, gan gynnwys unrhyw beth a nodir gan gyrrff proffesiynol.

Gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn perthynas â gwasanaethau gamblo o bell (Erthygl 52)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 10.94 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr gwasanaethau gamblo o bell ddarparu cofnod o ddefnydd y defnyddiwr (gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw enillion a cholledion) i'r defnyddiwr drwy gydol eu defnydd o'r gwasanaeth. Rhaid i wybodaeth am gyfrif y defnyddiwr fod ar gael hefyd.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 10.95 Ni chawsom unrhyw ymatebion am y cynnig hwn.

¹¹⁰Mae erthygl 51(3)(b) y Gorchymyn PRS yn esbonio bod cyfeiriadau at gyngor neu gymorth yn cynnwys, yn benodol, gyngor neu gymorth i ddatrys materion o natur gyfreithiol, ariannol, meddygol a phersonol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â theulu, perthnasoedd a phroblemau seicolegol neu broblemau iechyd eraill.

Ein penderfyniad

- 10.96 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion ond yn dilyn adolygiad o'r erthygl yn fwy cyffredinol rydym wedi gwneud mân newidiadau esboniadol i erthygl 52 y Gorchymyn PRS.
- 10.97 Rydym wedi diwygio'r diffiniad o "wasanaeth gamblo o bell" i newid yr iaith sy'n nodi bod hwn yn wasanaeth "sy'n darparu cyfleuster ar gyfer" hapchwarae a betio (o fewn yr ystyrion yn Neddf Hapchwarae 2005) gyda'r iaith sy'n nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n "**cynnwys** darparu cyfleuster" ar gyfer yr un peth (eto, pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae hyn yn unol â'n diwygiadau i'n diffiniadau o CPRS penodol, fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 3.104 ymlaen, er mwyn ei gwneud yn glir, pan fydd gwasanaeth yn cynnwys y math hwn o gyfleuster, y bydd yn cael ei ddsbarthu fel gwasanaeth gamblo o bell a bydd angen iddo ddilyn y rheolau perthnasol yn erthygl 52 (yn ogystal â rheolau eraill sy'n berthnasol yn fwy cyffredinol).
- 10.98 Rydym hefyd wedi dileu'r eithriad "gwasanaeth cystadlu a phleidleisio" o'r diffiniad hwn yn y Gorchymyn PRS gan fod erthygl 41 y Gorchymyn PRS eisoes yn eithrio gwasanaethau gamblo o bell rhag dod o fewn y diffiniad o "wasanaeth cystadlu a phleidleisio". Felly, nid oeddem yn credu bod angen adlewyrchu'r eithriad yma gan y byddai'r erthygl honno'n eithrio'r ddau wasanaeth oddi wrth ei gilydd.
- 10.99 Rydym wedi gwneud diwygiad bach i'r diffiniad o "wasanaeth tipwyr betio", hefyd yn yr erthygl hon, i egluro ei fod yn wasanaeth trothwy sydd ond yn darparu cyfleuster ar gyfer cynnig gwybodaeth i ddefnyddwyr at ddibenion hwyluso'r broses o wneud neu dderbyn bet mewn perthynas â'r pethau penodol sydd wedi'u rhestru yn y diffiniad hwnnw.¹¹¹ Unwaith eto, mae hyn yn ymwneud â gorgyffwrdd diffiniadol, a drafodir ym mharagraff 3.104 ymlaen, ac ystyrir ei bod yn angenrheidiol gan fod gwasanaeth tipwyr betio wedi'i eithrio o'r diffiniad o wasanaeth gamblo o bell, ac ni all gynnwys cyfleuster a allai fel arall ddod o fewn y diffiniad o wasanaeth gamblo o bell.
- 10.100 Mewn perthynas â'r gofynion yn erthygl 52, rydym wedi diwygio paragraff (2)(b) i'w gwneud yn glir bod yn rhaid i'r masnachwr ddarparu gwybodaeth am gyfrifon defnyddwyr a fydd yn cynnwys y balans diweddaraf sy'n berthnasol i'r defnyddiwr mewn perthynas â defnyddio'r gwasanaeth hwnnw.
- 10.101 Rydym hefyd wedi egluro ym mharagraff (3) bod yn rhaid i'r wybodaeth ym mharagraff (2) (fel cofnodion o ddefnydd y defnyddiwr o'r gwasanaeth gamblo o bell a gwybodaeth am gyfrifon) fod ar gael bob amser tra bo'r defnyddiwr yn defnyddio'r gwasanaeth.

Sylwadau rhanddeiliaid eraill

- 10.102 Yn yr adran hon, rydym yn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid mewn dau faes:
- sylwadau am ddarpariaethau o God 15 yr ydym wedi penderfynu peidio â'u cario drosodd; a
 - awgrymiadau ynghylch yr hyn y dylem ei gynnwys yn y Gorchymyn PRS (neu eu hystyried yn fwy hirdymor) nad ydynt yn ymwneud â darpariaethau presennol o dan God 15.

¹¹¹Gweler erthygl 52(4) am y diffiniad o "wasanaeth tipwyr betio".

Gofynion Cod 15 presennol yr ydym wedi penderfynu peidio â'u cario drosodd

Canllawiau

- 10.103 Dywedodd y Groes Goch Brydeinig, er bod ein cynigion yn dryloyw, y byddai'n ddefnyddiol pe baem yn paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau cysylltiedig fel rhan o'n gwaith o weithredu'r Gorchymyn PRS.
- 10.104 Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau o'r fath ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl y bydd darparwyr PRS eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Gorchymyn PRS, gan ein bod i raddau helaeth yn ceisio cadw'r gofynion a osodir gan God 15. Ar gyfer gofynion newydd, neu ofynion sydd wedi newid yn sylweddol o'u cymharu â Chod 15, rydym o'r farn bod yr iaith yn y Gorchymyn PRS yn glir ac yn fanwl gywir o ran beth mae'n rhaid i ddarparwyr PRS ei wneud i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Rydym hefyd wedi ymateb mewn adrannau blaenorol o'r datganiad hwn i bwyntiau penodol a godwyd gan randdeiliaid yn eu hymatebion, ac rydym yn credu y dylai ein hesboniadau helpu darparwyr PRS yn hynny o beth.

Defnydd gormodol

- 10.105 Roedd aimm, BT, a VMO2 yn rhannu pryderon y gallai defnydd gormodol ddod yn broblem o ystyried ein bod yn cynnig peidio â chario drosodd rheol 3.3.5 Cod 15, a'r canllawiau cysylltiedig ar hyn yng Nghod 15, i'r Gorchymyn.¹¹² Awgrymodd aimm y dylem ystyried cynnwys gofyniad ar fasnachwyr i ystyried sut y byddant yn monitro defnydd gormodol ac yn gweithredu'n unol â hynny os caiff ei ganfod. Dywedodd BT fod angen dal masnachwyr yn atebol am ddefnydd gormodol.
- 10.106 Gan gyfeirio at ein datganiad yn yr ymgynghoriad "*nad yw CPRS un-tro yn arwain at effaith ariannol hirdymor*", dywedodd Mobile UK ei fod yn credu "*bod hyn o ganlyniad i reolaethau o dan God 15 a Chodau Ymarfer MNO i fonitro a rheoli defnydd gormodol*".
- 10.107 Dywedodd VMO2, er ei fod "*yn deall bwriad Ofcom i ddiogelu'r Gorchymyn yn y dyfodol mewn perthynas â defnydd gormodol, fodd bynnag, mae hyn yn rhywbeth y gellid ei bennu gan God Ymarfer MNO a fyddai, o leiaf yn rhoi cyfle i deilwra i wasanaethau penodol.*"
- 10.108 Aeth BT a Mobile UK ymlaen i ddweud y bydd yn rhaid i MNOs fynd i'r afael â meysydd fel gorddefnydd sy'n gallu bod yn niweidiol iawn i ddefnyddwyr. Ychwanegasant nad "*y Gorchymyn [PRS] yw'r lle priodol i wneud hyn oherwydd ei fod yn faes cymhleth sy'n cynnwys ystyried beth yw defnydd gormodol a sut y dylid mynd i'r afael ag ef.*" Aeth BT a Mobile UK ymlaen i ddweud mai Codau Ymarfer MNO yw'r lle priodol ar gyfer gofynion o'r fath ac felly dylid cydnabod y Codau Ymarfer hyn yn y Gorchymyn PRS (gweler paragraffau 10.112 – 10.113).
- 10.109 Nid ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol adlewyrchu gofynion defnydd gormodol o baragraff 3.3.5 Cod 15 yn y Gorchymyn PRS. Y rheswm am hyn yw ein bod yn credu y bydd dibynnu ar wybodaeth cyn-contract a gofynion derbynebaw yn arwain at ddefnyddwyr yn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu defnydd o CPRS. Rydym hefyd o'r farn y bydd ein cynigion ynghylch defnyddwyr agored i niwed yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddiogelu'r defnyddwyr hyn rhag niwed sy'n deillio o ddefnydd gormodol o CPRS.

¹¹²3.3.5 – Rhaid i ddarparwyr sy'n fasnachwyr gymryd camau rhesymol a phrydlon i ganfod defnydd gormodol o'u gwasanaeth neu eu gwasanaethau gan unrhyw ddefnyddiwr a rhoi gwybod i'r defnyddiwr perthnasol am y defnydd hwnnw.

- 10.110 Mewn perthynas â sylw Mobile UK ynghylch CPRS untro a rheolaethau defnydd gormodol, rydym o'r farn bod y ffaith bod CPRS untro yn golygu un pryniant (yn wahanol i gcontractau tanysgrifio) yn golygu nad oes effaith ariannol hirdymor. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall defnydd gormodol ddeillio o bryniannau untro dro ar ôl tro. Rydym o'r farn bod gwybodaeth cyn-contract a gofynion derbynebaw yn ddigonol i ddiogelu defnyddwyr rhag defnydd gormodol ochr yn ochr â'n mesurau diogelu defnyddwyr agored i niwed.
- 10.111 Ar ben hynny, rydym yn cytuno â BT a Mobile UK a ddywedodd nad y Gorchymyn PRS yw'r lle priodol ar gyfer gofynion defnydd gormodol oherwydd y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â nodi beth yw defnydd gormodol a sut mae'n berthnasol i ddefnydd arferol neu gyfartalog. Nodwn fod y canllawiau sy'n gysylltiedig â pharagraff 3.3.5 Cod 15 yn hir a chymhleth ac felly nid ydym o'r farn y gellid adlewyrchu cymhlethdod o'r fath yn briodol yn y Gorchymyn PRS. Fel rydym yn egluro isod, nid oes rheswm pam na all MNOs barhau i weithredu codau o'r fath fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd o dan God 15, ar yr amod eu bod yn gwneud hynny yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn PRS.

Awgrymiadau rhanddeiliaid sy'n mynd y tu hwnt i ofynion Cod 15 presennol

Hunanreoleiddio

- 10.112 Roedd BT yn credu y dylai Ofcom barhau i fonitro tueddiadau ac, yn y tymor hwy, ystyried dull gweithredu mwy hunan-reoleiddiol gan chwaraewyr yn y gadwyn gwerth.
- 10.113 Er ein bod yn deall bod pwynt BT ynghylch monitro tueddiadau a symud at fodel hunanreoleiddio yn cael ei gyfeirio at y dyfodol, rydym wedi ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o ddatblygu a defnyddio mathau effeithiol o hunanreoleiddio wrth ddod i'n casgliadau ar y Gorchymyn PRS (fel y mae'n ofynnol i ni ei wneud o dan adrannau 3 a 6 y Ddeddf). Fodd bynnag, ein barn ni yw nad yw'r materion y mae'n ofynnol i ni eu datblygu neu eu sicrhau o dan adran 3 y Ddeddf yn debygol o gael eu datblygu na'u sicrhau drwy hunanreoleiddio effeithiol ar hyn o bryd.
- 10.114 Yn benodol, rydym yn nodi bod yna hanes o ddarparwyr PRS yn cymryd rhan mewn arferion niweidiol yn y sector PRS sydd wedi arwain at niwed i ddefnyddwyr a diffyg ymddiriedaeth defnyddwyr yn y farchnad, gan gael effaith negyddol ar ddarparwyr sy'n cydymffurfio a thwff cyffredinol y farchnad. Felly, rydym o'r farn nad yw dileu rheoleiddio yn opsiwn ymarferol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu goruchwyllo a monitro cydymffurfiad yn barhaus er mwyn monitro tueddiadau a chydymffurfiad â'r gofynion.

Cod Ymarfer MNO

- 10.115 Argymhellodd BT, Mobile UK, VMO2 a Vodafone y dylid diwygio'r Gorchymyn PRS drafft i gydnabod rôl bwysig a hanfodol Codau Ymarfer MNO fel rhan o reoleiddio'r sector PRS. Roeddent yn dadlau y byddai'r dull hwn yn sicrhau nad yw unrhyw gamau rheoleiddio a gymerir gan weithredwyr rhwydweithiau symudol i leihau risg yn wynebu her gyfreithiol.
- 10.116 Rydym yn nodi bod Codau Ymarfer MNO, i bob pwrpas, yn godau gwirfoddol (sy'n cael eu gorfodi drwy gcontractau gan y MNOs a'u partïon contractio) ac, o'r herwydd, maent yn fath o hunanreoleiddio. Rydym eisoes wedi egluro uchod pam ein bod o'r farn na all hunanreoleiddio, i bob pwrpas, hyrwyddo neu sicrhau'r materion y mae'n ofynnol i ni eu sicrhau o dan adran 3 y Ddeddf ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mater i'r diwydiant yw penderfynu sut mae'n dymuno bwrw ymlaen â Chodau Ymarfer MNO o dan y drefn reoleiddio newydd, gan ystyried y gofynion sydd wedi'u nodi yn y Gorchymyn PRS. Credwn nad oes rheswm pam na all MNOs barhau i weithredu codau o'r fath fel y maent yn ei

wneud ar hyn o bryd o dan God 15, ar yr amod eu bod yn gwneud hynny yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn PRS.

Cydymffurfio â gofynion

- 10.117 Roedd TÜV SÜD Limited yn dadlau, er bod y Gorchymyn PRS drafft yn diweddarau ac yn disodli'r drefn PRS bresennol, ei fod yn dal i fethu sicrhau cydymffurfiad â gofynion y Gorchymyn. Yn benodol, roedd yn poeni nad oes gofyniad i ddangos cydymffurfiad parhaus â'r Gorchymyn PRS drafft ac y dylem ystyried craffu mwy ar ddarparwyr PRS drwy naill ai fonitro parhaus neu archwiliadau cyfnodol, gan gyrff a gymeradwywyd gan Ofcom, o'r systemau a'r rheolaethau a ddefnyddir gan ddarparwyr PRS i gynnal cydymffurfiad â'r Gorchymyn PRS drafft.
- 10.118 Rydym o'r farn y bydd monitro'r farchnad PRS yn effeithiol yn rhan bwysig o sicrhau cydymffurfiad â'r Gorchymyn PRS. Byddwn yn monitro cydymffurfiad, yn goruchwyllo ac, os yw'n briodol, yn cymryd camau gorfodi mewn ffordd debyg i'n dull gweithredu presennol ar gyfer meysydd rheoleiddio telathrebu eraill.

11. Gorfodi

- 11.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau ynghylch darpariaethau gorfodi'r Gorchymyn PRS sydd yn Rhan 10, a gorfodi'r Amod PRS.
- 11.2 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r holl ofynion roeddem wedi'u cynnig yn ein hymgyngoriad. Fodd bynnag, rydym wedi egluro mai dim ond mewn perthynas â thorri'r gofynion sylweddol a osodir ar ddarparwyr PRS gan Ran 2 i 9 y Gorchymyn PRS y gellir defnyddio'r gweithdrefnau gorfodi yn erthyglau 57 i 64 yn Rhan 10 (mae Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol nad ydynt yn gosod gofynion). Mae hyn yn egluro y bydd methiant i gydymffurfio â gofynion a osodir drwy'r gweithdrefnau gorfodi yn Rhan 10 yn cael ei orfodi dim ond drwy'r gweithdrefnau gorfodi statudol sy'n gymwys o dan adran 123 a 124 y Ddeddf (gweler paragraff 11.13). Rydym hefyd wedi gwneud rhai gwelliannau drafftio a newidiadau esboniadol i Ran 10 (gweler Atodiad 3 – Tabl Newidiadau, er mwyn cymharu fersiynau drafft a therfynol pob erthygl).
- 11.3 Yn gyntaf, rydym yn mynd i'r afael â'n penderfyniad i fwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gorfodi yn gyffredinol, gan nodi'n gyffredinol sut bydd ein gweithdrefnau'n gweithredu. Mae gweddill yr adran wedyn yn ystyried yr ymatebion a gawsom i elfennau penodol o'n cynigion ac yn egluro'r rhesymau dros ein penderfyniadau ar bob erthygl yn y Gorchymyn PRS.

Ein dull gorfodi

- 11.4 Ni chawsom unrhyw sylwadau ar ein dull gorfodi cyffredinol fel y nodir yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r dull gweithredu hwn fel sy'n cael ei grynhoi isod, sy'n cynnwys:
- a) gorfodi o dan Ran 10 y Gorchymyn PRS;
 - b) gorfodi'r Amod PRS (gweler paragraffau 11.12 a 11.13); a
 - c) dilyn ein Canllawiau Gorfodi¹¹³ wrth gymryd camau o dan naill ai a) neu b).
- 11.5 Rydym o'r farn bod y Gorchymyn PRS yn adlewyrchu nifer o'r nodweddion hynny yng Nghod 15 a fydd, o'u cyfuno â gweithdrefnau presennol Ofcom fel y nodir yn ein Canllawiau Gorfodi, yn darparu gweithdrefn orfodi deg ac effeithiol ar gyfer darparwyr PRS sy'n cael eu rheoleiddio.
- 11.6 Mae ein gweithdrefnau gorfodi presennol yn deillio o'n dyletswyddau statudol mewn perthynas â nifer o drefniadau rheoleiddio (gan gynnwys PRS o ran sut byddai Ofcom yn defnyddio ei bwerau i orfodi'r Amod PRS). Ein barn ni yw eu bod yn cynrychioli dull teg, effeithiol, tryloyw a chymesur sydd wedi'i brofi dros nifer o flynyddoedd ac sydd wedi bod yn destun craffu gan y llysoedd. Am y rheswm hwn, rydym yn credu ei bod yn rhesymol defnyddio'r dull hwn gyda'n holl weithgareddau gorfodi mewn perthynas â PRS. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rydym hefyd wedi ystyried ein dyletswydd yn adran 3(3) y Ddeddf sy'n mynnu bod Ofcom yn ystyried yr egwyddorion sy'n mynnu bod ein weithgareddau rheoleiddio yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu.

¹¹³ [Regulatory Enforcement Guidelines for investigations \(ofcom.org.uk\)](https://www.ofcom.gov.uk/regulatory-enforcement-guidelines-for-investigations)

- 11.7 Drwy gysoni ymhellach y dull a'r gweithdrefnau ar gyfer gorfodi PRS â'n sectorau rheoleiddio eraill, gall Ofcom ddefnyddio ei ddull sydd wedi'i brofi ar gyfer PRS o dan y Gorchymyn PRS. Ar ben hynny, rydym o'r farn bod cysoni'r prosesau gorfodi hyn yn caniatáu i ni fanteisio ar arbedion effeithlonrwydd gweithredol i gyflawni swyddogaeth orfodi gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ar yr un pryd.

Gorfodi o dan Ran 10 y Gorchymyn PRS

- 11.8 Ar gyfer unrhyw achosion posibl o dorri gofynion a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn PRS, gallai Ofcom o bosibl ddefnyddio un o'r ddau fath o weithdrefnau gorfodi o dan Ran 10 y Gorchymyn PRS. Gallem naill ai:
- a) dilyn ein "gweithdrefn safonol", neu
 - b) dilyn ein gweithdrefn i osod mesurau dros dro.
- 11.9 Wrth ddilyn ein "gweithdrefn safonol", byddem:
- a) yn gyntaf, yn rhoi hysbysiad gorfodi dros dro o dan erthygl 59 yn gwahodd sylwadau gan y darparwr PRS yr effeithir arno (gweler paragraffau 11.44 – 11.50); a all hefyd gynnwys:
 - i) unrhyw gosbau arfaethedig yn unol ag erthygl 60 (gweler paragraffau 11.67-11.72);
 - ii) unrhyw gyfarwyddiadau arfaethedig yn unol ag erthygl 64 (gweler paragraffau 11.78-11.82), ac yna
 - b) yn ail, rhoi hysbysiad gorfodi terfynol o dan erthygl 61 (gweler paragraffau 11.5-11.61).
- 11.10 Wrth ddilyn ein gweithdrefn mesurau interim, byddem:
- a) yn gyntaf, yn rhoi cyfarwyddyd o dan erthygl 62 yn cymhwyso mesurau dros dro heb sylwadau gan y darparwr PRS yr effeithir arno (gweler paragraffau 11.87-11.90); a
 - b) yn ail, ar ôl gwahodd sylwadau gan y darparwr PRS yr effeithir arno, naill ai gwneud penderfyniad i gadarnhau'r cyfarwyddyd sy'n gosod mesurau dros dro neu ddirymu'r cyfarwyddyd hwnnw o dan erthygl 63 (gweler paragraffau 11.87-11.90).
- 11.11 Mae'r Gorchymyn PRS yn nodi mai dim ond mewn perthynas â'r gofynion sylweddol a osodir ar ddarparwyr PRS gan Rannau 2 i 9 y gellir defnyddio'r gweithdrefnau gorfodi yn Rhan 10. Mae hwn yn addasiad o'i gymharu â'n Gorchymyn PRS drafft a oedd yn caniatáu defnyddio'r gweithdrefnau hyn ar gyfer unrhyw ddarpariaethau yn y Gorchymyn PRS (h.y. gan gynnwys Rhan 10 ei hun). Fe wnaethom y newid hwn i egluro, pan fydd darparwr PRS yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion a osodir yn Rhan 10 (h.y. i gydymffurfio â mesurau gorfodi), mai dim ond o dan y trefniadau statudol ar gyfer gorfodi'r Amod PRS y gellir cymryd camau gorfodi.

Gorfodi'r Amod PRS

- 11.12 Roeddem yn cynnig yn ein hymgyngoriad i addasu'r Amod PRS, fel y byddai'n mynnu bod darparwyr PRS yn cydymffurfio â darpariaethau'r Gorchymyn PRS yn ogystal â chyfarwyddiadau blaenorol a roddwyd gan y PSA o dan ei godau ymarfer cymeradwy.¹¹⁴ Rydym wedi penderfynu gwneud addasiadau o'r fath i'r Amod PRS, gyda dim ond ychydig o fân newidiadau testunol (gweler Atodiad 1 y datganiad hwn). Felly, ar gyfer achosion posibl o dorri unrhyw ofynion a osodir gan y Gorchymyn PRS, gallai Ofcom o bosibl benderfynu cymryd camau am beidio â chydymffurfio â'r Amod PRS gan ddefnyddio adran 123 y Ddeddf (gan gymhwyso'r gweithdrefnau gorfodi statudol a nodir yn adrannau 94 i 96 y Ddeddf) ac,

¹¹⁴Gweler paragraffau 5.191-5.199 ein hymgyngoriad ar gyfer ein hesboniadau, ynghyd â'n hysbysiad a gyhoeddwyd yn atodiad 9 i'r ymgyngoriad ar gyfer ein newidiadau testunol arfaethedig i'r Amod PRS.

os yw'n berthnasol, adran 124 Deddf 2003. Fodd bynnag, fel sy'n cael ei egluro uchod, rydym yn disgwyl mai ein harfer arferol fydd defnyddio'r gweithdrefnau gorfodi yn Rhan 10 mewn perthynas â'r gofynion sylweddol a osodir ar ddarparwyr PRS gan Rannau 2 i 9 yn y rhan fwyaf o achosion.

- 11.13 Mewn perthynas â gofynion sy'n cael eu gosod gan y Gorchymyn PRS, rydyn ni'n disgwyl i'r ffordd rydyn ni'n gorfodi'r Amod PRS fod yn berthnasol i'r canlynol yn unig:
- a) unrhyw ofynion i gadw tystiolaeth yn unol ag erthygl 58 (gweler paragraffau 11.38-11.43);
 - b) unrhyw hysbysiad gorfodi terfynol yn unol ag erthygl 61(6);
 - c) unrhyw gyfarwyddyd ar gyfer mesurau dros dro yn unol ag erthygl 62(10);
 - d) unrhyw gadarnhad o'r cyfryw gyfarwyddiadau ar gyfer mesurau interim yn unol ag erthygl 63(8);
 - e) unrhyw gyfarwyddiadau am dramgwyddau difrifol yn unol ag erthygl 64(10); a
 - f) unrhyw benderfyniadau o dan y trefniadau trosiannol o dan erthygl 66 ac Atodlen 4 (gweler paragraffau 11.103-11.109).

Canllawiau gorfodi

- 11.14 Mewn achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio â naill ai'r gofynion a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn PRS neu'r Amod PRS, rydym yn disgwyl dilyn rhannau perthnasol o'n Canllawiau Gorfodi.
- 11.15 Mae ein Canllawiau Gorfodi yn nodi'n gyffredinol sut rydym yn cynnal ymchwiliadau fel arfer. Roeddem yn cynnig yn ein hymgyngoriad i gynnwys dau atodiad newydd i'n Canllawiau Gorfodi sy'n nodi elfennau deddfwriaethol y Ddeddf a'r Gorchymyn PRS i ddelio'n benodol â'n dull gorfodi arfaethedig ar gyfer y Gorchymyn PRS a'r Amod PRS yn y drefn honno. Rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r atodiadau hynny gyda mân newidiadau testunol yn unig (gweler atodiadau 4 a 5 y datganiad hwn). Mae'r atodiadau hyn yn cynnwys manylion am ddefnyddio'r dull cyffredinol a nodir yn y Canllawiau Gorfodi i'r sector PRS.
- 11.16 Byddwn hefyd yn dilyn y dull gweithredu a nodir yng Nghanllawiau Cosbau Ofcom¹¹⁵ wrth osod unrhyw gosb am dorri'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn PRS neu dorri'r gofyniad cydymffurfio yn yr Amod PRS neu'r ddau (gweler paragraffau 11.67-11.72).

Cam asesu cychwynnol ein hymchwiliadau

Cynigion yr ymgynghoriad

- 11.17 Roeddem yn cynnig dilyn y broses asesu gychwynnol sy'n rhan o'n hymchwiliadau, fel y nodir yn Adran 3 y Canllawiau Gorfodi, pan fydd mater sy'n peri pryder posibl yn dod i'n sylw.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 11.18 Mynegodd Infomedia bryder y byddai dileu cam gorfodi'r PSA o "lythyr rhybuddio" yn caniatáu i Ofcom ddechrau gweithgareddau ymchwilio heb gynnig cyfle i ddarparwyr gywiro materion cydymffurfio mewn ffordd anffurfiol.

¹¹⁵ [Penalty-Guidelines-September-2017.pdf \(ofcom.org.uk\)](#)

Ein penderfyniad

- 11.19 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i ddefnyddio'r broses asesu gychwynnol fel y nodir yn y Canllawiau Gorfodi hefyd ar gyfer achosion PRS.
- 11.20 Ni fyddwn yn gwneud penderfyniad sylweddol ynghylch a dorrwyd gofyniad ai peidio yn ystod yr asesiad cychwynnol. Yn hytrach, byddwn yn penderfynu a ddylid agor ymchwiliad ffurfiol ai peidio i benderfynu ar hyn.
- 11.21 Bydd ein penderfyniad yn ystod y camau asesu cychwynnol yn ystyried:¹¹⁶
- a) a yw'r achos yn flaenoriaeth weinyddol i Ofcom, gan gynnwys ystyried:
 - i) y risg o niwed neu ddifrifoldeb yr ymddygiad honedig;
 - ii) arwyddocâd strategol mynd i'r afael â'r ymddygiad honedig ac a yw gweithdrefnau amgen yn debygol o gyflawni'r un dibenion; a
 - iii) goblygiadau cynnal ymchwiliad o ran adnoddau; ac
 - b) a yw'r dystiolaeth sydd gennym yn cyfiawnhau agor ymchwiliad, ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol.
- 11.22 Rydym o'r farn y byddai'r dull hwn yn cael yr un effaith neu effaith debyg â dull presennol y PSA wrth agor ymchwiliad, ond mewn ffordd sy'n gyson â'r ffordd rydym yn mynd ati i orfodi trefniadau rheoleiddio eraill. Ar ben hynny, mae ein Canllawiau Gorfodi yn cyd-fynd â Pholisi ac Egwyddorion Blaenoriaethu Achosion y PSA¹¹⁷, gan fod meini prawf tebyg yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid agor achos gorfodi.
- 11.23 Wrth ddilyn y dull hwn, byddwn yn cael ein harwain gan egwyddorion rheoleiddio cyffredinol gan gynnwys gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrraeth a cheisio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion polisi.¹¹⁸ Mewn rhai achosion, gall Ofcom geisio datrys mater heb fod angen cymryd camau gorfodi ffurfiol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn fodlon bod y busnes wedi cymryd, neu wedi cynnig sicrwydd y bydd yn cymryd, camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon rydym wedi'u nodi fel nad oes angen cymryd camau pellach. Felly, ac mewn ymateb i bryderon Infomedia, rydym o'r farn bod ein dull gweithredu yn caniatáu i ni fynd i'r afael â phryderon cydymffurfio yn anffurfiol lle bo hynny'n briodol mewn ffordd debyg i sut mae'r PSA wedi gwneud hynny hyd yma.

Pŵer Ofcom i gyhoeddi hysbysiad o ymchwiliad (Erthygl 57)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 11.24 Roeddem yn cynnig bod y Gorchymyn PRS yn nodi y caiff Ofcom gyhoeddi hysbysiad ar ein gwefan os byddwn yn penderfynu agor ymchwiliad. Roeddem hefyd yn cynnig, pan fyddwn yn cyhoeddi hysbysiad o'r fath, ei bod yn rhaid i ni roi hysbysiad i'r darparwr sy'n destun ymchwiliad.

¹¹⁶Paragraff 3.6 y Canllawiau Gorfodi

¹¹⁷[Case-Prioritisation-Policy-and-Principles-Jan-2020.ashx \(psaauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/case-prioritisation-policy-and-principles-jan-2020.ashx)

¹¹⁸Gweler paragraff 1.2 y Canllawiau Gorfodi

- 11.25 Roeddem yn cynnig ychwanegu manylion y gofynion hyn at adran ‘Pam a sut mae Ofcom yn agor achosion’ yr atodiad i’r Canllawiau Gorfodi ar gyfer y Gorchymyn PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 11.26 Roedd rhanddeiliaid gan gynnwys aimm, Donr Ltd, Fonix a MCP Insight Ltd yn credu y dylai Ofcom newid geiriad y Gorchymyn PRS i adlewyrchu bod yn “rhaid” i ni gyhoeddi hysbysiad ar ein gwefan os byddwn yn agor ymchwiliad. Dywedodd rhanddeiliaid y byddai dyletswydd o’r fath yn eu helpu i gydymffurfio â gofynion yr asesiad risg (gweler adran 5).
- 11.27 gofyn aimm hefyd a fydd Ofcom yn nodi’r ffynhonnell wreiddiol o wybodaeth a arweiniodd at agor yr ymchwiliad.
- 11.28 Dywedodd VMO2 y dylem roi gwybod i MNOs fel mater o drefn pan fydd ymchwiliad yn cael ei agor. Mae VMO2 o’r farn y byddai hysbysiad i’r MNO pan fydd masnachwr yn destun ymchwiliad yn galluogi’r MNO i gymryd camau pe bai angen gweithredu tra’n disgwyl am ganlyniad yr ymchwiliad.

Ein penderfyniad

- 11.29 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’n pŵer i gyhoeddi hysbysadau o ymchwiliadau yn erthygl 57 y Gorchymyn PRS, fel y cynigiwyd yn ein hymgyngoriad gyda dim ond mân newidiadau testunol.
- 11.30 Mae’r Gorchymyn PRS yn nodi y “gallwn” ni gyhoeddi hysbysiad o’n hymchwiliadau. Bwriad hyn yw caniatáu hyblygrwydd ar gyfer achosion lle nad yw’n briodol i ni gyhoeddi gwybodaeth, neu lle mae angen i ni ohirio gwneud hynny at ddibenion gweithredol (gweler paragraff 3.32 a 3.33 ein Canllawiau Gorfodi).
- 11.31 Bydd Ofcom yn penderfynu a ddylid cynnwys manylion am wybodaeth a arweiniodd at agor yr ymchwiliad fesul achos. Y rheswm am hyn yw y gallem, mewn rhai achosion, fod wedi agor ymchwiliad ar sail cwyn, neu adroddiad gan chwythwr chwiban, ac efallai na fydd yn briodol rhannu manylion llawn. Mae hyn yn arbennig o wir os yw’r unigolyn yn mynegi pryder ynghylch cyfrinachedd.¹¹⁹ Yn ymarferol, byddwn yn debygol o gyhoeddi’r mater cyffredinol a arweiniodd at ein hymchwiliad yn y rhan fwyaf o achosion.
- 11.32 Mewn ymateb i gais VMO2, rydym wedi penderfynu na ddylai fod yn ofynnol o dan y Gorchymyn PRS i Ofcom hysbysu’r gadwyn gwerth gyfan am ein penderfyniadau i agor ymchwiliadau. Fodd bynnag, byddem fel arfer yn cyhoeddi’r ymchwiliad ar ein gwefan, lle byddai darparwyr PRS (gan gynnwys MNOs) yn gallu gweld y cyhoeddiad. Nid ydym yn disgwyl y byddai darparwr PRS yn cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â darparwr PRS dim ond oherwydd ein bod wedi agor ymchwiliad. Fodd bynnag, efallai y bydd darparwyr yn dymuno ystyried ailedrych ar eu diwydrwydd dyladwy a’u hasesiadau risg eu hunain yng ngoleuni unrhyw wybodaeth newydd sy’n deillio o gyhoeddi ymchwiliad.

Cynnal ymchwiliad

Cynigion yr ymgynghoriad

¹¹⁹Gweler tudalen 13 y Canllawiau Gorfodi

- 11.33 Pan fydd Ofcom yn penderfynu agor ymchwiliad yn dilyn asesiad cychwynnol, roeddem yn cynnig cynnal ymchwiliad yn unol ag Adran 4 ein Canllawiau Gorfodi.
- 11.34 Yn hynny o beth, mae ein Canllawiau'n nodi:
- a) ein hymgysylltiad a'n cyswllt tebygol â thestun yr ymchwiliad, achwynwyr a thrydydd partïon;
 - b) strwythur y timau achos;
 - c) amserlenni ar gyfer ymchwiliadau;
 - d) casglu gwybodaeth a gefnogir gan y gofyniad i ddarparu gwybodaeth o dan erthygl 55 y Gorchymyn PRS (gweler adran 12) ynghyd â'r gofyniad posibl i gadw cofnodion yn ddiogel pan fyddwn yn agor ymchwiliad o dan erthygl 58 y Gorchymyn PRS (gweler paragraffau 11.38-11.43);
 - e) cyhoeddi gwybodaeth a chyfrinachedd;
 - f) rhoi cyhoeddusrwydd i achosion; a
 - g) sut mae mynegi pryderon i Ofcom.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 11.35 Dywedodd Telecom2 Ltd y byddai'n hoffi cael eglurder a sicrwydd ynghylch amserlenni penodol y dylai Ofcom gadw atynt wrth gwblhau ei ymchwiliadau.

Ein penderfyniad

- 11.36 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i gynnal ymchwiliadau yn unol ag Adran 4 ein Canllawiau Gorfodi.
- 11.37 Pan fyddwn yn agor ymchwiliad, ein nod yw ei symud ymlaen yn brydlon a'i gwblhau cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl. Fel arfer, byddwn yn rhoi syniad i'r sawl sy'n destun ymchwiliad o'r amserlenni tebygol sy'n gysylltiedig â chwblhau ymchwiliad, fel arfer pan fydd yr ymchwiliad hwnnw'n cael ei agor. Yn gyffredinol, byddwn hefyd yn darparu diweddariadau i'r sawl sy'n destun ymchwiliad ar gynnydd yr ymchwiliad, gan gynnwys pryd rydym yn disgwyl cyrraedd cerrig milltir penodol, ac yn rhoi gwybod i ddarparwyr pan fydd newidiadau iddynt. Gan y bydd yr amserlenni'n wahanol ar gyfer pob achos unigol, ni allwn bennu amserlenni ein hymchwiliadau yn y Gorchymyn PRS na'n Canllawiau.

Cadw tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad (Erthygl 58)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 11.38 Roeddem yn cynnig, pan fydd darparwr PRS yn cael gwybod ein bod yn ymchwilio iddynt o dan erthygl 57 (a drafodir uchod), efallai y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol iddo gadw cofnodion at ddibenion cwblhau ein hymchwiliad.
- 11.39 Roeddem yn cynnig ychwanegu manylion y gofynion hyn at adran "Ymchwilio" yr atodiad i'r Canllawiau Gorfodi ar gyfer y Gorchymyn PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 11.40 Ni chafodd Ofcom unrhyw sylwadau ar y cynigion yn ymwneud â gofynion cadw gwybodaeth.

Ein penderfyniad

- 11.41 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i fynnu bod tystiolaeth yn cael ei chadw ar gyfer ein hymchwiliadau, ond rydym wedi penderfynu gwneud rhai addasiadau i'r erthygl hon o'i gymharu â'r fersiwn roeddem wedi ymgynghori arni. Ar wahân i rai mân newidiadau testunol i erthygl 58, rydym wedi penderfynu amnewid cyfeiriadau at gadw "cofnodion yn ysgrifenedig" gyda "tystiolaeth" yn unig. O ganlyniad, rydym hefyd wedi dileu'r gofyniad arfaethedig i "wneud" cofnodion yn erthygl 58(1)(bellach), fel mai dim ond tystiolaeth a allai fod yn berthnasol i'n hymchwiliad dan sylw y mae angen i'r darparwr PRS y gosodir y gofyniad arno ei "gadw". Rydym hefyd wedi ychwanegu amod yn erthygl 58(1)(b) (bellach), fel ei bod yn ofynnol i ddarparwr PRS gymryd pob cam rhesymol i gael tystiolaeth gan berson arall a chadw tystiolaeth o'r fath.
- 11.42 Nodwn eto (fel yr eglurwyd yn ein hymgynghoriad) mai dim ond pan fydd Ofcom wedi cymryd camau penodol y mae'r gofyniad hwn i gadw tystiolaeth yn berthnasol. Yn gyntaf, rhaid i ni gyhoeddi hysbysiad o'n hymchwiliad o dan erthygl 57(1) y Gorchymyn PRS. Yn ail, rhaid i ni roi hysbysiad o'r hysbysiad hwnnw o dan erthygl 57(2) yn nodi bod y darparwr PRS dan sylw yn cael ei ymchwilio a'n bod yn mynnu bod y darparwr PRS hwnnw'n cadw unrhyw dystiolaeth. Mewn achosion o'r fath, rhaid i ddarparwyr PRS yr effeithir arnynt gadw, neu gymryd pob cam rhesymol i gael gan berson arall a chadw, unrhyw dystiolaeth sy'n berthnasol, neu a allai fod yn berthnasol, i fater yr ydym yn ymchwilio iddo.
- 11.43 Byddai gofyniad o'r fath yn dod i rym am gyfnod amhenodol o'r adeg y rhoesom wybod i'r darparwr oni nodir yn wahanol. O dan erthygl 58(3), mae'n rhaid i ni roi gwybod i ddarparwyr yr effeithir arnynt cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i ni gwblhau'r ymchwiliad nad oes angen iddynt gadw unrhyw dystiolaeth mwyach.

Hysbysiad gorfodi dros dro (Erthygl 59)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 11.44 Roeddem yn cynnig y byddai Ofcom yn gallu rhoi hysbysiad gorfodi dros dro ("PEN") lle mae gennym sail resymol dros gredu bod darparwr yn, neu wedi, torri gofyniad o dan y Gorchymyn PRS.
- 11.45 Roeddem hefyd yn cynnig y byddai'n rhaid i'r PEN nodi:
- y penderfyniad a wnaed gan Ofcom;
 - y gofyniad yr ydym yn credu ei fod yn cael ei dorri neu wedi cael ei dorri;
 - y cyfnod a'r dull y caiff y darparwr gyflwyno sylwadau;
 - y camau y credwn y dylai'r darparwr eu cymryd i gydymffurfio â'r gofyniad ac i unioni canlyniadau'r tramgwydd a'r cyfnod y dylid cymryd y camau hynny ynddo;
 - unrhyw gosb yr ydym yn bwriadu ei rhoi; a
 - unrhyw gyfarwyddyd yr ydym yn bwriadu ei roi ar gyfer tramgwyddau difrifol.
- 11.46 Roedd ein cynigion yn y cyswllt hwnnw hefyd yn cynnwys y gallai'r cynllun fod yn berthnasol i fwy nag un tramgwydd neu gyfnod penodol ar gyfer tramgwydd parhaus. Roeddent hefyd yn nodi'n glir y gallem roi PEN newydd mewn perthynas â'r un tramgwydd mewn tair sefyllfa wahanol, sef:
- os yw'r tramgwydd yn un sy'n digwydd ar ôl rhoi'r PEN cynharach;

- b) mae'r tramgwydd yn barhaus ac mae'r PEN newydd yn cwmpasu cyfnod sy'n dod ar ôl y cyfnod y mae'r PEN blaenorol yn ymwneud ag ef; neu
 - c) mae'r PEN cynharach wedi cael ei dynnu'n ôl heb i gosb gael ei rhoi mewn perthynas â'r tramgwydd.
- 11.47 Roeddem hefyd yn cynnig defnyddio'r dull gweithredu a nodir yn ein Canllawiau Gorfodi wrth wneud penderfyniadau dros dro (gweler paragraffau 5.4 i 5.13 y Canllawiau Gorfodi).
- 11.48 Ar ôl i ni roi PEN, fe wnaethom egluro y byddai'r sawl sy'n destun ymchwiliad yn gallu cyflwyno sylwadau i Ofcom. Gallai sylwadau o'r fath fod yn berthnasol i'n dyfarniad dros dro, yn ogystal ag unrhyw gamau rydyn ni wedi'u nodi rydyn ni'n bwriadu eu mynnu, unrhyw gosbau rydyn ni'n bwriadu eu rhoi neu unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer tramgwyddau difrifol rydyn ni'n bwriadu eu rhoi.
- 11.49 Fe wnaethom hefyd egluro y byddai ein PEN yn nodi am ba hyd y mae'n rhaid i wrthrych gyflwyno sylwadau gan ystyried amgylchiadau'r achos. Fel arfer, rydym yn disgwyl y bydd y cyfnod hwn yn 20 diwrnod gwaith o leiaf i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig, ond gallai'r cyfnod fod yn hirach ar gyfer achosion mwy cymhleth.¹²⁰ Gallai hefyd fod yn gyfnod byrrach pan fyddwn yn ystyried bod yr amgylchiadau'n mynnu hynny, er enghraifft, pan fyddwn yn ystyried atal neu gyfyngu ar wasanaethau darparwr PRS.
- 11.50 Roeddem yn cynnig disgrifio'n fyr bwerau Ofcom mewn perthynas â'n penderfyniadau gorfodi dros dro yn adran "Canlyniadau ymchwiliadau rheoleiddiol" yr atodiad i'r Canllawiau Gorfodi ar gyfer y Gorchymyn PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 11.51 Dywedodd aimm y dylid cynnwys cyfnod amser sylfaenol yn y Gorchymyn PRS i ddarparwyr gyflwyno sylwadau ar ein penderfyniadau dros dro.

Ein penderfyniad

- 11.52 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion ymgynghori, ond rydym wedi egluro mai dim ond mewn perthynas â thorri gofynion posibl a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn PRS y gall y PEN fod yn berthnasol (gweler paragraff 11.11 uchod). Fel arall, dim ond mân newidiadau testunol rydym wedi'u gwneud i erthygl 59.
- 11.53 Rydym o'r farn bod ein hymagwedd at benderfyniadau dros dro yn debyg i ddefnydd y PSA o hysbysiadau ffurfiol a hysbysiadau gorfodi o dan baragraff 5.4 Cod 15. Mae holl elfennau allweddol proses y PSA yn cael eu hadlewyrchu yn ein dull gweithredu ein hunain ar gyfer cymryd camau gorfodi dan y Gorchymyn PRS. Felly, rydym o'r farn y byddai effaith ein dull gweithredu ar gyfer darparwyr yr ymchwilir iddynt ar y cam dros dro hwn, yn gyffredinol, yn debyg i'r trefniadau presennol o dan God 15.
- 11.54 Mae Erthygl 59 yn mynnu bod Ofcom yn pennu'r cyfnod a'r dull y caiff darparwyr PRS yr effeithir arnynt gyflwyno sylwadau am ein penderfyniadau dros dro, ond nid yw'n pennu cyfnod amser sylfaenol ar gyfer sylwadau. Rydym yn credu y byddai pennu cyfnod amser sylfaenol yn y Gorchymyn PRS, fel yr awgrymwyd gan aimm, yn ein hatal rhag delio'n hyblyg â phob achos, yn dibynnu ar ei amgylchiadau penodol ac unigryw ei hun. Fodd bynnag, rydym yn nodi, wrth bennu'r cyfnod amser, bod yn rhaid i ni roi sylw i'n dyletswydd gyffredinol yn adran 3(3) y Ddeddf i weithredu mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn

¹²⁰Gweler paragraff 5.14 y Canllawiau Gorfodi

gymesur ac yn gyson. Yn ogystal, byddem fel arfer yn dilyn ein Canllawiau Gorfodi wrth bennu'r cyfnod amser. Mae'r rhain yn datgan y byddwn, fel arfer, yn rhoi cyfnod o 20 diwrnod gwaith o leiaf i'r sawl sy'n destun ymchwiliad gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (gweler paragraff 5.14 y Canllawiau Gorfodi). Bydd yr union gyfnod yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos, ac efallai y bydd angen cyfnod hwy ar gyfer achosion mwy cymhleth. Fel yr eglurwyd yn ein hymgyngoriad, efallai y bydd amgylchiadau hefyd lle bydd angen i ni ddilyn proses fwy cyflym, er enghraifft pan fyddwn o'r farn bod methiant i gydymffurfio â chais am wybodaeth.

- 11.55 Caiff Ofcom hefyd gynnig cyfle i'r sawl sy'n destun yr ymchwiliad fynd i wrandawriad llafar, naill ai'n bersonol neu o bell, i gyflwyno sylwadau ar faterion y cyfeirir atynt yn y penderfyniad dros dro. Fel arfer, bydd Ofcom yn gofyn i'r unigolyn gadarnhau erbyn dyddiad penodol a yw'n dymuno gwneud sylwadau llafar ac yna bydd yn pennu dyddiad ar gyfer y gwrandawriad llafar. Fel arfer, cynhelir hyn 10 i 20 diwrnod gwaith ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau ysgrifenedig fynd heibio. Mae hon yn drefn newydd o dan y Gorchymyn PRS ac mae'n wahanol i'r gwrandawriadau llafar dan God 15.
- 11.56 Ar ben hynny, rydym yn nodi bod y sawl sy'n destun ein hymchwiliadau hefyd yn gallu cyflwyno cwyn weithdrefnol i Ofcom yn unol ag Adran 9 y Canllawiau Gorfodi. Gellir gwneud cwynion gweithdrefnol os yw'r sawl sy'n destun ymchwiliad, achwynydd neu drydydd parti, yn anfodlon ag unrhyw agwedd ar y weithdrefn ymchwilio. Gall y Swyddog Gweithdrefnol dynodedig ddelio â chwynion sy'n ymwneud â'r canlynol:
- terfynau amser i bartion ymateb i geisiadau am wybodaeth, cyflwyno dogfennau neu gyflwyno sylwadau;
 - ceisiadau i olygu gwybodaeth gyfrinachol mewn dogfennau y mae Ofcom yn bwriadu eu cyhoeddi neu eu datgelu;
 - ceisiadau i ddatgelu neu beidio â datgelu dogfennau neu wybodaeth benodol ar ffeil achos Ofcom;
 - materion sy'n ymwneud â'r broses ar gyfer gwrandawriadau llafar; neu
 - materion gweithdrefnol arwyddocaol eraill a allai godi yn ystod ymchwiliad.

Hysbysiad gorfodi terfynol (Erthygl 61)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 11.57 Roeddem yn cynnig, ar ôl gwneud penderfyniad terfynol mewn ymchwiliad, y byddai'r Gorchymyn PRS yn pennu'r pwerau i Ofcom naill ai:
- roi hysbysiad gorfodi terfynol ("FEN") i destun yr ymchwiliad; neu
 - rhoi gwybod i'r unigolyn ein bod yn fodlon â'i sylwadau ac na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd.
- 11.58 Roeddem hefyd yn cynnig y byddai Ofcom yn gallu gwneud y naill neu'r llall o'r uchod dim ond pan fydd y darparwr yr effeithir arno wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau am y materion a hysbyswyd a bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau wedi mynd heibio.
- 11.59 Ar ben hynny, fe wnaethom egluro mai ein cynnig oedd na fyddem yn gallu rhoi FEN oni bai ein bod, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a wnaed, yn "fodlon" bod y darparwr wedi torri gofyniad a nodwyd yn y PEN. Roeddem hefyd yn cynnig y byddai angen rhoi'r FEN yn ddi-oed a chynnwys ein rhesymau dros ddod i'r casgliad y bu un neu fwy o achosion o dorri'r gofyniad/gofynion perthnasol. Gall hefyd gadarnhau'r gofynion a nodir yn y PEN. Roeddem

hefyd wedi nodi y byddai'n ofynnol i ddarparwyr yr effeithir arnynt gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir yn y FEN a gwneud hynny o fewn yr amserlen a bennir yn y FEN.

- 11.60 Roeddem yn cynnig dilyn y dull gweithredu a nodir ym mharagraffau 5.4 i 5.5 a 5.26 i 5.34 y Canllawiau Gorfodi wrth lunio a rhoi'r FEN. Yn benodol, roeddem wedi nodi y byddai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol yn uwch aelod o staff Ofcom, gydag awdurdod priodol wedi'i ddirprwyo gan y Bwrdd, na fyddai wedi bod yn rhan o'r ymchwiliad na'r gwaith o baratoi'r penderfyniad dros dro. Dywedasom y byddent yn gwneud penderfyniadau ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol ac unrhyw sylwadau. Roeddem hefyd wedi egluro ein bod fel arfer yn cyhoeddi fersiwn nad yw'n gyfrinachol o'r penderfyniad terfynol ar ein gwefan.
- 11.61 Roeddem yn cynnig disgrifio'n fyr bwerau Ofcom mewn perthynas â'n penderfyniadau gorfodi terfynol yn adran "Canlyniadau ymchwiliadau rheoleiddiol" yr atodiad i'r Canllawiau Gorfodi ar gyfer y Gorchymyn PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 11.62 Dywedodd Telecom2 Ltd ac aimm nad oes lle yn y Gorchymyn PRS i ddarparwr apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi terfynol. Dywedasant hefyd fod y broses adolygiad barnwrol yn rhy gostus i lawer o ddarparwyr, ac o'r herwydd, mae'r hawl i apelio yn gyfyngedig.

Ein penderfyniad

- 11.63 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion mewn perthynas â'r FEN, gyda dim ond rhai mân newidiadau testunol.
- 11.64 Ar ôl ystyried yn ofalus y sylwadau a wnaed gan Telecom2 Ltd ac aimm, rydym wedi penderfynu peidio â chyflwyno unrhyw fecanwaith adolygu newydd ar gyfer ein penderfyniadau terfynol mewn perthynas â thorri gofynion y Gorchymyn PRS yn y Gorchymyn PRS ei hun. Fel sy'n cael ei egluro yn y memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn PRS, bydd gan ddarparwyr yr effeithir arnynt hawl apelio statudol mewn perthynas â gweithdrefnau gorfodi Rhan 10 a gorfodi'r Amod PRS, sy'n cael ei lywodraethu gan adran 192 y Ddeddf.
- 11.65 Mae hyn yn golygu, yn fyr, y gallant apelio yn erbyn penderfyniadau o'r fath i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth (CAT). Mae apeliadau i'r CAT yn cael eu llywodraethu gan Reolau'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth 2015 ac mae'r Tribiwnlys wedi cynhyrchu Canllaw i Achosion¹²¹, sy'n ymdrin â (ymysg pethau eraill) dull y Tribiwnlys o roi unrhyw orchmynion i dalu costau mewn perthynas â'r achos apêl. Rydym hefyd yn nodi bod yn rhaid i'r CAT benderfynu ar unrhyw apeliadau yng nghyd-destun PRS, drwy gyfeirio at y sail dros apelio a nodir yn hysbysiad apêl yr apelydd, drwy gymhwyso'r un egwyddorion ag a fyddai'n cael eu cymhwyso gan lys mewn cais am adolygiad barnwrol (gweler adran 194A(2) y Ddeddf). Fodd bynnag, yn wahanol i'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am adolygiad barnwrol yn y llysoedd, nid oes cam caniatâd mewn apeliadau i'r CAT. Mae hyn yn golygu y gall darparwyr yr effeithir arnynt fwrw ymlaen ag apelio i'r CAT, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ar gyfer gwneud apeliadau o dan adran 192 a Rheolau'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth 2015, heb fod angen cael caniatâd.

¹²¹ <https://www.catribunal.org.uk/rules-and-guidance>

- 11.66 Ar ben hynny, rydym o'r farn bod ein gweithdrefnau gorfodi ein hunain yn rhoi digon o gyfle i ddarparwyr yr effeithir arnynt gyflwyno sylwadau cyn i Ofcom wneud penderfyniad gorfodi terfynol. Gall hyn fod ar ffurf cyflwyniadau ysgrifenedig neu, os yw'n cael ei gynnig gan Ofcom, yn bersonol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau mewn gwrandawriad llafar. Rydym o'r farn bod ein gweithdrefnau gorfodi yn gyffredinol yn cynrychioli dull teg, effeithiol, tryloyw a chymesur. Rydym hefyd yn nodi nad oes gennym fecanwaith adolygu ail gam ar gyfer penderfyniadau gorfodi eraill rydym yn eu gwneud sy'n ymwneud â'r sector telathrebu o dan Ran 2 y Ddeddf a bod arfer ein pwerau mewn perthynas â'r sector PRS (gan gynnwys gwneud y Gorchymyn PRS) hefyd yn dod o dan yr un Rhan 2 o'r Ddeddf. Felly, rydym o'r farn y dylid defnyddio dull gweithredu cyson mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau terfynol a wneir o dan y Gorchymyn PRS.

Cosbau (Erthygl 60)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 11.67 Roeddem yn cynnig y dylai'r Gorchymyn PRS nodi mai uchafswm unrhyw gosb y gall Ofcom ei gosod mewn perthynas â thrangwydd yw £250,000.
- 11.68 Fodd bynnag, roeddem hefyd yn cynnig y dylai Ofcom gael disgrisiwn i benderfynu, pan fo'r PEN yn ymwneud â mwy nag un tramgwydd, gosod un gosb mewn perthynas â phob un o'r tramgwyddau neu gosbau ar wahân mewn perthynas â phob tramgwydd. Byddai ein disgrisiwn yn hynny o beth yn dibynnu ar yr hyn rydym yn ei ystyried sy'n briodol ac yn gymesur â'r tramgwydd(au).
- 11.69 O ran swm ein cap arfaethedig o £250,000, fe wnaethom nodi ei fod yn cyd-fynd â'r capiau statudol uchaf sy'n berthnasol i unrhyw gosbau a roddir:
- a) o dan godau a gymeradwyir gan Ofcom o dan adran 121(5)(a) y Ddeddf (gan gynnwys Cod 15); a
 - b) gan Ofcom wrth orfodi'r Amod PRS o dan adran 123(2) y Ddeddf.
- 11.70 Roeddem hefyd yn cynnig y byddai'n rhaid i ni nodi yn y PEN swm unrhyw gosb rydyn ni'n bwriadu ei rhoi. Ar ôl ystyried sylwadau'r darparwr yr effeithir arno i'r PEN, byddem wedyn naill ai'n cadarnhau'r swm hwn yn y FEN neu'n mynnu bod swm llai yn cael ei dalu yn y FEN.
- 11.71 Yn y cyd-destun hwn, roeddem yn cynnig dilyn ein Canllawiau Cosbau i bennu swm unrhyw gosb rydym yn ei rhoi. Byddai'n rhaid i ni hefyd roi sylw i'r Canllawiau Cosbau hynny o dan adran 392(6) y Ddeddf.
- 11.72 Ar ben hynny, roeddem yn cynnig y byddai ein proses setlo a nodir yn Adran 6 ein Canllawiau Gorfodi hefyd yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw gamau gorfodi a gymerir o dan y Gorchymyn PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 11.73 Dywedodd Telecom2 Ltd y byddai'n hoffi cael tryloywder ynghylch sut y caiff dirwyon eu cyfrifo. Dywedodd hefyd ei fod yn credu y dylai fod yn ofynnol i aelodau eraill o'r gadwyn gwerth ddychwelyd taliadau neu gyfran o gyfran refeniw a dderbynnir gan y gwasanaeth. Fel arall mae'r darparwr yn talu'r sancsiwn cyfan. Ar ben hynny, gofynnodd Telecom2 Ltd a fyddai modd adennill TAW am gosbau ariannol.

Ein penderfyniad

- 11.74 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion ar gosbau, gyda dim ond mân newidiadau testunol i erthygl 60 y Gorchymyn PRS.
- 11.75 O ran ymateb Telecom2 Ltd, rydym o'r farn y dylid gosod sancsiynau ar y darparwr yr effeithir arno sy'n destun y canfyddiad gorfodi ac mai'r darparwr hwn ddylai fod yn atebol am dalu unrhyw gosb a osodir arno. O ran adennill TAW, nid yw hyn yn rhywbeth y mae Ofcom yn gyfrifol amdano a dylai Telecom2 Ltd ofyn am ragor o gyngor am unrhyw oblygiadau treth gan gynghorwyr annibynnol neu ystyried cysylltu â Chyllid a Thollau EF am unrhyw arweiniad.
- 11.76 O ran cais Telecom2 Ltd i ni ddarparu tryloywder ar y broses o gyfrifo dirwyon, rydym yn tynnu ei sylw at ein Canllawiau Cosbau gan gynnwys ffactorau penodol rydym yn eu hystyried, sef:
- a) difrifoldeb a hyd y tramgwydd;
 - b) maint y niwed, boed yn wirioneddol neu'n bosibl, a achosir gan y tramgwydd;
 - c) unrhyw elw (ariannol neu fel arall) a wnaed gan y darparwr sydd wedi tramgwyddo (neu unrhyw gorff cysylltiedig) o ganlyniad i'r tramgwydd;
 - d) yn yr holl amgylchiadau, a gymerwyd camau priodol gan y darparwr i atal y tramgwydd;
 - e) y graddau roedd y tramgwydd yn fwriadol neu'n ddi-hid, gan gynnwys i ba raddau roedd uwch reolwyr yn gwybod, neu y dylent fod wedi gwybod, bod gofyniad yn cael ei dorri neu y byddai'n cael ei dorri;
 - f) a oedd y tramgwydd dan sylw yn parhau, neu a gymerwyd camau amserol ac effeithiol i roi diwedd arno, ar ôl i'r darparwr ddod yn ymwybodol ohono;
 - g) unrhyw gamau a gymerwyd i wneud iawn am ganlyniadau'r tramgwydd;
 - h) a oes gan y darparwr dan sylw hanes o dramgwyddau (gall tramgwyddo droeon arwain at gosbau uwch o lawer); a'r
 - i) graddau mae'r darparwr wedi cydweithredu â'n hymchwiliad.
- 11.77 Ffactor arall a allai effeithio ar swm y gosb sydd i'w thalu gan ddarparwyr yw'r broses setlo. Proses wirfoddol yw setliad sy'n arwain at benderfyniad rheoleiddio ffurfiol sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Mae setlo'n golygu bod y sawl sy'n destun yr ymchwiliad yn cyfaddef ei fod wedi mynd yn groes i ofyniad rheoleiddiol ac yn derbyn y bydd gweddill yr ymchwiliad yn dilyn gweithdrefn weinyddol syml. Mewn achosion o'r fath, byddai Ofcom fel arfer yn rhoi disgownt ar lefel y gosb a roddir i'r gwrthrych yng ngoleuni'r arbedion adnoddau dan sylw. Mae rhagor o fanylion am y broses setlo hon ar gael yn Adran 6 ein Canllawiau Gorfodi.

Cyfarwyddiadau ar gyfer tramgwyddau difrifol (Erthygl 64)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 11.78 Roeddem yn cynnig bod y Gorchymyn PRS yn pennu'r pwerau i Ofcom, yn gryno, wahardd, atal neu gyfyngu ar waith darparwr mewn cysylltiad â gweithgaredd PRS sy'n cael ei reoleiddio, neu atal taliadau sy'n ddyledus i ddarparwyr eraill a, lle nodir ymhellach, gwneud taliadau'n uniongyrchol i gwsmeriaid. Fel y nodwyd uchod, byddai cyfarwyddiadau arfaethedig o'r fath ar gyfer tramgwyddau difrifol yn cael eu cynnwys yn y PEN.
- 11.79 Yn benodol, roeddem yn cynnig na fyddai Ofcom yn gallu gosod y sancsiynau hyn oni bai:

- a) fod y gosb yn briodol ac yn gymesur â'r tramgwydd;
- b) os yw'r darparwr yn torri gofyniad y Gorchymyn PRS yn ddifrifol; a
- c) mae'r darparwr dan sylw naill ai:
 - i) wedi torri'r gofyniad yn fwriadol;
 - ii) yn ddi-hid o ran a oedd ei ymddygiad yn cydymffurfio â'r gofyniad; neu
 - iii) mewn amgylchiadau pan oedd yn rhesymol ymarferol i'r darparwr gydymffurfio â'r gofyniad, bod y darparwr wedi methu â chymryd pob cam rhesymol i atal y tramgwydd difrifol.

11.80 Roeddem hefyd yn cynnig y dylem allu rhoi cyfarwyddyd i ddarparwyr ar wahân i'r darparwr sy'n destun ymchwiliad. Gallai cyfarwyddyd o'r fath olygu, mewn perthynas â'u hymwneud â'r darparwr sy'n destun yr hysbysiad, bod:

- a) rhaid iddynt roi gwybod i Ofcom am unrhyw daliadau sy'n ddyledus i'r darparwr sy'n destun ymchwiliad;
- b) rhaid iddynt ddal yn ôl y cyfan neu ran o daliad sy'n ddyledus; neu
- c) cânt gwahardd, eu hatal neu eu cyfyngu rhag delio â'r darparwr hwnnw.

11.81 Byddai Ofcom hefyd yn gallu gosod amodau diogelu defnyddwyr ar ddarparwr ochr yn ochr â chyfarwyddyd i wahardd, atal neu gyfyngu ar wasanaeth neu atal taliadau (boed hynny ar y darparwr sy'n destun yr ymchwiliad neu ddarparwr arall). Gallent gynnwys gofynion i wneud taliadau iawndal am golled neu ddifrod mewn perthynas ag annifyrrwch, anhwylustod neu bryder sy'n deillio o ganlyniad i dramgwydd.

11.82 Roeddem yn cynnig disgrifio gallu Ofcom i ddefnyddio'r sancsiynau hyn a'r amgylchiadau lle gallwn wneud hynny yn adran "Canlyniadau ymchwiliadau rheoleiddiol" yr atodiad i'r Canllawiau Gorfodi ar gyfer y Gorchymyn PRS o dan yr is-bennawd "Cyfarwyddiadau ar gyfer tramgwyddau difrifol".

Sylwadau rhanddeiliaid

11.83 Ni chawsom unrhyw ymatebion i'n cynigion ynghylch cyfarwyddiadau ar gyfer tramgwyddau difrifol.

Ein penderfyniad

11.84 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion ynghylch tramgwyddau difrifol. Fodd bynnag, ar wahân i rai mân newidiadau testunol, rydym wedi egluro yn y Gorchymyn PRS y byddai'r cyfarwyddiadau hyn ond yn ymwneud â thorri gofynion a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn PRS yn ddifrifol (gweler paragraff 11.11 uchod).

11.85 Wrth wneud hynny, rydym wedi cadw ein cynnig yn erthygl 64 y Gorchymyn PRS, fel mai dim ond pan fydd Ofcom wedi rhoi gwybod i ddarparwr ein bod yn bwriadu rhoi cyfarwyddyd o'r fath mewn PEN, ac wedi cadarnhau cyfarwyddyd o'r fath mewn FEN, y gellir rhoi cyfarwyddyd ar gyfer tramgwydd difrifol.

11.86 Mae'r pwerau hyn yn adlewyrchu'n fras y pwerau sydd gan y PSA ar hyn o bryd o dan God 15.

Mesurau interim (Erthygl 62) a chadarnhau cyfarwyddiadau o dan erthygl 62 (Erthygl 63)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 11.87 Roeddem yn cynnig y dylai Ofcom gael y pŵer, yn gryno, i gymryd camau ar unwaith mewn achosion brys neu pan fydd darparwr yn annhebygol o dalu ei ddyledion. Yn hynny o beth, roeddem yn cynnig y gallem osod mesurau i wahardd, atal neu gyfyngu ar wasanaeth neu ddarparwr, neu gyfarwyddo atal taliadau.
- 11.88 Roeddem hefyd yn cynnig y byddai achos yn cael ei ystyried yn achos brys petai'r tramgwydd yn arwain at, neu'n creu risg uniongyrchol o niwed difrifol i ddefnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys, yn benodol, i gwsmeriaid agored i niwed.
- 11.89 Ar ben hynny, roeddem hefyd yn cynnig y byddai gan Ofcom y pŵer i roi cyfarwyddiadau i ddarparwyr, ar wahân i ddarparwr sy'n destun hysbysiad gorfodi, tebyg i'r rheini ar gyfer cyfarwyddiadau ar gyfer tramgwyddau difrifol fel y disgrifir uchod (gweler paragraffau 11.78-11.82).
- 11.90 Roeddem hefyd yn cynnig y byddai Ofcom yn cymryd camau brys ac yn gosod mesurau dros dro yn unol â'n Canllawiau Gorfodi ar gamau brys (gweler paragraffau 7.1 i 7.11 y Canllawiau). Roeddem yn cynnig disgrifio gallu Ofcom i gymryd camau brys fel "Camau brys (camau dros dro)" yn yr atodiad i'r Canllawiau Gorfodi ar gyfer y Gorchymyn PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 11.91 Dywedodd Mobile UK y byddai MNOs yn hoffi deall unrhyw gamau gwirio a fydd yn weithredol pan fydd Ofcom yn penderfynu gwahardd neu orfodi darparwyr ar wahân i'r darparwr sy'n destun ymchwiliad, yn ystod neu ar ôl yr ymchwiliad.
- 11.92 Holodd aimm beth oedd yr ystyr yn erthygl 64(3)(a) y Gorchymyn PRS drafft, yn enwedig yn erthygl 64(4) lle mae'n datgan bod achos yn achos brys os yw'r tramgwydd wedi arwain at, neu'n creu risg uniongyrchol o niwed difrifol i ddefnyddwyr neu aelodau o'r cyhoedd. Gofynnodd aimm am arweiniad ar yr hyn sy'n gyfystyr â niwed difrifol.
- 11.93 Gofynnodd Telecom2 Ltd i'r swm y mae'n rhaid i ddarparwyr ar wahân i'r rheini sy'n destun ymchwiliad ei dalu mewn iawndal gael ei gyfyngu i'r swm sy'n cael ei ddal yn ôl oddi wrth y darparwr sy'n destun ymchwiliad.
- 11.94 Gwnaeth Panel Defnyddwyr PSA sylw yn annog Ofcom i ystyried gwahardd unigolion fel sancsiwn yn ein trefn orfodi.

Ein penderfyniad

- 11.95 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion ynghylch mesurau dros dro. Fodd bynnag, ar wahân i rai mân newidiadau testunol, rydym wedi egluro mai dim ond mewn perthynas ag amheuaeth o dorri gofynion a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn PRS y gellir cymryd y mesurau dros dro hyn (gweler paragraff 11.11 uchod).
- 11.96 Mae ein trefniadau arfaethedig yn y cyswllt hwn yn debyg i'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd o dan God 15 sy'n rhoi pwerau i'r PSA i gymeradwyo, gwahardd, atal neu gyfyngu ar wasanaethau darparwyr. Felly, byddai darparwyr PRS yn wynebu risg debyg o ymyrryd yn

eu gweithrediadau o ganlyniad i dorri gofynion o'r fath o dan y Gorchymyn PRS fel y maent ar hyn o bryd os ydynt yn mynd yn groes i ofynion o dan God 15.

- 11.97 Mewn ymateb i gwestiynau Mobile UK ynghylch mesurau gwirio wrth roi cyfarwyddiadau sy'n gosod mesurau interim, mae erthygl 62 y Gorchymyn PRS yn glir ynghylch yr amodau y byddai angen i ni eu bodloni yn y lle cyntaf, sef:
- a) bod rhoi cyfarwyddyd o'r fath yn briodol ac yn gymesur â'r tramgwydd;
 - b) bod seiliau rhesymol dros amau bod y darparwr yn mynd yn groes i ofyniad a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn PRS, neu wedi mynd yn groes i ofyniad o'r fath; a
 - c) naill ai
 - i) bod sail resymol dros amau nad yw'r darparwr yn gallu, neu ei fod yn debygol o fethu, talu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus; neu
 - ii) mae sail resymol dros amau bod yr achos yn achos brys, ac mae brys yr achos yn ei gwneud yn briodol i ni roi cyfarwyddyd mesurau interim.
- 11.98 Wrth arfer y pwerau hyn, rydym yn disgwyl ystyried ystyriaethau perthnasol eraill gan gynnwys effaith y cyfarwyddyd ar y sawl sy'n destun ymchwiliad ac unrhyw fuddiannau trydydd parti perthnasol, yn ogystal ag ar fuddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Mae ystyriaethau o'r fath yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun hwn o ystyried y gallai mesurau interim gael effaith ar unwaith.
- 11.99 Fodd bynnag, mae erthygl 63(1) y Gorchymyn PRS wedyn yn mynnu bod Ofcom yn rhoi cyfle i'r darparwr, yn amodol ar gyfarwyddyd mesur interim, gyflwyno sylwadau am y sail dros roi'r cyfarwyddyd a'i effaith, yn ogystal â chyfle i gynnig unrhyw gamau i unioni'r sefyllfa. Mae'n ofynnol i ni wneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl rhoi'r cyfarwyddyd sy'n gosod y mesurau interim o dan erthygl 62. Ar ben hynny, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfnod ar gyfer rhoi sylwadau ddod i ben, byddai'n rhaid i Ofcom naill ai gadarnhau neu ddirymu'r cyfarwyddyd hwnnw.
- 11.100 O ran ymholiad aimm am ystyr niwed difrifol, nid ydym o'r farn bod angen unrhyw ganllawiau pellach ar yr hyn sy'n gyfystyr â difrifol. Mae'r defnydd o "niwed difrifol" yn y Gorchymyn PRS yn debyg i'r geiriad a ddefnyddir yn Nghod 15 ac mae gan Ofcom hefyd bwerau tebyg yn y sector telathrebu sy'n adlewyrchu geiriad tebyg. Bydd Ofcom yn ystyried yn ofalus a ydym yn credu bod tramgwydd perthnasol yn arwain at niwed difrifol neu'n creu risg o niwed difrifol drwy ystyried amgylchiadau unigol yr achos. Yn benodol, rydym yn disgwyl ystyried unrhyw effeithiau ar ddefnyddwyr agored i niwed.
- 11.101 Mewn ymateb i sylw Telecom2 Ltd, ein bwriad yw bod y darparwr sy'n destun ymchwiliad yn gyfrifol am daliadau iawndal. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod arian ar gael i'w dalu i ddefnyddwyr, mae'r Gorchymyn PRS hefyd yn rhoi'r pŵer i Ofcom fynnu bod darparwyr eraill yn dal yn ôl "daliadau perthnasol" oddi wrth y darparwr sy'n destun ymchwiliad ac yn cyfarwyddo'r darparwyr eraill hynny i roi'r arian hwnnw'n uniongyrchol i ddefnyddwyr ar ffurf taliadau iawndal. Diffinnir "taliadau perthnasol" yn erthygl 62(11) fel taliadau sy'n ddyledus i'r darparwr arall sy'n ymwneud â darparu PRS, neu sy'n gysylltiedig â hynny. Mae erthygl 62(7) yn caniatáu i Ofcom osod amodau mewn perthynas â chadw taliadau perthnasol o'r fath ac mae erthygl 62(8) yn nodi'r amodau hynny sy'n gallu cynnwys gwneud taliadau. Gyda'i gilydd, rydym o'r farn bod y gofynion hyn yn cyfyngu ar y swm y gellir ei dalu gan ddarparwyr, ar wahân i'r rheini sy'n destun ymchwiliad, i'r arian sy'n cael ei ddal yn ôl oddi wrth y darparwr sydd wedi tramgwyddo.

11.102 Awgrymodd Panel Defnyddwyr PSA y dylem gael y pŵer i wahardd unigolion o'r farchnad PSA mewn ffordd debyg i'r hyn y mae'r PSA yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae ein pwerau ond yn ymestyn i osod gofynion mewn perthynas â darparwyr PRS fel y'u diffinnir yn y Ddeddf. Os yw darparwr yn unigolyn (e.e. unig fasnachwr), gallai ein camau gorfodi mewn gwirionedd fod yn gosb debyg i waharddiadau presennol y PSA ar unigolion. Fodd bynnag, er na fyddem yn gallu gwahardd rhai unigolion sy'n gweithio i ddarparwr PRS rhag gweithredu yn y farchnad PRS, byddwn mewn amgylchiadau priodol yn ystyried cyfeirio cyfarwyddwyr unigol Darparwyr PRS at y Gwasanaeth Ansoffedd er mwyn iddo ystyried a oes sail dros anghymhwys fel cyfarwyddwr.

Trefniadau trosiannol at ddibenion cod cymeradwy perthnasol (Erthygl 66)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 11.103 Ar ôl y trosglwyddo, roeddem yn cynnig y byddai'r Gorchymyn PRS yn awdurdodi ac yn mynnu bod Ofcom yn gwneud unrhyw beth y byddai'r PSA (a'i enwau blaenorol) yn cael ei awdurdodi neu ei orfodi i'w wneud o dan ddarpariaethau unrhyw un o'i godau cymeradwy er mwyn cyflawni ei swyddogaethau, neu mewn cysylltiad â hynny. Mae'r materion hynny'n benodol yn cynnwys gorfodi darpariaethau cod cymeradwy perthnasol, ond maent hefyd yn cynnwys materion eraill i ymdrin â rheoleiddio PRS yn fwy cyffredinol o dan god o'r fath.
- 11.104 Ar ben hynny, roeddem yn cynnig y byddai unrhyw beth sy'n cael ei wneud gan y PSA at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau cyn trosglwyddo, neu mewn cysylltiad â hynny, yn cael effaith fel petai Ofcom yn gwneud hynny. Byddai cyfeiriadau mewn cod cymeradwy at y PSA hefyd yn cael effaith fel pe baent yn gyfeiriadau at Ofcom.
- 11.105 Gan nad yw Ofcom yn gweithredu system Tribiwnlys fel y mae'r PSA yn ei wneud, roedd ein trefniadau pontio arfaethedig yn cynnwys rhai addasiadau i'r trefniadau presennol yng Nghod 15 mewn amgylchiadau lle byddai Ofcom yn defnyddio'r darpariaethau perthnasol. Yn benodol, roeddem yn cynnig nodi yn y Gorchymyn PRS fanylion:
- sut byddai Ofcom yn penodi pobl i ddyfarnu ar achosion hanesyddol; a
 - beth fyddai'n digwydd i achosion hanesyddol a gyfeiriwyd at ddyfarniad gan y PSA ond nad oes penderfyniad wedi'i wneud arnynt cyn trosglwyddo.

Sylwadau rhanddeiliaid

11.106 Mynegodd Action 4 Limited bryderon ynghylch Ofcom yn rhoi'r gorau i gymeradwyo Cod 15 wrth barhau â champau gorfodi mewn perthynas ag ymchwiliadau hanesyddol o dan y cod hwnnw. Mae'r sylwadau'n awgrymu bod Ofcom yn rhoi'r gorau i weithredu Cod 15 ar unwaith ac y dylai Ofcom edrych ar unrhyw achosion agored eto o dan y drefn newydd.

Ein penderfyniad

- 11.107 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n trefniadau pontio arfaethedig gyda dim ond mân newidiadau testunol. Rydym o'r farn y byddai ein dull gweithredu yn sicrhau nad oes bylchau yn y drefn orfodi ar gyfer CPRS yn ystod ac ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb i Ofcom.
- 11.108 Mae'r drefn bontio yn bwysig i ddiogelu defnyddwyr lle, er enghraifft, nad oedd y PSA wedi nodi ymddygiad a allai beidio â chydymffurfio cyn y trosglwyddiad neu lle nad oedd digon o

amser i'r PSA gwblhau pob cam o'i broses orfodi cyn y trosglwyddiad. Mewn achosion o'r fath, bydd ein trefniadau pontio yn galluogi Ofcom i gamu i mewn i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu. Mae'r drefn bontio hefyd yn sicrhau nad yw unrhyw gosbau a roddir gan y PSA cyn trosglwyddo yn mynd yn angof unwaith y bydd y PSA yn peidio â bod. Bydd unrhyw gosbau o'r fath nad ydynt wedi cael eu talu i'r PSA cyn trosglwyddo yn cael eu talu i Ofcom.

- 11.109 Ni fyddwn yn gallu cymryd camau mewn perthynas ag achosion hanesyddol o dan y Gorchymyn PRS fel yr awgrymir gan Action 4. Ni fydd unrhyw achos posibl o dorri Cod 15 sy'n digwydd cyn y trosglwyddiad yn mynd yn groes i'r gofynion a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn PRS, oherwydd dim ond ar 1 Chwefror 2025 y maent yn dod i rym. Rydym wedi creu'r trefniadau pontio er mwyn delio â thramgwyddau posibl a ddigwyddodd cyn y trosglwyddiad. Er tegwch, ac i'r graddau sy'n bosibl, bydd unrhyw dramgwydd o'r fath yn cael sylw gan ddefnyddio'r rheolau sydd ar waith ar yr adeg yr honnir bod y tramgwydd wedi digwydd. I'r gwrthwyneb, bydd unrhyw ddigwyddiad sy'n digwydd ar ôl 1 Chwefror 2025 yn cael sylw o dan y Gorchymyn PRS gan na fydd Cod 15 yn berthnasol mwyach.

12. Ffioedd Ofcom, cadw cofnodion a cheisiadau am wybodaeth

- 12.1 Mae'r adran hon yn nodi ein penderfyniadau mewn perthynas â rhai o ofynion gweinyddol penodol y Gorchymyn PRS. Yn benodol, mae'r adran hon yn ymdrin â'r canlynol:
- a) ein dull o adfer costau a'r gofyniad i dalu costau gweinyddol Ofcom (sydd i'w weld yn erthygl 14 Rhan 3 y Gorchymyn PRS);
 - b) y gofynion ar weithredwyr rhwydwaith i gadw taliadau a chadw cofnodion rhifau cyfradd premiwm (a geir yn erthyglau 53 a 54 Rhan 7 y Gorchymyn PRS);
 - c) gofynion i ddarparu gwybodaeth i Ofcom (a geir yn erthygl 55 Rhan 8 y Gorchymyn PRS); a
 - d) chadw cofnodion (a geir yn erthygl 56 Rhan 9 y Gorchymyn PRS).
- 12.2 Yn amodol ar fân ddiwygiadau drafftio esboniadol, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n gofynion arfaethedig a nodir yn ein hymgyngoriad yn y cyswllt hwnnw.

Gofyniad i dalu ffioedd gweinyddol Ofcom (erthygl 14) - trosolwg

- 12.3 Ym mharagraffau 4.248 i 4.270 ein hymgyngoriad, rydym yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer adfer costau a'r gofyniad cysylltiedig i dalu ffioedd gweinyddol Ofcom. Roedd ein cynigion yn y cyswllt hwnnw'n adlewyrchu'n fras ddull gweithredu'r PSA ei hun ar gyfer ei drefniadau cyllido o dan God 15.
- 12.4 Ar ôl cael trosolwg, ac ar ôl ystyried sylwadau rhanddeiliaid, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig a'r gofyniad cysylltiedig, gyda dim ond rhai mân newidiadau drafftio i erthygl 14. Rydym yn egluro isod ein casgliadau ar wahân ar bob un o brif elfennau canlynol y cynigion hyn:
- a) y model cyllido;
 - b) atebolrwydd TCP i dalu costau gweinyddol;
 - c) trothwyon diffiniedig;
 - d) gwybodaeth ariannol;
 - e) ein methodoleg ariannu arfaethedig;
 - f) y ffi a'r flwyddyn galendr berthnasol;
 - g) all daliadau;
 - h) refeniw PRS; a
 - i) chosbau.
- 12.5 Wrth wneud ein penderfyniadau ar y drefn ariannu briodol i'w mabwysiadu o dan y Gorchymyn PRS, rydym wedi ystyried yn benodol pa mor ddymunol yw dilyn, i'r graddau y mae'n briodol, yr egwyddorion codi tâl sydd yn ein datganiad o egwyddorion codi tâl ("SoCP") yr ydym, yn unol â nhw, yn pennu taliadau gweinyddol ar gyfer sectorau eraill

rydym yn eu rheoleiddio.¹²² Rydym yn ymhelaethu isod (gweler, yn benodol, baragraffau 12.36 i 12.37) ar yr egwyddorion codi tâl penodol sy'n berthnasol yn ein barn ni yn y cyd-destun PRS hwn. Ein barn ni yw bod rhoi sylw i egwyddorion codi tâl o'r fath yn rhywbeth sy'n berthnasol i ni, gan sicrhau ein bod yn rhoi sylw i'r egwyddorion y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu, fel sy'n ofynnol gan adran 3(3) y Ddeddf.

Model cyllido

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.6 Roeddem yn cynnig cadw model cyllido presennol y PSA yn fras, sy'n ddull sy'n seiliedig ar ardoll ac sy'n cael ei bennu gan faint y farchnad a'r swm a fydd yn cael ei ariannu gan yr ardoll. Roeddem hefyd yn cynnig y dylai maint y farchnad barhau i fod yn seiliedig ar ddata trafodiadau ariannol yng nghadwyn gwerth PRS gan ddefnyddio alldaliadau (sef y symiau sy'n daladwy gan y darparwyr hyn i gyfryngwyr a/neu fasnachwyr mewn perthynas â refeiwiw sy'n cael ei gynhyrchu gan PRS).

Sylwadau rhanddeiliaid

“Maint y farchnad” a “swm i'w ariannu drwy ardoll”

- 12.7 Roedd aimm, Global, Mobile UK, Telecom2 Ltd a VMO2 yn dadlau nad oedd y term “maint y farchnad” yn glir ac roedd angen eglurhad pellach. Roedd aimm, Mobile UK a VMO2 hefyd yn dadlau bod angen egluro ymhellach y term “swm i'w ariannu drwy ardoll”. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 12.8 Dywedodd Mobile UK hefyd fod “maint y farchnad” wedi cael ei chwyddo'n artiffisial gan y cynnydd mewn traffig dwy siop apiau ond nad yw hyn yn cyfateb i gynnydd mewn gweithgaredd a reoleiddir.

Tryloywder y broses ar gyfer pennu ein costau rheoleiddio

- 12.9 Gofynnodd aimm am eglurder ynghylch sut y byddai cost rheoleiddio'n cael ei sefydlu. Nododd fod y PSA ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ei gostau bob blwyddyn, gan ganiatáu rhywfaint o dryloywder i aelodau aimm ynghylch y costau. Roedd hefyd yn gofyn am ragor o eglurder ynghylch sut y bydd y costau a rennir yn cael eu cyfrifo a'u dosrannu. Holodd hefyd a fyddai Ofcom neu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gyfrifol am hyn. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 12.10 Dywedodd BT y byddai'n haws ariannu rheoleiddio yn y maes hwn drwy'r ffioedd y mae cwmnïau telathrebu a reoleiddir eisoes yn eu talu i Ofcom, yn hytrach na chael proses ariannu ar wahân.
- 12.11 Nododd TalkTalk fod y fethodoleg ariannu yn canolbwyntio ar rwydweithiau'n gorfod talu ffi flynyddol a gofynnodd a ddylid cynnwys pob rhan o'r gadwyn gwerth, gan gynnwys

¹²²Ar gyfer y sectorau cyfathrebu electronig, radio a theledu, gweler ein SoCP dyddedig 8 Chwefror 2005: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0019/51058/charging_principles.pdf. Ar gyfer y sector post, gweler ein SoCP dyddedig 20 Mawrth 2018: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0017/112454/statement-consultation-recovering-postal-regulation-costs.pdf

cyfryngwyr a masnachwyr, yn y fethodoleg, o ystyried y cymhwysir rheolau eraill i bob darparwr yn y gadwyn gwerth.

- 12.12 Mynegodd Three bryder bod y cynigion presennol yn gwanhau'n sylweddol y lefel bresennol o graffu a goruchwylio gan randdeiliaid mewn perthynas â'r gyllideb. Roedd yn dadlau, fel mater o gyfraith ac egwyddor, y dylai gallu Ofcom i godi ardoll fod yn ddarostyngedig i ofynion a mesurau diogelu penodol, gan gynnwys y gofyniad i ddangos mewn ffordd dryloyw bod y ffioedd arfaethedig yn angenrheidiol i dalu costau arfer y swyddogaeth berthnasol.
- 12.13 Dywedodd Three hefyd y byddai trosglwyddo swyddogaethau o'r PSA i Ofcom yn debygol o gynyddu'r cymhlethdod wrth gyfrifo'r costau perthnasol, gan ei bod yn anochel y bydd llawer o gostau'n cael eu rhannu ar draws holl swyddogaethau statudol Ofcom. Nododd TalkTalk, Three a VMO2 fod rhai rhanddeiliaid hefyd yn gorfod talu ffi weinyddol flynyddol i Ofcom sy'n cyfrannu at gostau Ofcom o gyflawni ei swyddogaethau ehangach yn y sector telathrebu. Roeddent yn bryderus y gallai hyn olygu "cyfrif dwbl" y costau perthnasol.

Costau rheoleiddio disgwylidig

- 12.14 Dywedodd aimm, BT, Fonix, Mobile UK a Three eu bod yn disgwyl gweld gostyngiad sylweddol yn y costau rheoleiddio ar gyfer cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio o ganlyniad i arbedion maint a chwmpas sy'n deillio o drosglwyddo swyddogaethau o'r PSA i Ofcom. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 12.15 Dywedodd aimm a TalkTalk ei bod yn anodd rhoi sylwadau ynghylch a yw dull arfaethedig Ofcom o adfer costau yn briodol heb wybod yn gyntaf beth fydd y costau rheoleiddio yn debygol o fod. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 12.16 Awgrymodd ITV y dylai Ofcom ohirio ei ymgynghoriad ar gwestiynau sy'n ymwneud ag adfer costau nes bydd yn gallu rhoi cyfrif o'i gostau rheoleiddio disgwylidig.

Eithrio rhoddion i elusennau o gyfrifiadau'r ardoll

- 12.17 Nododd aimm, BBC Plant mewn Angen, Donr Ltd a Global bod ardoll bresennol y PSA yn eithrio rhoddion i elusennau o'i gyfrifiadau, ond ei bod yn ymddangos bod cyfrifiad Ofcom yn cynnwys rhoddion i elusennau. Roeddent yn dadlau bod hyn yn ddiangen ac yn casglu incwm yn annheg o fwriadau pobl i gefnogi achosion da. O'r herwydd, dadleuwyd y dylid eithrio'r holl incwm i elusennau o'r cyfrifiad i adlewyrchu'r broses bresennol.
- 12.18 Ar ben hynny, dadleuodd Donr Ltd hefyd na ddylid trin gwasanaethau loteri cymdeithas yn wahanol i roddion elusennol gan eu bod yn cyflawni'r un swyddogaeth â rhodd, ac mai'r prif wahaniaeth i gefnogwyr yw'r cymhelliad i roi. O'r herwydd, dywedodd Donr Ltd y dylid eithrio gwasanaethau loteri cymdeithas o'r tâl gweinyddol hefyd.

Ein penderfyniad

"Maint y farchnad" a "swm i'w ariannu drwy ardoll"

- 12.19 Wrth ymateb i sylwadau a wnaed ar y mater hwn, rydym yn nodi bod y PSA ar hyn o bryd yn nodi ei anghenion cyllido yn ei ymgynghoriad blynyddol ar y Gyllideb a'r Cynllun Busnes.¹²³ Mae'r ddogfen PSA hon yn egluro bod maint y farchnad at ddibenion cyfrifo'r ardoll yn cael ei amcangyfrif drwy gyfeirio at daliadau hanesyddol a thybiaethau am dueddiadau yn y farchnad. Yn y cyswllt hwnnw, mae'r swm sydd i'w ariannu gan yr ardoll yn gyfrifiad syml o

¹²³ [Consultation on Business plan and budget 2024/25 \(psaauthority.org.uk\)](https://psa.gov.uk/consultation-on-business-plan-and-budget-2024-25)

gyllideb y PSA llai ffynonellau eraill o'i incwm (a fyddai, yn y gorffennol, dan fodel cyllido'r PSA, wedi cynnwys, er enghraifft, ffioedd cofrestru a symiau a geir drwy osod dirwyon o dan God 15).

- 12.20 Er nad yw erthygl 14 y Gorchymyn PRS yn cyfeirio'n benodol at "maint y farchnad", mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo ein costau gweinyddol a nodir yn erthygl 14(2) yn adlewyrchu dull tebyg i'r dull a ddefnyddir gan y PSA, fel y bydd ein ffioedd yn parhau i fod yn seiliedig ar ddata trafodiadau ariannol yng nghadwyn gwerth PRS gan ddefnyddio alldaliadau.
- 12.21 Er enghraifft, os yw swm gwariant perthnasol amcangyfrifedig Ofcom o fewn ystyr erthygl 14(7), gan gynnwys cyfran gymesur o orbenion, yn £3m (sy'n cael ei gynrychioli gan elfennau "DAE" ac "O" y fformiwla), ac mai "maint y farchnad", ar sail cyfanswm y taliadau ar gyfer y cyfnod perthnasol yw £300m (sy'n cael ei gynrychioli gan elfen "TOP" y fformiwla), yna:
- a) y cyniferydd canlyniadol yw 0.01 (£3m/£300m).
 - b) os mai cyfanswm taliadau rhanddeiliaid A am y cyfnod perthnasol yw £0.5m (sy'n cael ei gynrychioli gan elfen "NOS" y fformiwla), ardoll cyfranddaliwr A fyddai £5,000 (0.01 *£0.5m)
- 12.22 Rydym o'r farn bod erthygl 14 y Gorchymyn PRS yn syml ac yn glir ynghylch sut y bydd ein costau gweinyddol yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob blwyddyn dreth. Credwn fod ein henghraifft uchod yn egluro ymhellach sut y caiff taliadau eu cyfrifo mewn egwyddor. Dylem hefyd ychwanegu bod elfen "DAE" y fformiwla hefyd yn caniatáu i ni wneud unrhyw addasiadau i ddelio â diffyg neu warged a grybwyllir yn erthygl 14(6) mewn perthynas â blwyddyn codi tâl benodol.
- 12.23 O ran pwynt Mobile UK ynghylch "chwyddiant artiffisial maint y farchnad", nid ydym yn credu y dylai maint y farchnad bennu cost rheoleiddio. Mae hefyd yn bwysig nodi bod swm yr ardoll a godir yn ymwneud â chost ac nid maint y farchnad (sydd ond yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo cyfran deg o'r ardoll sydd i'w thalu, h.y. alldaliadau rhwydwaith unigol fel canran o gyfanswm yr alldaliadau).

Tryloywder y broses ar gyfer pennu ein costau rheoleiddio

- 12.24 Cawsom nifer o sylwadau gan randdeiliaid yn ymwneud â thryloywder y broses ar gyfer sefydlu ein costau rheoleiddio. Rydym yn nodi ein hymatebion i'r sylwadau hyn isod, gan gynnwys darparu eglurhad ychwanegol, lle bo hynny'n briodol.

Eglurder ynghylch sut y bydd cost rheoleiddio'n cael ei sefydlu

- 12.25 Fe wnaethom egluro yn ein hymgyngoriad, wrth benderfynu ar y model cyllido ar gyfer y sector PRS, ein bod yn credu ei bod yn briodol cysoni ein dull gweithredu â dull gweithredu'r sectorau rheoleiddio eraill rydym yn eu rheoleiddio drwy ystyried, yn benodol, ein SoCP sy'n berthnasol i'r sectorau hynny.
- 12.26 Yn benodol, rydym o'r farn bod yr egwyddorion codi tâl hyn yn cynnwys egwyddorion a meini prawf allweddol sy'n briodol i lywio ein dull o ddyrannu costau hefyd ar gyfer y sector PRS, gan gynnwys:
- a) nodwedd sylfaenol dull Ofcom o briodoli costau yw glynu wrth egwyddor allweddol "achosiaeth".
 - b) mae pob eitem o gost a gofnodir yng nghyfrifon Ofcom yn cael ei phriodoli i'r gweithgareddau ym mhob sector, yn yr achos hwn, costau rheoleiddio PRS.

- c) caiff costau uniongyrchol gweithgareddau eu cofnodi'n uniongyrchol tra bo costau anuniongyrchol yn cael eu hychwanegu naill ai drwy ddyraniad neu ddsraniad:
 - i) mae costau a ddyrannwyd yn cynrychioli eitemau o gostau gweithredu neu wariant cyfalaf y gellir eu neilltuo'n gyfan gwbl i sector neu weithgaredd penodol yn rhinwedd gwybodaeth yn y cofnodion cyfrifyddu; a
 - ii) mae costau a ddsrannwyd yn cynrychioli gorbenion sy'n cael eu gwasgaru dros bob un o'r gweithgareddau ar sail deg a chyfartal gan ddefnyddio dulliau safonol o ddsrannu costau.

12.27 Byddwn hefyd yn ystyried bod y meini prawf canlynol yn y SoCP yn briodol ar gyfer dyrannu costau yn y sector PRS, sef:

- a) *gwrthrychedd*: ni fwriedir i ddyraniadau cost fod o fudd i unrhyw sector neu weithgaredd penodol;
- b) *cysondeb*: bydd cysondeb yn y dull gweithredu rhwng y gyllideb a'r costau gwirioneddol, ac o flwyddyn i flwyddyn; a
- c) *thryloywder*: bydd yna:
 - i) wahanïaeth clir rhwng costau uniongyrchol a chostau a ddsrannwyd;
 - ii) nodi gyrywyr cost priodol ar gyfer pob math o weithgaredd a defnyddio data gweithredol a/neu ariannol gwrthrychol sy'n berthnasol i'r gyrrwr cost hwnnw i ddsrannu symiau i reoli sbectrwm a chostau swyddogaethau nad ydynt yn cael eu hariannu; a
 - iii) dolenni clir i gynllun corfforaethol Ofcom.

Lefel y craffu gan randdeiliaid wrth sefydlu ein costau

- 12.28 Rydym yn nodi bod nifer o randdeiliaid hefyd wedi mynegi pryder ynghylch lefel y craffu gan randdeiliaid mewn perthynas â sefydlu ein costau rheoleiddio. Unwaith eto, bwriadwn sicrhau craffu a thryloywder yn yr un modd ag y gwnawn ar gyfer pennu cyllidebau yn ein sectorau rheoleiddio eraill.
- 12.29 Yn gyntaf, byddwn yn ymgynghori ar ein Cynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yna'n pennu cyllideb a fydd yn cyflawni'r rhaglen waith a fydd wedi bod yn destun ymgynghoriad. Bydd y gyllideb yn cael ei dyrannu a'i dosrannu i'r sectorau yn ôl cyfran costau Ofcom y mae pob sector yn gyfrifol amdani ac, o'r herwydd, byddwn yn gallu pennu amcangyfrif o'r costau ar gyfer y sector PRS. Byddwn yn cyhoeddi ein hamcangyfrif o'r costau ar gyfer pob sector yn ein Tablau Tariff blynyddol ar 31 Mawrth bob blwyddyn neu cyn hynny. Wrth bennu ein costau rheoleiddio, mae'n bwysig nodi bod Ofcom yn gweithredu o fewn y capiau gwariant ariannol, fel y cytunwyd â DSIT ar y cyd â Thrysorlys EF.
- 12.30 O dan erthygl 14(5) y Gorchymyn PRS, mae'n rhaid i ni hefyd gyhoeddi datganiad cysoni mewn perthynas â phob blwyddyn codi tâl. Bydd y datganiadau hyn yn cael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol a chyfrifon Ofcom sy'n cael eu harchwilio gan archwilwyr Ofcom, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Bydd y datganiadau hynny hefyd yn cario ymlaen unrhyw ddiffyg neu warged o flynyddoedd blaenorol i sicrhau bod cyfanswm y taliadau sy'n daladwy i ni yn ddigonol i fodloni, ond heb fod yn fwy na, y gwariant perthnasol yr amcangyfrifir y bydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r flwyddyn ganlynol (gweler erthygl 14(6)). Gyda'i gilydd, rydym o'r farn y bydd y taliadau gweinyddol y byddwn yn eu gosod o dan y Gorchymyn PRS yn syml ac mor glir â phosibl i randdeiliaid. Bydd y ffioedd hyn hefyd yn ymarferol o ran defnyddio data y byddai rhanddeiliaid yn ei gasglu beth bynnag at eu dibenion rheoli eu hunain, yn ogystal â bod yn gymharol syml i'w gweinyddu gan Ofcom.

Mwy o gymhlethdod, cyllid drwy ardoll telathrebu bresennol Ofcom a'r risg o gyfrif ddwywaith

- 12.31 Ein dull gweithredu yw, pan fydd darparwyr yn gweithredu fel darparwyr PRS a darparwyr gwasanaethau eraill y codir ffi amdanynt, codir ffioedd ar wahân ar ddarparwyr am y gwahanol weithgareddau rheoleiddio. Dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd a bydd yn parhau i fod felly o dan ein dull adfer costau.
- 12.32 Gall rhai gweithredwyr rhwydwaith gael eu disgrifio fel rhai sy'n dod o fewn dynodiad Ofcom¹²⁴ i dalu ein ffioedd gweinyddol ar wahân o dan adran 38 y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r pwerau hynny ond yn caniatáu i ni adennill ein costau wrth gyflawni'r swyddogaethau a grybwyllir yn adran 38(5) y Ddeddf, nad ydynt yn cynnwys ein swyddogaethau o dan y Gorchymyn PRS. I'r gwrthwyneb, mae adran 122(4) y Ddeddf yn cynnwys pŵer penodol i ni adennill ein costau a ysgwyddir gan Ofcom mewn cysylltiad â'n swyddogaethau o dan y Gorchymyn PRS.
- 12.33 Ar ben hynny, rydym yn nodi nad yw'r dynodiad uchod ar gyfer y sector telathrebu yn arwain at unrhyw "gyfrif dwbl" o'r costau perthnasol. Y rheswm am hyn yw bod y trosiant perthnasol at y dibenion hynny yn ymwneud â gweithgareddau cwbl wahanol o'i gymharu â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i gyfrifo'r taliadau o dan y Gorchymyn PRS. Yn benodol, mae gweithredwyr rhwydwaith sy'n atebol i dalu taliadau o dan y dynodiad adran 38 hwnnw yn talu ffioedd ar sail trosiant a enillir drwy gyflawni'r gweithgareddau canlynol yn unig:
- a) darparu gwasanaethau cyfathrebu electronig i drydydd partion;
 - b) darparu rhwydweithiau cyfathrebu electronig, gwasanaethau cyfathrebu electronig a mynediad at rwydweithiau i ddarparwyr cyfathrebiadau; neu
 - c) sicrhau bod cyfleusterau cysylltiedig ar gael i ddarparwyr cyfathrebu.
- 12.34 Ni fyddai'r gweithgareddau hynny'n cwmpasu PRS sy'n fath o ficro-daliad am gynnwys y talwyd amdano, gwasanaethau data a gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth. Felly, pan fyddai rhanddeiliaid perthnasol yn cael eu cwmpasu o dan y ddwy gyfundrefn, byddai'n rhaid iddynt dalu dau dâl gweinyddol ar wahân a fyddai'n cael eu gosod o dan adran 38 y Ddeddf ac erthygl 14 y Gorchymyn PRS, yn y drefn honno, am gyflawni gweithgareddau rheoleiddio gwahanol.
- 12.35 Rydym o'r farn y byddai'r canlyniad hwn yn adlewyrchu tegwch a chost-effeithiolrwydd yn ein dull adfer costau. Yn benodol, ein barn ni yw y dylai'r ffioedd sy'n daladwy gan rhanddeiliaid yn y naill sector neu'r llall/y ddau sector, adlewyrchu'r gweithgareddau rheoleiddio sy'n cael eu cynnal yn y sector penodol hwnnw a bod yn gymesur â refeniw/alldaliadau perthnasol y rhanddeiliaid perthnasol.

Cymhwysio ffioedd blynyddol Ofcom

- 12.36 O ran cymhwysio ffioedd blynyddol Ofcom, rydym yn nodi bod Cod 15 yn rhoi'r baich casglu ardoll ar y gweithredwyr rhwydwaith ond yn tybio y bydd yr ardoll yn cael ei throsglwyddo drwy'r gadwyn gwerth nes bydd yn cael ei thalu'n derfynol gan y masnachwr (yn debyg iawn i sut mae TAW yn gweithio).
- 12.37 Mewn gwirionedd, mae'r MNOs yn hanesyddol wedi dewis peidio â phasio'r ardoll ymlaen ac wedi'i thrin fel cost busnes (ac, i bob pwrpas, wedi'i chynnwys yn eu trefniadau cyfran

¹²⁴ https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/46839/statement.pdf

refeniw masnachol). Nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros newidiadau i'r trefniadau presennol hyn o dan y Gorchymyn PRS.

Cyfrifoldeb dros gyfrifo a dosrannu costau a rennir Ofcom

- 12.38 Rydym hefyd wedi ystyried cwestiwn aimm ynghylch pwy sy'n gyfrifol am gyfrifo ein cyllideb gan gynnwys costau a rennir. Ofcom sy'n gyfrifol am hyn, gyda'n cyfrifon yn cael eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Costau rheoleiddio disgwylidig

- 12.39 Rydym yn nodi bod rhai rhanddeiliaid wedi dweud ei bod yn anodd rhoi sylwadau ar ein cynigion i adfer costau heb wybod faint fydd y rheoleiddio'n ei gostio. Credwn fod lefel y gyllideb sydd ei hangen i ni reoleiddio a'r dull o gyfrifo'r gofyniad ardoll gan ddiwydiant yn ddau fater gwahanol. Ein barn ni yw y dylai rhanddeiliaid allu gwneud sylwadau ar yr olaf heb gael manylion am y cyntaf.
- 12.40 Rydym yn cytuno bod synergeddau i'w cyflawni a bod arbedion effeithlonrwydd i'w cael drwy drosglwyddo'r gwaith o reoleiddio PRS o'r PSA i Ofcom. O ganlyniad, rydym yn disgwyl arbedion a fydd yn cael eu cyflawni dros amser.
- 12.41 Fodd bynnag, byddem hefyd yn nodi nad yw'r bwriad i drosglwyddo cyfrifoldebau rheoleiddio o'r PSA i Ofcom yn ymarfer arbed costau ond yn un o ymateb yn strategol i newidiadau yn y farchnad a sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n barhaus.

Eithrio rhoddion i elusennau o gyfrifiadau'r ardoll

- 12.42 Nodwn fod rhoddion elusennol ar hyn o bryd wedi'u heithrio o gyfrifiadau ardoll y PSA. Y rheswm am hyn yw bod 100% yn trosglwyddo i'r elusennau o ran refeniw PRS sy'n ymwneud ag incwm o roddion elusennol, sy'n golygu nad oes cyfran refeniw. Nid yw'r eithriad presennol hwn yn ddarpariaeth Cod 15 ond, yn hytrach, cytundeb rhwng y PSA a'i gyllidwyr TCP i beidio â chynnwys rhoddion i elusennau fel rhan o'u cyfrifiadau ardoll.
- 12.43 Rydym wedi penderfynu cadw'r eithriad presennol ar gyfer rhoddion elusennol o'r cyfrifiad ardoll presennol. Rydym yn derbyn y ddadl bod elusennau'n wahanol i fathau eraill o CPRS i'r graddau eu bod wedi'u sefydlu er budd y cyhoedd yn unig a bod eu hunig ddiben yn elusennol, h.y. nid ydynt yn ceisio gwneud elw ac mae'r holl arian a godant yn mynd tuag at gyflawni eu nodau.
- 12.44 Fodd bynnag, ac o ystyried statws cyfreithiol y Gorchymyn PRS, er mwyn cadw eithriad ar gyfer rhoddion elusennol o'n cyfrifiadau ardoll, yn wahanol i'r trefniadau presennol, byddai angen i ni eithrio rhoddion elusennol yn benodol o'n cyfrifiadau ardoll yn y Gorchymyn PRS. Rydym yn cynnig gwneud hyn drwy ddiwygio'r diffiniad o "refeniw PRS" drwy gynnwys eithriad penodol ar gyfer unrhyw ffioedd a osodir at ddibenion y defnyddwyr hynny sy'n rhoi i elusen.
- 12.45 Yr ydym hefyd wedi ystyried sylwadau Donr Ltd y dylai gwasanaethau loteri cymdeithas gael eu heithrio o gyfrifo'r ardoll. Nid yw'r gwasanaethau hyn wedi'u heithrio o gyfrifiad ardoll y PSA ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw nad ydynt yn cael eu hystyried yn debyg i roddion i elusennau ac nid yw 100% yn mynd drwy'r refeniw PRS. Ar y sail hon, nid ydym yn cytuno bod rhoddion elusennol a gwasanaethau loteri cymdeithas yn wasanaethau union yr un fath, felly yr ydym wedi penderfynu peidio â chynnwys gwasanaethau loteri cymdeithas o gyfrifiadau'r ardoll.

Atebolrwydd TCPs i dalu costau gweinyddol

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.46 Roeddem yn cynnig y dylai TCPs fod yn gyfrifol am drefniadau cyllido drwy gyflwyno'r term "gweithredwr rhwydwaith atebol". Fe wnaethom nodi bod y cynnig hwn, i bob pwrpas, yn cadw dull presennol y PSA o ymdrin â threfniadau cyllido. Roeddem hefyd wedi dweud ei bod hi'n bwysig nodi mai dim ond TCPs sy'n dod o fewn y diffiniad o "weithredwr rhwydwaith" fel y'i diffinnir yn y Ddeddf fyddai'n atebol. Y rheswm am hyn yw mai dim ond y bobl hynny y byddai disgwyl fel arfer iddynt gael trefniadau neu gontractau'n uniongyrchol gyda chyfryngwyr neu fasnachwyr.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.47 Gofynnodd Mobile UK am eglurhad pellach ynghylch trefniadau TCP ac OCP. Nododd y gallai MNOs fod y naill neu'r llall, ac o dan baragraff 4.20(a) y ddogfen ymgynghori, nododd nad yw OCPs yn ysgwyddo'r baich o dalu'r ardoll.

Ein penderfyniad

- 12.48 Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig mai dim ond TCPs ddylai fod yn gyfrifol am drefniadau cyllido o dan y Gorchymyn PRS drwy gyflwyno'r term "gweithredwr rhwydwaith atebol". Unwaith eto, rydym yn credu ei bod yn briodol cadw'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y PSA sy'n mynnu bod gweithredwyr rhwydwaith yn talu ei ardollau o dan God 15.
- 12.49 Wrth ymateb i sylwadau Mobile UK, rydym yn cytuno y gall darparwyr cyfathrebiadau (ac, yn benodol, MNOs) weithredu fel OCP a TCP. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw hyn yn ffactor perthnasol at ddibenion rheoleiddio PRS, nac o ran sut mae'r model cyllido PRS yn berthnasol i rwydweithiau. Y rheswm am hyn yw nad yw OCPs yn dod o dan y diffiniad statudol o berson sy'n darparu PRS o dan adran 120(9) y Ddeddf, sef ein man cychwyn ar gyfer pobl y gellir eu rheoleiddio o dan y Gorchymyn PRS. Felly, nid yw ein diffiniad o "weithredwr rhwydwaith atebol" o dan y Gorchymyn PRS yn cynnwys OCPs fel gweithredwyr rhwydwaith sy'n cael eu rheoleiddio. Mewn geiriau eraill, pan fydd MNO yn gweithredu fel OCP a TCP, dim ond gweithgareddau'r MNO fel TCP sy'n berthnasol yn y cyd-destun hwn.

Trothwyon diffiniedig

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.50 Roeddem yn cynnig cymhwyso trothwy i lefel de minimis o alldaliadau o £10,000 ac eithrio o'r trefniadau cyllido TCPs llai y mae cyfanswm eu halldaliadau mewn blwyddyn galendr berthnasol yn llai na £10,000 heb gynnwys TAW.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.51 Ni chawsom unrhyw ymatebion ar fater trothwyon diffiniedig.

Ein penderfyniad

- 12.52 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i eithrio gweithredwyr rhwydwaith y mae eu trosiant perthnasol mewn blwyddyn berthnasol yn is na £10,000 heb gynnwys TAW.

Gwybodaeth ariannol

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.53 Roeddem yn cynnig casglu'r data "alldaliadau" gan TCPs yn flynyddol drwy ddefnyddio "Cais Cyffredinol" cyhoeddedig am wybodaeth. Fe wnaethom nodi, yn ymarferol, y byddai hyn i bob pwrpas yn golygu y byddem yn cyhoeddi un hysbysiad am wybodaeth sy'n cael ei gyfeirio at bob TCP, yn hytrach na chyhoeddi hysbysiadau unigol i bob TCP (fel sy'n cael ei wneud o dan God 15).

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.54 Gofynnodd Mobile UK a VMO2 am eglurder ynghylch a fyddai hysbysiadau gwybodaeth yn cael eu rhoi i bob TCP ac, os felly, roeddent yn gofyn am eglurhad ynghylch sut byddai Ofcom yn diogelu gwybodaeth sy'n gyfrinachol yn fasnachol.

Ein penderfyniad

- 12.55 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion mewn perthynas â gwybodaeth ariannol. Rydym o'r farn y bydd defnyddio un hysbysiad gwybodaeth ar ffurf Cais Cyffredinol i'w gyhoeddi gan Ofcom yn unol ag erthygl 55 y Gorchymyn PRS yn symlach i Ofcom ei weinyddu na chyhoeddi hysbysiadau unigol. Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr rhwydwaith sy'n atebol i dalu ein ffioedd o dan erthygl 14 hefyd yn debygol o fod yn gyfarwydd ag ymateb i'n Cais Cyffredinol tebyg sy'n cael ei gyfeirio at y rheini sy'n atebol i dalu ein ffioedd am reoleiddio'r sector telathrebu.¹²⁵ Felly, mae'r dull hwn hefyd yn sicrhau cysondeb a symleiddio ar draws y sectorau. Yn hynny o beth, rydym eisoes yn casglu gwybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol ac mae gennym brosesau cadarn ar waith i sicrhau bod yr holl wybodaeth o'r fath yn ddiogel. Yn wir, bydd y cyfyngiadau cyffredinol ar ddatgelu gwybodaeth a osodir ar Ofcom o dan adran 393 y Ddeddf hefyd yn berthnasol i'r wybodaeth rydym yn ei chasglu gan ddefnyddio'r Cais Cyffredinol hwn.

Methodoleg gyllido arfaethedig Ofcom

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.56 Roeddem yn cynnig defnyddio'r fformiwla ganlynol at ddibenion cyfrifo tâl gweinyddol (AC) TCP:

$$AC = [(DAE + O) \div TOP] \times NOS:$$

- a) "DAE" – cyfanswm amcangyfrifedig o'r gwariant perthnasol yr amcangyfrif yr ysgwyddwyd yn y flwyddyn codi tâl o dan sylw, ynghyd ag unrhyw addasiadau i ddelio â diffyg neu warged yn y flwyddyn flaenorol;

¹²⁵Gweler ein Cais Cyffredinol diweddaraf ar gyfer y sector telathrebu yma:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/265251/annual-networks-services-s135-demand-tsa-update.pdf

- b) "O" - dosraniad rhesymol o'n costau gorbenion amcangyfrifedig y gellir eu priodoli i wariant o'r fath ar gyfer y flwyddyn codi tâl dan sylw; a
- c) rydym yn sefydlu'r AC drwy, yn gyntaf, rannu cyfanswm ein costau wedi'u cyllidebu (h.y. DAE + O) â chyfanswm alldaliadau bob TCP yn y flwyddyn galendr berthnasol (wedi'i fyrhau i "TOP") ac, yn ail, drwy luosi'r cyniferydd â chyfanswm alldaliadau TCP yn y flwyddyn galendr berthnasol (wedi'i fyrhau i "NOS").

12.57 Fe wnaethom hefyd nodi ein bod yn ceisio cysoni ein methodoleg â model y PSA sy'n cael ei ariannu gan ardoll, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, byddai ein costau adferadwy wedi'u cyfyngu i'r rhai y cyfeirir atynt yn adran 122(4) y Ddeddf.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.58 Dadleuodd Three nad oedd digon o fanylion yn y Gorchymyn PRS drafft a'r ddogfen ymgynghori ynghylch sut bydd y costau perthnasol yn cael eu cyfrifo, gan gynnwys diffyg eglurder ynghylch termau fel "gwariant perthnasol" a "gorbenion". Mynegodd bryder, oni bai fod mwy o eglurder, y byddai Ofcom yn cael gormod o ddisgresiwn i ddosrannu costau.
- 12.59 Mynegodd Mobile UK bryder y gallai'r cyfrifiad a ddefnyddir fod yn seiliedig ar wasanaethau llais yn unig yn hytrach na phob gwasanaeth.

Ein penderfyniad

12.60 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r fethodoleg gyllido arfaethedig fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori.

Eglurhad ychwanegol ar ein methodoleg gyllido

- 12.61 O ran darparu eglurhad ychwanegol ar ein methodoleg gyllido, byddem yn gwneud y sylwadau canlynol.
- a) Mewn blwyddyn godi tâl arferol, byddai costau Ofcom ar gyfer y sector PRS yn cynnwys y canlynol:
 - i) *Costau uniongyrchol* h.y. costau staff a chostau eraill (e.e. ymchwil) ymgymryd â'n dyletswyddau statudol yn y sector hwn.
 - ii) *Cyfran gymesur o gostau anuniongyrchol* (yn seiliedig ar gyfran y sector o gyfanswm y costau uniongyrchol) gan gynnwys adeiladau, TGCh, Adnoddau Dynol, Cyllid.
 - iii) *Amcangyfrif o'r gwarged/diffyg ar gyfer y flwyddyn godi tâl flaenorol*, lle bo hynny'n berthnasol (gan fod anfonebau'n seiliedig ar gostau wedi'u cyllidebu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol).
 - b) Yn unol â hynny, o ran ein fformiwla at ddibenion cyfrifo tâl gweinyddol (AC) TCP, byddem yn nodi'r canlynol:
 - i) "DAE" yw cyfanswm amcangyfrifedig o'r gwariant perthnasol yr amcangyfrifir yr ysgwyddwyd yn y flwyddyn codi tâl o dan sylw, ynghyd ag unrhyw addasiadau i ddelio â diffyg neu warged. Byddai hyn yn cael ei gynrychioli gan swm (a)(i) ac (a)(iii) a ddisgrifir uchod.
 - ii) "O" yw dosraniad rhesymol o'n costau gorbenion amcangyfrifedig y gellir eu priodoli i wariant o'r fath ar gyfer y flwyddyn codi tâl dan sylw. Byddai hyn yn cael ei gynrychioli gan (a)(ii) a ddisgrifir uchod.
 - iii) rydym yn sefydlu'r AC drwy, yn gyntaf, rannu cyfanswm ein costau wedi'u cyllidebu (h.y. DAE + O) â chyfanswm alldaliadau bob TCP yn y flwyddyn galendr berthnasol

(wedi'i fyrhau i "TOP") ac, yn ail, drwy luosi'r cyniferydd â chyfanswm alldaliadau TCP yn y flwyddyn galendr berthnasol (wedi'i fyrhau i "NOS").

Egluro diffiniadau

- 12.62 Roedd nifer o geisiadau hefyd am esboniadau ychwanegol sy'n cael eu defnyddio yn ein cyfrifiad. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:
- "Gorbenion"*: mae hyn yn cynrychioli eitemau a nodwyd fel y costau sy'n hwyluso perfformiad Ofcom o ran ei ddyletswyddau ac sy'n cael eu rhannu ar draws pob un o'r sectorau ar sail deg a chyfartal h.y. eu cyfran o gyfanswm y costau. Mae hyn yn cynnwys gwahanol dimau a swyddogaethau, gan gynnwys rhent ac offer, yn Ofcom, fel Pobl a Diwylliant, Cyfleusterau a Chyllid. Er enghraifft, gan dybio bod gan Ofcom 5 sector rheoleiddio gyda chostau wedi'u cyllidebu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wedi'u rhannu fel a ganlyn (sector A: 45%; sector B: 25%; sector C: 15%; sector D: 10%; sector E: 5%), byddai pob un o'r sectorau hyn yn cael cyfran o orbenion ar sail eu cyfran o'r costau uniongyrchol a gyllidebwyd. Felly, byddai gan sector C, er enghraifft, 15% o gyfanswm y gorbenion a gyllidebwyd wedi'u dosrannu iddo fel ei gyfran deg.
 - "Gwariant perthnasol"*: mae hyn yn cynrychioli'r holl gostau rheoleiddio y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r sector PRS o fewn ystyr yr ymadrodd hwn (fel y'i diffinnir yn erthygl 14(7)) ynghyd â chyfran gymesur o orbenion.

Cwmpas ein cyfrifiad

- 12.63 Nid ydym yn cytuno â sylwadau Mobile UK bod ein cyfrifiad arfaethedig yn seiliedig ar wasanaethau llais yn unig. Rydym o'r farn bod hyn yn gamddealltwriaeth o ran sut rydym wedi drafftio ein cyfrifiad arfaethedig. Yn benodol, rydym yn nodi nad ydym wedi cynnwys unrhyw gyfeiriadau yn ein cyfrifiadau a fyddai'n awgrymu bod ein cyfrifiad yn gyfyngedig fel hyn.

Codi tâl a'r flwyddyn galendr berthnasol

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.64 Roeddem yn cynnig seilio'r broses o gyfrifo alldaliadau ar flynyddoedd calendr blaenorol er mwyn arbed gorfod addasu ffioedd yn ystod y flwyddyn ariannol. Fe wnaethom nodi y dylai hyn leihau'r baich gweinyddol ar Ofcom a rhanddeiliaid.
- 12.65 Dywedasom fod y cyfnod y bydd y ffioedd yn berthnasol iddo yn cael ei alw'n "flwyddyn godi tâl" a fydd fel arfer rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Fodd bynnag, roeddem hefyd yn cynnig mai'r "flwyddyn galendr berthnasol" fyddai'r cyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar 1 Ionawr yn y flwyddyn ddiwethaf ond un flwyddyn galendr cyn y flwyddyn codi tâl dan sylw. Er enghraifft, byddai ffioedd 2024/25 yn seiliedig ar werth alldaliadau 2022 (blwyddyn galendr). Roeddem wedi nodi bod y dull hwn yn gyson â'r dull rydym yn ei ddefnyddio i osod ffioedd ar gyfer y sector telathrebu ac, felly, rydym yn disgwyl y bydd effaith gyfyngedig ar weithredwyr rhwydweithiau presennol o dan God 15.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.66 Dadleuodd TalkTalk fod y "flwyddyn galendr berthnasol" yn seiliedig ar alldaliadau yn 2022 ond mae'n pennu'r ffioedd y mae angen eu talu yn 2024/25. Dywedodd fod hyn yn oedi rhy hir mewn marchnad sy'n amrywio'n gyson ac y dylai taliadau gael eu seilio ar sail fwy

diweddar i roi darlun mwy realistig o wasanaethau ac alldaliadau a wneir o fewn cyfnod penodol.

- 12.67 Dywedodd Telecom2 Ltd y byddai'n hoffi i'r taliadau gael eu seilio ar ôl-daliad yn hytrach na rhagdaliad fel bod hyn yn seiliedig ar wir refeniw a dderbynnir yn hytrach na refeniw rhagamcanol.
- 12.68 Dywedodd Action 4 Limited ei fod yn deall y bydd y mecanwaith ar gyfer cyllid Ofcom yn wahanol i'r PSA ond y dylai hyn weithio i'r diwydiant. Gofynnodd Action 4 Limited hefyd sut rydym yn disgwyl i gwmnïau dalu "dirwyon" o fewn 30 diwrnod, fel y nodir yn erthygl 14(4) y Gorchymyn PRS drafft.

Ein penderfyniad

- 12.69 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â chodi tâl a blynyddoedd calendr, yn amodol ar fân newidiadau drafftio esboniadol i'r termau "blwyddyn godi tâl" a "blwyddyn galendr berthnasol". Mewn perthynas â "blwyddyn godi tâl", mae hyn yn cynnwys nodi bod y cyfnod cyntaf yn erthygl 14(7)(a) y Gorchymyn PRS yn dechrau ar y dyddiad cychwyn newydd ar gyfer y Gorchymyn PRS, sef 1 Chwefror 2025. Mae hyn yn golygu y bydd y flwyddyn godi tâl gyntaf yn ddau fis o hyd (1 Chwefror – 31 Mawrth 2025).

Diffiniad o "flwyddyn galendr berthnasol"

- 12.70 Rydym wedi diffinio "blwyddyn galendr berthnasol" i fod yn gyson â'r dull rydym yn ei ddefnyddio wrth osod ffioedd ar gyfer y sector telathrebu. Unwaith eto, rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o weithredwyr rhwydwaith a fydd yn atebol i dalu ein ffioedd o dan erthygl 14 y Gorchymyn PRS yn gyfarwydd â'r dull hwn. Rydym yn credu bod gan y dull hwn nifer o fanteision, gan gynnwys:
- byddai alldaliadau yn seiliedig ar refeniw gwirioneddol (wedi'i archwilio). Byddai hyn yn golygu llai o faich gweinyddol ar y rheoleidiwr a rhanddeiliaid perthnasol, gan mai dim ond unwaith y flwyddyn y byddai casglu data refeniw ac anfonebu yn digwydd;
 - byddai'r ffioedd yn fwy rhagweladwy gan na fyddem yn codi tâl bob chwarter ar sail data refeniw wedi'i ddiweddarau; a
 - byddai'r ardoll yn seiliedig ar gostau a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn dilyn ein proses gyfrifyddu diwedd blwyddyn, byddai unrhyw or-adennill neu dan-adennill costau yn cael ei adlewyrchu yn yr ardoll a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.
- 12.71 Mae'n bwysig nodi hefyd y byddem yn cynnal ymarfer cysoni ar gyfer costau a gyllidebwyd a chostau alldro ar gyfer y flwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn. I'r graddau bod ein alldro yn llai na'r gyllideb (er enghraifft, oherwydd llai o waith na'r disgwyl), byddai'r ffioedd ar gyfer y flwyddyn godi tâl ganlynol yn cael eu haddasu yn unol â hynny.

Oedi gormodol rhwng y "flwyddyn godi tâl" a'r "flwyddyn galendr berthnasol"

- 12.72 Nodwn y byddai newydd-ddyfodiaid neu bobl yn gadael y farchnad pa bynnag gyfnod y byddwn yn seilio'r refeniw arno. Er y byddai defnyddio refeniw mwy diweddar yn golygu bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ardoll yn gyflymach, mae'r ardoll yn seiliedig ar gostau wedi'u cyllidebu a fyddai bob amser angen eu haddasu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- 12.73 Hefyd, rydym yn nodi y gallai cyfran gymharol y farchnad newid o un flwyddyn i'r llall ond er budd ymarferoldeb a data y gellir ei ddilysu, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod gennym sylfaen sefydlog i gyfrifo'r ardoll flynyddol a gyllidebwyd arno.

Cyn v ar ôl talu

- 12.74 Ein dull gweithredu yw seilio ffioedd ar refeniw hanesyddol (dwy flynedd galendr ymlaen llaw). Yn ymarferol, dylai hyn olygu y byddai ffioedd yn seiliedig ar refeniw gwirioneddol yn hytrach na refeniw rhagamcanol.

Amseru ar gyfer talu dirwyon

- 12.75 Rydym hefyd wedi ystyried sylwadau Action 4 Limited mewn perthynas ag erthygl 14(4) y Gorchymyn PRS drafft. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod hyn yn seiliedig ar gamddealltwriaeth gan fod hyn yn ymwneud ag amseru ar gyfer talu ein ffioedd gweinyddol, nid dirwyon. Rydym o'r farn ei bod yn amserlen resymol i fynnu bod anfonebau am ein ffioedd gweinyddol yn cael eu talu'n llawn gan weithredwyr rhwydwaith atebol o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn ein hanfoneb, os yw'r swm yn hafal i neu'n llai na £75,000. Os yw'r swm yn fwy na £75,000, rydym hefyd yn credu ei bod yn briodol i weithredwyr o'r fath dalu mewn rhandaliadau misol cyfartal ar neu cyn y 30ain diwrnod ar ôl derbyn ein hanfoneb. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn ein sectorau eraill sy'n cael eu rheoleiddio (y post, teledu a rhwydweithiau a gwasanaethau, yn benodol).¹²⁶

Alldaliadau

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.76 Roeddem yn cynnig adlewyrchu'r cysyniad o "alldaliadau" i raddau helaeth fel y'u diffinnir ym mharagraff 7.1.1(a) Cod 15. Roedd ein diffiniad arfaethedig o "alldaliadau" fel a ganlyn:
- "mae'n golygu'r cyfanswm hwnnw o'r symiau sy'n daladwy gan weithredwr rhwydwaith atebol i gyfryngwyr a masnachwyr mewn perthynas â refeniw PRS".*

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.77 Ni chawsom unrhyw ymatebion ynghylch ein diffiniad arfaethedig o "alldaliadau".

Ein penderfyniad

- 12.78 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n diffiniad arfaethedig o "alldaliadau".

Refeniw PRS

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.79 Fe wnaethom gynnig diffiniad newydd o "refeniw PRS" at ddibenion y Gorchymyn PRS drafft. Roedd ein diffiniad arfaethedig fel a ganlyn:
- "...y cyfanswm net a drosglwyddir i weithredwr rhwydwaith gan ddarparwr cyfathrebiadau gwreiddiol mewn perthynas â ffioedd a osodir gan y darparwr ar ei ddefnyddwyr gwasanaethau cyfathrebu electronig ar gyfer darparu CPRS, ynghyd ag unrhyw gyfleusterau sydd ar gael iddynt".*

¹²⁶Gweler paragraff 3.8 o'n [datganiad cyhoeddus o egwyddorion codi tâl](#).

- 12.80 Fe wnaethom ddweud mai'r rheswm dros ddrafftio'r diffiniad hwn oedd oherwydd ein bod yn credu bod TCP yn annhebygol o wybod am y trafodiadau CPRS sy'n cael eu gwneud gan gwsmeriaid OCP lle mae'r TCP ac OCP yn wahanol ddarparwyr.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.81 Ni chawsom unrhyw ymatebion i'n diffiniad arfaethedig o "refeniw PRS".

Ein penderfyniad

- 12.82 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen yn fras â'n diffiniad arfaethedig o "refeniw PRS" ac eithrio cynnwys eithriad penodol ar gyfer unrhyw ffioedd a osodir at ddibenion y defnyddwyr hynny sy'n rhoi i elusen. Fel y nodwyd ym mharagraffau 12.42 – 12.45 uchod, rydym am barhau i eithrio rhoddion elusennol o'r cyfrifiad ardoll cyfredol ac rydym wedi penderfynu mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy ddiwygio'r diffiniad o "refeniw PRS" drwy gynnwys eithriad penodol ar gyfer unrhyw ffioedd a godir at ddibenion y defnyddwyr hynny sy'n rhoi i elusen.

Cosbau

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.83 Yn wahanol i'r PSA, fe wnaethom ddweud na fyddem yn gallu defnyddio arian a gasglwyd drwy gosbau i wrthbwysu swm yr arian sydd i'w gasglu. Yn benodol, fe wnaethom nodi bod yr holl gosbau ariannol sy'n cael eu gosod gan Ofcom yn cael eu trosglwyddo i Drysorlys EF a/neu'r Gronfa Gyfunol berthnasol. Nid yw Ofcom yn cael unrhyw fanteision ariannol, ac nid yw'n statudol yn gallu gwneud defnydd o unrhyw gosbau ariannol a ddaw i law.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.84 Mynegodd aimm ac Infomedia ill dau bryder na fyddai modd defnyddio casglu dirwyon yn y dyfodol o dan reoliad Ofcom i wrthbwysu'r ardoll, ond, yn hytrach, byddent yn mynd i Drysorlys EF. Roeddent yn nodi bod hyn yn hanesyddol yn fesur lliniaru pwysig ar gyfer effaith yr ardoll ar weithredwyr rhwydweithiau, a drwy ddileu'r mesurau lliniaru hyn byddai'n anochel y byddai cost sylweddol uwch yn sgil trosglwyddo'r ardoll i lawr drwy'r gadwyn gwerth i gyfryngwyr a masnachwyr. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.

Ein penderfyniad

- 12.85 Rydym yn cadarnhau ein cynnig sy'n ymwneud â chosbau ac, yn benodol, na fydd Ofcom yn gallu defnyddio arian a gesglir drwy gosbau i wrthbwysu'r symiau o arian sydd i'w casglu. Y rheswm am hyn yw bod adran 400(2) y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Ofcom i dalu unrhyw symiau a gawn am gosbau a roddir o dan y Gorchymyn PRS (gweler adran 400(1)(a) y Ddeddf) i'r Gronfa Gyfunol. Felly, byddwn yn trosglwyddo pob cosb o'r fath i Drysorlys EF.

Gofyniad ar weithredwyr rhwydweithiau i gadw taliadau perthnasol (erthygl 53)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.86 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr rhwydweithiau gadw taliadau perthnasol i ddarparwr PRS arall am o leiaf 30 diwrnod ac eithrio ar gyfer taliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau loteri cymdeithas.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.87 Roedd Action 4 Limited a Mobile UK yn cefnogi ein cynigion.
- 12.88 Holodd aimm a Donr Ltd ynghylch y bwriad i eithrio gwasanaethau loteri cymdeithas. Roedd Donr Ltd, yn benodol, yn dadlau y dylai rhoddion elusennol elwa o'r dull gweithredu hwn, h.y. y dylid eu heithrio o gwmpas yr erthygl hefyd, gan eu bod yn cael eu hystyried yn risg is. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.

Ein penderfyniad

- 12.89 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion fel y nodir yn y Gorchymyn PRS drafft. Mae'r gofyniad hwn yn cyflawni rôl hanfodol o ran diogelu defnyddwyr gan ei fod yn atal darparwyr PRS rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau a allai fod â'r potensial o niweidio defnyddwyr. Mae hyn oherwydd bod gweithgareddau o'r fath yn debygol o gael eu canfod gan ddefnyddwyr neu rwydweithiau o fewn y cyfnod o 30 diwrnod ac, felly, mae'n golygu y gellir dal taliadau'n ôl tra yr ymchwilir i'r gweithgarwch amheus, gan fod yn ddatgymhelliad i'r darparwyr PRS hynny a allai fod yn dueddol o niweidio defnyddwyr.
- 12.90 O ran yr eithriad ar gyfer gwasanaethau loteri cymdeithas, rydym yn nodi mai'r unig fwriad yw i hyn efelychu'r eithriad presennol o'r gofyniad o dan God 15.¹²⁷ Rydym yn nodi mai'r rhesymeg dros yr eithriad ar gyfer gwasanaethau loteri cymdeithas yw sicrhau cydnawsedd rhwng gofynion darparwyr PRS i atal taliadau ac Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer ("LCCP") y Comisiwn Hapchwarae.¹²⁸ Yn benodol, mae rheol 11.1.9 y LCCP yn mynnu bod hyrwyddwr loteri cymdeithas yn cael taliad am bris tocyn cyn y gellir rhoi neu ddyrannu gwobrau i unigolyn.

Gofyniad ar weithredwyr i gadw cofnodion o rifau cyfradd premiwm (erthygl 54)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.91 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr rhwydwaith gadw cofnodion ysgrifenedig o unrhyw rif PRS sy'n cael ei drosglwyddo, neu sydd wedi cael ei drosglwyddo, o weithredwr y rhwydwaith i berson arall, neu sy'n cael ei ddefnyddio gan berson arall heb gyfarwyddyd na rheolaeth y gweithredwr rhwydwaith.

¹²⁷ <https://psauthority.org.uk/-/media/Files/PSA/00NEW-website/For-business/Does-my-service-benefit-from-an-exemption/Code-15-exemptions/Society-Lottery-Exemption-16-02-2022.ashx>

¹²⁸ [Licence conditions and codes of practice \(LCCP\) \(gamblingcommission.gov.uk\)](https://www.gamblingcommission.gov.uk/licence-conditions-and-codes-of-practice-lccp)

Sylwadau rhanddeiliaid

- 12.92 Gofyn aimm am eglurder ynghylch a yw ein gofyniad arfaethedig yn berthnasol i wasanaethau llais yn unig neu a oedd hefyd yn cynnwys codau byr. Nododd, pe bai'n cynnwys codau byr, y gallai fod hyn wedi'i gwmpasu eisoes gan y wybodaeth gaiff ei recordio yn short-codes.com. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.

Ein penderfyniad

- 12.93 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig yn amodol ar ddiwygio'r drafft i egluro nad yw codau byr llais o fewn cwmpas y gofyniad ar rwydweithiau i gadw cofnodion.
- 12.94 Roedd yr erthygl, fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, yn diffinio rhif PRS fel “rhif ffôn—
(a) sy'n cael ei ddefnyddio neu sydd wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu PRS rheoledig, a
(b) a oedd naill ai—
(i) wedi'i ddyrannu i'r gweithredwr rhwydwaith gan OFCOM, neu
(ii) a drosglwyddwyd i'r gweithredwr rhwydwaith gan berson arall.”
- 12.95 Bydd i'r term “rhif ffôn” yr ystyr a roddir iddo yn adran 56(5) y Ddeddf¹²⁹ ac, ar ôl ystyried y mater hwn, rydym o'r farn y byddai cadw'r diffiniad hwn yn golygu y byddai codau byr llais yn cael eu cynnwys yng nghwmpas yr erthygl. Nid dyna fwriad y polisi gan y byddai'n cynrychioli newid sylweddol yn y cwmpas o'r gofynion presennol ym mharagraff 6.2.6 Cod 15 sy'n seiliedig ar “rifau PRS” ac felly nid oes gofyniad i gadw cofnodion o godau byr llais. Nid ydym yn gweld unrhyw resymau dros gynnwys codau byr llais o fewn cwmpas yr erthygl hon.
- 12.96 Felly, rydym wedi defnyddio'r term “rhif cyfradd premiwm”, fel y nodir yn erthygl 3(8) y Gorchymyn PRS, i adlewyrchu bwriad y polisi nad yw codau byr llais o fewn cwmpas yr erthygl hon.

Gofynion i ddarparu gwybodaeth i Ofcom (Erthygl 55)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.97 Roeddem yn cynnig cynnwys pwerau i Ofcom fynnu bod darparwyr PRS yn darparu gwybodaeth i ni sy'n angenrheidiol yn ein barn ni at ddibenion cyflawni ein swyddogaethau o dan, neu yn rhinwedd, y Gorchymyn PRS.
- 12.98 Rydym hefyd yn nodi at ba ddibenion roeddem yn cynnig y byddai Ofcom yn gallu gofyn am wybodaeth gan ddarparwr PRS. Roedd hyn yn cynnwys:
- canfod a yw gofyniad a osodwyd o dan y Gorchymyn PRS drafft wedi'i dorri neu yn cael ei dorri;
 - canfod neu ddilysu'r ffioedd sy'n daladwy gan berson o dan Ran 3 y Gorchymyn PRS drafft;
 - cael copi o ganlyniadau profion diogelwch perthnasol a gynhaliwyd gan gyfryngwyr; ac

¹²⁹Gweler a.11 Deddf Dehongli 1978 – bydd termau sy'n berthnasol i'r rhannau perthnasol o'r ddeddf “rhiant” y gwneir y Gorchymyn PRS oddi tani, h.y. y Ddeddf, yn gymwys i'r Gorchymyn.

- d) asesu unrhyw gamau a gymerwyd, neu drefniadau, gan ddarparwr PRS i gydymffurfio â'r Gorchymyn PRS, gan gynnwys (heb gyfyngiad) unrhyw bolisiau ysgrifenedig, gweithdrefnau neu ddogfennau ysgrifenedig eraill sy'n cofnodi unrhyw gamau neu drefniadau o'r fath.

Ymatebion rhanddeiliaid

- 12.99 Dywedodd Action 4 Limited ei bod yn ymddangos bod y gofynion arfaethedig yn synhwyrol ac y dylent fod yn hyfedr ar gyfer y diwydiant.
- 12.100 Roedd Mobile UK hefyd wedi cadarnhau bod MNOs yn fodlon â'n cynigion.
- 12.101 Roedd aimm, BBC Plant mewn Angen a Donr Ltd yn cwestiynu a ddylai ein cynigion ddatgan y gall Ofcom ofyn am wybodaeth sy'n "rhesymol ac yn briodol" ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau, yn hytrach nag "angenrheidiol". Eglurodd Donr Ltd y byddai hyn yn sicrhau bod ymchwiliadau'n parhau'n deg a bod gan Ofcom ofyniad i wneud penderfyniadau y gellir eu cyfiawnhau wrth ofyn am wybodaeth gan unrhyw bartïon yr ymchwilir iddynt. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 12.102 Cwestiynodd Telecom2 Ltd erthygl 57(3)(a) y Gorchymyn PRS drafft sy'n ymwneud â'n cynnig y gallai fod yn ofynnol i ddarparwyr PRS gasglu neu gadw unrhyw wybodaeth na fyddai'r darparwr PRS yn ei chasglu na'i chadw fel arall. Gofynnodd am eglurder na fydd y gofyniad hwn yn cael ei osod yn ôl-weithredol a dim ond os yw'r darparwr yn gallu casglu data o'r fath.

Ein penderfyniad

- 12.103 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion yn amodol ar rai newidiadau drafftio er mwyn gwella eglurder. Nid ydym yn credu y bydd ein cynigion yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddarparwyr PRS gan eu bod yn adlewyrchu'n fras ehangder y wybodaeth y gall y PSA ofyn amdani o dan God 15 a'r ffordd y mae'r PSA yn gofyn am y wybodaeth honno.
- 12.104 Nid ydym yn cytuno ag ymatebion sy'n cynnig y dylem ddisodli "angenrheidiol" â "rhesymol a phriodol" at ddibenion gofyn am wybodaeth. Mae'r prawf "angen" yn brawf gwrthrychol sy'n golygu y bydd yn rhaid i Ofcom gyfiawnhau'n wrthrychol pam mae angen unrhyw gais am wybodaeth. Dyma'r un cyfyngiad a roddir ar ein pwerau rheoleiddio mewn sectorau eraill.¹³⁰ Pan fydd Ofcom yn arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Gorchymyn PRS, bydd ein dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 y Ddeddf hefyd yn berthnasol. Felly, wrth wneud ceisiadau am wybodaeth, byddai adran 3(3) y Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn ystyried egwyddorion rheoleiddio fel cymesuredd ac ymyriadau wedi'u targedu. Ar ben hynny, mae erthygl 55(5)(b) y Gorchymyn PRS yn atal Ofcom rhag mynnu gwybodaeth o dan erthygl 55(1) oni bai fod gwneud cais am y wybodaeth yn gymesur â'r defnydd a wneir o'r wybodaeth i gyflawni swyddogaethau Ofcom o dan y Gorchymyn PRS.
- 12.105 Mewn perthynas â sylwadau Telecom2 Ltd, nid ydym yn siŵr beth a olygir gan y cyfeiriad at gymhwyso'r gofyniad i gasglu a chadw gwybodaeth yn "ôl-weithredol". Nod y ddarpariaeth hon yw ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gadw neu gasglu gwybodaeth nad ydynt efallai wedi'i chasglu'n barod, er enghraifft oherwydd nad oes ganddynt angen busnes i'w chasglu. Dull arferol Ofcom o gasglu gwybodaeth yw anfon ceisiadau am wybodaeth ar ffurf drafft i

¹³⁰Gweler a13(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003; a32A (1) Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006; a pharagraff 1 Atodlen 8 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011

ddarparwyr roi sylwadau arnynt cyn cyhoeddi'r hysbysiad terfynol. Mewn ymateb i gais drafft, neu'r hysbysiad terfynol ei hun, gall darparwyr ddweud bod yr wybodaeth eisoes wedi cael ei dileu (os yw hynny'n wir) neu roi rhesymau pam nad yw'n bosibl casglu'r wybodaeth (eto, os yw hynny'n wir) fel rhan o'u cyflwyniadau i gael eu hystyried gan Ofcom. Dylid nodi y byddai darparu gwybodaeth ffug mewn ymateb i gais am wybodaeth yn torri amodau'r Gorchymyn PRS, ac felly ni ddylid gwneud cyflwyniadau o'r fath oni bai eu bod yn wirioneddol berthnasol o dan yr amgylchiadau.

Cadw cofnodion (Erthygl 56)

Cynigion yr ymgynghoriad

- 12.106 Roeddem yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wneud a chadw "cofnod perthnasol" am gyfnodau penodol. Diffiniwyd "cofnod perthnasol" fel cofnod ysgrifenedig yr oedd yn ofynnol ei wneud a'i gadw o dan y Gorchymyn PRS drafft, yn ogystal ag unrhyw gofnod arall y gallai darparwr PRS fod wedi'i gadw fel ffordd o ddangos cydymffurfiad â gofynion eraill o dan y Gorchymyn PRS drafft. Roeddem yn cynnig cadw cyfnodau cadw data PSA o:
- 2 flynedd, pan fo cofnod perthnasol yn ymwneud â gofyniad a osodir ar ddarparwr PRS o dan Rannau 2, 3, 5, 6 a 7 y Gorchymyn PRS drafft; a
 - 3 blynedd, pan fo cofnod perthnasol yn ymwneud â gofyniad a osodir ar ddarparwr PRS o dan Ran 4 y Gorchymyn PRS drafft h.y. sy'n ymwneud â gofynion diwydrwydd dyladwy ac asesu risg.
- 12.107 Roeddem hefyd yn cynnig bod yn rhaid i ddarparwyr gadw cofnodion perthnasol am fwy o amser na'r cyfnodau cadw data arferol ar ôl i Ofcom roi gwybod iddynt fod ymchwiliad wedi cael ei agor ac am gyn hired ag y mae'r ymchwiliad hwnnw'n mynd rhagddo (gweler paragraffau 11.38 – 11.43 am ein cynnig a'n penderfyniad ynghylch y gofyniad hwn).

Ymatebion rhanddeiliaid

- 12.108 Cytunodd Action 4 Limited, y Groes Goch Brydeinig a Mobile UK â'n cynigion.
- 12.109 Gofynnodd aimm, BBC Plant mewn Angen, Channel 4, Channel 5, a Telecom2 Ltd am eglurhad ynghylch a allent ddefnyddio is-gontractwyr trydydd parti i gadw gwybodaeth ar eu rhan.
- 12.110 Dywedodd Donr Ltd nad oedd y PSA yn mynnu bod unrhyw ddata a oedd yn ymwneud â chydsynio i godi tâl yn cael eu cadw am gyfnod o fwy na dwy flynedd. Roedd hyn yn golygu, er enghraifft, na fyddai gan ddefnyddiwr sydd wedi cael ei filio am wasanaeth tanysgrifio am dair blynedd y cofnod o'r caniatâd gwreiddiol i godi tâl wedi'i gadw ar ôl y flwyddyn gyntaf. Roedd yn gofyn i'r disgwyliad y bydd y data caniatâd gwreiddiol i godi tâl yn cael ei ddileu dros amser gael ei adlewyrchu yn ein cynigion er mwyn cwmpasu'r arferion gweithio presennol yn y ffordd orau.
- 12.111 Gofynnodd TÜV SÜD Limited sut roedd cynigion yn gweithio yng nghyd-destun Deddf Diogelu Data 2018 a sut byddai "yr hawl i gael ei ddileu"¹³¹ yn cael ei ddiogelu.

¹³¹Rydym yn deall bod hyn yn gyfeiriad at hawl unigolyn i ddileu o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (a elwir hefyd yn "hawl i gael ei anghofio").

Ein penderfyniad

- 12.112 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion. Yn benodol, rydym yn credu ei bod yn briodol cadw cyfnodau cadw data'r PSA gan fod y PSA wedi ymgynghori arnynt yn 2019 ac nid oes tystiolaeth nad yw'r cyfnodau cadw yn ddigonol.
- 12.113 Gall darparwyr ddefnyddio is-gontractwyr trydydd parti i wneud a chadw cofnodion ar eu rhan. Fodd bynnag, mae'n dal yn ddyletswydd ar y darparwyr i wneud a chadw cofnodion o'r fath. Dylai darparwyr sicrhau bod eu trefniadau cytundebol yn golygu y gallant fynnu bod unrhyw drydydd partiön y maent wedi contractio gyda nhw i gadw cofnodion yn darparu'r cofnodion hynny pan fo angen.
- 12.114 Nid ydym yn credu bod gwrthdaro rhwng gofynion cadw cofnodion a deddfwriaeth diogelu data (Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data). Bydd yn rhaid i ddarparwyr PRS ystyried eu rhwymedigaethau cadw data o dan y ddwy gyfundrefn. Ni fydd y Gorchymyn PRS yn nodi gofynion diogelu data felly bydd angen i ddarparwyr gael cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain neu ofyn am gyngor gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'n amlwg o'r canllawiau bod y PSA yn mynnu bod data'n cael ei gadw am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf, a bod angen cadw data sy'n ymwneud â darpariaethau DDRAC Cod 15 (gweler adran 3.9 Cod 15) am o leiaf dair blynedd. Nid yw'r PSA yn ei gwneud yn ofynnol i ddata o'r fath gael ei ddileu ar ôl y cyfnodau hyn ac felly, gan ystyried enghraifft Donr, gall darparwr PRS gadw data o'r fath am gyfnod hirach, os oes angen. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn erthygl 56 y Gorchymyn PRS gan ein bod yn ystyried bod y rhain yn gyfnodau byr addas i ddarparwyr gadw gwybodaeth o'r fath. Mater i'r darparwyr PRS wedyn yw penderfynu am ba hyd, ar ôl i'r cyfnodau sylfaenol yn erthygl 56 ddod i ben, y mae angen iddynt gadw gwybodaeth o'r fath. Felly, nid oes angen newid yr erthygl i adlewyrchu'r ffaith mai dim ond am y cyfnod sylfaenol y bydd rhai darparwyr PRS yn cadw'r cofnodion.

13. Casgliadau cyffredinol a'r camau nesaf

- 13.1 Mewn adrannau blaenorol o'r datganiad hwn, rydym wedi nodi ein hystyriaethau o sylwadau rhanddeiliaid ar ein darpariaethau arfaethedig yn y Gorchymyn PRS drafft y buom yn ymgynghori arno, ynghyd â'n rhesymau dros wneud ein penderfyniadau ar y darpariaethau penodol hynny sydd bellach wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn PRS.
- 13.2 Yng ngoleuni'r materion manwl hynny, mae'r adran hon yn nodi ein casgliadau cyffredinol ar faterion cysylltiedig drwy gyfeirio at ddyletswyddau statudol perthnasol a'r profion cyfreithiol a osodir ar Ofcom. Wrth wneud hynny, rydym yn crynhoi ein safbwyntiau ar y beichiau rheoleiddio y mae Ofcom yn eu rhoi ar ddarparwyr PRS o dan y Gorchymyn PRS fel rhan o'n hasesiad o'r effaith ("IA"). Rydym hefyd yn nodi ein IA penodol ar gydraddoldeb a'r Gymraeg, ynghyd â'n hystyriaeth o sylwadau rhanddeiliaid ar yr effeithiau penodol hynny.
- 13.3 Fel rhan o'r casgliadau cyffredinol hynny, rydym hefyd yn rhoi sylw i sylwadau rhanddeiliaid ar ein cyfnod gweithredu arfaethedig. Rydym yn cwblhau'r adran hon drwy egluro ein camau nesaf disgwylidig yn ogystal â beth yw ein disgwyliadau uniongyrchol o ddarparwyr PRS o ran sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion o dan y Gorchymyn PRS.

Ein hasesiad cyffredinol

- 13.4 Yn adran 6 ein hymgyngoriad, rydym yn nodi ein hasesiad cyffredinol o'n pecyn o gynigion. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid a oeddent yn cytuno â'n hasesiad dros dro bod ein cynigion yn gyfiawnadwy, yn anwahaniaethol, yn gymesur ac yn dryloyw, ac fe wnaethom hefyd eu gwahodd i ddarparu rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eu safbwyntiau. Rydym yn nodi isod ein hystyriaethau o sylwadau rhanddeiliaid ar y mater hwn.

Cynigion yr ymgynghoriad

- 13.5 Fe wnaethom ddweud yn ein hymgyngoriad ein bod yn credu y bydd effaith gyfunol ein cynigion yn arwain at fanteision sylweddol i'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb mewn, neu yr effeithir arnynt, gan PRS.
- 13.6 Fe wnaethom nodi bod y Gorchymyn PRS drafft yn cynnwys mesurau diogelu defnyddwyr, gyda'r bwriad o liniaru'r risg o niwed sylweddol posibl i ddefnyddwyr. Mae'r mesurau hynny wedi esblygu dros y blynyddoedd drwy waith rheoleiddio'r PSA ac roeddem yn cynnig cadw mesurau o'r fath i raddau helaeth am y rhesymau y cawsant eu mabwysiadu a'u cymeradwyo gan Ofcom yn y lle cyntaf.
- 13.7 Fe wnaethom hefyd drafod yn yr ymgynghoriad, fodd bynnag, achosion lle'r oeddem yn cynnig gwneud newidiadau sylweddol i'r sefyllfa o dan God 15 (boed hynny drwy gyflwyno gofynion newydd, dileu gofynion blaenorol neu eu newid yn sylweddol). Er mwyn helpu dealltwriaeth rhanddeiliaid o newidiadau sylweddol o'r fath, roeddem wedi cynnwys tabl cydberthyniad yn Atodiad 8 yr ymgynghoriad sy'n dangos gofynion cyfatebol yn ogystal â newidiadau yn y Gorchymyn PRS drafft o'i gymharu â Chod 15.
- 13.8 Wrth benderfynu ar ein cynigion, fe wnaethom egluro ein bod wedi ystyried ein dyletswyddau o dan adran 3 y Ddeddf ac, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, adran 4 y

Ddeddf, yr ydym yn eu disgrifio yn adran 2 y datganiad hwn. Fe wnaethom egluro ein bod yn credu, yn benodol, y byddai'r Gorchymyn PRS drafft (a fyddai'n cael ei orfodi gyda chefnogaeth ein haddasiadau arfaethedig i'r Amod PRS) yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hynny, nid yn unig oherwydd y byddai ein cynigion yn cyd-fynd â phrif ddyletswydd Ofcom i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, ond hefyd oherwydd y byddent yn hybu mwy o hyder defnyddwyr yn y farchnad PRS ac, o ganlyniad, yn annog buddsoddiad ac arloesi, a hyrwyddo cystadleuaeth, yn y sector.

- 13.9 Roeddem hefyd wedi dweud ein bod wedi ystyried yr egwyddorion y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu. Roeddem o'r farn bod y Gorchymyn PRS drafft a'r addasiadau arfaethedig i'r Amod PRS yn cydymffurfio â'r egwyddorion hynny gan ein bod wedi ystyried yn ofalus pa ddarpariaethau presennol yng Nghod 15 oedd yn briodol i'w cadw neu (yn ôl y digwydd) eu dileu, a pha ddarpariaethau eraill y dylid eu hychwanegu neu eu newid. Roeddem hefyd o'r farn bod y Gorchymyn PRS drafft yn rhoi eglurder a sicrwydd i bob parti sy'n ymwneud â'r sector PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

Cefnogaeth eang i'n hasesiad cyffredinol

- 13.10 Rydym yn nodi bod rhanddeiliaid yn gefnogol i'n hasesiad ar y cyfan, er bod rhai rhanddeiliaid wedi mynegi rhai pryderon penodol. Yn benodol, dywedodd aimm¹³², y Groes Goch Brydeinig, BT, Fonix, Infomedia, Mobile UK, Telecom2 Ltd a VMO2 eu bod yn cytuno â'n hasesiad. Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.
- 13.11 Fodd bynnag, cododd rhanddeiliaid rai pwyntiau ychwanegol yr ydym yn delio â nhw isod.

Canllawiau Ofcom ar sut mae rhoi'r Gorchymyn PRS ar waith

- 13.12 Dywedodd y Groes Goch Brydeinig, er bod ein cynigion yn dryloyw, y byddai'n ddefnyddiol pe bai Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau cysylltiedig fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Gorchymyn PRS.
- 13.13 Nid ydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau o'r fath ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl y bydd darparwyr PRS eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Gorchymyn PRS, gan eu bod i raddau helaeth yn ceisio cadw'r gofynion a osodir gan God 15. Ar gyfer gofynion newydd, neu ofynion sydd wedi newid yn sylweddol o'u cymharu â Chod 15, rydym o'r farn bod yr iaith yn y Gorchymyn PRS yn glir ac yn fanwl gywir o ran beth mae'n rhaid i ddarparwyr PRS ei wneud i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Rydym hefyd wedi ymateb mewn adrannau blaenorol o'r datganiad hwn i bwyntiau penodol a godwyd gan rhanddeiliaid yn eu hymatebion, ac rydym yn credu y dylai ein hesboniadau helpu darparwyr PRS yn hynny o beth.

Defnyddio hunan-reoleiddio yn y dyfodol

- 13.14 Roedd BT yn credu y dylai Ofcom barhau i fonitro tueddiadau ac, yn y tymor hwy, ystyried dull gweithredu mwy hunan-reoleiddiol gan chwaraewyr yn y gadwyn gwerth.
- 13.15 Er ein bod yn deall bod pwynt BT ynghylch monitro tueddiadau a symud at fodel hunanreoleiddio yn cael ei gyfeirio at y dyfodol, rydym wedi ystyried pa mor ddymunol yw

¹³²Roedd cytundeb aimm yn amodol ar bwyntiau penodol a nodwyd yn eu hymateb, lle'r oedd aelodau'n cwestiynu rhai o'r cynigion ac yn awgrymu dewisiadau eraill.

hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o ddatblygu a defnyddio mathau effeithiol o hunanreoleiddio wrth ddod i'n casgliadau ar y Gorchymyn PRS (fel y mae'n ofynnol i ni ei wneud o dan adrannau 3 a 6 y Ddeddf). Fodd bynnag, ein barn ni yw nad yw'r materion y mae'n ofynnol i ni eu datblygu neu eu sicrhau o dan adran 3 y Ddeddf yn debygol o gael eu datblygu na'u sicrhau drwy hunanreoleiddio effeithiol ar hyn o bryd.

- 13.16 Yn benodol, rydym yn nodi bod yna hanes o ddarparwyr PRS yn cymryd rhan mewn arferion niweidiol yn y sector PRS sydd wedi arwain at niwed i ddefnyddwyr a diffyg ymddiriedaeth defnyddwyr yn y farchnad, gan gael effaith negyddol ar ddarparwyr sy'n cydymffurfio a thwf cyffredinol y farchnad. Felly, rydym o'r farn nad yw dileu rheoleiddio yn opsiwn ymarferol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu goruchwyllo a monitro cydymffurfiad yn barhaus er mwyn monitro tueddiadau a chydymffurfiad â'r gofynion.

Cod Ymarfer MNO

- 13.17 Argymhellodd BT, Mobile UK, VMO2 a Vodafone y dylid diwygio'r Gorchymyn PRS drafft i gydnabod rôl bwysig a hanfodol Codau Ymarfer MNO fel rhan o reoleiddio'r sector PRS. Roeddent yn dadlau y byddai'r dull hwn yn sicrhau nad yw unrhyw gamau rheoleiddio a gymerir gan weithredwyr rhwydweithiau symudol i leihau risg yn wynebu her gyfreithiol.
- 13.18 Rydym yn nodi bod Codau Ymarfer MNO, i bob pwrpas, yn godau gwirfoddol (sy'n cael eu gorfodi drwy gontractau gan y MNOs a'u partion contractio) ac, o'r herwydd, maent yn fath o hunanreoleiddio. Rydym eisoes wedi egluro uchod pam ein bod o'r farn na all hunanreoleiddio, i bob pwrpas, hyrwyddo neu sicrhau'r materion y mae'n ofynnol i ni eu sicrhau o dan adran 3 y Ddeddf ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mater i'r diwydiant yw penderfynu sut mae'n dymuno bwrw ymlaen â Chodau Ymarfer MNO o dan y drefn reoleiddio newydd, gan ystyried y gofynion sydd wedi'u nodi yn y Gorchymyn PRS. Credwn nad oes rheswm pam na all MNOs barhau i weithredu codau o'r fath fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd o dan God 15, ar yr amod eu bod yn gwneud hynny yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn PRS.

Rhagor o graffu gan Ofcom ar gydymffurfiad darparwyr PRS

- 13.19 Roedd TÜV SÜD Limited yn dadlau, er bod y Gorchymyn PRS drafft yn diweddar ac yn disodli'r drefn PRS bresennol, ei fod yn dal i fethu sicrhau cydymffurfiad â gofynion y Gorchymyn PRS. Yn benodol, roedd yn poeni nad oes gofyniad i ddangos cydymffurfiad parhaus â'r Gorchymyn PRS drafft ac y dylai Ofcom ystyried craffu mwy ar ddarparwyr PRS drwy naill ai fonitro parhaus neu archwiliadau cyfnodol, gan gyrff a gymeradwywyd gan Ofcom, o'r systemau a'r rheolaethau a ddefnyddir gan ddarparwyr PRS i gynnal cydymffurfiad â'r Gorchymyn PRS drafft.
- 13.20 Rydym wedi ystyried pryderon TÜV SÜD Limited ynghylch a yw'r Gorchymyn PRS ei hun yn methu â sicrhau cydymffurfiad â gofynion y Gorchymyn PRS, gan gynnwys a oes angen cynnwys gofynion i ddangos cydymffurfiad parhaus, sy'n golygu bod angen craffu mwy ar ddarparwyr PRS. Ein barn ni yw y bydd monitro'r farchnad PRS yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion o dan y Gorchymyn PRS. Felly, rydym yn bwriadu gwneud hynny drwy weithgarwch archwilio arferol a goruchwyliaeth barhaus a monitro cydymffurfiad, adolygiadau cyfnodol o'r farchnad gyffredinol a thueddiadau, yn ogystal â chyfathrebu'n rheolaidd â phobl y mae'r rheoliad hwn yn debygol o effeithio arnynt.

Ein penderfyniad ar y Gorchymyn PRS

- 13.21 Yng ngoleuni ein hystyriaeth o sylwadau rhanddeiliaid ar yr holl faterion sy'n cael sylw yn y datganiad hwn, fe wnaethom benderfynu ar 21 Hydref 2024 i wneud y Gorchymyn PRS, sydd wedi'i gyhoeddi'n swyddogol yn <https://www.legislation.gov.uk/>. Rydym yn trafod isod pryd y bydd y gofynion o dan y Gorchymyn PRS yn dechrau bod yn berthnasol (h.y. cychwyn), ynghyd ag amseroedd gweithredu cysylltiedig.
- 13.22 Cyn gwneud y Gorchymyn PRS, cawsom ganiatâd yr Ysgrifennydd Gwladol ar 17 Hydref 2024, fel sy'n ofynnol o dan adran 122(6) y Ddeddf.
- 13.23 Fel yr eglurwyd yn ein hymgyngoriad, effaith gyffredinol y Gorchymyn PRS yw:
- osod gofynion mewn perthynas â darpariaeth a chynnwys CPRS, ac mewn perthynas â'r cyfleusterau a ddarperir wrth ddarparu CPRS o'r fath (gan gynnwys darpariaeth ynghylch prisio);
 - gosod gofynion mewn perthynas â'r trefniadau a wneir gan y darparwyr ar gyfer hyrwyddo a marchnata'r gwasanaethau hynny;
 - darparu ar gyfer gorfodi'r gofynion hynny; a
 - darparu ar gyfer gwneud trefniadau eraill at ddibenion y gofynion hynny.
- 13.24 Wrth wneud hynny, rydym wedi dibynnu ar ein pwerau i wneud y darpariaethau hynny y mae Ofcom yn credu sy'n briodol o dan adrannau 122(2) i 122(4) y Ddeddf (fel y disgrifir eisoes yn adran 2 y datganiad hwn), ynghyd â'n pwerau o dan adran 403(7) y Ddeddf, sef:
- gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol (gan gynnwys darpariaeth wahanol mewn perthynas ag ardaloedd gwahanol);
 - gwneud darpariaeth yn ddarostyngedig i unrhyw esemptiadau ac eithriadau sy'n briodol ym marn Ofcom; a
 - gwneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol a throsiannol sy'n briodol ym marn Ofcom.
- 13.25 Wrth wneud y penderfyniad hwn, rydym hefyd wedi ystyried effaith debygol gweithredu'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn PRS ar fusnesau yn ogystal ag ar bobl â nodweddion gwarchoddedig (effeithiau cydraddoldeb) a'r Gymraeg. Mae ein hystyriaethau yn y cyswllt hwnnw wedi'u nodi'n fanylach isod.
- 13.26 Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod gwneud y Gorchymyn PRS yn briodol ac yn angenrheidiol i sicrhau neu i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni ein dyletswyddau cyffredinol yn adran 3 y Ddeddf, yn ogystal â'n galluogi i weithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn adran 4 y Ddeddf. Yn hynny o beth rydym yn nodi eto bod y Gorchymyn PRS yn cynnwys mesurau diogelu defnyddwyr, gyda'r bwriad o liniaru'r risg o niwed sylweddol posibl i ddefnyddwyr. Felly, rydym wedi rhoi sylw penodol i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a hyrwyddo buddiannau holl aelodau'r cyhoedd yn y DU yn unol â'r ail ofyniad yn adran 4(5) y Ddeddf.

Ein penderfyniad ar yr addasiadau i'r Amod PRS

- 13.27 Rydym wedi egluro yn adran 2 y datganiad hwn mai pwrpas Amod PRS Ofcom yw sicrhau y cydymffurfir â chyfarwyddiadau a roddir yn unol â chod cymeradwy (Cod 15 ar hyn o bryd) gan yr awdurdod gorfodi (yma, y PSA) ac at ddibenion gorfodi ei ddarpariaethau. Yn wir, y ddarpariaeth cydymffurfio hon yw'r unig ddarpariaeth y gellir ei gwneud gan yr Amod PRS.¹³³

¹³³ Gweler adran 120(3) o'r Ddeddf.

- 13.28 Fodd bynnag, os nad oes cod o'r fath, mae adran 120(3)(b) y Ddeddf hefyd yn rhagweld y bydd Ofcom yn gwneud darpariaeth yn yr Amod PRS sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person y mae'r Amod yn berthnasol iddo gydymffurfio, i'r graddau sy'n ofynnol gan yr Amod, â darpariaethau'r gorchymyn sydd mewn grym am y tro o dan adran 122. Roedd yr Amod PRS blaenorol eisoes yn cynnwys darpariaeth o'r fath,¹³⁴ er nad oes gorchymyn mewn grym ar hyn o bryd o dan adran 122 y Ddeddf.
- 13.29 Yn ein hymgyngoriad, yn unol ag adran 120A(3) y Ddeddf, fe wnaethom gyhoeddi hysbysiad ar ein cynnig i wneud rhai addasiadau i'r Amod PRS yng ngoleuni ein Gorchymyn PRS drafft arfaethedig. Er ein bod wedi cynnig cadw'n sylweddol y ddwy ddarpariaeth gydymffurfio yn yr Amod PRS blaenorol, nodwyd mai un o brif effeithiau'r addasiadau arfaethedig hynny oedd diffinio'r bobl y byddai'r Amod PRS newydd (wedi'i addasu) yn berthnasol iddynt fel darparwyr PRS o fewn yr ystyr a roddir gan y Gorchymyn PRS sydd mewn grym am y tro o dan adran 122 y Ddeddf.
- 13.30 Mewn geiriau eraill, roeddem yn cynnig addasu'r Amod PRS fel bod yn rhaid i bob darparwr PRS gydymffurfio â darpariaethau'r gorchymyn sydd mewn grym am y tro o dan adran 122 y Ddeddf. I'r gwrthwyneb, roedd yr Amod PRS blaenorol yn berthnasol i "Ddarparwyr Cyfathrebu" a "Darparwyr Gwasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir", yn y drefn honno, ac roedd y naill a'r llall wedi'u diffinio yn yr Amod hwnnw.
- 13.31 Fodd bynnag, roeddem yn cynnig parhau i gymhwyso'r Amod PRS i'r ddau fath o ddarparwr (fel y'u diffinnir yn yr Amod PRS blaenorol) i sicrhau cydymffurfiad â chyfarwyddiadau gorfodi blaenorol a roddwyd gan y PSA o dan ei godau (h.y. Cod 15 yn ogystal â fersiynau blaenorol o god a gymeradwywyd gan Ofcom). Roedd y gofyniad cydymffurfio hwn (ynghyd â rhai trefniadau pontio a gynigiwyd o dan Ran 10 y Gorchymyn PRS drafft) yn ceisio sicrhau trosglwyddiad llyfn o'r PSA i Ofcom, yn enwedig fel nad oes bylchau rheoleiddiol yn codi.
- 13.32 Rydym yn cadarnhau ein cynigion ar gyfer gwneud yr addasiadau arfaethedig i'r Amod PRS, gyda dim ond ychydig o fân newidiadau testunol. Yn benodol, fel y trafodwyd yn adran 11 y datganiad hwn, y prif newid rydym wedi'i wneud yw adlewyrchu bod yn rhaid i bob darparwr PRS (fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn PRS) gydymffurfio â'r Gorchymyn PRS, yn hytrach nag unrhyw ddiwygiadau i'r Gorchymyn yn y dyfodol (yn unol â'n Gorchymyn PRS drafft). Credwn fod y newid hwn yn ychwanegu eglurder a sicrwydd cyfreithiol. Os byddwn yn gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Gorchymyn PRS yn y dyfodol, rydym hefyd yn disgwyl addasu'r Amod PRS ar yr un pryd yn unol â hynny.
- 13.33 Wrth wneud yr addasiadau hyn, rydym yn fodlon eu bod yn bodloni'r prawf yn adran 47(2) y Ddeddf. Yn benodol, rydym yn fodlon bod ein haddasiadau fel a ganlyn:
- a) **gellir eu cyfiawnhau'n wrthrychol** gan eu bod yn angenrheidiol i'r Amod PRS sicrhau cydymffurfiad gan yr un darparwyr â'r rheini sy'n cael eu diffinio fel darparwyr PRS yn y Gorchymyn PRS;
 - b) **ddim yn gwahaniaethu'n ddiangen** yn erbyn personau penodol neu yn erbyn disgrifiad penodol o bersonau, gan y byddai'r Amod PRS yn gymwys yn gyffredinol i bob person sy'n dod o fewn ystyr darparwr PRS (fel y'i diffinnir yn erthygl 9 y Gorchymyn PRS) heb gael ei gyfeirio at unrhyw berson penodol;

¹³⁴Mae'r Amod PRS presennol yn nodi: "1. Bydd y Darparwr Cyfathrebiadau a'r Darparwr Gwasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir yn cydymffurfio â'r canlynol: (a) cyfarwyddiadau a roddir yn unol â Chod Cymeradwy gan yr Awdurdod Gorfodi ac at ddibenion gorfodi darpariaethau'r Cod Cymeradwy; a (b) os nad oes Cod Cymeradwy, darpariaethau'r gorchymyn sydd mewn grym am y tro o dan adran 122 y Ddeddf."

- c) **yn gymesur** â'r hyn y bwriedir i'r addasiadau ei gyflawni o ran eu bod yn briodol i fynd i'r afael â'r nod o gysoni'r diffiniadau yn yr Amod PRS â'r Gorchymyn PRS, ac mae'n ofynnol iddynt hefyd fynd i'r afael â'r nod hwnnw; a
- d) **yn dryloyw** mewn perthynas â'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni, gan fod ein haddasiadau wedi'u drafftio'n glir yn yr Amod PRS ei hun (wrth eu darllen gyda'r Gorchymyn PRS).
- 13.34 Rydym hefyd o'r farn y bydd effaith debygol gweithredu'r addasiadau hyn ar randdeiliaid yn isel. Y rheswm am hyn yw mai ein bwriad yw cwmpasu'r un bobl yn fras ag y mae'r Amod PRS presennol yn berthnasol iddynt.
- 13.35 Wrth wneud y penderfyniad hwn, rydym wedi ystyried a gweithredu yn unol â'n dyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 3 y Ddeddf, a'r chwe gofyniad a nodir yn adran 4, am resymau sy'n gysylltiedig â gwneud y Gorchymyn PRS ei hun. Yn hynny o beth, rydym yn nodi, fel darpariaeth gydymffurfio yn unig, bod ein resymau dros wneud yr addasiadau i'r Amod PRS yn uniongyrchol gysylltiedig â'r angen i sicrhau cydymffurfiaid â'r Gorchymyn PRS.
- 13.36 Rydym hefyd wedi ystyried a yw'r ddyletswydd twf (fel y'i cyflwynwyd gan Ddeddf Dadreoleiddio 2015) yn effeithio ar ein casgliadau ar y materion a drafodir yn y datganiad hwn. Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn,¹³⁵ rydym wedi ystyried y canllawiau statudol.¹³⁶ Fel y rhagwelwyd yn y canllawiau hynny, rydym wedi ystyried a yw'r mesurau a nodir yn y Gorchymyn PRS yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'n dyletswyddau eraill a drafodir uchod. Er bod y mesurau yn y Gorchymyn PRS yn ymwneud yn sylfaenol â'r amcan o ddiogelu defnyddwyr, rydym wedi egluro yn ein Dadansoddiad o'r Effaith pam rydym yn credu bod y mesurau hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur. Er enghraifft, rydym wedi ceisio lleihau'r baich rheoleiddio o'i gymharu â Chod 15, lle bo hynny'n briodol, gan leihau'r gost i ddarparu'r PRS o gydymffurfio â'n gofynion rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys lleihau a symleiddio gofynion sy'n ymwneud â chofrestru (gweler adran 4), symleiddio gofynion sy'n ymwneud â DDRAC (gweler adran 5) a symleiddio gofynion sy'n ymwneud â systemau a llwyfannau (gweler hefyd adran 5). Mewn perthynas â'n dull gweithredu ar gyfer gorfodi'r Amod PRS, rydym wedi diwygio ein canllawiau gorfodi presennol i ddarparu cymaint o eglurder â phosibl i randdeiliaid. Rydym o'r farn bod gweithredu i gefnogi defnyddwyr yn y ffordd a amlinellir yn y datganiad hwn yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy.
- 13.37 I'r graddau y mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i delathrebu, wrth wneud yr addasiadau i'r Amod PRS, rydym hefyd wedi ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer telathrebu, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 2A y Ddeddf ar 29 Hydref 2019 (SSP).¹³⁷ Yn wir, mae blaenoriaethau strategol y Llywodraeth yn y SSP yn cynnwys mynd i'r afael ag arferion niweidiol yn y diwydiant a gwella'r cymorth sydd ar gael i ddefnyddwyr agored i niwed, sy'n gallu talu mwy nag eraill, a mynd i'r afael â'r anawsterau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu

¹³⁵ Mae'r Gorchymyn PRS yn is-ddeddfwriaeth ac felly mae wedi'i eithrio o dan erthygl 2 Gorchymyn Twf Economaidd (Swyddogaethau Rheoleiddio) 2017, ac mae'r Amod PRS yn chwarae rôl unigryw o ran ei fod ond yn gofyn am gydymffurfio â'r Gorchymyn PRS.

¹³⁶ https://assets.publishing.service.gov.uk/media/66476caebd01f5ed32793e09/final_growth_duty_statutory_guidance_2024.pdf

¹³⁷ https://assets.publishing.service.gov.uk/media/60016add8fa8f55f6156b4a4/SSP_-_as_designated_by_S_of_S_V2.pdf

wrth lywio'r farchnad gyfathrebu drwy roi'r data, yr wybodaeth a'r cymorth priodol iddynt i hybu eu hymgysylltiad.

- 13.38 Mae ein hysbysiad statudol sy'n gwneud yr addasiadau uchod i'r Amod PRS yn unol ag adran 120A(1) y Ddeddf wedi'i gyhoeddi yn Atodiad 1 i'r datganiad hwn.

Ein penderfyniad i dynnu ein cymeradwyaeth i God 15 yn ôl

- 13.39 O ganlyniad i'n penderfyniadau uchod, rydym hefyd wedi penderfynu na fyddai'n briodol parhau i roi ein cymeradwyaeth i God 15 at ddibenion adran 121 y Ddeddf. Yn y cyd-destun hwn, y rhesymeg polisi cyffredinol yw y bydd y cyfrifoldeb dros reoleiddio PRS o ddydd i ddydd yn cael ei drosglwyddo o'r PSA i Ofcom. Felly, rydym yn fodlon nad oes mwych berson priodol sydd â'r swyddogaeth o weinyddu a gorfodi cod ar gyfer rheoleiddio darpariaeth a chynnwys PRS, a'r cyfleusterau sydd ar gael wrth ddarparu gwasanaethau o'r fath. Yn wir, dyma brif nod y Gorchymyn PRS.
- 13.40 Rydym wedi penderfynu y bydd y broses tynnu'n ôl hon yn dod i rym yn union cyn y diwrnod y daw'r Gorchymyn PRS i rym. Fodd bynnag, bydd cyfarwyddiadau gorfodi a roddir yn unol â Chod 15 gan y PSA yn parhau i fod yn berthnasol, ac felly ni fydd y tynnu'n ôl yn effeithio arnynt. Felly, fel sy'n cael ei egluro yn ein hymgyngoriad, bydd Ofcom nawr yn parhau i gael pwerau i sicrhau cydymffurfiaid â chyfarwyddiadau o'r fath drwy orfodi'r Amod PRS.
- 13.41 Mae ein hysbysiad statudol sy'n tynnu ein cymeradwyaeth i God 15 yn ôl yn unol ag adran 121(7) y Ddeddf, wedi'i gyhoeddi yn Atodiad 2 i'r datganiad hwn.

Asesiad effaith cyffredinol

Ein dull gweithredu

- 13.42 Mae Asesiadau Effaith yn ffordd werthfawr o asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Yn fwy cyffredinol, mae Asesiadau Effaith yn rhan o arferion llunio polisiâu da ac felly, rydyn ni'n disgwyl eu cynnal yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n cynigion. Maent yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.
- 13.43 Yn benodol, yn unol ag adran 7 y Ddeddf, rhaid i Asesiad Effaith nodi sut, yn ein barn ni, y mae cyflawni ein dyletswyddau cyffredinol (o fewn ystyr adran 3 y Ddeddf) yn cael ei sicrhau neu ei hybu gan y rheoliad rydym yn ei osod neu mewn perthynas â'r hyn a gynigiwn. Fodd bynnag, y tro hwn, rydym o'r farn nad oes dyletswydd arnom i gyhoeddi Asesiad Effaith fel y cyfryw o dan yr adran 7 honno mewn perthynas â'r penderfyniadau a wneir yn y datganiad. Y rheswm am hyn yw nad yw ein cynigion fel y'u nodir yn ein hymgyngoriad yn bwysig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 7(2) y Ddeddf.¹³⁸

¹³⁸Ein barn ni yw, gan fod y Gorchymyn PRS yn ceisio cadw'r gofynion a osodir gan God 15 i raddau helaeth, nid yw'r Gorchymyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar ddarparwyr PRS na'r cyhoedd yn gyffredinol. Hefyd, er ein bod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddio o ddydd i ddydd dros reoleiddio PRS, rydym o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd hyn yn golygu newid mawr yn ein gweithgareddau oherwydd ein bod eisoes wedi cael goruchwyliaeth reoleiddiol dros reoleiddio PRS.

- 13.44 Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu asesu effeithiau tebygol y Gorchymyn PRS yn unol â'n canllawiau Asesu Effaith (fel y'u diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2023) sy'n nodi ein dull cyffredinol o asesu effaith ein penderfyniadau arfaethedig.¹³⁹

Ein hasesiad cyffredinol

- 13.45 Mae'r dadansoddiad rydyn ni'n ei gyflwyno yn y datganiad hwn yn cynrychioli Asesiad o'r Effaith ar ein penderfyniadau i ymgorffori swyddogaethau rheoleiddio'r PSA yn Ofcom. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn ategu'r asesiad o'r effeithiau yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â chyhoeddi'r Gorchymyn PRS, fel y'i darparwyd gan DSIT.¹⁴⁰
- 13.46 Rydym eisoes wedi egluro yn adran 1 y datganiad hwn mai ein hamcan cyffredinol yng nghyd-destun y bwriad i drosglwyddo cyfrifoldebau rheoleiddio o'r PSA i Ofcom yw sicrhau bod y drefn PRS yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol ac yn effeithlon i Ofcom a sicrhau nad oes bylchau mewn rheoleiddio a gorfodi fel rhan o'r broses o drosglwyddo cyfrifoldebau. I'r perwyl hwnnw, mae'r Gorchymyn PRS yn cadw llawer o brif egwyddorion a chanlyniadau Cod 15 er mwyn cyflawni'r un canlyniadau'n fras i ddefnyddwyr a rhanddeiliaid. Yn hyn o beth, ein hasesiad yw bod ein cynigion yn parhau i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â'r farchnad PRS a chynnal baich rheoleiddiol cymesur ar ddarparwyr.
- 13.47 Yn benodol, rydym o'r farn na fydd llawer o'n penderfyniadau yn arwain at fawr o wahaniaeth mewn ymarfer i ddarparwyr o'i gymharu â'r trefniadau presennol o dan God 15. Y rheswm am hyn yw bod ein penderfyniadau i raddau helaeth yn dyblygu, neu'n debyg iawn, i'r trefniadau presennol. Ar y cyfan, rydym wedi ceisio ysgafnhau'r baich rheoleiddiol ar y diwydiant, lle bo hynny'n briodol. Lle rydym wedi cryfhau rheoliadau, rydym o'r farn bod modd cyfiawnhau'r beichiau rheoleiddiol yn wrthrychol ac maent yn angenrheidiol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu ar eu taith PRS gyfan. Yn unol â'n dyletswyddau statudol, rydym wedi egluro effeithiau ein penderfyniadau ar y diwydiant ac yn eu hystyried yn gymesur, gan adlewyrchu'r angen i sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael eu diogelu rhag y niwed posibl sy'n deillio o ddefnyddio CPRS.
- 13.48 Yn benodol, rydym o'r farn bod y tri gofyniad ychwanegol canlynol yn y Gorchymyn PRS (o'i gymharu â Chod 15) yn cynrychioli'r newidiadau mwyaf sylweddol, sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf, ac mae modd cyfiawnhau'r rhain yn wrthrychol ac maent yn angenrheidiol i ddiogelu defnyddwyr sy'n defnyddio PRS:
- cael gwared ar esemptiadau cofrestru ar gyfer masnachwyr sy'n gweithredu rhifau PRS sy'n dechrau gyda 087 a chodau byr llais sy'n costio 20c neu lai;
 - newidiadau i'r gofynion hysbysu ar gyfer masnachwyr esempt lle bydd esemptiadau masnachwyr rhag cofrestru ond yn berthnasol pan fydd y cyfryngwr cymwys wedi rhoi ymrwymiad cyffredinol eu bod yn bodloni'r amodau, gan gynnwys cadw cofnodion perthnasol unrhyw fasnachwyr sydd wedi'u hesemptio a darparu'r cofnodion hyn i Ofcom ar gais; ac
 - ymestyn y gofynion i bob darparwr PRS nad ydynt yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a reoleiddir oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion yn erthygl 39 mewn perthynas â defnyddwyr agored i niwed.

¹³⁹ <https://www.ofcom.org.uk/cy/about-ofcom/corporate-policies/draft-impact-assessment-guidance/?language=cy>

¹⁴⁰ https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/1046/pdfs/uksiem_20241046_en_001.pdf

- 13.49 Hefyd, fel y soniwyd yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â chyhoeddi'r Gorchymyn PRS, rydym hefyd wedi mesur y costau a'r manteision canlynol ar draws y diwydiant:
- a) cost drosglwyddo untro o £800,000;
 - b) arbedion ffioedd cofrestru o £120,000 y flwyddyn;
 - c) cost amser untro o oddeutu £1,000 ar gyfer y nifer fach o ddarparwyr 087 sydd bellach angen darparu gwybodaeth gofrestru; a
 - d) costau ymgyfarwyddo i ddarparwyr PRS ar gyfer deall darpariaethau'r Gorchymyn PRS (o'i gymharu â Chod 15) o tua £270,000.

Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

Ein dull gweithredu

- 13.50 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('EA 2010') yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oed; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
- 13.51 Mae EA 2010 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom roi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.
- 13.52 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ('NIA 1998') hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal¹⁴¹ ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategoriâu a amlinellir yn NIA 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn esbonio sut rydyn ni'n cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan NIA 1998.¹⁴²
- 13.53 Er mwyn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan EA 2010 a NIA 1998, rydym yn asesu effaith ein cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig ac, yn benodol, a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfle cyfartal neu gysylltiadau da.
- 13.54 Wrth feddwl am gydraddoldeb, rydyn ni'n meddwl yn fwy eang na phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb, ac yn meddwl am yr effeithiau posib ar wahanol grwpiau o bobl (gweler paragraff 4.7 yn ein canllawiau ar asesu effaith).
- 13.55 Yn benodol, mae adran 3(4) y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi sylw i anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl wrth gyflawni ein dyletswyddau, fel y bo'n berthnasol dan yr amgylchiadau yn ein tyb ni. Mae'r rhain yn cynnwys:
- a) natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau, yn ein barn ni, yn golygu bod angen gwarchodaeth arbennig arnynt;

¹⁴¹ Mae hon yn ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl o wahanol gred crefyddol, barn wleidyddol, grŵp hil, oedran, statws priodasol neu gyfeiriadedd rhywiol; rhwng dynion a merched yn gyffredinol; rhwng pobl ag anabled a phobl heb anabled; a rhwng pobl â dibynyddion a phobl heb ddibynyddion.

¹⁴² Ofcom, 2014 (diweddarwyd 2019).

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0023/123737/Revised-NI-Equality-Scheme.pdf

- b) anghenion pobl anabl, pobl hŷn a phobl sydd ar incwm isel;
- c) gwahanol fuddiannau pobl mewn gwahanol rannau o'r DU, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Cynigion yr ymgynghoriad

13.56 Fe wnaethom ddweud yn ein hymgyngoriad nad oeddem yn credu y byddai ein cynigion ar gyfer y Gorchymyn PRS drafft yn effeithio ar unrhyw grwpiau penodol o bobl (gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2010 neu Ddeddf Hawliau Dynol 1998) yn wahanol i'r boblogaeth gyffredinol. Y rheswm am hyn oedd bod ein cynigion, sy'n ceisio trosglwyddo dyletswyddau rheoleiddio o'r PSA i Ofcom, wedi'u hanelu at sicrhau canlyniadau gwell, gan gynnwys gwell amddiffyniad i ddefnyddwyr, ar gyfer holl ddefnyddwyr a dinasyddion y DU, y mae gan bob un ohonynt fynediad at PRS.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 13.57 Roedd aimmm, y Groes Goch Brydeinig, Channel 4, BBC Plant mewn Angen, Donr Ltd, Fonix, Infomedia, MCP Insight Ltd, Mobile UK, Telecom2 Ltd, TÜV SÜD Limited a VMO2 yn cytuno na fyddai ein cynigion yn effeithio ar unrhyw grwpiau penodol o bobl.
- 13.58 Dywedodd y BBC fod eu profiad yn dangos bod grwpiau economaidd-gymdeithasol hŷn ac is yn defnyddio PRS i ymgysylltu â'r BBC yn fwy cymesur na grwpiau cynulleidfia eraill. Mynegodd y BBC bryder y bod ein hymgyngoriad yn nodi mewn sawl man y byddai'r dull rheoleiddio newydd yn cynyddu'r baich ar fasnachwyr (o ran costau ac amser). Dywedodd, er ei fod yn rhesymol, y byddai'r cynnydd hwn yn y baich rheoleiddio yn rhoi mwy o bwysau ar ei gynrychiadau ac y gallai fod adeg pan fydd yn ystyried dileu PRS, yn enwedig o raglenni pleidleisio. Roedd yn dadlau y gallai'r canlyniad hwn gael effaith negyddol ar y grwpiau economaidd-gymdeithasol hŷn ac is sy'n mwynhau ymgysylltu â'u rhaglenni sy'n cynnwys PRS.

Ein penderfyniad

- 13.59 Nodwn fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n hasesiad mewn perthynas ag effaith ein cynigion ar gydraddoldeb.
- 13.60 Rydym wedi ystyried sylwadau'r BBC ynghylch effeithiau negyddol ar grwpiau penodol o bobl o ganlyniad i'n cynigion. Fodd bynnag, fel rydym wedi'i nodi yn y datganiad hwn, nid ydym yn credu y bydd ein dull rheoleiddio yn cynyddu'r baich ar fasnachwyr yn sylweddol. Yn wir, ac yn groes i hynny, rydym o'r farn na fydd llawer o'n penderfyniadau'n arwain at fawr o wahaniaeth mewn ymarfer i ddarparwyr (gan gynnwys masnachwyr) o'i gymharu â'r trefniadau presennol. Y rheswm am hyn yw bod ein cynigion yn efelychu'r trefniadau presennol o dan God 15 i raddau helaeth, neu'n debyg iawn i'r trefniadau hynny. Felly, gan ystyried sylwadau rhanddeiliaid, nid ydym yn credu y bydd ein penderfyniad i wneud y Gorchymyn PRS yn effeithio ar unrhyw grwpiau penodol o bobl (gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan EA 2010 neu NIA 1998).

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Ein dull gweithredu

- 13.61 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei chydabod yn swyddogol yng Nghymru. Arweiniodd y ddeddfwriaeth hon hefyd at sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n rheoleiddio ac yn monitro ein gwaith. Mae'n ofynnol i Ofcom gydymffurfio â safonau'r Gymraeg¹⁴³ mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg ac rydym o'r farn bod y rhain yn cael eu defnyddio wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisiâu sy'n berthnasol i Gymru (gan gynnwys cynigion nad ydynt wedi'u targedu at Gymru yn benodol ond sydd o ddiddordeb ledled y DU). Mae hyn yn cynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.
- 13.62 Os yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol, rydyn ni'n ystyried effaith bosib cynnig polisi ar (i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydyn ni hefyd yn ystyried sut byddai modd llunio cynnig er mwyn iddo gael neu gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau niweidiol neu beidio â chael unrhyw effaith niweidiol.

Cynigion yr ymgynghoriad

- 13.63 Fe wnaethom ddweud yn ein hymgyngoriad ein bod wedi ystyried ein cynigion ar drosglwyddo cyfrifoldebau rheoleiddio o'r PSA i Ofcom o dan Safonau Llundio Polisiâu'r Gymraeg. Nod ein cynigion oedd sicrhau canlyniadau gwell, gan gynnwys gwell diogelwch i ddefnyddwyr, ar gyfer holl ddefnyddwyr PRS. Ein hasesiad arfaethedig oedd na fyddai gweithredu'r cynigion hyn yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar ddefnyddio a thrin y Gymraeg.

Sylwadau rhanddeiliaid

- 13.64 Cytunodd Action 4 Limited, aimm, BT, BBC Plant mewn Angen, Donr Ltd, Fonix, MCP Insight Ltd, Mobile UK, Telecom2 Ltd, TÜV SÜD Limited a VMO2 gyda'n hasesiad.

Ein penderfyniad

- 13.65 Nodwn fod nifer o ymatebwyr yn cytuno â'n hasesiad mewn perthynas ag effaith bosibl ein cynigion ar y Gymraeg.
- 13.66 Nid ydym o'r farn y byddai'r Gorchymyn PRS, ar ôl ei weithredu, yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg neu'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydym chwaith yn credu bod ffyrdd y gellid llunio ein cynigion i greu, neu i gynyddu, effaith gadarnhaol.

Amserlen gweithredu

Cynigion yr ymgynghoriad

- 13.67 Fe wnaethom egluro yn ein hymgyngoriad, yn amodol ar ystyried yr ymatebion ac Ofcom yn cael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, ein bod yn bwriadu gwneud y Gorchymyn PRS ac i DSIT ei osod gerbron y Senedd yn ystod gwanwyn 2024. Byddai wedyn yn destun craffu gan y Senedd. Fe wnaethom hefyd ddweud ein bod yn gweithio i ddod â'r Gorchymyn PRS i

¹⁴³ Gweler, yn benodol, Safonau 84 – 93. Yn ogystal â'n cynigion polisi, gall Safonau'r Gymraeg fod yn berthnasol pan fydd Ofcom yn cynnal ymchwil i'r farchnad neu weithgareddau cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn Gymraeg ar gael ar ein gwefan.

rym ar 1 Hydref 2024 yn unol â'r amserlen a ragwelid bryd hynny. Fe wnaethom nodi y byddai'r dyddiad cychwyn hwn ar gyfer y Gorchymyn PRS hefyd yn cyd-fynd â pholisi'r Llywodraeth ar y 'Dyddiadau Cydgychwyn', sef 6 Ebrill ac 1 Hydref bob blwyddyn.

- 13.68 Roeddem hefyd yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad ar, neu tua'r un amser â gwneud y Gorchymyn PRS, gyda fersiwn terfynol y Gorchymyn PRS yn cael ei gyhoeddi ar wefan swyddogol y Llywodraeth ar gyfer deddfwriaeth.¹⁴⁴
- 13.69 Roeddem wedi ystyried y byddai'r amseroedd disgwylidig hyn rhwng gwneud y Gorchymyn PRS (a chyhoeddi ein datganiad) a'i gychwyn ar 1 Hydref 2024 yn golygu y byddai rhanddeiliaid yn cael digon o amser i wneud y paratodau angenrheidiol i gydymffurfio â'r gofynion o dan y Gorchymyn PRS.
- 13.70 Rhag ofn y byddai oedi cyn i ni wneud y Gorchymyn PRS, ein barn ni oedd y dylai cyfnod o tua 3 mis rhwng gwneud y Gorchymyn PRS a'i gychwyn fod yn ddigon o amser i bartïon yr effeithir arnynt sicrhau bod eu gweithgareddau (gan gynnwys unrhyw drefniadau contract gyda'i gilydd) yn cydymffurfio.
- 13.71 Yn hynny o beth, roeddem wedi ystyried gwahanol agweddau yn y Gorchymyn PRS drafft a'r camau y gallai fod angen i ddarparwyr PRS eu cymryd i fod yn barod i gydymffurfio â'i ofynion. Yn benodol, roeddem wedi ystyried y materion canlynol:
- a) **Cofrestru:** Roedd darparwyr PRS a oedd yn cyflawni gweithgareddau yn unol â Chod 15 (gan gynnwys ei ofynion cofrestru) yn debygol o elwa o'n darpariaeth arfaethedig yn erthygl 13 y Gorchymyn PRS drafft ynghylch cofrestru mewn achosion trosiannol. Dim ond gwybodaeth gyfyngedig (fel y nodir yn Atodlen 2 y Gorchymyn PRS drafft) yr oedd angen i ddarparwyr o'r fath ei darparu i Ofcom, a byddai ganddynt hyd at 3 mis ar ôl i'r Gorchymyn gychwyn i ddarparu'r wybodaeth hon. Ar gyfer darparwyr PRS eraill, roedd erthygl 10 yn mynnu eu bod i ddechrau yn cofrestru ag Ofcom ac, i bob pwrpas, nad oeddent i ddechrau cyflawni eu gweithgareddau am o leiaf 5 diwrnod gwaith yn ddiweddarach. Roedd erthygl 10 hefyd yn mynnu (fel Cod 15) bod angen i ddarparwyr PRS benodi "person ag awdurdod cyffredinol" i gymryd camau amrywiol, gan gynnwys cymeradwyo polisiâu amrywiol o dan y Gorchymyn PRS drafft. Roeddem o'r farn y dylai ein cyfnod gweithredu 3 mis arfaethedig fod yn ddigon o amser ar gyfer penodiadau o'r fath, gan gynnwys i ddarparwyr PRS gymryd unrhyw gamau llywodraethu yn y cyswllt hwnnw. Roeddem hefyd wedi nodi bod yr esemptiad ar gyfer rhai masnachwyr yn erthygl 11 y Gorchymyn PRS drafft yn golygu y byddai angen rhywfaint o amser ar fasnachwyr i ddarparu gwybodaeth at ddibenion "cofnodion perthnasol" (fel y'u diffinnir yn yr erthygl honno) i'r cyfryngwyr y maent yn delio â nhw. Unwaith eto, roeddem o'r farn y dylai'r cyfnod gweithredu 3 mis fod yn ddigon o amser i wneud paratodau yn y cyswllt hwnnw. Byddai gan gyfryngwyr perthnasol wedyn hyd at fis i roi gwybod i Ofcom eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn erthygl 13(3) y Gorchymyn PRS drafft mewn perthynas â masnachwr a oedd wedi'i esemptio eisoes o dan God 15 neu, mewn achosion eraill, i roi gwybod i Ofcom o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dechrau darpariaeth CPRS y masnachwr o dan sylw.
- b) **Taliadau gweinyddol:** Ni fyddai'n rhaid i weithredwyr rhwydwaith atebol dalu ein costau gweinyddol o dan erthygl 14 y Gorchymyn PRS drafft nes bydd Ofcom wedi casglu'r wybodaeth angenrheidiol gan ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth o dan erthygl 57 y Gorchymyn PRS drafft ac yna anfon ein hanfonebau atynt – gweler erthygl

¹⁴⁴ Sef, <https://www.legislation.gov.uk/cy>

14(4) y Gorchymyn PRS drafft am yr amserlen i dalu'r rhain, yn dibynnu ar y symiau dan sylw. Mewn geiriau eraill, ein hasesiad oedd na fydd angen cyfnod gweithredu blaenorol yn y cyd-destun hwn.

- c) **Mesurau diwydrwydd dyladwy:** Roedd y gofynion diwydrwydd dyladwy ac asesu risg yn erthyglau 15 ac 16 y Gorchymyn PRS drafft yn ymwneud yn bennaf â darparwyr PRS yn adolygu cofrestrau'r PSA ac Ofcom i sicrhau nad ydynt yn delio â darparwyr PRS heb eu cofrestru na phobl y gosodwyd sancsiynau arnynt. Roeddem o'r farn na fyddai angen cyfnod gweithredu yn y cyd-destun hwn. Ar yr adeg y daw'r Gorchymyn PRS i rym, ni fyddai Ofcom wedi rhoi unrhyw sancsiynau, felly, yn syml iawn, byddai angen i ddarparwyr PRS adolygu cofrestr y PSA (fel y dylent ei wneud ar hyn o bryd o dan God 15). Mae erthygl 20 hefyd yn tybio y cydymffurfir â threfniadau penodol yr ymrwymir iddynt cyn i'r Gorchymyn PRS gychwyn.
- d) **Asesiadau risg:** Roedd erthygl 20 y Gorchymyn PRS drafft hefyd yn tybio y cydymffurfir â rhai trefniadau yr ymrwymwyd iddynt cyn i'r Gorchymyn PRS gychwyn mewn perthynas ag asesiadau risg, ond efallai y bydd rhai darparwyr PRS yn cynnal asesiadau risg o dan erthygl 17 y Gorchymyn PRS drafft yn syth ar ôl i'r Gorchymyn PRS gychwyn. Yn yr achos hwnnw, roeddem o'r farn y dylai ein cyfnod gweithredu 3 mis arfaethedig fod yn ddigon o amser i baratoi ar gyfer asesiadau risg o'r fath.
- e) **Trefniadau wedi'u hatal:** Er ein bod o'r farn na fyddai erthyglau 18 a 19 y Gorchymyn PRS drafft yn gofyn am unrhyw gyfnod gweithredu fel y cyfryw, roeddem yn rhagweld y bydd rhai darparwyr PRS yn dymuno defnyddio ein cyfnod gweithredu 3 mis arfaethedig i sicrhau bod ganddynt y trefniadau cytundebol angenrheidiol ar waith i atal unrhyw drefniadau sy'n dod o dan yr erthyglau hyn.
- f) **Profion diogelwch:** O dan erthygl 21 y Gorchymyn PRS drafft, rhaid i gyfryngwyr gynnal profion diogelwch o fewn 12 mis gan ddod i ben ar y diwrnod y dechreuodd unrhyw weithgaredd a reoleiddir (ac yn flynyddol yn dilyn y prawf diweddaraf). Er enghraifft, roeddem wedi dweud, pe bai cyfryngwr yn dechrau'r gweithgaredd a reoleiddir ar 1 Hydref 2023 (neu'n gynharach), y byddai'n rhaid i'r cyfryngwr gynnal profion diogelwch yn unol ag erthygl 21 y Gorchymyn PRS drafft erbyn 1 Hydref 2024 (h.y. y diwrnod roeddem wedi rhagweld y byddai'r Gorchymyn PRS yn dod i rym). I'r gwrthwyneb, pe bai cyfryngwr yn dechrau'r gweithgaredd a reoleiddir ar (dyweder) 17 Tachwedd 2023, byddai'n rhaid i'r cyfryngwr hwnnw gynnal profion diogelwch yn unol ag erthygl 21 y Gorchymyn PRS drafft erbyn 17 Tachwedd 2024. Roeddem o'r farn y dylai ein cyfnod gweithredu 3 mis arfaethedig fod yn ddigon o amser i gyfryngwyr gynnal y profion diogelwch hyn neu gynllunio ar gyfer cynnal profion newydd (lle maent i fod i gael eu cynnal yn fuan ar ôl i'r Gorchymyn gychwyn).
- g) **Diogelu defnyddwyr:** Nid oeddem yn disgwyl y byddai darparwyr PRS (yn enwedig masnachwyr) yn gofyn am unrhyw gyfnod gweithredu ar gyfer y rhan fwyaf o ofynion o dan Ran 6 y Gorchymyn PRS drafft, gan fod gofynion cyfatebol eisoes yn berthnasol o dan God 15. Fodd bynnag, roeddem yn cydnabod ein bod yn cynnig cyflwyno rhai darpariaethau newydd o dan Ran 6 y Gorchymyn PRS drafft ac, i'r graddau hynny, roeddem o'r farn y dylai ein cyfnod gweithredu 3 mis arfaethedig fod yn ddigon o amser i baratoi ar gyfer cydymffurfio. Yn benodol, roeddem wedi nodi y gallai'r darpariaethau cydsyniad datganedig arfaethedig o dan erthyglau 27 i 29 y Gorchymyn PRS drafft fynnu

bod masnachwyr yn adolygu ac yn sicrhau bod eu systemau'n cael eu sefydlu'n briodol, er mwyn iddynt allu cael cydsyniad datganedig gan ddefnyddwyr fel y mae'r erthyglau hyn yn ei gynnig.¹⁴⁵ Efallai fod hyn hefyd wedi cynnwys adolygu contractau tanysgrifio y maent eisoes wedi ymrwymo iddynt gyda defnyddwyr, gan gynnwys sicrhau ei bod yn glir i ddefnyddwyr y bydd ganddynt hawl i derfynu contractau tanysgrifio o dan erthygl 33 y Gorchymyn PRS drafft. Efallai y bydd masnachwyr sy'n cynnig gwasanaethau cyngor proffesiynol hefyd wedi dymuno defnyddio'r cyfnod gweithredu hwn i gymryd y camau sy'n ofynnol o dan erthygl 53 y Gorchymyn PRS drafft i sicrhau bod gan yr unigolion sy'n rhoi'r cyngor i ddefnyddwyr y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol.

- h) **Cadw cofnodion:** Roeddem hefyd o'r farn bod ein cyfnod gweithredu arfaethedig yn ddigon i ddarparu PRS sicrhau bod eu systemau'n barod i gydymffurfio â'r gofyniad cadw cofnodion cyffredinol yn erthygl 58 y Gorchymyn PRS drafft. Roeddem hefyd wedi awgrymu bod darparwyr PRS yn defnyddio'r cyfnod gweithredu hwn i adolygu a sicrhau bod eu trefniadau cytundebol â thrydydd partïon yn eu galluogi i gael a chadw cofnodion a allai fod yn berthnasol i gadw unrhyw gofnodion at ddibenion ymchwilio o dan erthygl 60 y Gorchymyn PRS drafft.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Amserlenni gweithredu

- 13.72 Roedd Action 4 Limited, y Groes Goch Brydeinig, Channel 5 a Fonix yn cytuno â'n cyfnod gweithredu arfaethedig. Roedd y Groes Goch Brydeinig hefyd yn croesawu'r trefniadau pontio arfaethedig ar gyfer darparwyr presennol.
- 13.73 Roedd A2B Telecoms Ltd, aimm, BT, BBC Plant mewn Angen, Cancer Research UK a Mobile UK yn credu y byddai angen o leiaf tri mis ar gyfer gweithredu ac, os bydd yn digwydd yn ystod gwyliau'r haf, yna ni fyddai hyn yn ddigon o amser (oherwydd absenoldeb staff a lefelau adnoddau llawer is).
- 13.74 Roedd y BBC yn credu bod tri mis yn fyrrach nag y byddai ei angen ac y byddai chwe mis neu fwy wedi cael ei ffafrio. Nododd fod hwn yn fwy nag iteriad o god PSA a byddai angen amser arno i baratoi cyn eu cyfnod PRS prysur – rhwng mis Medi a mis Rhagfyr (gan gynnwys nifer o raglenni pleidleisio a BBC Plant mewn Angen). Dywedodd hefyd ei fod yn deall bod problem o ran darpariaeth tariff newydd, fel y tynnwyd sylw ato gan aimm, sy'n cyfrannu at ei farn na fyddai'r cyfnod gweithredu'n ddigon hir.
- 13.75 Dywedodd Google y byddai'n croesawu rhagor o drafodaethau gydag Ofcom ynghylch amserlenni gweithredu a chaniatáu digon o amser i gwmnïau wneud y newidiadau

¹⁴⁵Fe wnaethom egluro y byddai'r rheolau cydsyniad datganedig ar gyfer ICSS fel y cynigir yn y Gorchymyn PRS drafft (mewn perthynas â masnachwyr ICSS sydd angen darparu gwybodaeth cyn-contract i ddefnyddwyr am ddim) yn debygol o gynnwys gweithredu ffioedd gwasanaeth newydd. Fe wnaethom nodi bod Ofcom wedi penderfynu bod pedwar mis yn ddigon i weithredu newidiadau i ffioedd gwasanaeth yn dilyn yr Adolygiad o Ymholiadau Rhifau Ffôn 118, ar ôl ymgynghori â'r diwydiant. Gweler adran 6 o Adolygiad Ymholiadau Rhifau Ffôn 118 Ofcom, 2019 (https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0017/128420/Directory-Enquiries-118-Review-statement.pdf). Aethon ni ymlaen i ddweud, gan mai dim ond dau newid mewn ffioedd gwasanaeth oedd yn debygol o fod wedi bod yn ofynnol (mae 99% o ICSS yn defnyddio dau dâl gwasanaeth yn unig - £3.60/mun neu £6/galwad, gweler tudalen 5 Adolygiad Thematisg y PSA o ICSS) (<https://psauthority.org.uk/-/media/Files/PSA/00NEW-website/News/News/2023/PSA-ICSS-thematic-review-summary-findings-2-Feb-2023.ashx>), roeddem o'r farn y byddai gan y diwydiant ddigon o amser i wneud y newidiadau angenrheidiol. Nid yw'r gofyniad arfaethedig hwn am wybodaeth cyn-contract am ddim wedi cael ei drosglwyddo i'r Gorchymyn PRS.

angenrheidiol i'r systemau a'r prosesau er mwyn gallu cydymffurfio â'r gofynion newydd ar ôl iddynt gael eu cwblhau.

- 13.76 Roedd Infomedia yn cytuno'n fras â'n hamserlen. Fodd bynnag, dywedodd nad yw'n glir pryd y byddai fersiwn derfynol y Gorchymyn PRS drafft yn cael ei chyhoeddi, a sut y byddai hynny'n effeithio ar y cyfnod gweithredu pe bai'n cyd-daro â chyfnod gwyliau'r DU. Roedd yn dadlau y gallai hyn fod yn heriol ac roedd yn awgrymu symud y dyddiad cychwyn i 1 Rhagfyr a allai fod yn fwy ffafriol ar gyfer pontio llyfn.
- 13.77 Roedd Telecom2 Ltd yn credu y gallai fod angen chwe mis i weithredu'r Gorchymyn PRS. Er ei fod yn nodi bod llawer o'r Gorchymyn PRS drafft yn ailadrodd Cod 15 i raddau helaeth, dywedodd fod y gofyniad ynghylch darparu'r wybodaeth cyn-contract yn rhad ac am ddim yn bryder sylweddol. Nododd y byddai ei roi ar waith yn gofyn am waith sylweddol gan yr MNOs a gweithredwyr sefydlog.
- 13.78 Dadleuodd Vodafone fod yr amserlenni gweithredu arfaethedig yn afrealistig. Dywedodd fod amserlenni a chyllidebau cyflawni ar gyfer FY2024/25 wedi'u cloi cyn yr ymgynghoriad hwn ac nad yw'n cynnwys adnoddau na chyllid ar gyfer ICSS. Felly, nid oedd yn cytuno ei bod yn bosibl darparu ar gyfer y datblygiad ychwanegol hwn nad yw'n cael ei ariannu ym mis Hydref 2024 ac, yn lle hynny, y dylai Ofcom ddileu dyddiad gweithredu o'r Gorchymyn PRS drafft neu ganiatáu cyfnod gweithredu hirach o fis Ebrill 2025, yn hytrach na mis Hydref 2024.
- 13.79 Mynegodd aimm, CCL, Mobile UK, Telecom2 Ltd, VMO2 a Vodafone bryderon ynghylch yr angen i greu pwyntiau pris ychwanegol mewn perthynas â chynnig am gyfnod galwadau am ddim ar gyfer ICSS (gweler paragraffau 6.49 i 6.51). Dywedodd aimm, Mobile UK a VMO2 nad oedd yn bosibl cadarnhau y gellid gwneud hyn mewn tri mis a gofynnodd CLL am gyfnod o bedwar mis i weithredu pwyntiau pris newydd.

Dolen adborth

- 13.80 Mynegodd aimm, Donr Ltd a Global bryderon ynghylch dull arfaethedig Ofcom o adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn benodol, roeddent yn dadlau bod angen drafft a chyfnod ymgynghori pellach gyda'r diwydiant cyn i'r broses fwrw ymlaen i'r Senedd ac i gyfraith. Roedd y tîm, yn benodol, yn cynnig adolygiad chwe wythnos a dolen adborth o'r ymatebion a gafwyd, a diwygiadau a gynigir i'r Gorchymyn PRS drafft. Roedd MCP Insight Ltd yn cytuno â'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan aimm, ac yn eu cefnogi.

Ein penderfyniad

Amserlenni gweithredu

- 13.81 Nodwn fod safbwyntiau gwahanol yn ymwneud â'r amserlenni gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn yn gyffredinol y byddai tri mis yn briodol, er bod rhai'n dadlau, pe bai'r cyfnod gweithredu yn ystod yr haf, y gallai fod angen cyfnod gweithredu hwy. Dadleuodd nifer hefyd fod tri mis yn rhy fyr er nad oeddent yn darparu tystiolaeth ategol ynghylch pam.
- 13.82 Rydym yn nodi mai un ffactor pwysig o ran pam roedd rhanddeiliaid yn credu bod angen cyfnod gweithredu hirach, oedd mewn perthynas â'n cynigion ynghylch ICSS ac, yn benodol, yr angen i sefydlu pwyntiau pris ychwanegol. Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraffau 6.52 i 6.58 y datganiad hwn, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'n cynigion i ddarparu'r wybodaeth cyn-gontractiol ar gyfer ICSS i ddefnyddwyr am ddim ac, felly, mae'r gofyniad am bwyntiau pris ychwanegol ar gyfer ICSS yn peidio â bodoli.

- 13.83 Felly, ar ôl ystyried sylwadau rhanddeiliaid mewn perthynas â chyfnodau gweithredu, rydym wedi penderfynu bod cyfnod gweithredu o dri mis yn briodol ac y dylai fod yn ddigon o amser i ddarparwyr PRS sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn PRS.
- 13.84 Nid oeddem yn rhagweld ar adeg cyhoeddi ein hymgyngoriad y byddai etholiad cyffredinol y DU yn cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf 2024, gyda diddymiad y Senedd yn digwydd ar 30 Mai. Arweiniodd yr amgylchiadau annisgwyl hyn at oedi cyn gwneud a chyflwyno'r Gorchymyn PRS gerbron y Senedd. Fel y nodwyd uchod, gwnaethom y Gorchymyn PRS ar 21 Hydref 2024, gyda dyddiad cychwyn ar 1 Chwefror 2025. Mewn geiriau eraill, mae'r dyddiad cychwyn hwnnw'n caniatáu ar gyfer y cyfnod gweithredu tri mis uchod, er ein bod yn nodi y byddai darparwyr PRS wedi cael y cyfnod ers i ni gyhoeddi ein hymgyngoriad i ragweld a pharatoi ar gyfer unrhyw newidiadau yn eu gweithgareddau. Rydym yn dod â'r adran hon i ben isod wrth ddisgrifio'r camau nesaf, drwy dynnu sylw rhanddeiliaid at amseroedd penodol.

Dolen adborth

- 13.85 Rydym yn ddiolchgar iawn am yr ymatebion a gawsom gan rhanddeiliaid mewn ymateb i'n hymgyngoriad. Yr oedd yr ymatebion hynny'n fanwl ac yn caniatáu inni edrych yn ofalus eto ar ein cynigion. Rydym hefyd wedi trafod llawer o'r ymatebion manwl hynny gyda'r PSA. Fel y nodwyd mewn adrannau blaenorol o'r datganiad hwn, rydym wedi gwneud rhai newidiadau i rai o'r darpariaethau yn y Gorchymyn PRS drafft i adlewyrchu'r ymatebion a gawsom ac rydym wedi darparu rhagor o eglurder drwy gydol y datganiad hwn ar faterion a godwyd gan rhanddeiliaid. O'r herwydd, penderfynasom nad oedd angen cael dolen adborth ychwanegol gyda rhanddeiliaid.

Materion eraill sy'n ymwneud â gweithredu

- 13.86 Mewn ymateb i'n hymgyngoriad, manteisiodd rhai rhanddeiliaid ar y cyfle i roi sylwadau ar faterion sy'n ymwneud yn fwy cyffredinol â gweithredu, ond nad ydynt yn berthnasol i gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Gorchymyn PRS fel y cyfryw. Rydym yn delio â'r sylwadau hynny isod.

Cyngor ar gydymffurfio

- 13.87 Holodd aimm, BT, FCS, Mobile UK a Telecom2 Ltd am ein cynnig i gael gwared ar y cyfleuster i ofyn am gyngor ar gydymffurfio. Yn benodol, nododd aimm fod Cod 15 wedi denu mwy o geisiadau am gyngor ar gydymffurfio na'r disgwyl a'i bod yn ymddangos yn wrthgynhyrchiol cael gwared ar y cyngor sydd ar gael pan brofwyd ei fod yn gweithio. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 13.88 Er ein bod yn cydnabod y gallai cyngor ar gydymffurfio fod wedi darparu rôl o dan God 15 o ran cefnogi darparwyr PRS yn eu gweithgareddau cydymffurfio, fel yr esboniwyd ym mharagraffau 4.5 a 4.6 ein hymgyngoriad, rydym o'r farn bod y dull hwn yn benodol i sut mae'r PSA yn rheoleiddio'r sector o dan God 15. Rydym wedi penderfynu peidio â mabwysiadu dull tebyg o orfodi gofynion a osodir gan y Gorchymyn PRS.

Adnodd cofrestru

- 13.89 Gofynnodd A2B Telecom Ltd, aimm, Channel 5 a Telecom2 Ltd am gadarnhad a fyddai'r adnodd cofrestru yn aros yr un fath. Yn benodol, nododd aimm fod newidiadau sylweddol

i'r adnodd yn aml wedi achosi problemau yn y gorffennol. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.

- 13.90 Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r adnodd cofrestru yn ei chwarae o dan God 15 ac rydym yn cadw swyddogaeth debyg er mwyn cefnogi rhwymedigaethau darparwyr PRS sy'n ymwneud â chofrestru ac i wneud cofrestru rhifau a gwasanaethau mor syml â phosibl. Fel o dan adnodd cofrestru presennol y PSA, bydd hwn yn adnodd ar-lein sydd ar gael o fewn cyfrifon darparwyr PRS ar ôl iddynt gofrestru fel sefydliad/darparwr. Ar ôl cofrestru, byddant yn gallu mewnbynnu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan atodlenni 1 a 2 y Gorchymyn PRS.

Gwiriwr gwasanaeth

- 13.91 Gofynnodd aimm, BT, Plant mewn Angen a Telecom2 Ltd a Channel 5 am eglurhad ynghylch statws y gwiriwr gwasanaeth y mae'r PSA yn ei weithredu ar hyn o bryd ac a fyddai ar gael o hyd i ddefnyddwyr ar ôl trosglwyddo. Yn benodol, nodwyd bod y gwiriwr gwasanaeth yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i ddefnyddwyr ac yn helpu OCP i ddelio â'u cwsmeriaid. Roedd MCP Insight Ltd yn cefnogi ac yn cytuno â sylwadau aimm.
- 13.92 Rydym yn cytuno bod gwiriwr gwasanaeth PSA yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth berthnasol am PRS. Mae'r gwiriwr gwasanaeth presennol, sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf a ddarperir yn uniongyrchol gan ddarparwyr PRS, yn galluogi unrhyw un i roi rhif PRS ar wefan y PSA ac i gael gwybodaeth am y rhif hwnnw, fel rhif ffôn priodol i'w ffonio gydag ymholiad (rhif ffôn gwasanaeth i gwsmeriaid). Byddwn yn cadw swyddogaeth debyg fel rhan o'n gwaith rheoleiddio'r PRS a bydd defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth berthnasol am y PRS ar wefan Ofcom.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- 13.93 Dywedodd aimm ac ITV ei bod yn bwysig bod Ofcom yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant yn anffurfiol. Roeddent yn nodi bod y PSA yn cynnal perthynas dda â'r diwydiant yn ddwyochrog a thrwy Banel Cyswilt y Diwydiant y PSA (ILP). Dywedodd aimm ei fod ef a'i aelodau ILP yn bwriadu parhau â'r cyfarfodydd hyn, sydd, yn eu barn nhw, yn amhrisiadwy i'r sector, ac yr hoffent wahodd Ofcom i fod yn bresennol neu y byddai'n awyddus i gymryd rhan mewn unrhyw fforymau/cyfarfodydd y diwydiant y mae Ofcom yn bwriadu eu cynnal yn y dyfodol. Roedd Strategic Brief hefyd yn gofyn am eglurder ynghylch sut bydd Ofcom yn gweithio gyda darparwyr PRS o dan y drefn newydd.
- 13.94 Gwnaeth CCP/ACOD nifer o sylwadau hefyd yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys ei fod yn cefnogi cynigion Ofcom ac yn gobeithio y bydd y cysylltiadau cryf y mae wedi'u creu â'r PSA yn parhau gyda thimau polisi Ofcom sy'n gyfrifol am y gwaith hwn. Roedd yn annog Ofcom i gymryd camau cadarn yn erbyn gweithredwyr drwg yn y farchnad PRS ac i weithio gyda grwpiau defnyddwyr – i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr o risgiau ac i helpu i nodi pwy sy'n fwy agored i niwed, er mwyn eu diogelu a'u grymuso.
- 13.95 Rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol sicrhau bod deialog effeithiol rhwng y rheoleidiwr a'r partïon sy'n cael eu rheoleiddio ac, o'r herwydd, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid fel nodwedd allweddol o'n dull o reoleiddio'r sector PRS.

Y camau nesaf

13.96 Rydym yn dod â'r datganiad hwn i ben drwy dynnu sylw rhanddeiliaid at rai dyddiadau allweddol y gallai fod angen i ddarparwyr PRS gymryd camau yn eu cylch.

Yr amser y daw darpariaethau'r Gorchymyn PRS i rym

- 13.97 Rydym wedi egluro uchod bod y Gorchymyn PRS yn dod i rym ar 1 Chwefror 2025, a elwir yn ddyddiad 'cychwyn'. Mewn geiriau eraill, dyma'r dyddiad y bydd darpariaethau'r Gorchymyn PRS yn dechrau cael effaith gyfreithiol ac yn dod yn weithredol.
- 13.98 Felly, rydym yn annog darparwyr PRS yn gryf i gymryd yr holl gamau angenrheidiol yn ystod y cyfnod gweithredu rhwng nawr a'r dyddiad cychwyn er mwyn sicrhau eu bod nhw, a'u gweithgareddau, yn cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn PRS. Mae'r camau hynny'n cynnwys, yn benodol, y rhai a grybwyllir ym mharagraff 13.70 uchod.

Dyddiadau yn y dyfodol pan fydd angen i rai darparwyr PRS gymryd camau mewn perthynas â gwybodaeth gofrestrdig

13.99 Rydym hefyd yn tynnu sylw yn y tabl canlynol at rai dyddiadau yn y dyfodol a allai ofyn am weithredu gan rai darparwyr PRS mewn perthynas â gwybodaeth i'w rhoi i Ofcom at ein dibenion cofrestru.

Dyddiad	Cam gweithredu	Cyfeirnod erthygl
3 Mawrth 2025	Ni fydd masnachwyr a esemptiwyd o'r blaen bellach wedi'u hesemptio o'r gofynion cofrestru yn erthygl 10, felly mae'n ofynnol iddynt naill ai gofrestru yn unol â'r gofynion hynny o'r dyddiad hwn ymlaen, gan gynnwys yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn PRS, neu weithio gyda chyfryngwr cymwys o dan erthygl 11 i ddarparu CPRS.	Erthygl 11(8)
2 Mai 2025	Rhaid i ddarparwyr sy'n dibynnu ar y darpariaethau ar gyfer cofrestru mewn achosion trosiannol roi'r wybodaeth a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn PRS i Ofcom erbyn y dyddiad hwn.	Erthygl 13(3)-(4)
2 Mehefin 2025	Rhaid i ddarparwyr sy'n dibynnu ar y darpariaethau ar gyfer cofrestru mewn achosion trosiannol adolygu gwybodaeth gofrestrdig Ofcom amdanynt eu hunain erbyn y dyddiad hwn a rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau o fewn 5 diwrnod gwaith	Erthygl 13(6)

Gwybodaeth ariannol ar gyfer cyfrifo taliadau gweinyddol

- 13.100 Yn olaf, rydym yn nodi'r amseroedd disgwylidig sy'n ymwneud â thalu ein costau gweinyddol yn unol ag erthygl 14 y Gorchymyn PRS.
- 13.101 Fel sy'n cael ei egluro yn adran 12 y datganiad hwn, mae erthygl 14(1) y Gorchymyn PRS yn gosod rhwymedigaeth ar 'weithredwr rhwydwaith atebol' i dalu i Ofcom ei gyfran o'n

costau gweinyddol am ein gwariant mewn cysylltiad â'r rheoleiddio a orfodir gan y Gorchymyn PRS ar gyfer pob blwyddyn codi tâl.

- 13.102 Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo ein costau gweinyddol wedi'i nodi yn erthygl 14(2). Un elfen allweddol o'r fformiwla honno yw cyfanswm "alldaliadau" (fel y'i diffinnir yn erthygl 14(7)) y gweithredwr rhwydwaith atebol o dan sylw. Felly, mae angen i ni gasglu'r wybodaeth ariannol honno'n flynyddol gan bob gweithredwr rhwydwaith atebol.
- 13.103 Y ffordd y byddwn yn casglu'r wybodaeth hon yw drwy wneud cais o dan erthygl 55 y Gorchymyn PRS. Bydd ein cais am y wybodaeth hon ar ffurf "cais cyffredinol" fel y'i gelwir yn unol ag erthygl 55(7). Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, na fyddwn yn mynnu'r wybodaeth hon yn flynyddol drwy anfon ceisiadau unigol at weithredwyr a enwir, ond yn hytrach byddwn yn cyhoeddi ein cais ffurfiol am y wybodaeth hon ar wefan Ofcom. Rydym yn awgrymu bod rhanddeiliaid yn tanysgrifio i'n diweddariadau e-bost¹⁴⁶ i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sector PRS a'u bod hefyd yn gwirio ein gwefan yn rheolaidd am unrhyw ddatblygiadau.
- 13.104 Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein cais cyffredinol ar ein gwefan yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 3 Chwefror 2025. Bydd angen cyflwyno'r wybodaeth ariannol y gofynnir amdani yn y cais cyffredinol i Ofcom erbyn 5pm ar 17 Mawrth 2025 fan bellaf ar gyfer blwyddyn codi tâl 2025/26 (sylwer, mewn perthynas â thaliadau ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth 2025, ein bod yn disgwyl defnyddio cronfeydd wrth gefn PSA yn hytrach nag anfonebu rhanddeiliaid). Byddwn wedyn yn cyfrifo'r taliadau gweinyddol gyda'r bwriad o gyhoeddi ein hanfonebau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 28 Ebrill 2025 neu o gwmpas yr wythnos honno. Rhaid i'r symiau rydym wedi'u hanfonebu gael eu talu o fewn yr amser sy'n ofynnol o dan erthygl 14(4) y Gorchymyn PRS, sef:
- os yw'r swm a anfonebwyd yn hafal i neu'n llai na £75,000, rhaid ei dalu'n llawn o fewn 30 diwrnod i dderbyn ein hanfoneb;
 - os yw'r swm a anfonebwyd yn fwy na £75,000, rhaid ei dalu mewn 12 rhandaliad misol cyfartal, gyda'r rhandaliad cyntaf i'w dalu erbyn y dyddiad sydd un mis calendr ar ôl dyddiad ein hanfoneb, a'r rhandaliadau dilynol yn daladwy ar gyfnodau calendr misol ar ôl hynny.

¹⁴⁶ <https://www.ofcom.org.uk/email-updates/>

A1. Hysbysiad: Addasiadau i'r Amod PRS

HYSBYSIAD O ADDASIADAU I'R AMOD GWASANAETHAU CYFRADD PREMIWM (PRS) YN UNOL AG ADRAN 120A DEDDF CYFATHREBU 2003

CEFNDIR

- (A) Ers sefydlu Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003, mae Ofcom wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod rhai gwasanaethau cyfradd premiwm fel y'u diffinnir yn adran 120(7) y Ddeddf ("PRS") yn cael eu rheoleiddio'n briodol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed a allai ddeillio o gamddefnyddio PRS.
- (B) Mae Ofcom wedi cymryd y cyfrifoldeb cyffredinol hwnnw drwy osod amod rheoleiddio o dan adran 120 y Ddeddf. Ar 19 Rhagfyr 2018, ar ôl ymgynghori, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad¹⁴⁷ o'r enw 'Adolygiad o'r Amod Gwasanaethau Cyfradd Premiwm – Datganiad ar ymestyn y diffiniad o Wasanaethau Cyfradd Premiwm Rheoledig i gynnwys yr holl Wasanaethau Gwybodaeth, Cysylltu neu Gyfeirio' yn nodi ei benderfyniad i addasu'r amod rheoleiddio hwnnw. Roedd y datganiad hwnnw'n cynnwys fersiwn ddiweddaraf yr amod yn union cyn i Ofcom wneud y penderfyniad a nodir ym mharagraff 1 isod yr Hysbysiad hwn ("Amod PRS").
- (C) Ar hyn o bryd mae dau gategori eang o ddarparwyr yn rhwym wrth yr Amod PRS, sef 'Darparwyr Cyfathrebiadau' a 'Darparwyr Gwasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir'. O dan yr Amod PRS, mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â "...*(a) cyfarwyddiadau a roddir yn unol â Chod Cymeradwy gan yr Awdurdod Gorfodi ac at ddibenion gorfodi darpariaethau'r Cod Cymeradwy; a (b) os nad oes Cod Cymeradwy, darpariaethau'r gorchymyn sydd mewn grym am y tro o dan adran 122 y Ddeddf.*"
- (D) Yn y cyswllt hwnnw, mae'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn ("PSA") wedi llunio cod ymarfer ar ddibenion rheoleiddio PRS o ddydd i ddydd. Mae cod ymarfer y PSA sydd mewn grym am y tro (er 5 Ebrill 2022) yn dwyn y teitl 'Cod Ymarfer 2021 (Pymthegfed Argraffiad)'¹⁴⁸ (a elwir yn "Cod 15"). Ar 20 Hydref 2021, cymeradwyodd Ofcom God 15 o dan adran 121 y Ddeddf.¹⁴⁹
- (E) Ar 24 Mai 2022, cyhoeddodd Ofcom, yn amodol ar gymeradwyaeth bellach gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ei bod yn debygol y bydd y cyfrifoldeb dros reoleiddio PRS o ddydd i ddydd yn cael ei drosglwyddo i Ofcom.
- (F) Ar 21 Tachwedd 2023, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad o'r enw 'Dyfodol rheoleiddio gwasanaethau talu dros y ffôn - Ymgynghoriad ar Orchymyn arfaethedig Ofcom o dan a122 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a newidiadau arfaethedig i'r Amod Gwasanaethau Cyfradd

¹⁴⁷ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131046/Statement-Review-of-the-premium-rate-services-condition.pdf

¹⁴⁸ [PSA Code of Practice 15th.ashx \(psauthority.org.uk\)](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/226951/statement-approval-of-phone-paid-services-authority-code-of-practice-fifteenth-edition.pdf)

¹⁴⁹ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/226951/statement-approval-of-phone-paid-services-authority-code-of-practice-fifteenth-edition.pdf

Premiwm' gan nodi ei gynigion i ysgwyddo dyletswyddau rheoleiddio PSA drwy wneud gorchymyn o dan adran 122 y Ddeddf. Cyhoeddodd Ofcom hysbysiad o dan adran 403(4) y Ddeddf o'r gorchymyn arfaethedig yn atodiad 5 i'r ddogfen ymgynghori honno. Yng ngoleuni'r gorchymyn arfaethedig hwnnw, roedd Ofcom hefyd yn cynnig mewn hysbysiad a gyhoeddwyd yn atodiad 9 y ddogfen ymgynghori i wneud addasiadau i'r Amod PRS fel rhan o'r pecyn newydd o fesurau i reoleiddio PRS yn y dyfodol.

(G) Anfonwyd copi o'r ddogfen ymgynghori at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ar 20 Tachwedd 2023 yn unol ag adrannau 24A(1) a 120A(7) y Ddeddf.

(H) Gofynnodd Ofcom am sylwadau am y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori erbyn 23 Ionawr 2024. Cafodd Ofcom ymatebion gan nifer o randdeiliaid. Mae Ofcom wedi ystyried pob sylw o'r fath. Yn unol ag adran 120A(5), mae Ofcom wedi gwneud y penderfyniad a nodir isod i roi effaith, gyda rhai mân newidiadau testunol, i'w addasiadau arfaethedig i'r Amod PRS. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi gwybod i Ofcom am unrhyw rwymedigaeth ryngwladol i'r Deyrnas Unedig at ddibenion rhoi effaith i'r cynigion hynny yn y cyswllt hwnnw.

PENDERFYNIAD

1. Mae Ofcom drwy hyn yn penderfynu, yn unol ag adran 120A(1) (ac yn unol â'i bwerau o dan adran 120) y Ddeddf, addasu'r Amod PRS er mwyn gwneud darpariaethau ar gyfer materion a nodir yn yr adran 120 honno.
2. Mae'r addasiadau hynny i'r Amod PRS-
 - (a) wedi eu nodi yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn, drwy ddisodli'r testun yn yr Amod PRS yn ei gyfanrwydd â'r testun a nodir yn yr Atodlen honno, a
 - (b) byddant yn dod i rym pan fydd y Gorchymyn PRS yn cychwyn ar 1 Chwefror 2025.
3. Mae effeithiau'r penderfyniad hwn, a rhesymau Ofcom dros ei wneud, wedi'u nodi yn y datganiad cysylltiedig.

DYLETSWYDDAU OFCOM A PHROFION CYFREITHIOL

4. Mae Ofcom yn fodlon bod y penderfyniad hwn yn bodloni'r prawf yn adran 47 y Ddeddf ar gyfer addasu amodau, sy'n berthnasol i'r penderfyniad hwn yn rhinwedd adran 120(5) y Ddeddf.
5. Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae Ofcom wedi ystyried a gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 3 a'r chwe gofyniad a nodir yn adran 4 y Ddeddf. I'r graddau y mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i delathrebu, mae Ofcom hefyd wedi ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol wrth wneud yr addasiadau a nodir yn yr Hysbysiad hwn.

DEHONGLIAD

6. Ac eithrio i'r graddau y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd gan eiriau neu ymadroddion yr ystyr a roddir iddynt yn yr Hysbysiad hwn ac fel arall bydd i unrhyw air neu ymadrodd yr un ystyr ag a briodolir iddo at ddibenion swyddogaethau Ofcom o dan Bennod 1 Rhan 2 y Ddeddf, gan gynnwys (yn benodol) adran 120.

7. Yn yr Hysbysiad hwn mae-
- (a) “**Deddf**” yn golygu Deddf Cyfathrebiadau 2003,
 - (b) “**Ofcom**” yn golygu’r Swyddfa Gyfathrebiadau,
 - (c) i “**Amod PRS**” yr ystyr a roddir iddo yng **nghroniciad (B)** i’r Hysbysiad hwn,
 - (d) “**Gorchymyn PRS**” yn golygu Gorchymyn Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm 2024 (S.I. 2024/1046), a
 - (e) ‘**Datganiad Blaenoriaethau Strategol**’ yn golygu’r Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 2A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
8. At ddibenion dehongli’r Hysbysiad hwn-
- (a) caiff penawdau a theitlau eu diystyru,
 - (b) dehonglir ymadroddion cytras â’r rhai y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad hwn yn unol â hynny, a
 - (c) bydd Deddf Dehongli 1978 (p. 30) yn gymwys fel pe bai’r Hysbysiad hwn yn Ddeddf Seneddol.
9. Bydd yr Atodlen i’r Hysbysiad hwn yn rhan o’r Hysbysiad hwn.
10. Mae copiâu o'r Hysbysiad hwn a'r datganiad cysylltiedig wedi eu hanfon at yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adrannau 24A(1) a 120A(7) y Ddeddf.

Llofnodwyd gan:

[electronic signature to be inserted]

Lindsey Fussell

Cyfarwyddwr Grŵp, Diogelwch Ar-lein (Dros Dro)

Person a awdurdodwyd yn briodol gan Ofcom o dan baragraff 18 yr Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

21 Hydref 2024

ATODLEN

AMOD GWASANAETHAU CYFRADD PREMIWM (PRS)

Cydymffurfio â darpariaethau'r Gorchymyn PRS

1. Rhaid i bob darparwr PRS gydymffurfio â darpariaethau'r Gorchymyn PRS.

Cydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddwyd cyn hynny yn unol â chod a gymeradwywyd gan yr awdurdod gorfodi ac at ddibenion gorfodi ei ddarpariaethau

2. Rhaid i bob Darparwr Cyfathrebiadau a Darparwr Gwasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddwyd o'r blaen yn unol â chod a gymeradwywyd gan yr awdurdod gorfodi ac at ddibenion gorfodi ei ddarpariaethau. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r gofyniad hwn yn dal yn berthnasol er bod Ofcom wedi tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i god cymeradwy mewn hysbysiad a roddwyd yn unol ag adran 121(6) a (7) y Ddeddf.

Dehongliad

3. At ddibenion dehongli'r Hysbysiad hwn mae-
 - (a) "Deddf" yn golygu Deddf Cyfathrebiadau 2003,
 - (b) i "Darparwr Cyfathrebiadau" yr ystyr a roddir iddo ym mharagraff 2(c) yr Atodlen i'r Hysbysiad o Amod PRS Blaenorol,
 - (b) i "Darparwr Gwasanaeth Cyfradd Premiwm Rheoledig" yr ystyr a roddir iddo ym mharagraff 2(g) yr Atodlen i'r Hysbysiad o Amod PRS Blaenorol,
 - (d) "Ofcom" yn golygu'r Swyddfa Gyfathrebiadau,
 - (e) "Hysbysiad o Amod PRS blaenorol" yn golygu hysbysiad o addasiad i'r Amod Gwasanaethau Cyfradd Premiwm o dan adran 120A y Ddeddf, fel y cyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2018 gan Ofcom yn Atodiad 2 ei ddatganiad o'r enw 'Adolygiad o'r Amod Gwasanaethau Cyfradd Premiwm – Datganiad ar ymestyn y diffiniad o Wasanaethau Cyfradd Premiwm Rheoledig i gynnwys yr holl Wasanaethau Gwybodaeth, Cysylltu neu Gyfeirio'.
 - (f) "Gorchymyn PRS" yn golygu Gorchymyn Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm 2024 (S.I. 2024/1046),
 - (g) i "Darparwr PRS" yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 9 y Gorchymyn PRS,
 - (h) ac eithrio i'r graddau y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, fel arall bydd i unrhyw air neu ymadrodd yn yr Atodlen hon yr un ystyr ag a briodolir iddo at ddibenion Pennod 1 o Ran 2 y Ddeddf, gan gynnwys (yn benodol) adran 120 y Ddeddf,
 - (i) caiff penawdau a theitlau eu diystyru,
 - (j) dehonglir ymadroddion cytras â'r rhai y cyfeirir atynt yn yr Atodlen hon yn unol â hynny, a
 - (k) bydd Deddf Dehongli 1978 (p. 30) yn gymwys fel pe bai'r Atodlen hon yn Ddeddf Seneddol.

A2. Hysbysiad: Tynnu cymeradwyaeth Ofcom i God 15 yn ôl

HYSBYSIAD O DYNNU CYMERADWYAETH OFCOM I'R COD A GYMERADWYWYD YN ÔL AT DDIBENION RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU CYFRADD PREMIWM YN UNOL AG ADRAN 121 DEDDF CYFATHREBIADAU 2003

CEFNDIR

- (A) Ers sefydlu Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003, mae Ofcom wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod rhai gwasanaethau cyfradd premiwm fel y'u diffinnir yn adran 120(7) y Ddeddf ("PRs") yn cael eu rheoleiddio'n briodol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed a allai ddeillio o gamdefnyddio PRS.
- (B) Mae Ofcom wedi cymryd y cyfrifoldeb cyffredinol hwnnw drwy osod amod rheoleiddio o dan adran 120 y Ddeddf. Ar 19 Rhagfyr 2018, ar ôl ymgynghori, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad¹⁵⁰ o'r enw 'Adolygiad o'r Amod Gwasanaethau Cyfradd Premiwm – Datganiad ar ymestyn y diffiniad o Wasanaethau Cyfradd Premiwm Rheoledig i gynnwys yr holl Wasanaethau Gwybodaeth, Cysylltu neu Gyfeirio' yn nodi ei benderfyniad i addasu'r amod rheoleiddio hwnnw. Roedd y datganiad hwnnw'n cynnwys y fersiwn ddiweddaraf o'r amod yn union cyn i Ofcom wneud y penderfyniad a nodir ym mharagraff 1 yr hysbysiad a gyhoeddwyd yn atodiad 1 i'r datganiad sy'n cyd-fynd â chyhoeddi'r Hysbysiad hwn ("Amod PRS").
- (C) Ar hyn o bryd mae dau gategori eang o ddarparwyr yn rhwym wrth yr Amod PRS, sef 'Darparwyr Cyfathrebiadau' a 'Darparwyr Gwasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir'. O dan yr Amod PRS, mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â "...*(a) cyfarwyddiadau a roddir yn unol â Chod Cymeradwy gan yr Awdurdod Gorfodi ac at ddibenion gorfodi darpariaethau'r Cod Cymeradwy; a (b) os nad oes Cod Cymeradwy, darpariaethau'r gorchymyn sydd mewn grym am y tro o dan adran 122 y Ddeddf.*"
- (D) Yn y cyswllt hwnnw, mae'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn ("PSA") wedi llunio cod ymarfer ar ddibenion rheoleiddio PRS o ddydd i ddydd. Mae cod ymarfer y PSA sydd mewn grym am y tro (er 5 Ebrill 2022) yn dwyn y teitl 'Cod Ymarfer 2021 (Pymthegfed Argraffiad)'¹⁵¹ (a elwir yn "Cod 15"). Ar 20 Hydref 2021, cymeradwyodd Ofcom God 15 o dan adran 121 y Ddeddf.¹⁵²

¹⁵⁰ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0015/131046/Statement-Review-of-the-premium-rate-services-condition.pdf

¹⁵¹ [PSACodeofPractice15thDigital-19-10-10-2023.ashx \(psauthority.org.uk\)](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/226951/statement-approval-of-phone-paid-services-authority-code-of-practice-fifteenth-edition.pdf)

¹⁵² https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/226951/statement-approval-of-phone-paid-services-authority-code-of-practice-fifteenth-edition.pdf

- (E) Ar 24 Mai 2022, cyhoeddodd Ofcom, yn amodol ar gymeradwyaeth bellach gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ei bod yn debygol y bydd y cyfrifoldeb dros reoleiddio PRS o ddydd i ddydd yn cael ei drosglwyddo i Ofcom.
- (F) Ar 21 Tachwedd 2023, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad o'r enw '*Dyfodol rheoleiddio gwasanaethau talu dros y ffôn - Ymgynghoriad ar Orchymyn arfaethedig Ofcom o dan a122 Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a newidiadau arfaethedig i'r Amod Gwasanaethau Cyfradd Premiwm*' gan nodi ei gynigion i ysgwyddo dyletswyddau rheoleiddio PSA drwy wneud gorchymyn o dan adran 122 y Ddeddf. Cyhoeddodd Ofcom hysbysiad o dan adran 403(4) y Ddeddf o'r gorchymyn arfaethedig yn atodiad 5 i'r ddogfen ymgynghori honno. Yng ngoleuni'r gorchymyn arfaethedig hwnnw, roedd Ofcom hefyd yn cynnig mewn hysbysiad a gyhoeddwyd yn atodiad 10 y ddogfen ymgynghori i dynnu cymeradwyaeth Ofcom i God 15 yn ôl. I roi effaith i'r ddau gynig, roedd Ofcom hefyd yn cynnig mewn hysbysiad a gyhoeddwyd yn atodiad 9 y ddogfen ymgynghori i wneud addasiadau i'r Amod PRS fel rhan o'r pecyn newydd o fesurau i reoleiddio PRS yn y dyfodol.
- (G) Anfonwyd copi o'r ddogfen ymgynghori at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ar 20 Tachwedd 2023 yn unol ag adrannau 24A(1) a 120A(7) y Ddeddf.
- (H) Gofynnodd Ofcom am sylwadau am y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori erbyn 23 Ionawr 2024. Cafodd Ofcom ymatebion gan nifer o randdeiliaid. Mae Ofcom wedi ystyried pob sylw o'r fath.

PENDERFYNIAD

1. Mae Ofcom drwy hyn yn penderfynu, yn unol ag adran 121(7) (ac yn unol â'i bwerau o dan adran 121(6)) y Ddeddf, i dynnu ei gymeradwyaeth i God 15 yn ôl ar unwaith pan fydd Gorchymyn PRS yn cychwyn ar 1 Chwefror 2025, ac eithrio ar gyfer cyfarwyddiadau a roddir yn unol â chod a gymeradwywyd gan yr awdurdod gorfodi ac at ddiben gorfodi ei ddarpariaethau.
2. Mae effeithiau'r penderfyniad hwn, a rhesymau Ofcom dros ei wneud, wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori gysylltiedig.

DYLETSWYDDAU OFCOM

3. Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae Ofcom wedi ystyried a gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau cyffredinol a nodir yn adran 3 a'r chwe gofyniad a nodir yn adran 4 y Ddeddf. I'r graddau y mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i delathrebu, mae Ofcom hefyd wedi ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol wrth wneud yr addasiadau a nodir yn yr Hysbysiad hwn.

DEHONGLIAD

4. Ac eithrio i'r graddau y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd gan eiriau neu ymadroddion yr ystyr a roddir iddynt yn yr Hysbysiad hwn ac fel arall bydd i unrhyw air neu ymadrodd yr un ystyr ag a briodolir iddo at ddibenion swyddogaethau Ofcom o dan Bennod 1 Rhan 2 y Ddeddf, gan gynnwys (yn benodol) adran 120.

5. Yn yr Hysbysiad hwn mae-
- (a) “**Deddf**” yn golygu Deddf Cyfathrebiadau 2003,
 - (c) i “**Cod 15**” yr ystyr a roddir iddo yng **nghroniciad (D)** i’r Hysbysiad hwn,
 - (c) “**Ofcom**” yn golygu’r Swyddfa Gyfathrebiadau,
 - (d) “**Gorchymyn PRS**” yn golygu Gorchymyn Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm 2024 (S.I. 2024/1046),
 - (e) i “**PSA**” yr ystyr a roddir iddo yng **nghroniciad (D)** i’r Hysbysiad hwn, a
 - (f) ‘**Datganiad Blaenoriaethau Strategol**’ yn golygu’r Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio, a gwasanaethau post a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 2A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
6. At ddibenion dehongli’r Hysbysiad hwn-
- (a) caiff penawdau a theitlau eu diystyru,
 - (b) dehonglir ymadroddion cytras â’r rhai y cyfeirir atynt yn yr Hysbysiad hwn yn unol â hynny, a
 - (c) bydd Deddf Dehongli 1978 (p. 30) yn gymwys fel pe bai’r Hysbysiad hwn yn Ddeddf Seneddol.
7. Anfonwyd copiâu o'r Hysbysiad hwn a'r datganiad cysylltiedig at yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag adran 24A y Ddeddf.

Llofnodwyd gan:

[electronic signature to be inserted]

Lindsey Fussell

Cyfarwyddwr Grŵp, Diogelwch Ar-lein (Dros Dro)

Person a awdurdodwyd yn briodol gan Ofcom o dan baragraff 18 yr Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

21 Hydref 2024

A3. Tabl o newidiadau drafftio i'r Gorchymyn PRS

Nodiadau rhagarweiniol

- A3.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r newidiadau drafftio perthnasol a wnaed yn ein Gorchymyn PRS terfynol o'i gymharu â'n Gorchymyn PRS drafft arfaethedig sydd yn ein hysbysiad a gyhoeddwyd yn Atodiad 5 i'n hymgyngoriad.
- A3.2 Mae'r golofn gyntaf yn y tabl yn cyfeirio at rifau'r darpariaethau fel yr oeddent yn y Gorchymyn PRS drafft. Mae'r ail golofn yn egluro'r rhifau cyfatebol yn y Gorchymyn PRS terfynol. Mae'r drydedd golofn yn nodi sylwadau byr am newidiadau drafftio mwy helaeth a wnaed i'r Gorchymyn. Nodir mân newidiadau drafftio eraill yn syml.

Diffiniadau sy'n gorgyffwrdd

- A3.3 Rydym wedi nodi o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mewn rhai achosion, y gallai'r ffordd yn y Gorchymyn drafft yr oeddem yn bwriadu delio ag un gwasanaeth gael ei drin fel gwasanaeth sy'n dod o fewn diffiniad penodol ac, o ganlyniad, sut y dylai'r gwasanaeth diffiniedig hwnnw wedyn gael ei drin o dan amrywiol ddarpariaethau, achosi cymhlethdod diangen. Mae'n ymddangos bod cymhlethdod o'r fath yn deillio'n benodol o wahanol ddiffiniadau yn y Gorchymyn drafft lle mae gwasanaethau'n cael eu diffinio fel "yn cynnwys" neu "â phrif nodwedd" rhywbeth – er enghraifft, cynnwys rhywiol.
- A3.4 Rydym felly wedi adolygu pob diffiniad o'r fath ynghyd â'r darpariaethau y'u defnyddir ynddynt. Ein dull gweithredu cyffredinol fu disodli iaith o'r fath gyda "yn cynnwys" yn y rhan fwyaf o achosion. Er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaeth cynnwys rhywiol, y bwriad polisi yw bod yn rhaid i wasanaethau sy'n darparu unrhyw gynnwys o'r fath gael eu dosbarthu fel y math hwn o wasanaeth er mwyn amddiffyn plant rhag cael gafael arno.
- A3.5 Wrth wneud y newidiadau hyn, nodwn ei bod yn bosibl i wasanaeth penodol hefyd fodloni'r diffiniadau o wasanaethau eraill. Rydym o'r farn nad yw hyn yn codi unrhyw faterion ymarferol o ran eglurder gofynion o dan y Gorchymyn. Bwriad y polisi yw y bydd y senarios canlynol yn berthnasol yn yr achosion hyn:
- bydd gwasanaethau yn ddarostyngedig i'r un rheolau o dan y Gorchymyn fel nad oes ots pa ddiffiniad o'r ddau wasanaeth sy'n berthnasol. Er enghraifft, mae sgwrsio, cynnwys rhywiol a gwasanaethau adloniant byw i gyd yn ddarostyngedig i erthyglau 25, 46, 47 a 48, neu
 - bydd gwahanol reolau'n berthnasol i wasanaethau o dan y Gorchymyn ond ni fydd gorfod cydymffurfio â'r ddwy set o reolau yn arwain at unrhyw faterion ymarferol. Y rheswm am hyn yw bod y rheolau'n gydnaws – er enghraifft, gweler erthygl 50, lle mai bwriad y polisi yw y bydd yn rhaid i ICSS a ddarperir i blentyn gydymffurfio â'r cap codi tâl is yn erthygl 49 yn hytrach nag erthygl 50. Felly, mae Erthygl 50 yn cynnwys eithriad priodol ar gyfer ICSS a ddarperir i blant. Ail enghraifft yw y bydd angen i wasanaeth cystadleuaeth neu bleidleisio sydd wedi'i anelu at blentyn, neu a allai apelio'n rhesymol at blentyn, gydymffurfio ag erthygl 23, yn ogystal â'r rheolau cystadleuaeth neu bleidleisio ym mhennod 6 Rhan 6.

A3.6 Fodd bynnag, mae tri eithriad i'r dull hwnnw. Mae un yn ymwneud â'r diffiniad o "gwasanaeth adloniant byw" yn erthygl 25 y Gorchymyn, sy'n cyfeirio at "wasanaethau wedi'u heithrio" (a ddiffinnir hefyd yn erthygl 25). Y rheswm am hyn yw ein bod yn nodi bod potensial i ddatgan bod nifer o wasanaethau trothwy¹⁵³ hefyd yn bodoli at ddibenion diddanu defnyddiwr. Er mwyn osgoi unrhyw faterion ymarferol (e.e. gwrthdaro rhwng gofynion yn y Gorchymyn), rydym felly wedi nodi pa wasanaethau trothwy sydd wedi'u heithrio o'r diffiniad hwn. Mae'r eithriadau eraill yn ymwneud â gwasanaethau loteri cymdeithas a gwasanaethau tipwyr betio. Yn y ddau achos, defnyddir y gwasanaethau hyn yn gyffredinol i eithrio eu cymhwysedd o reolau perthnasol. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rydym wedi defnyddio 'yn unig' (yn hytrach nag 'yn cynnwys') i lunio'r ffiniau diffiniadol angenrheidiol.

Tabl newidiadau

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Erthygl 1	Erthygl 1	Drafftio wedi ei ychwanegu i nodi'n gadarnhaol hyd a lled tiriogaethol er mwyn dilyn yr arferion deddfwriaethol presennol.
Erthygl 2	Erthygl 2	Ailddrafftio y diffiniad o "SMS" i "neges SMS", a chysoni'r diffiniad â'r diffiniad o hynny yn adran 55(12) Deddf Diogelwch Ar-lein 2023. Mae termau diffiniedig eraill fel "Cod 15" wedi cael eu symud i'r erthygl hon o erthyglau eraill yn y Gorchymyn drafft ac rydym wedi cynnwys diffiniad newydd ar gyfer "elusen" i adlewyrchu y cyfeirir at hyn nifer o weithiau yn y Gorchymyn.
Erthygl 3	Erthygl 3	Diwygiwyd y diffiniad o "rif cyfradd premiwm" yn erthygl 3(8) i ddileu'r cyfeiriad at '084' a '098' o'r diffiniad. Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.
Erthygl 4	Erthygl 4	Mân newidiadau drafftio.

¹⁵³ Diffinnir yn erthygl 4 y Gorchymyn.

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Erthygl 5	Erthygl 5	<p>Mae'r geiriau "sydd â'i brif nodwedd" wedi cael eu dileu, gyda rhywfaint o fân ddrafftio, er mwyn i unrhyw wasanaeth sy'n darparu cyfleuster sy'n galluogi o leiaf dri defnyddiwr i gymryd rhan mewn galwad yn union cyn y bydd unrhyw gyfranogwr yn gwybod pa ddefnyddwyr eraill fydd yn cymryd rhan, yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad hwnnw.</p> <p>Wedi dileu cyfeiriadau at wasanaethau y dylid eu trin fel rhai sydd wedi'u heithrio o wasanaethau llinell gymorth. Cafodd gwasanaethau o'r fath eu cynnwys i ddelio â gorgyffwrdd diffiniadol ond gweler paragraffau A3.3-A3.6 uchod.</p> <p>Ychwanegwyd eithriad sy'n adlewyrchu'r esemptiad cyfatebol yn erthygl 3(5).</p>
Erthygl 6	Erthygl 6	<p>Mae'r geiriau "sy'n rhan o, neu ei brif nodwedd yw" wedi'u rhoi yn lle "yn cynnwys", fel bod unrhyw wasanaeth sy'n darparu unrhyw gynnwys rhywiol o gwbl yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad hwnnw. Gweler paragraffau A3.3-A3.6 uchod.</p> <p>Ychwanegwyd eithriad sy'n adlewyrchu'r esemptiad cyfatebol yn erthygl 3(5).</p>
Erthygl 7	Erthygl 7	<p>Mae'r geiriau "ei brif nodwedd yw" wedi'u rhoi yn lle "yn cynnwys", fel bod unrhyw wasanaeth sy'n darparu cyfleuster cysylltu ymlaen ac sy'n ddefnyddio rhif ffôn perthnasol sy'n dechrau gyda'r digidau penodedig (ar wahân i'r achos a eithrir) yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad hwnnw. Gweler paragraffau A3.3-A3.6 uchod.</p> <p>Ychwanegwyd eithriad sy'n adlewyrchu'r esemptiad cyfatebol yn erthygl 3(5).</p>
Erthygl 8	Erthygl 8	<p>Rydym wedi symleiddio'r drafftio drwy restru'r mathau o wasanaethau y dylid eu trin fel gwasanaeth tanysgrifio, lle mae'r amodau ym mharagraffau (3) neu (4) (neu'r ddau) yn berthnasol, at ddibenion cymhwysio rheolau perthnasol o dan y Gorchymyn. Rydym hefyd wedi dileu testun am hawl y defnyddiwr i derfynu'r contract oherwydd bod erthygl 33 yn rhoi hawl o'r fath i'r defnyddwyr.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 9	Erthygl 9	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 10	Erthygl 10	Mân newidiadau drafftio gan gynnwys, yn benodol, egluro y gallai fod gan ddarparwr PRS fwy nag un person ag awdurdod cyffredinol at ddibenion gwahanol neu'r un dibenion.

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Erthygl 11	Erthygl 11	<p>Aiddrafftiwyd i labelu cyfryngwyr y mae'r erthygl yn berthnasol iddynt fel "cyfryngwyr cymwys" ac i egluro bod cyfryngwyr cymwys yn ymrwmo i wneud y pethau a grybwyllir ym mharagraff (5) ac yna hysbysu OFCOM yn unol â hynny heb orfod hysbysu OFCOM mewn perthynas â masnachwyr unigol.</p> <p>Wedi egluro ystyr "cofnod perthnasol" i egluro pa wybodaeth y dylai fod ei hangen yn dibynnu ar statws corfforaethol masnachwr yr effeithir arno, gan gynnwys ar gyfer masnachwyr yr effeithir arnynt dramor.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 12	Erthygl 12	<p>Diwygiwyd i gynnwys is-baragraff (h) newydd i gyfeirio at bob cyfarwyddyd neu benderfyniad a roddir o dan Atodlen 4 yn rhinwedd erthygl 66. Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 13	Erthygl 13	<p>Mân newidiadau drafftio gan gynnwys, yn benodol, egluro bod yr erthygl ond yn berthnasol i ddarparwyr PRS sydd wedi'u hesemptio o'r amod yn erthygl 10(3) (i ddarparu gwybodaeth benodol i OFCOM).</p>
Erthygl 14	Erthygl 14	<p>Diwygiwyd y diffiniad o "refeniw PRS" yn erthygl 14(7) i egluro nad yw hyn yn cynnwys rhoddion i elusennau. Hefyd wedi diwygio'r diffiniad o "flwyddyn codi tâl" i ddechrau ar 1 Chwefror 2025 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025. Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 15	Erthygl 15	<p>Diwygiwyd i egluro bod yn rhaid i ddarparwyr PRS ystyried manylion darparwr PRS arall yng nghofrestr OFCOM a gynhelir o dan erthygl 12. Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 16	Erthygl 16	<p>Diwygiwyd i egluro mai dim ond pan fyddai'r trefniant yn mynd yn groes i'r cyfarwyddyd, penderfyniad neu sancsiwn blaenorol perthnasol y mae'r gwaharddiad yn gymwys. Diwygiwyd i egluro hefyd benderfyniadau OFCOM y mae'r erthygl hon yn berthnasol iddynt, a bod y sancsiynau a osodir gan PSA yn rhai a gyhoeddir ar wefan y PSA.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Erthygl 17	Erthygl 17	<p>Diwygiwyd yn dilyn ymateb i'r ymgynghoriad i sicrhau bod yn rhaid i'r darparwr PRS hefyd ystyried darparu, cynnwys a hyrwyddo a marchnata'r PRS rheoledig sy'n destun y trefniant.</p> <p>O ran defnyddio is-gontractwyr, rydym wedi egluro mai dim ond "gwybodaeth gofrestredig" y mae angen i ddarparwyr PRS ei hystyried ar gyfer is-gontractwyr. Mae'r cysyniad hwn wedi'i ddiffinio i gyd-fynd â'r diffiniad o "gofnod perthnasol" (gweler erthygl 11). Rydym hefyd wedi egluro mai dim ond o ffynonellau cyhoeddus y mae'n rhaid i'r darparwr PRS ystyried gwybodaeth.</p> <p>Diwygiwyd hefyd i egluro bod "hanes cydymffurfio perthnasol" yn cynnwys gofynion eraill a osodir gan OFCOM (ac nid dim ond y rhai sy'n ymwneud â PRS). Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 18	Erthygl 18	<p>Diwygiwyd i gwmpasu trefniant rhwng gweithredwr rhwydwaith a masnachwr yn ogystal â threfniant rhwng gweithredwr rhwydwaith a chyfryngwr.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 19	Erthygl 19	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 20	Erthygl 20	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 21	Erthygl 21	<p>Diwygiwyd i bennu bod yn rhaid i'r profion diogelwch perthnasol gael eu cymeradwyo gan y person ag awdurdod cyffredinol (gweler erthygl 10(1)(b)). Diwygiwyd ymhellach yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad i orfodi bod canlyniadau profion diogelwch perthnasol yn cael eu hanfon gan y chyfryngwr at weithredwr y rhwydwaith.</p> <p>Eglurwyd y diffiniad o "filiau gweithredwr" a chynnwys diffiniad newydd o "filiau gweithredwr perthnasol" sy'n cyfeirio at "wasanaeth mynediad i'r rhyngwyd".</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 22	Erthygl 22	Mân newidiadau drafftio.

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Erthygl 23	Erthygl 23	<p>Yn y diffiniad o “gwasanaeth plant”, mae'r geiriau “sy'n rhan o, neu ei brif nodwedd yw” wedi'u rhoi yn lle “yn cynnwys”, fel bod unrhyw wasanaeth sydd wedi'i anelu at blentyn neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo apelio i blentyn yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad hwnnw. Gweler paragraffau A3.3-A3.6 uchod.</p> <p>Rydym hefyd wedi dileu'r cyfeiriadau at wasanaeth cystadlu neu bleidleisio a gwasanaeth rhoddion rheolaidd. Bydd angen i unrhyw wasanaeth sy'n bodloni'r diffiniad o “wasanaeth plant” gydymffurfio â rheolau sy'n benodol i wasanaethau o'r fath ond gall rheolau eraill hefyd fod yn berthnasol os (dyweder) y byddai gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio hefyd yn cael ei ddarparu fel rhan o'r gwasanaeth plant. Gweler paragraff A3.5 uchod.</p>
Erthygl 24	Erthygl 24	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 25	Erthygl 25	<p>Yn y diffiniad o “gwasanaeth adloniant byw”, mae'r geiriau “sy'n rhan o, neu ei brif nodwedd yw” wedi'u rhoi yn lle “yn cynnwys”, fel bod unrhyw wasanaeth sydd â chynnwys yn unig neu'n bennaf at ddibenion diddanu defnyddiwr (ac a ddarperir drwy alwad rhwng dau berson) yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad hwnnw. Gweler paragraffau A3.3-A3.6 uchod. Mae'r diffiniad hefyd yn cyfeirio'n awr at “wasanaethau wedi'u heithrio” i nodi pa wasanaethau trothwy eraill sydd wedi'u heithrio o gwmpas y diffiniad hwn. Mae diffiniad ar gyfer “gwasanaethau wedi'u heithrio” bellach wedi'i gynnwys yn yr erthygl hon.</p> <p>Rydym hefyd wedi diwygio i egluro bod yn rhaid i'r alwad fod rhwng o leiaf ddau berson er mwyn bodloni'r diffiniad.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 26	Erthygl 26	Dim newidiadau.
Erthygl 27	Erthygl 27	<p>Diwygiwyd y pennawd a pharagraff (1) i gyfeirio at gontractau yr ymrwymwyd iddynt drwy gyfrwng gwasanaeth mynediad i'r rhyngwyd, yn hytrach nag “ar-lein ac o bell”. Newid cyfatebol drwy ddileu paragraff (7) a oedd yn egluro'r cysyniad o “o bell”.</p> <p>Diwygiwyd yn dilyn ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi y dylid trin gwasanaethau rhoddion rheolaidd a gwasanaethau loteri cymdeithas yr un fath, ac y dylai'r erthygl hon fod yn berthnasol i wasanaethau loteri cymdeithas a gwasanaethau rhoddion rheolaidd.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Erthygl 28	Erthygl 28	<p>Diwygiwyd i egluro'r wybodaeth sydd i'w rhoi drwy neges testun symudol a'r wybodaeth sydd i'w rhoi naill ai drwy neges destun symudol neu drwy ddolen i dudalen we a ddarperir yn y neges destun symudol honno.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 29	Erthygl 29	<p>Diwygiwyd yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad i ddileu'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth benodol i bob pwrpas yn ystod munud am ddim (fel bod y sefyllfa o dan God 15 bellach yn cael ei throsglwyddo i'r Gorchymyn).</p> <p>Diwygiwyd i egluro hefyd bod rhaid darparu'r wybodaeth ym mharagraff (3) yn ddi-oed ar ôl sefydlu cysylltiad rhwng y masnachwr a'r defnyddiwr a bod y defnyddiwr wedi hysbysu'r masnachwr pwy y mae'n dymuno cael ei gysylltu ag ef.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 30	Erthygl 30	<p>Diwygiwyd i osod gofyniad ar y masnachwr yn hytrach nag awgrymu amod yn y contract.</p>
Erthygl 31	Erthygl 31	<p>Mae'r geiriau "ei brif nodwedd yw" wedi cael eu defnyddio yn lle "yn cynnwys", gyda rhai mân newidiadau drafftio, er mwyn i unrhyw wasanaeth sy'n darparu cyfleuster sy'n galluogi o leiaf ddau ddefnyddiwr i gymryd rhan mewn cyfathrebiad electronig ar gyfer anfon neu dderbyn negeseuon testun symudol neu ddelweddau gweledol, yn union cyn y bydd unrhyw gyfranogwr yn gwybod pa ddefnyddwyr eraill fydd yn cymryd rhan, gael eu cwmpasu gan y diffiniad hwnnw.</p> <p>Wedi dileu cyfeiriadau at wasanaethau y dylid eu trin fel rhai sydd wedi'u heithrio o wasanaethau sgysiaid rhithwir. Cafodd gwasanaethau o'r fath eu cynnwys i ddelio â gorgyffwrdd diffiniadol ond gweler paragraffau A3.3-A3.6 uchod.</p> <p>Diwygiwyd hefyd i sicrhau cysondeb ag Atodlen 3 ac egluro'r negeseuon atgoffa y mae angen eu hanfon mewn perthynas â chontractau tanysgrifio a'r hyn y mae angen ei nodi.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 32	Erthygl 32	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 33	Erthygl 33	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 34	—	Dilëwyd.

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Erthygl 35	Erthygl 34	<p>Diwygiwyd yn dilyn ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi y dylid trin gwasanaethau rhoddion rheolaidd a gwasanaethau loteri cymdeithas yr un fath, ac y dylai'r erthygl hon eithrio gwasanaethau loteri cymdeithas a gwasanaethau rhoddion rheolaidd.</p> <p>Diwygiwyd paragraff (4)(b) hefyd i egluro'r amserlen ar gyfer anfon hysbysiadau atgoffa.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 36	Erthygl 35	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 37	Erthygl 36	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 38	Erthygl 37	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 39	Erthygl 38	<p>Diwygiwyd i ddileu'r cyfeiriad at y cyfnod amser ar gyfer talu'r ad-daliad i'r defnyddiwr fel yr eglurir hyn ym mharagraff (5)(a).</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 40	Erthygl 39	Mân newidiadau drafftio gan gynnwys egluro'r diffiniad o "ddefnyddiwr agored i niwed".
Erthygl 41	Erthygl 40	Mân newidiad drafftio.
Erthygl 42	Erthygl 41	<p>Yn y diffiniad o "gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio", mae "yn cynnwys" wedi cael ei ychwanegu, fel bod unrhyw wasanaeth sy'n cynnwys darparu cyfleuster ar gyfer cystadlu, hawlio gwobr, cofrestru pleidlais neu gofnodi dewis, ar wahân i wasanaeth gamblo o bell neu wasanaeth loteri cymdeithas, yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad hwnnw. Gweler paragraffau A3.3-A3.6 uchod.</p> <p>Rydym hefyd wedi dileu'r cyfeiriad at "gwasanaeth plant sy'n darparu cyfleuster sydd wedi'i gynnwys yn...". Bydd angen i unrhyw wasanaeth sy'n bodloni'r diffiniad o "gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio" gydymffurfio â rheolau sy'n benodol i wasanaethau o'r fath ond gall rheolau eraill hefyd fod yn berthnasol pan fo (dyweder) gwasanaeth cystadlu neu bleidleisio wedi'i anelu at blant neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo apelio i blant. Gweler paragraff A3.5 uchod</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 43	—	Dilëwyd.

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Erthygl 44	Erthygl 42	<p>Diwygiwyd yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch peidio â derbyn cais yr defnyddiwr oherwydd rhesymau technolegol neu resymau eraill. Wedi ychwanegu eglurhad bod gan ddefnyddwyr hawl i gael ad-daliad mewn amgylchiadau lle mae masnachwyr yn dod yn ymwybodol (os o gwbl) o ymdrechion defnyddwyr, gan nodi bod hawl debyg yn cael ei rhoi o dan erthygl 45 lle mae defnyddwyr yn ceisio defnyddio gwasanaeth ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben. Ar ben hynny, mae manylion wedi'u hychwanegu erbyn hyn ynghylch sut mae ad-daliadau o'r fath yn cael eu talu i ddefnyddwyr.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 45	Erthygl 43	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 46	Erthygl 44	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 47	Erthygl 45	<p>Diwygiwyd i egluro sut y dylid talu ad-daliadau i ddefnyddwyr.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 48	Erthygl 46	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 49	Erthygl 47	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 50	Erthygl 48	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 51	Erthygl 49	<p>Rydym wedi diwygio'r erthygl hon i fod yn berthnasol i fasnachwr sy'n darparu PRS rheoledig i blentyn.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Erthygl 52	Erthygl 50	<p>Diwygiwyd i osod gofyniad ar y masnachwr yn hytrach nag awgrymu amod yn y contract. Mae'r erthygl hefyd yn cynnwys eithriad ar gyfer masnachwyr sy'n darparu ICSS i blentyn ac mae'n datgan y bydd angen i fasnachwyr ddilyn erthygl 49 yn yr achos hwnnw.</p>
Erthygl 53	Erthygl 51	<p>Mae'r geiriau "sy'n rhan o, neu ei brif nodwedd yw" wedi'u rhoi yn lle "yn cynnwys", gyda rhai mân newidiadau drafftio, fel bod unrhyw wasanaeth sy'n cynnwys darparu cyngor neu gymorth gan unigolyn sydd â'r cymwysterau a'r profiad sy'n ofynnol ac sy'n angenrheidiol i roi, neu gynnig rhoi, cyngor neu gymorth o'r fath, yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad hwnnw. Gweler paragraffau A3.3-A3.6 uchod.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Erthygl 54	Erthygl 52	Yn y diffiniad o “gwasanaeth gamblo o bell”, mae “yn cynnwys” wedi cael ei ychwanegu, fel bod unrhyw wasanaeth sy’n cynnwys darparu cyfleuster ar gyfer hapchwarae neu betio (oni bai ei fod yn wasanaeth tipwyr betio neu wasanaeth loteri cymdeithas) yn cael ei gwmpasu gan y diffiniad hwnnw. Gweler paragraffau A3.3-A3.6 uchod. Hefyd wedi diwygio’r diffiniad o “gwasanaeth tipwyr betio”. Gweler paragraff A3.6 uchod. Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.
Erthygl 55	Erthygl 53	Wedi diwygio’r diffiniad o “gwasanaeth loteri cymdeithas”. Gweler paragraff A3.6 uchod. Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.
Erthygl 56	Erthygl 54	Diwygiwyd yn dilyn ymatebion i’r ymgynghoriad i gyfeirio at “rhif cyfradd premiwm” (fel y’i diffinnir yn erthygl 3), yn hytrach na “rhif PRS”. Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.
Erthygl 57	Erthygl 55	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 58	Erthygl 56	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 59	Erthygl 57	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 60	Erthygl 58	Diwygiwyd i egluro bod yn rhaid i P “gymryd pob cam rhesymol” i gael a chadw tystiolaeth berthnasol neu a allai fod yn berthnasol gan berson arall. Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.
Erthygl 61	Erthygl 59	Mân newidiadau drafftio gan gynnwys, yn benodol, bod yr erthygl yn gymwys mewn perthynas â gofynion a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn.
Erthygl 62	Erthygl 60	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 63	Erthygl 61	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 64	Erthygl 62	Mân newidiadau drafftio gan gynnwys, yn benodol, bod yr erthygl yn gymwys mewn perthynas â gofynion a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn.
Erthygl 65	Erthygl 63	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 66	Erthygl 64	Mân newidiadau drafftio gan gynnwys, yn benodol, bod yr erthygl yn gymwys mewn perthynas â gofynion a osodir gan Rannau 2 i 9 y Gorchymyn.
Erthygl 67	Erthygl 65	Mân newidiadau drafftio.
Erthygl 68	Erthygl 66	Mân newidiadau drafftio.

Gorchymyn Drafft	Gorchymyn Terfynol	Sylwadau
Atodlen 1	Atodlen 1	<p>Diwygiwyd i gynnwys paragraff diffiniadau yn y diffiniadau cyfeirio sydd i'w gweld mewn man arall yn y Gorchymyn.</p> <p>Diwygiwyd paragraff 1 hefyd i egluro pa wybodaeth y dylai fod ei hangen yn dibynnu ar statws corfforaethol darparwr PRS gan gynnwys ar gyfer darparwyr PRS tramor. Gweler y newidiadau cysylltiedig a wnaed i erthygl 11.</p> <p>Dilëwyd y gofyniad i roi cyfeiriad e-bost ar gyfer y person ag awdurdod cyffredinol at ddibenion derbyn hysbysiadau a dogfennau a drosglwyddir gan OFCOM ar ffurf electronig – bydd hyn yn dod o dan y gofyniad ym mharagraff 7 i roi cyfeiriad e-bost y person(au) ag awdurdod cyffredinol.</p> <p>Dilëwyd y cyfeiriad at y gofyniad i ddarparu “llofnod enghreifftiol” yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad. Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Atodlen 2	Atodlen 2	Newidiadau tebyg i Atodlen 1.
Atodlen 3	Atodlen 3	<p>Diwygiwyd paragraff (1) i gynnwys diffiniad o “contract PRS rheoledig”.</p> <p>Diwygiwyd paragraff 2 (d) i sicrhau cysondeb â pharagraff 2 (d).</p> <p>Diwygiwyd paragraff 2 (f) ac (h) yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad i egluro pa wybodaeth cyn-contract sydd ei hangen mewn perthynas â chontractau tanysgrifio.</p> <p>Mân newidiadau drafftio mewn manau eraill.</p>
Atodlen 4	Atodlen 4	Mân newidiadau drafftio.

A4. Atodiad ar gyfer Canllawiau Gorfodi – Gorchymyn PRS

Cydymffurfio â gofynion gorchymyn a wnaed o dan adran 122 Deddf Cyfathrebiadau 2003

Gofynion rheoleiddiol

A4.1 Gwnaeth Ofcom orchymyn o dan adran 122 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ar 21 Hydref 2024 (SI 2024 Rhif 1046), Gorchymyn Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm 2024 (“y Gorchymyn PRS”). Daeth i rym ar 1 Chwefror 2025. Mae’r Gorchymyn PRS yn gosod gofynion amrywiol ar ‘ddarparwyr PRS’ (fel y’u diffinnir yn erthygl 9 y Gorchymyn PRS). Mae’r rhain yn cynnwys gofynion i ddarparwyr PRS gydymffurfio â phenderfyniadau gorfodi a wneir gan Ofcom o dan Ran 10 y Gorchymyn PRS.

Gorfodi

A4.2 Mae’r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gorfodi. Rydym yn nodi isod y darpariaethau allweddol sy’n cefnogi gorfodi o dan y Gorchymyn PRS a rhai pwyntiau ac eithriadau ychwanegol nodedig sy’n ymwneud â’r broses hon.

Maes canllawiau	Darpariaethau a gwybodaeth ychwanegol
Pam a sut mae Ofcom yn agor achosion	<p>Caiff Ofcom gymryd camau gorfodi gan ddefnyddio’r pwerau a roddir i Ofcom o dan Ran 10 y Gorchymyn PRS.</p> <p>Fel arfer, rydym yn cyhoeddi ein cyhoeddiadau agor achosion ar wefan Ofcom (gweler paragraffau 3.33 a 3.34 y Canllawiau Gorfodi). Mae erthygl 57 y Gorchymyn PRS yn cynnwys pŵer i Ofcom gyhoeddi hysbysiad ymchwilio, fel ein cyhoeddiadau agor achosion confensiynol. Mae Erthygl 57 hefyd yn grymuso Ofcom i osod unrhyw ofynion ar y darparwr PRS yr ymchwilir iddo i gadw tystiolaeth yn unol ag erthygl 58, fel rhan o’n hysbysiad a roddir i’r darparwr.</p>
Ymchwilio	<p>Casglu gwybodaeth</p> <p>Gall Ofcom fynnu bod tystiolaeth yn cael ei chadw yn ystod ymchwiliad o dan erthygl 58 y Gorchymyn PRS. Fel arfer byddem yn disgwyl cael tystiolaeth o’r fath gan y darparwr yr ymchwilir iddo pan fyddwn yn arfer ein pwerau casglu gwybodaeth o dan erthygl 55 y Gorchymyn PRS.</p> <p>Cyfrinachedd</p> <p>Mae cyfyngiadau ar ddatgelu yn adran 393 y Ddeddf Cyfathrebiadau.</p>

Maes canllawiau	Darpariaethau a gwybodaeth ychwanegol
<p>Canlyniadau ymchwiliadau rheoleiddiol</p>	<p>Penderfyniad dros dro</p> <p>Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod sail resymol dros gredu bod testun yr ymchwiliad yn mynd neu wedi mynd yn groes i ofyniad yn y Gorchymyn PRS, bydd Ofcom yn cyhoeddi hysbysiad gorfodi dros dro o dan erthygl 59 y Gorchymyn. Bydd yr hysbysiad gorfodi dros dro yn pennu'r tramgwydd, yn pennu'r camau y dylai'r gwrthrych eu cymryd i gydymffurfio â'r gofyniad ac i unioni canlyniadau'r tramgwydd a'r cyfnod pryd y dylid cymryd y camau hynny.</p> <p>Pan fydd Ofcom yn bwriadu gosod cosb ariannol yn unol ag erthygl 60 y Gorchymyn PRS, mae'n rhaid iddo gynnwys penderfyniad dros dro ar y gosb honno yn y penderfyniad dros dro o dan erthygl 59 y Gorchymyn PRS.</p> <p>Sylwadau ysgrifenedig a llafar</p> <p>Dim pwyntiau ychwanegol i'r prif Ganllawiau Gorfodi Rheoleiddiol.</p> <p>Penderfyniad terfynol</p> <p>Pan fydd Ofcom yn dal yn fodlon bod testun yr ymchwiliad yn mynd neu wedi mynd yn groes i unrhyw un o ofynion y Gorchymyn, bydd Ofcom yn cyhoeddi penderfyniad terfynol o dan erthygl 61 y Gorchymyn PRS.</p> <p>Cyfarwyddiadau ar gyfer tramgwyddau difrifol</p> <p>Mae Ofcom yn gallu cyfarwyddo gwahardd, atal neu gyfyngu ar wasanaeth neu fod taliad yn cael ei ddal yn ôl gan ddarparwr ar wahân i destun yr hysbysiad gorfodi o dan erthygl 64 y Gorchymyn PRS. Dim ond pan fydd y canlynol yn berthnasol y gall Ofcom wneud hyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. mae'r gosb yn briodol ac yn gymesur â'r tramgwydd; 2. mae'r darparwr yn torri gofyniad y Gorchymyn PRS yn ddifrifol; a 3. mae'r darparwr naill ai: <ol style="list-style-type: none"> b. wedi torri'r gofyniad yn fwriadol; c. yn ddi-hid o ran a oedd ei ymddygiad yn cydymffurfio â'r gofyniad; neu c. pan oedd yn rhesymol ymarferol i'r darparwr gydymffurfio â'r gofyniad, bod y darparwr wedi methu â chymryd pob cam rhesymol i atal y tramgwydd difrifol. <p>Cosb</p> <p>Rhaid i swm y gosb a gynigir fod yn briodol ac yn gymesur â'r tramgwydd. Gweler erthygl 60 y Gorchymyn PRS.</p> <p>Bydd Ofcom yn pennu swm y cosbau y mae'n eu gosod yn unol â'i Ganllawiau Cosbau.</p>
<p>Y drefn setlo</p>	<p>Dim pwyntiau ychwanegol i'r prif Ganllawiau Gorfodi Rheoleiddiol.</p>

Maes canllawiau	Darpariaethau a gwybodaeth ychwanegol
<p>Camau brys (mesurau dros dro)</p>	<p>Mae gan Ofcom y pŵer i gymryd camau brys (mesurau dros dro) o dan erthygl 62 y Gorchymyn PRS am dorri gofyniad rheoleiddio a osodwyd gan y Gorchymyn PRS.</p> <p>Gall Ofcom wneud penderfyniad i wahardd, atal neu gyfyngu ar waith darparwr mewn cysylltiad â gweithgaredd PRS sy'n cael ei reoleiddio neu i gyfarwyddo darparwr i ddal taliad yn ôl oddi wrth ddarparwr arall pan:</p> <ol style="list-style-type: none"> 2. fo rhoi cyfarwyddyd o'r fath yn briodol ac yn gymesur â'r tramgwydd; 3. mae seiliau rhesymol dros amau bod y darparwr yn mynd neu wedi mynd yn groes i ofyniad; a <ol style="list-style-type: none"> 4. naill ai <ol style="list-style-type: none"> b. bod sail resymol dros amau nad yw'r darparwr yn gallu, neu ei fod yn debygol o fethu, talu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus; neu c. bod seiliau rhesymol dros amau bod yr achos yn achos brys; a 5. mae brys yr achos yn ei gwneud yn briodol i ni roi cyfarwyddyd gweithredu brys. <p>Mae'n rhaid i Ofcom, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl rhoi cyfarwyddyd gweithredu brys, roi cyfle i'r darparwr gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Ofcom am y sail y cafodd ei roi a'i effaith, a chyfle i gynnig camau i unioni'r sefyllfa o dan erthygl 63 y Gorchymyn PRS.</p> <p>Os bydd Ofcom yn penderfynu bod y tramgwydd wedi digwydd a bod cyfiawnhad dros y cyfarwyddyd, gallwn gadarnhau'r cyfarwyddyd; ond os nad, rhaid i ni ei ddiddymu. Gweler erthygl 63 y Gorchymyn PRS.</p>

A5. Atodiad ar gyfer Canllawiau Gorfodi – Amod PRS (hefyd ar gyfer amodau cyfarpar SMP)

Cydymffurfio ag Amod Gwasanaethau Cyfradd Premiwm (PRS) o dan adran 120 Deddf Cyfathrebiadau 2003 (yn ogystal ag amodau cyfarpar SMP o dan adran 93 Deddf Cyfathrebiadau 2003)

Gofynion rheoleiddiol mewn Amod PRS

- A5.1 Mae gan Ofcom y pŵer i osod amodau o dan adran 120 y Ddeddf Cyfathrebiadau er mwyn rheoleiddio'r gwaith o ddarparu, cynnwys, hyrwyddo a marchnata gwasanaethau cyfradd premiwm ("PRS"). Yr unig ddarpariaeth y caniateir ei gwneud gan Amod PRS yw darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person y mae'r Amod PRS yn gymwys iddo gydymffurfio, i'r graddau sy'n ofynnol gan yr Amod, â (i) darpariaethau cod sy'n cael ei gymeradwyo gan Ofcom am y tro o dan adran 121; (ii) cyfarwyddiadau a roddir yn unol â chod a gymeradwywyd gan yr awdurdod gorfodi ac at ddiben gorfodi ei ddarpariaethau; a (iii) os nad oes cod o'r fath, darpariaethau'r gorchymyn sydd mewn grym am y tro o dan adran 122.
- A5.2 Mae adran 123 y Ddeddf Cyfathrebiadau yn nodi y dylid mynd i'r afael â thorri Amod PRS yn unol ag adrannau 94 i 96 (sy'n cynnwys y broses ar gyfer gorfodi amodau cyfarpar SMP¹⁵⁴, a drafodir isod). Mae adran 123 hefyd yn addasu'r defnydd o adrannau 94 i 96 i'r Amod PRS mewn rhai ffyrdd, fel y gosb uchaf y caniateir ei gosod am dorri'r Amod PRS.

Gofynion rheoleiddiol mewn Amod cyfarpar SMP

- A5.3 Mae gan Ofcom y pŵer i osod amodau cyfarpar SMP o dan adran 93 y Ddeddf Cyfathrebiadau, lle mae wedi penderfynu bod gan berson bŵer sylweddol yn y farchnad mewn marchnad cyfarpar a nodwyd.
- A5.4 Mae'r broses ar gyfer gorfodi amod cyfarpar SMP wedi'i nodi yn adrannau 94 i 96 y Ddeddf Cyfathrebiadau.

Gorfodi

- A5.5 Mae'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer gorfodi. Rydym yn nodi isod y darpariaethau allweddol sy'n cefnogi gorfodi o dan adrannau 94 i 96 y Ddeddf Cyfathrebiadau a rhai pwyntiau ac eithriadau ychwanegol nodedig sy'n ymwneud â'r broses hon.

¹⁵⁴Pŵer sylweddol yn y farchnad.

Maes canllawiau	Darpariaethau a gwybodaeth ychwanegol
<p>Pam a sut mae Ofcom yn agor achosion</p>	<p>Gall Ofcom orfodi cydymffuriad ag amodau PRS a chyfarpar SMP o dan adrannau 94 i 96 y Ddeddf Cyfathrebiadau.</p> <p>Cyn arfer ein pwerau gorfodi o dan adran 94 y Ddeddf Cyfathrebiadau, rhaid i ni ystyried a fyddai ffordd fwy priodol o fwrw ymlaen yn dod o dan y Ddeddf Cystadleuaeth. Pan fyddwn yn penderfynu ei bod yn fwy priodol bwrw ymlaen o dan y Ddeddf Cystadleuaeth, byddwn yn nodi ein rhesymau dros wneud hynny. Gan fod y Gorchymyn PRS (a wnaed o dan adran 122 y Ddeddf Cyfathrebiadau) yn cynnwys gofynion yn y pen draw i ddiogelu defnyddwyr a diben yr Amod PRS yw sicrhau cydymffuriad â darpariaethau o dan y Gorchymyn, mae'n annhebygol y byddai Ofcom yn credu ei bod yn fwy priodol bwrw ymlaen o dan y Ddeddf Cystadleuaeth yn y rhan fwyaf o achosion.</p>
<p>Ymchwilio</p>	<p>Casglu gwybodaeth</p> <p>Mae gan Ofcom bwerau helaeth i fynnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu o dan adran 135 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau. Mae gan Ofcom bwerau i osod cosbau ariannol a rhoi cyfarwyddiadau i sicrhau y cydymffurfir â chais am wybodaeth statudol, yn ogystal â sancsiynau troseddol am beidio â chydymffurfio o dan adrannau 138 i 144 y Ddeddf Cyfathrebiadau.</p> <p>Cyfrinachedd</p> <p>Mae cyfyngiadau ar ddatgelu yn adrannau 26 a 393 y Ddeddf Cyfathrebiadau.</p>

Maes canllawiau	Darpariaethau a gwybodaeth ychwanegol
<p>Canlyniadau ymchwiliadau rheoleiddiol</p>	<p>Penderfyniad dros dro</p> <p>Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod sail resymol dros gredu bod testun yr ymchwiliad yn mynd yn groes i, neu wedi mynd yn groes i, ofynion Amod PRS (neu, yn ôl y digwydd, Amod cyfarpar SMP), bydd Ofcom yn cyhoeddi penderfyniad dros dro o dan adran 94 y Ddeddf Cyfathrebiadau.</p> <p>Bydd y penderfyniad dros dro yn nodi'r tramgwydd ac yn pennu'r cyfnod y gall y sawl sy'n destun ymchwiliad gyflwyno sylwadau ynddo, cydymffurfio â'r amod a hysbyswyd ac unioni canlyniadau'r tramgwydd. Bydd y cyfnod ar gyfer gwneud y pethau hyn yn gyfnod o fis, oni bai fod Ofcom yn pennu cyfnod hwy neu'n ymestyn y cyfnod fel arall. Gall Ofcom bennu cyfnod byrrach yn yr hysbysiad pan fydd ganddo sail resymol dros amau bod y tramgwydd yn un sydd wedi ei ailadrodd.</p> <p>Sylwadau ysgrifenedig a llafar</p> <p>Dim pwyntiau ychwanegol i'r prif Ganllawiau Gorfodi Rheoleiddiol.</p> <p>Penderfyniad terfynol</p> <p>Pan fydd Ofcom yn dal yn fodlon bod testun yr ymchwiliad yn mynd neu wedi mynd yn groes i'r gofyniad a hysbyswyd ac nad yw wedi cymryd camau priodol i gydymffurfio neu i unioni canlyniadau'r tramgwydd, bydd Ofcom yn cyhoeddi penderfyniad terfynol o dan adran 95 y Ddeddf Cyfathrebiadau.</p> <p>Cosb</p> <p>O dan adran 96 y Ddeddf Cyfathrebiadau, gall Ofcom roi cosb ariannol ynghyd â'r penderfyniad terfynol.</p> <p>Ar gyfer cosbau a osodir am dorri Amod cyfarpar SMP, mae adran 97 y Ddeddf Cyfathrebiadau yn gymwys (gydag uchafswm cosbau o 10% o'r trosiant perthnasol). Ar gyfer cosbau a osodir am dorri'r Amod PRS, mae adran 123 y Ddeddf Cyfathrebiadau yn caniatáu i Ofcom roi cosb o hyd at £250,000 yn unig ar gyfer pob tramgwydd. Caiff Ofcom hefyd roi cosb ar wahân mewn perthynas â'r holl dramgwyddau neu gosbau ar wahân mewn perthynas â phob tramgwydd.</p> <p>Rhaid i swm unrhyw gosb a osodir fod yn briodol ac yn gymesur â'r tramgwydd.</p> <p>Bydd Ofcom yn pennu swm y cosbau y mae'n eu gosod yn unol â'i Ganllawiau Cosbau.</p>
<p>Y drefn setlo</p>	<p>Dim pwyntiau ychwanegol i'r prif Ganllawiau Gorfodi Rheoleiddiol.</p>
<p>Camau brys (mesurau dros dro)</p>	<p>Nid oes unrhyw bwerau i gymryd camau brys mewn perthynas ag Amodau cyfarpar SMP.</p> <p>Mae gan Ofcom y pŵer o dan adran 124 y Ddeddf Cyfathrebiadau i roi cyfarwyddiadau i atal neu gyfyngu ar ddarparwr PRS mewn perthynas â thorri gofyniad lle rydym yn credu bod angen hynny ar frys am resymau polisi cyhoeddus.</p>